Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cyngor Sir Penfro
# Cynllun Datblygu Lleol 2
# 2017-2033

# Cynllun Adneuo 2

Drafft: Medi 2024

## Rhagair

Yn gynnar yn 2020, fe wnaeth y Cyng. Jon Harvey baratoi Rhagair ar gyfer Cynllun Adneuo cyntaf Cynllun Datblygu Lleol 2 Cyngor Sir Penfro. Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu'r cyfnod, 2017 i 2033 ac, ar ôl ei fabwysiadu, bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol, a fabwysiadwyd yn 2013. Eglurodd y Cyng. Harvey fod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ddogfen holl bwysig, gan ei bod yn nodi'r fframwaith datblygu a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio ac i lywio'r defnydd o dir ar gyfer ardal Sir Benfro y tu allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae hynny'n parhau i fod yn wir.

Bryd hynny, cynhaliodd CSP ddigwyddiadau ymgynghori helaeth gyda chymunedau, cynghorwyr a rhanddeiliaid, lle cafwyd trafodaeth am y materion sy'n wynebu Sir Benfro nawr ac yn y dyfodol, gan roi amrywiaeth o safbwyntiau i swyddogion ac Aelodau am sut y gallem fynd i'r afael â'r materion hynny.

Parhaodd yr ymgynghoriad ar Gynllun Adneuo 1 tan 18 Mawrth 2020 ac yn syth ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, dechreuodd proses cyfnod clo Covid-19, gan barhau'n ysbeidiol am gryn dipyn o amser a gohirio cynnydd pellach gydag adolygu'r CDLl. Serch hynny, ym mis Hydref 2020, cytunwyd ar Gytundeb Cyflawni newydd ar gyfer CDLl 2 gan Lywodraeth Cymru a chyhoeddwyd Asesiad o Effaith Covid ar gyfer y Cynllun newydd.

Yn gynnar yn 2021, cododd her fawr arall, pan baratôdd CNC ganllawiau newydd ar lygredd ffosffadau yn rhannau di-lanw afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yng Nghymru. Yn Sir Benfro, canfuwyd bod dalgylchoedd afonydd Cleddau Ddwyreiniol a Gorllewinol a'r rhannau hynny o ddalgylch Teifi yn y Sir yn methu â chyrraedd y safon i raddau helaeth yn hynny o beth. Yn amlwg, roedd hyn yn bryder mawr, gan fod y nodweddion cadwraeth y dynodwyd y dalgylchoedd afonydd hynny o'u plegid mewn perygl sylweddol o gael eu colli oherwydd ewtroffeiddio. Roedd y mater hwn yn effeithio ar fwy na 40% o ardal awdurdodaeth cynllunio'r Cyngor ac mewn llawer o achosion roedd yn ymddangos yn debygol na fyddai dyraniadau yng Nghynllun Adnau 2020 o fewn yr ardaloedd yr effeithid arnynt yn gallu cael eu dwyn ymlaen i'r Cynllun newydd oherwydd ansicrwydd ynghylch gallu gwneud hynny oherwydd yr angen am ddangos niwtraliaeth o ran maethynnau a bodloni gofynion Asesiadau Rheoleiddio Cynefinoedd. Er bod materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr afonydd, gan gynnwys llygredd ffosffadau, yn parhau, mae ffyrdd yn cael eu canfod bellach i ganiatáu i ddatblygiadau newydd y mae mawr eu hangen fynd yn eu blaenau yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.

Ym mis Rhagfyr 2021, cymeradwywyd adroddiad gan y Cyngor yn cynnig paratoi Cytundeb Cyflawni diwygiedig pellach ar gyfer y Cynllun (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2023 a phedwerydd iteriad a gymeradwywyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru yng Ngorffennaf 2024) ac ailadrodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cam Adneuo, ond yn seiliedig ar Gynllun diwygiedig, gan ystyried popeth a oedd wedi digwydd ers dechrau 2020. Dyma'r Cynllun diwygiedig a bydd, fel ei ragflaenydd, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, cyn iddo gael ei symud ymlaen i gamau diweddarach proses y Cynllun – ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, Archwiliad annibynnol gan Arolygydd o Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW – yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru gynt) ac yn y pen draw ei fabwysiadu ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd.

Yn ogystal â'r materion a grybwyllwyd uchod, ers dechrau 2020 mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040, cyhoeddwyd argraffiadau newydd o Bolisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu, ac mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi symud ymlaen yn nhermau gweithredu ac, yn fwyaf diweddar, mae cais y Porthladd Rhydd Celtaidd ar y cyd rhwng Sir Benfro / Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn llwyddiannus. Mae pob un o'r rhain yn arwyddocaol iawn o ran yr hyn y dylai CDLl 2 fod yn ei ddweud a sut y caiff ei lunio a'i gyflawni. Cyflwynwyd hefyd nifer fawr o ymatebion i Gynllun Adnau cyntaf CDLl 2 yn 2020 – ac er nad ydym yn mynd â'r fersiwn honno o CDLl 2 ymlaen i gamau diweddarach proses y Cynllun, mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried wrth baratoi Cynllun Adnau 2 .

Mae llwyddiant cais y Porthladd Rhydd Celtaidd yn arbennig yn fater o bwysigrwydd aruthrol i Sir Benfro, gyda chyfnod cyflawni hir yn cael ei ragweld (hyd at 2050) a'r potensial i greu 16,000 o swyddi newydd ar draws Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot ac i gynhyrchu miliynau o bunnoedd o fuddsoddiad newydd. Dechreuir ar hynny yn ystod cyfnod Cynllun CDLl 2, ond ar hyn o bryd mae manylion y safleoedd a'r cynigion yn eu cyfnod cynnar, gan ei gwneud yn anodd i CDLl 2 ymateb yn llawn i'r hyn y gallai fod ei angen. Felly, bydd angen i hynny, yn rhannol, gael ei godi gan Gynlluniau olynol – Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol De-orllewin Cymru a Chynlluniau Datblygu Lleol dilynol.

Nododd y Rhagair i Gynllun Adneuo 2020 fod Cyngor Sir Penfro wedi rhoi ystyriaeth ofalus i faint o ddatblygiad sydd ei angen ar Sir Benfro, i gefnogi twf cymunedau a busnesau, yn ystod y cyfnod hyd at 2033. Mae'r gofyniad hwnnw'n parhau ac mae wedi'i ddiweddaru ar gyfer y fersiwn ddilynol hon o'r Cynllun Adn. Yn amlwg, mae angen gwarchod rhinweddau arbennig Sir Benfro hefyd, yn enwedig ei thirwedd, ei chynefinoedd, ei rhywogaethau a'i mannau agored, i gydnabod eu gwerth arbennig iawn eu hunain ac oherwydd bod hynny yn sail i lawer o agweddau ar fywyd economaidd a chymdeithasol yn sir Benfro. Mae'r dyletswyddau a roddir ar Gyngor Sir Penfro, fel Awdurdod Lleol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016, yn ei gwneud yn ofynnol i ni wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Benfro a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn wedi llywio'r ffordd y cynhaliwyd yr adolygiad o'r CDLl a'r canlyniadau yr ydym yn eu rhagweld. Mae'r dull hwnnw'n cael ei drosglwyddo i ddogfen Cynllun Adnau 2 CDLl 2. Mae'r hyn sydd wedi digwydd ers dechrau 2020 wedi atgyfnerthu'r angen i geisio adlewyrchu'r hyn sydd ei angen ar Sir Benfro o ran ei hamgylchedd, ei lleoedd a'i chymunedau yn CDLl 2.

Fy nymuniad i, un a rennir â chyd-Gynghorwyr, yw gwneud yn siŵr bod Sir Benfro yn 2033 yn lle cynaliadwy, lle caiff cymunedau eu cefnogi gan gartrefi, swyddi,



cyfleusterau cymunedol a seilwaith newydd. Rydym hefyd eisiau gwarchod a diogelu amgylchedd yr ardal a darparu mannau gwyrdd i helpu pobl i fyw bywydau iach. Mae'r heriau a wynebwyd a'r cyfleoedd sydd wedi dod i'r amlwg ers dechrau 2020 wedi gwneud hynny'n fwy heriol, ond serch hynny bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni hyn.

**Y Cyng. Jacob Williams, Arweinydd y Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio, Cyngor Sir Penfro**

**Medi 2024**

## Tudalen Cynnwys

Rhagair......2
Rhestr Termau......8
Crynodeb Gweithredol......12
**Cyflwyniad** ......15
Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2017-2033 ......15
Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol? ......15
Dogfennau Atodol ......16
Safleoedd Ymgeisiol......16
Profion Cadernid ......16
**1. CYD-DESTUN A MATERION ALLWEDDOL** ......18
Trosolwg......18
Nodweddion Allweddol ......18
Cyd-destun strategol ......20
Cyd-destun Cenedlaethol......20
Cyd-destun Rhanbarthol ......21
Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r Porthladd Rhydd Celtaidd......21
Ardaloedd Menter......23
Awdurdodau Cynllunio Cyfagos ......23
Cyd-destun lleol – Sir Benfro......24
Materion a Sbardunwyr Allweddol......25
**2. GWELEDIGAETH AC AMCANION**......29
Gweledigaeth y CDLl......29
Amcanion y CDLl ......30
Tabl 1: Amcanion y CDLl a'u perthynas ag Egwyddorion Cynllunio Allweddol Polisi Cynllunio Cymru ......31
**3 STRATEGAETH Y CYNLLUN** ......32
Y Strategaeth......32
Trosolwg......32
Lefelau Twf......32
Nifer y Cartrefi newydd......32
Bodloni'r Angen a Amlygwyd......33
Nifer y Swyddi newydd......33
Strategaeth Gynaliadwy ......34
Rhaniad Trefol/Gwledig Dyraniadau......35

Ymagweddau Polisi Gwledig ........ 36
3.15 Yn yr aneddiadau llai sydd â llai o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig (a ddiffinnir yn Bentrefi Lleol), mae Ffiniau Aneddiadau yn amlygu lleoliadau yr ystyrir eu bod yn briodol i'w datblygu (gan gynnwys tai i'r farchnad a thai fforddiadwy). Mae gan y Pentrefi Lleol hynny a amlygwyd yn Bentrefi Lleol Clwstwr fwy o gyfleoedd ar gyfer twf oherwydd eu perthynas ag Aneddiadau eraill sy'n darparu gwasanaethau allweddol. ........ 36
Hyrwyddo Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd ........ 36
Ffigur 1: Diagram Allweddol Strategaeth y CDLl ........ 37
**4. Polisïau Strategol** ........ 38
**SP 1 Creu Lleoedd Cynaliadwy** ........ 38
**Lefelau Twf** ........ 40
**SP 2 Gofyniad Tai** ........ 40
**SP 3 Targed Tai Fforddiadwy** ........ 42
Tabl 2 Angen Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn dros Gyfnod y Cynllun (wedi'i selio ar gymerwyd o GTAA 2019, gyda diweddariadau) ........ 43
**SP 5 Cefnogi Ffyniant** ........ 46
**Strategaeth Ofodol** ........ 48
**SP 6 – Hierarchaeth Aneddiadau – Strategaeth Aneddiadau Cynaliadwy** ........ 48
**SP 7 Ffiniau Aneddiadau** ........ 51
**SP 8 Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac Aneddiadau Trefol** ........ 52
**SP 9 Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth** ........ 56
**SP 10 Pentrefi Lleol** ........ 59
**SP 11 Cefn Gwlad** ........ 61
**SP 12 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol** ........ 63
**SP 13 Datblygiad Cysylltiedig â Phorthladdoedd ac Ynni a'r Porthladd Rhydd Celtaidd** ........ 65
**SP 15 Diogelu Safleoedd Cyflogaeth Strategol presennol** ........ 71
**SP 16 Hierarchaeth Fanwerthu** ........ 74
**SP 17 Yr Economi Ymwelwyr** ........ 77
**SP 18 Mwynau heb fod yn ymwneud ag Ynni** ........ 78
**SP 19 Yr Iaith Gymraeg** ........ 82
Ffigur 2: Nifer y Siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyngor Cymuned (Cyfrifiad 2021) ........ 84
**SP 20 Seilwaith Trafnidiaeth a Hygyrchedd** ........ 85
Ffigur 3: Rhwydwaith Trafnidiaeth Allweddol ........ 86
**SP 21 Atal a Rheoli Gwastraff** ........ 87
5 POLISÏAU ARDAL GYFAN ........ 89

**CREU LLEOEDD** ........ 89
**GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol** ........ 89
**GN 2 Dyluniad Cynaliadwy a Chreu Lleoedd** ........ 95
**GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd** ........ 98
**GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel** ........ 101
**GN 5 Ynni Adnewyddadwy – Targed a Dyraniadau** ........ 104
**GN 6 Cynigion Datblygu mewn Ardaloedd a Ragaseswyd ar gyfer Ynni Gwynt (fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol)** ........ 106
**GN 7 Barics Cawdor gan gynnwys hen Faes Awyr Breudeth** ........ 107
**POLISÏAU CYFFREDINOL BYW A GWEITHIO** ........ 110
**GN 8 Cynigion Cyflogaeth** ........ 110
**GN 9 Dyraniadau Cyflogaeth** ........ 111
**GN 10 Cynigion Defnydd Cymysg** ........ 113
**GN 11 Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth** ........ 115
**GN 12 Estyniadau i Safleoedd Cyflogaeth** ........ 116
**GN 13 Datblygiad Preswyl** ........ 117
GN 14 Anheddau sy'n Cymryd Lle Anheddau Eraill yng Nghefn Gwlad ........ 119
GN 15 Cymysgedd Tai, Ail Gartrefi ac Eiddo ar Osod dros Dymor Byr, Safonau Gofod a Gofynion ar gyfer Safonau Cartrefi Gydol Oes ........ 120
**GN 16 Dyraniadau Preswyl** ........ 123
**GN 18 – Slade Lane, Hwlfforddd – S/HSG/040/LDP2/6** ........ 141
GN 19A Maesgwyn, Abergwaun S/HSG/034F/LDP2/1 ........ 142
........ 143
GN 19B I'r De o Conway Drive, Castle Pill Road, Steynton S/HSG/086/LDP2/3 ... 143
**GN 20 Tai Fforddiadwy i Ddiwallu Anghenion Lleol** ........ 145
**GN 21 Safleoedd Eithriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy i Ddiwallu Anghenion Lleol** ........ 149
**GN 22 Llety Arbenigol a Llety â Chymorth** ........ 150
Ffigur 4 Angen net a amcangyfrifir (diffyg o ran unedau/gwelyau) hyd at 2035 ........ 151
Ffigur 5 Yr Angen a Ragwelir am Lety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu .... 152
**GN 23 Dyraniadau Llety Arbenigol a Llety â Chymorth** ........ 153
**GN 24 Dyraniadau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** ........ 154
**GN 25 Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn** ........ 155
**GN 26 Seilwaith Telathrebu a Thechnoleg Ddigidol** ........ 157

**GN 27: Band Eang a Thelathrebu ar Ddatblygiadau Newydd** ... 159
**POLISÏAU CYFFREDINOL CYMUNEDAU DYFEISGAR** ... 162
**GN 28 Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol** ... 162
**GN 29 Cyfleusterau Cymunedol** ... 165
**GN 30 Dyraniadau Cyfleusterau Cymunedol** ... 166
**GN 31 Datblygu Canol y Trefi a Chanolfannau Manwerthu Leol** ... 167
GN 32 Datblygiad Manwerthu a Masnachol y Tu Allan i Ganol Tref ... 171
**GN 33 Arallgyfeirio ar Ffermydd** ... 173
**GN 35 Marinas** ... 178
**GN 36 Llwybrau Trafnidiaeth a Gwelliannau** ... 180
**GN 37 Gweithio Mwynau** ... 182
**GN 38 Diogelu a Chloddio'r Adnodd Mwynau Ymlaen Llaw** ... 186
**GN 39 Agregau Eilaidd a Mwynau Gwastraff wedi'u Hailgylchu** ... 188
**GN 40 Lleiniau Clustogi o Amgylch Safleoedd Mwynau** ... 189
**POLISÏAU CYFFREDINOL GWARCHOD EIN HAMGYLCHEDD** ... 190
**GN 41 Gwarchod Dynodiadau Amgylcheddol Statudol Cenedlaethol** ... 190
**GN 42 Gwarchod Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safle Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol a Dyddodion Mawn** ... 192
Caniateir cynigion datblygu a fyddai'n effeithio ar Warchodfeydd Natur Lleol, Safle Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol ac ardaloedd o ddyddodion mawn dim ond lle gellir dangos: ... 192
1. Bydd y cynnig yn cadw a, lle bo modd, yn gwella pwysigrwydd amgylcheddol naturiol y safle; neu ... 192
2. Ni ellid lleoli'r datblygiad yn rhesymol yn rhywle arall, ac mae buddion y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd amgylcheddol neu dreftadaeth y safle ac unrhyw niwed sy'n debygol o gael ei achosi iddo. ... 192
**GN 43 Gwarchod Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd** ... 193
**GN 44 Budd Net i Fioamrywiaeth** ... 195
Dylai pob cynnig datblygu ddangos agwedd gadarnhaol tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth a dylai hybu cydnerthedd ecosystemau. ... 195
Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caniateir unrhyw ddatblygiad a fyddai'n tarfu ar rywogaethau a warchodir neu eu cynefinoedd neu'n eu niweidio fel arall, neu gyfanrwydd cynefinoedd, safleoedd neu nodweddion eraill sy'n bwysig i fywyd gwyllt a rhywogaethau unigol, pan fydd yr effeithiau'n cael eu lleihau neu eu lliniaru trwy ddyluniad manwl. amserlennu gwaith neu fesurau priodol eraill. ... 195
Rhaid i bob cynnig datblygu gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd i ddangos budd net i fioamrywiaeth yn unol â'r dull cam-doeth. ... 195
**GN 45 Seilwaith Gwyrdd** ... 197

**GN 46 Newid Arfordirol** ..... 199
**GN 47 Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr** ..... 200
..... 204
GN 48 Lletemau Glas ..... 204
**GN 49 Tirwedd** ..... 205
**GN 50 POLISI WEDI'I DDILEU** ..... 206
**GN 51 Gwarchod a Chreu Ardaloedd Hamdden Awyr Agored** ..... 207
**GN 52 Gwarchod Mannau Agored sydd â Gwerth o ran Amwynder** ..... 209
**GN 53 Mannau Tyfu Cymunedol** ..... 210
**GN 54 Atyniadau Ymwelwyr a Chyfleusterau Hamdden** ..... 212
**GN 55 Llety â Gwasanaeth a Llety mewn Gwesty** ..... 213
**GN 56 Datblygiad Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau** ..... 214
**GN 57 Cyfleusterau Safle** ..... 218
**GN58 Llety Hunanarlwyo nad yw'n Garafán** ..... 219
**GN 59 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff** ..... 220
**GN 60 Gwaredu Gwastraff ar Dir** ..... 224
**Atodiadau** ..... 226
**Atodiad 1: Tabl Tai Fforddiadwy** ..... 227
**Atodiad 2: Cydrannau a Thaflwybr Tai** ..... 228
**Atodiad 3: Canllawiau Cynllunio Atodol** ..... 248
**Atodiad 4: Fframwaith Monitro** ..... 252
Atodiad 5: Polisi GN 36 Llwybrau a Gwelliannau Trafnidiaeth – Manylion Rhaglennu ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth a Ddiogelir ..... 269

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Adroddiad Adolygu | Mae'n nodi'r hyn y mae angen ei newid yn y CDLl a pham. |
| Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) | Adroddiad blynyddol i asesu i ba raddau y mae polisïau yn y CDLl mabwysiedig yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. |
| Annedd Menter Wledig | Datblygiad preswyl newydd yng nghefn gwlad agored, wedi'i gyfiawnhau gan dystiolaeth ategol gref, pan fydd angen llety i alluogi gweithwyr menter wledig i fyw yn eu gweithle neu'n agos ato. |
| Argaeledd a'r Modd y gellir Cyflenwi Tir | Mae'r tir sydd ar gael yn cynnwys tirfeddiannwr sy'n fodlon datblygu neu werthu tir i'w ddatblygu. Mae'r modd y gellir cyflenwi tir yn ymwneud â hyfywedd economaidd datblygu safle. |
| Asesiad Cymeriad Tirlun | Mae Asesiad Cymeriad Tirlun yn nodi ac yn disgrifio'r patrwm pendant, hawdd ei adnabod a chyson o elfennau yn y tirlun |

| | |
|---|---|
| | sy'n gwneud un tirlun yn wahanol i un arall, yn hytrach nag yn well neu yn waeth. Mae'r Asesiad Cymeriad Tirlun ar gyfer Sir Benfro y tu allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn nodi 29 o Ardaloedd Cymeriad Tirlun. Cyflwynir hyn fel Canllawiau Cynllunio Atodol i'r CDLl cyfredol (2013), gyda chynllun drafft yn ddarostyngedig i ymgynghori cyhoeddus rhwng 22 Chwefror 2023 a 26 Mai 2023. Rhagwelir y bydd yn cael ei fabwysiadau yn 2024 a'i gyflwyno fel *SPG* i GDLl 2 pan fydd y cynllun hwnnw wedi ei fabwysiadu. |
| Budd net i Fioamrywiaeth | Budd net i fioamrywiaeth yw'r cysyniad y dylai datblygiad adael bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau mewn cyflwr gwell nag o'r blaen, trwy sicrhau budd hirdymor, mesuradwy ac amlwg, yn bennaf ar y safle neu'n union gerllaw iddo. |
| Cefn gwlad | Tir y tu allan i aneddiadau a nodwyd yn yr Hierarchaeth Aneddiadau |
| Cynllun Adneuo | Drafft llawn o'r Cynllun sydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y Cyfnod Adneuo. |
| 'Cynllunio trwy Apêl' | Cynigion datblygu ad hoc sy'n cael eu cyflwyno yn absenoldeb strategaeth ddatblygu i arwain datblygiad. |
| Cysylltiedig yn Uniongyrchol | Yn union gerllaw Ffin Aneddiadau diffiniedig a nodwyd yn yr Hierarchaeth Aneddiadau. |
| Datblygiad ar hap | Mae hap-ddatblygiadau yn ddatblygiadau nas rhagwelwyd, nad ydynt wedi'u dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol, a ddiffinnir fel arfer fel 5 neu fwy o anheddau preswyl, neu ddatblygiadau dros 1,000 metr sgwâr |
| Datblygiad Mawr | Mae Gorchymyn Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012, Erthygl 2, yn diffinio datblygiad mawr fel a ganlyn:<br>Datblygiad mawr yw datblygiad sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol:<br>• Cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion cloddio mwynau;<br>• Datblygu gwastraff;<br>• Darparu tai annedd lle mae:<br>a) Nifer y tai annedd i'w darparu yn 10 neu fwy; neu<br>b) Mae'r datblygiad i'w gyflawni ar safle sydd ag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy ac nid yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c)(i);<br>• Darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr sydd i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu ddatblygiad a wneir ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy.<br>Mae cyfeiriadau at ddatblygiadau mawr yng nghyd-destun polisïau GN 3 a GN 27 o fewn CDLl 2 sy'n ymwneud â materion ynghylch band eang a thelathrebu yn ymwneud â datblygiadau mawr yn y categorïau preswyl a chyflogaeth yn unig. |
| Dyraniad Tai | Safleoedd datblygu preswyl am o leiaf 5 uned ac a ddangosir yn y Cynllun Datblygu |

| | |
|---|---|
| Dyraniad Tai Fforddiadwy | Tir a neilltuwyd ar gyfer tai fforddiadwy naill ai perchentyaeth cost isel neu i'w rentu. |
| Ffin y Setliad | Teclyn cynllunio yw ffin anheddiad sy'n cynnwys llinell ddamcaniaethol wedi'i thynnu ar fap i nodi ffin anheddiad. Yn nodweddiadol, dim ond o fewn y ffin hon y caniateir datblygu tai ac ystyrir ardaloedd y tu allan iddo fel cefn gwlad. |
| Hierarchaeth Aneddiadau | Dosberthir aneddiadau o fewn yr hierarchaeth yn ôl y boblogaeth a lefel y gwasanaethau o fewn yr anheddiad. Bydd rhai aneddiadau bach iawn gyda gwasanaethau cyfyngedig iawn neu ddim gwasanaethau o gwbl yn disgyn y tu allan i'r hierarchaeth ac yn cael eu diffinio fel cefn gwlad. |
| Hunanadeiladu / adeiladu tai yn ôl y gofyn | Datblygiad tai pwrpasol wedi'i gomisiynu a'i reoli gan y meddiannydd bwriadedig.  Ym mhob achos, p'un a yw cartref yn un wedi'i hunanadeiladu neu ei adeiladu yn ôl y gofyn, bydd perchennog cychwynnol y cartref yn rhoi mewnbwn sylfaenol i'w ddyluniad a'i gynllun terfynol. |
| Llain Sipsiwn a Theithwyr | Bydd pob llain yn cynnwys bloc amwynder, cartref symudol, carafán deithiol a lle parcio ar gyfer 2 gerbyd (Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru, Mai 2015) |
| Llety Arbenigol a Chymorth | Llety newydd neu lety wedi'i addasu sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, salwch meddwl, pobl iau neu bobl y cydnabyddir eu bod yn agored i niwed gan gynnwys y digartref a dioddefwyr cam-drin domestig. |
| Mabwysiedig | Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn fabwysiedig pan fydd Cyfarfod Cyngor yr Awdurdod yn penderfynu y bydd yn Gynllun Datblygu ar gyfer y Sir ac yn disodli'r Cynllun Datblygu presennol. |
| Man Agored ar gyfer Amwynderau | Tir preifat neu gyhoeddus sydd â gwerth oherwydd ei nodweddion a'i gyfraniad at naws am le neu lesiant cymunedol trwy -<br>• Atgyfnerthu neu gyflwyno cymeriad gofodol neu leoliad ar gyfer y dirwedd wledig a threfol ehangach, neu<br>• Gwneud cyfraniad pwysig at rwydweithiau Seilwaith Gwyrdd neu fioamrywiaeth, neu<br>• Darparu lle ar gyfer ymlacio, hamdden anffurfiol neu ymarfer corff, neu<br>• Mae ei gymeriad yn cyfrannu at ansawdd bywyd cymunedau neu<br>• Mae'n darparu ar gyfer gwarchod asedau o bwys, gan gynnwys asedau hanesyddol, bioamrywiaeth neu asedau cymunedol.<br>Nid yw mannau agored ar gyfer amwynderau o reidrwydd yn agored i fynediad cyhoeddus. |
| Mewnlenwi a chwblhau: | Mae gan aneddiadau a nodir yn yr Hierarchaeth Aneddiadau (Polisi SP6) Ffiniau Aneddiadau sy'n rhoi eglurder ynghylch lle y gallai cyfleoedd ar gyfer mewnlenwi a chwblhau at |

| | |
|---|---|
| | ddibenion tai fod yn addas a lle y gellir cyflwyno cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol a chyfleusterau newydd eraill. |
| Perthynas dda | Mae perthynas dda yn golygu perthynas dda â ffurf adeiledig anheddiad o ran agosrwydd, cysylltedd ffisegol a chynaliadwy a pherthynas weledol. |
| Safon Cartrefi Gydol Oes | Mae’r Safonau Cartrefi Gydol Oes yn gyfres o un ar bymtheg o feini prawf dylunio y bwriedir iddynt sicrhau bod modd addasu cartrefi’n haws i’w defnyddio gydol oes am y gost leiaf posibl. Datblygwyd y cysyniad yn wreiddiol ym 1991 gan Sefydliad Joseph Rowntree a Chymdeithas Dai Hainteg. |
| Seilwaith | Mae seilwaith yn cynnwys cyflenwadau pŵer, cyflenwad dŵr, modd o waredu carthion neu ddŵr wyneb, ffyrdd a rhwydweithiau trafnidiaeth eraill, telathrebu a chyfleusterau sy’n ofynnol fel fframwaith ar gyfer datblygu. |
| Seilwaith Gwyrdd | Rhwydwaith o ardaloedd a nodweddion naturiol a lled-naturiol sy’n cyfrannu at ansawdd uchel yr amgylchedd. Gall gynnwys llwybrau beiciau a llwybrau troed, parciau, caeau, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi, a gall gynnwys ecosystemau cyfan megis gwlyptiroedd, dyfrffyrdd, afonydd, llynnoedd a mynyddoedd. |
| Setliad Lloeren | Pentrefan bach neu grŵp o anheddau sydd ar wahân yn ffisegol i brif anheddiad, ond sydd â chysylltiad swyddogaethol cryf â’r anheddiad hwnnw. |
| Strategaeth Ddewisol | Y ddogfen strategaeth ffurfiol gyntaf ar gyfer adolygu'r CDLl sy'n amlinellu'r fframwaith a'r polisïau trosfwaol a fydd yn arwain y polisïau a'r cynigion sy'n ymwneud â defnydd tir. |
| Tai i’r Farchnad | Tai sydd ar werth am brisiau'r farchnad (gall hyn gynnwys hunanadeiladu neu dai a adeiladir yn ôl y gofyn). |
| Tai Fforddiadwy | Datblygiad preswyl sydd ar werth neu i’w rentu am brisiau is na phrisiau’r farchnad ac a gedwir yn fforddiadwy am byth. |
| Teithio llesol | Mae teithio llesol yn cyfeirio at ddulliau teithio sy'n cynnwys lefel o weithgaredd.<br>Mae’r term yn cael ei ddefnyddio’n aml i sôn am gerdded a beicio, ond gall teithio llesol hefyd gynnwys teithiau a wneir mewn cadair olwyn, sgwteri symudedd, beiciau wedi’u haddasu, e-feiciau, sgwteri, yn ogystal â chynlluniau rhannu beiciau. |
| Yr Opsiwn a Ffefrir | Yr opsiwn sengl neu hybrid sy'n deillio o ystyried ystod o opsiynau neu faterion yn dilyn ymgynghoriad. |

## Crynodeb Gweithredol

**Strategaeth**
Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlygu'r materion allweddol sy'n wynebu Sir Benfro ar hyn o bryd a Gweledigaeth ac Amcanion Strategol i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlygu y bydd angen **5,840 o gartrefi newydd** rhwng 2017 a 2033 (365 y flwyddyn). Cynigir lwfans hyblygrwydd o 10% yn unol â'r ymagwedd nodweddiadol ledled Cymru.

Bydd y twf hwn yn cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â strategaeth ofodol, sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn rhan o hyn, mae **Hierarchaeth Aneddiadau** yn trefnu aneddiadau'n wahanol gategorïau, yn dibynnu ar lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd wedi'u lleoli ynddynt. Defnyddiwyd system bwysoli sy'n rhoi'r pwys mwyaf i'r cyfleusterau hynny yr amlygir eu bod yn debygol o leihau'r angen i deithio ac felly sy'n fwyaf tebygol o gyfrannu at leoliad cynaliadwy. Bydd y lefelau twf mwyaf (safleoedd tai o 5 neu fwy) yn cael eu lleoli mewn aneddiadau sydd ar lefel Pentref Gwasanaeth neu uwch yn yr Hierarchaeth Aneddiadau.

Cynigir rhaniad **Trefol/Gwledig 60% / 40%** o ran dyraniadau tai (safleoedd o fwy na 5 uned). Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â rhaniad presennol y boblogaeth yn Sir Benfro. Mae'r ymagwedd hon yn cynnig cyfleoedd i gymunedau trefol a gwledig dyfu.

Yn yr aneddiadau a nodwyd o fewn yr Hierarchaeth Aneddiadau, bydd Ffiniau Aneddiadau'n amlygu lleoliadau yr ystyrir eu bod yn briodol i'w datblygu (gan gynnwys tai i'r farchnad a thai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol).

Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yw darparu cyfleoedd i dyfu ar draws ardal y Cynllun mewn aneddiadau gwledig yn ogystal â threfol. Dylai'r strategaeth hon alluogi **cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith** i dyfu. Mae'r materion sy'n ymwneud â llygredd ffosffadau yn nalgylchoedd afonydd Cleddau a Theifi wedi gwneud hynny ychydig yn fwy heriol i'w gyflawni nag o'r blaen, ond serch hynny teimlir ei fod yn gyraeddadwy o hyd. Mae'r asesiad o Safleoedd Ymgeisiol mewn ardaloedd lle y ceir cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg wedi ceisio sicrhau bod safleoedd ar raddfa briodol yn cael eu cefnogi. Mae polisi strategol ar yr Iaith Gymraeg yn cynnig y posibilrwydd o gyflwyno gofyniad graddol ar safleoedd yr ystyrir eu bod yn fawr mewn perthynas â chymunedau presennol. Mae hyn yn golygu y bydd safleoedd yn cael eu rhyddhau'n arafach i'r farchnad dai ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd eiddo o'r fath yn cael ei brynu gan aelodau presennol y gymuned sy'n siarad Cymraeg. Mae holl bolisïau a dyraniadau'r Cynllun wedi cael eu hasesu mewn perthynas â'u heffeithiau posibl ar y Gymraeg trwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Cynllun.

**Tai**
Mae **profion hyfywedd** helaeth wedi cael eu cynnal ar gynigion ar gyfer safleoedd Tai, yn seiliedig ar fodel rhanbarthol arfer gorau. Mae gweithdai rhanddeiliaid gydag asiantiaid a datblygwyr lleol, a ategwyd gan rai cyfarfodydd unigol, wedi helpu i

ddarparu gwybodaeth leol am gostau chyllid adeiladu, sydd wedi llywio'r broses o amlygu **targedau penodol i safle** ar gyfer Tai Fforddiadwy. Yn ogystal â gofynion i ddarparu tai fforddiadwy ar safleoedd marchnad, mae nifer o safleoedd tai fforddiadwy 100% wedi cael eu hamlygu fel dyraniadau, lle mae gan y Cyngor dystiolaeth glir o'r modd y gellir eu cyflenwi trwy ei raglen adeiladu tai Cyngor ei hun, neu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Mae dogfen **Canllawiau Cynllunio Atodol am Safleoedd Datblygu a Seilwaith** yn cyd-fynd â'r Cynllun ac yn amlinellu'r seilwaith y disgwylir i safleoedd a ddyrannwyd ei ddarparu yn unol â gofynion polisi'r Cynllun. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi cyfyngiadau sy'n effeithio ar safleoedd unigol a ddyrannwyd.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig cyflwyno **safonau gofod** yn unol â'r Safonau Gofod Rhagnodedig Cenedlaethol ar gyfer Lloegr, i gefnogi amcanion llesiant a darparu digon o le ar gyfer gofynion ailgylchu modern.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn cynnig dyraniadau penodol ar gyfer llety Arbenigol a Llety gyda Chymorth, a ategir gan ymchwil Gofal Cymdeithasol sy'n dangos tystiolaeth o'r angen. Yn ogystal â hyn, mae gofyniad wedi'i sefydlu i safleoedd tai mawr ddarparu cyfran o anheddau a adeiladwyd yn ôl **safonau Cartrefi Gydol Oes** er mwyn cefnogi agenda 'atal' ehangach y Cyngor a sicrhau bod gan Sir Benfro ddigon o stoc dai i fodloni gofynion poblogaeth sy'n heneiddio, y mae'n debygol y bydd ganddi fwy o anghenion symudedd, yn ogystal ag i ddiwallu anghenion grwpiau eraill sydd angen llety arbenigol a llety â chymorth.

**Economi**

Mae Astudiaeth Economaidd o Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Caerfyrddin wedi llywio'r broses o amlygu amrywiaeth o safleoedd Cyflogaeth Strategol wedi'u seilio ar yr asedau lleoliadol penodol a'r cryfder sectorol yn Sir Benfro a chyfleoedd penodol sy'n gysylltiedig â dyheadau twf busnesau presennol. Mae safleoedd cyflogaeth lleol wedi'u hamlygu yn y Cynllun Datblygu Lleol hefyd i gefnogi twf lleol ar raddfa lai. Wrth edrych ymlaen, rhagwelir y bydd y safleoedd diwydiannol mawr o amgylch Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn cael eu trawsnewid i ddewisiadau carbon isel neu rai di-garbon.

Mae diweddariad 2020 a 2021 i Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin hefyd wedi'i baratoi, gan ystyried pandemig Covid-19 a Brexit, ymhlith pethau eraill. Canfuwyd angen parhaus am safleoedd cyflogaeth strategol yn ardal y Cynllun. Er eu bod yn rhagddyddio cais llwyddiannus y Porthladd Rhydd Celtaidd, mae casgliadau'r Astudiaeth wreiddiol a'r diweddariad yn parhau i fod yn hynod berthnasol i ddyfodol Sir Benfro.

Mae polisïau twristiaeth ac economaidd cyffredinol wedi cael eu llunio i ddarparu hyblygrwydd yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae tystiolaeth fanwl ynglŷn â chapasiti'r dirwedd i ymdopi â Charafannau a Chabanau Gwyliau wedi cael ei pharatoi sydd, ochr yn ochr â meini prawf cynaliadwyedd, wedi llywio'r ymagwedd polisi twristiaeth ar y pynciau hyn.

Cyflwynir polisïau penodol ar fwynau, gwastraff, telegyfathrebu (gan gynnwys band eang) a thrafnidiaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol hefyd.

**Yr Amgylchedd a'r Newid yn yr Hinsawdd**

Yng ngoleuni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd 2016, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisi strategol penodol sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd i wella'r Amgylchedd yn ogystal â'i gynnal. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisïau a dynodiadau i warchod mannau agored a amlygwyd, a Lletemau Glas. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd Seilwaith Gwyrdd. Mae polisi wedi'i baratoi hefyd ar ansawdd dŵr afonydd, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod mwy o ymwybyddiaeth ynghylch materion llygredd afonydd yn dilyn cyhoeddi canllawiau ffosffadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer afonydd ACA di-lanw yng Nghymru.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn lliniaru ac ymateb i her y **Newid yn yr Hinsawdd** mewn sawl ffordd:

A. Nod yr ymagwedd gyffredinol at gyfeirio twf yn unol â'r **Hierarchaeth Aneddiadau** yw cyfeirio twf at leoliadau sydd â gwasanaethau a chyfleusterau eraill, gan felly leihau'r angen i deithio a lleihau allyriadau carbon.
B. Nid yw safleoedd newydd ar gyfer defnyddiau bregus wedi'u cynnig mewn ardaloedd lle y ceir Perygl Llifogydd o afonydd neu'r llanw neu a fydd mewn **perygl sylweddol o Lifogydd** yn y dyfodol oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae rhannau o aneddiadau presennol sydd mewn perygl uchel o lifogydd o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr wedi'u hamlygu yn y polisi Newid Arfordirol. Ni fydd cynigion mewnlenwi ar gyfer datblygiad preswyl neu newidiadau defnydd i ddatblygiad preswyl/estyniad yn cael eu caniatáu yn yr ardal Newid Arfordirol**.**
C. Bydd yn ofynnol i bob annedd newydd gyflawni safonau dylunio uchel sy'n cynnwys **dyluniad effeithlon o ran ynni**.
D. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys gofyniad polisi penodol i bob annedd newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer gwefru **Cerbydau Allyriadau Isel Iawn**.
E. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn amlygu nifer o ddyraniadau penodol ar gyfer **araeau paneli solar**.
F. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dynodi ac yn gwarchod safleoedd a rhywogaethau sy'n bwysig o safbwynt **bioamrywiaeth** a chadwraeth natur.
G. Mae'r Cynllun yn ddigon hyblyg i ganiatáu trawsnewid safleoedd diwydiannol presennol i ddewisiadau amgen carbon is neu ddi-garbon yn y blynyddoedd i ddod.

# Cyflwyniad

## Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2017-2033

- Disgwylir i boblogaeth Sir Benfro gynyddu yn ystod yr 16 mlynedd nesaf, a bydd angen cartrefi, swyddi, cyfleoedd hamdden, cyfleusterau cymunedol a seilwaith newydd i ategu'r twf hwn. Mae'n bwysig bod twf yn cael ei gynllunio'n briodol er mwyn sicrhau ei fod o fudd i'r gymuned, yn cyflawni datblygiad cynaliadwy ac yn hwyluso pontio i dechnolegau carbon is neu ddi-garbon. Yn ogystal, mae angen i rannau allweddol o Sir Benfro gael eu gwarchod rhag datblygu er mwyn diogelu amgylchedd yr ardal, amddiffyn rhag y newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo a darparu mannau gwyrdd i annog ffyrdd iach o fyw.
- Mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn mynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi a chynnal **cynllun datblygu** sy'n ymdrin â'r agweddau o'r heriau uchod sy'n ymwneud â defnyddio tir, ac sy'n gwneud hynny yn unol â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy sydd wedi'i hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Datblygu ar gyfer ei ardal gynllunio, sy'n eithrio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Oni nodir yn wahanol, mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon mae **Sir Benfro** yn cyfeirio at ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro.
- Bydd y CDLl newydd hwn (**CDLl 2**) yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu yn Sir Benfro (ac eithrio'r Parc Cenedlaethol) ar gyfer y cyfnod o'i fabwysiadu hyd at 31 Ebrill 2033.

## Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol?

- Mae'r Cynllun yn cynnwys y weledigaeth tymor hir ar gyfer Sir Benfro a'r amcanion a'r polisïau defnydd tir sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth honno. Mae'n cynnwys diagram allwedd, polisïau strategol a chyffredinol a dyraniadau (safleoedd ar gyfer datblygu a chyfyngu). Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys Map Cynigion sy'n dangos pob un o bolisïau a chynigion y Cynllun gydag elfen ofodol. Mae manylion holl gamau paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar gael yng Nghytundeb Cyflawni'r Awdurdod a ddiwygiwyd ymhellach (Mehefin 2023). Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei ddatblygu trwy gynnwys gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol:
    - Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol
    - Strategaethau a dynodiadau Lleol a Rhanbarthol (gan gynnwys Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ac Ardal Fenter Sir Benfro)
    - Gwybodaeth o Adroddiadau Monitro Blynyddol sy'n dangos sut mae'r CDLl 1 presennol yn perfformio
    - Adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â materion allweddol ac unrhyw ddiweddariadau cyd-destunol[1]

[1] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth

- Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol (gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau) ac Ymgysylltu â Chymunedau;

Dylai'r Cynllun gael ei weld a'i ddarllen yn ei gyfanrwydd. Yn aml, bydd mwy nag un polisi'n berthnasol i ddatblygiad arfaethedig, a bydd yr holl bolisïau'n cael eu hystyried.

## Dogfennau Atodol

- Mae'r Strategaeth Ddewisol wedi bod yn destun **Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA)** ac **Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)** [2] i asesu p'un a fydd y CDLl yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd (cadarnhaol neu negyddol) neu effeithiau economaidd-gymdeithasol, ac i ganfod p'un a fydd yn helpu i gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae hefyd wedi bod yn destun **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)**[3] ac **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)**[4]. Mae'r **SA** a'r **SEA** yn cynnwys **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)**.
- Mae Asesiadau Strategol a Phapurau Pynciol eraill yn darparu gwybodaeth ategol a sail resymegol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol hefyd. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n fanylach ar rai o'r Materion Allweddol sy'n arbennig o arwyddocaol i'r Sir, ac felly'r CDLl. Maen nhw ar gael ar wefan y Cyngor[5].

## Safleoedd Ymgeisiol

- Cyflwynodd datblygwyr, asiantiaid a sefydliadau safleoedd i'w cynnwys yn y CDLl. Aseswyd y rhain yn ôl eu haddasrwydd i'w datblygu gan ddefnyddio'r Papur Cefndir Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol. Mae Adroddiad Asesu Safleoedd 2024 a gyhoeddwyd yn rhan o sylfaen dystiolaeth y Cyngor yn rhoi manylion am yr asesiad a gynhaliwyd ar gyfer pob Safle Ymgeisiol. Ers cyhoeddi'r Cynllun Adneuo Cyntaf yn 2020, cynigiwyd cyfle cyfyngedig pellach i ddarparu Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r tri safle a gyflwynwyd wedi'u hychwanegu at Gofrestr y Safleoedd Posib ac wedi'u hasesu ar sail sy'n gyson â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyflwyniadau cynharach.

## Profion Cadernid

- Er mwyn cael ei fabwysiadu, mae'n rhaid i Gynllun Datblygu Lleol gael ei ddyfarnu'n 'gadarn' gan yr Arolygydd archwilio (A64 Deddf 2004). Nodir profion a gwiriadau cadernid ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 3, Mawrth 2020 (pennod 6).

## Ymgysylltu

- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol 2 wedi cael ei ddatblygu ers 2017 pan gwblhawyd Adroddiad Adolygu a Chytundeb Cyflawni'r Awdurdod. Mae

[2] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol
[3] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/arfarniad-rheoli-cynefinoedd
[4] https://www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review/equality-impact-assessment-
[5] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-ail-dystiolaeth

cynllunio defnydd tir wedi cael ei integreiddio'n llwyr ag ystyriaethau cyfannol ehangach (fel gofynion seilwaith a rheoli *adnoddau naturiol* yn gynaliadwy) trwy gydweithio â rhanddeiliaid perthnasol ar bob maes pwnc. Bu ymgysylltiad cynhwysfawr ar bob cam o baratoi'r Cynllun yn unol â'r *Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS)*, a nodir yn y Cytundeb Cyflawni diwygiedig pellach ar gyfer CDLl 2, gan sicrhau tryloywder a bod consensws yn cael ei ddatblygu.

- **Darllen y Cynllun**

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys y testun a'r Mapiau Cynigion (gan gynnwys Mapiau Mewnosod ar gyfer aneddiadau unigol). Mae'n rhaid darllen y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Os bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y testun a'r mapiau, y testun fydd drechaf. Cynhyrchwyd Map Cyfyngiadau hefyd i gefnogi CDLl2 sy'n darparu gwybodaeth am gyfyngiadau cyffredinol ar draws ardal y Cynllun. Mae hwn ar gael ochr yn ochr â'r Mapiau Cynigion, ond nid yw'n rhan ffurfiol o'r Cynllun Datblygu Lleol.

# 1. CYD-DESTUN A MATERION ALLWEDDOL

## Trosolwg

1.1 Sir wledig yw Sir Benfro yn bennaf, gyda dylanwad morol cryf, ac mae ganddi hanes o ddatblygiad wedi'i seilio ar amaethyddiaeth, twristiaeth, amddiffyn, ynni a gweithgareddau porthladd sy'n canolbwyntio ar Ddyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae'r ardal wedi'i nodweddu gan gyfres o aneddiadau sy'n unigryw, ac eto'n ddibynnol ar ei gilydd. Mae'r amgylchedd unigryw a'r ymdeimlad cryf o gymuned yn ddeniadol i breswylwyr ac ymwelwyr ac mae'n creu ymdeimlad unigryw o le. Mae porthladdoedd Sir Benfro – Abergwaun a Dyfrffordd Aberdaugleddau – yn asedau rhyngwladol sy'n hollbwysig i sicrwydd ynni'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol ac o ran darparu cysylltedd i ac o Weriniaeth Iwerddon. Mae trawsnewid y prif safleoedd diwydiannol ar hyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau i ddyfodol carbon is neu ddi-garbon, addasu i newid yn yr hinsawdd a datblygu seilwaith gwyrdd yn themâu sy'n dod i'r amlwg. Mae cynlluniau hefyd i gyflwyno tyrbinau gwynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd, a bydd angen seilwaith ar y tir a galluoedd gweithgynhyrchu i'w datblygu.

1.2 Mae'n rhaid i'r CDLl daro'r cydbwysedd iawn rhwng gwarchod yr elfennau hynny sy'n gwneud Sir Benfro'n arbennig, ar yr un pryd â helpu i hwyluso cyfleoedd newydd ar gyfer twf a ffyniant i fusnesau a chymunedau ledled ardal y Cynllun. Mae'r her o gael y cydbwysedd cywir mewn perthynas â'r cynigion sy'n ymddangos ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd yn Nyfrffordd Aberdaugleddau a'r angen i ddiogelu'r Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n ymwneud â'r un corff o ddŵr yn un sylweddol sydd angen gofal mawr.

1.3 Mae'r CDLl wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'r cyd-destun rhanbarthol a lleol, a'r materion allweddol sy'n wynebu'r Sir. Fe'i datblygwyd o sylfaen dystiolaeth helaeth ac ar y cyd ag ystod o randdeiliaid trwy ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol ac anffurfiol.

1.4 Mae'r cyd-destun a'r materion a amlinellir yn y Bennod hon wedi llywio Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl a gyflwynir ym Mhennod 2.

## Nodweddion Allweddol

1.5 Gellir crynhoi nodweddion allweddol a defnyddiau tir gofodol ardal y Cynllun fel a ganlyn:

- Ardal wledig yn bennaf yw Sir Benfro.[6] Mae ganddi'r dwysedd poblogaeth pumed isaf yng Nghymru, sef 77 o bobl fesul cilomedr sgwâr.
- Mae'r trefi o amgylch Dyfrffordd Aberdaugleddau (Penfro, Doc Penfro, Aberdaugleddau a Neyland), Hwlffordd (y Dref Sirol), Abergwaun ac Wdig ac Arberth yn cynnwys crynoadau o boblogaeth a chyflogaeth. Ar hyn o bryd,

[6] Gweler ffigur 3.1 Proffil Economaidd Sir Benfro (PACEC) Sylfaen Dystiolaeth CDLl 2

mae 54% o'r boblogaeth yn byw yn yr Aneddiadau Trefol ac mae 46% yn byw yn yr ardal a ddiffinnir yn wledig. [7]

- Mae cyflogaeth yn parhau i ganolbwyntio ar y diwydiant twristiaeth a gwasanaeth, trafnidiaeth, gweithgynhyrchu, adeiladu, iechyd cyhoeddus, datblygiadau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd ac ynni, gwasanaethau cyhoeddus ac amaethyddiaeth.[8]
- Mae Dyfrffordd y Ddau Gleddau o arwyddocâd cenedlaethol i'r sectorau porthladd, diwydiant ac ynni. Mae hefyd wedi'i dynodi am ei gwerth tirwedd a bioamrywiaeth. Yn ddiweddar bu'n destun cais llwyddiannus Porthladd Rhydd Celtaidd, a rennir gyda Chastell-nedd Port Talbot.
- Mae llawer o'r arfordir o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (ynghyd â'r ardal o amgylch Daugleddau a'r Preselau).
- Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) morol a daearol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), Parth Cadwraeth Morol (PCM) Sgomer, a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Lleol wedi'u dynodi.
- Mae gan y Sir nifer fawr o asedau treftadaeth. Mae ardal y Cynllun yn cynnwys 1,649 o adeiladau rhestredig a 248 o Henebion Cofrestredig. Ar hyn o bryd, mae 20 Parc a Gardd Hanesyddol, dwy Dirwedd Hanesyddol, 24 Ardal Gadwraeth – gyda Menter Treftadaeth Treflun yn Hwlffordd, dau barc gwledig, 42 o feysydd pentref a 57 cilomedr sgwâr o Dir Comin (gan gynnwys y Tiroedd Comin hynny o fewn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd, gyda'i gilydd wedi cynhyrchu ardal gyda nodweddion naturiol arbennig a threftadaeth ddiwylliannol eithriadol.
- Mae afonydd fel Cleddau Wen (er enghraifft, yn Hwlffordd), Afon Ritec ac Afon Teifi isaf yn tueddu i orlifo, fel y mae llawer o ardaloedd arfordirol yn Sir Benfro. Mae'n hysbys bod lefelau uchel o ffosffadau yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cleddau Ddwyreiniol a Gorllewinol ac Afon Teifi, ac yn 2021 cyhoeddodd CNC ganllawiau newydd mewn cysylltiad â hyn i ddiogelu'r nodweddion arbennig y mae'r dalgylchoedd afonydd hyn wedi'u dynodi ar eu cyfer. Mae crynodiadau o Nitradau yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau yn Sir Benfro yn bryder hefyd ac mae cynigion i ehangu Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru. Rhagwelir hefyd y bydd canllawiau CNC ar gyfer ardaloedd llanw afonydd yr ACA yng Nghymru (gan gynnwys y rhai yn Sir Benfro) yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol.
- Mae prif seilwaith trafnidiaeth y Sir wedi'i ffurfio o'r rhwydwaith Cefnffyrdd, cysylltiadau rheilffordd â Doc Penfro, Wdig ac Aberdaugleddau a'r porthladdoedd fferi yn Noc Penfro a Harbwr Abergwaun. Mae Maes Awyr Hwlffordd yn gweithredu fel rhan o rwydwaith o feysydd awyr rhanbarthol bach.
- Mae gan nifer o brif drefi Sir Benfro ganol trefi hanesyddol, y mae rhai ohonynt wedi ei chael hi'n anodd yn fasnachol yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae pandemig Covid-19 wedi ychwanegu at yr heriau yng nghanol

[7] Amcangyfrif poblogaeth yn deillio o ddata Cyfrifiad 2021
[8] Proffil Economaidd Sir Benfro (PACEC) Sylfaen Dystiolaeth CDLl 2

trefi hanesyddol ac mae'n rhaid i'r rhain bellach addasu i lai o ymwelwyr a chystadleuaeth sylweddol gan siopa ar-lein. Mae canol trefi yn cael eu gweld yn gynyddol fel ffocws ar gyfer ystod o ddefnyddiau tir cymunedol, gyda ffocws ehangach na'r defnyddiau manwerthu traddodiadol. Mae fframwaith polisi cynllunio Sir Benfro yn hyn o beth yn cael ei addasu i adlewyrchu syniadau wedi'u diweddaru, er enghraifft fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040 Llywodraeth Cymru.

## Cyd-destun strategol

### Cyd-destun Cenedlaethol

1.6 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** yn gosod dyletswydd lesiant ar gyrff cyhoeddus, sy'n mynnu bod pob corff cyhoeddus yn cynnal datblygu cynaliadwy. Mae'n gosod saith nod llesiant i gefnogi'r ffyrdd y gallwn gyflawni datblygu cynaliadwy.

1.7 Mae **Deddf yr Amgylchedd 2016** yn sefydlu'r ddeddfwriaeth i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Mae'n cynnwys dyletswydd fioamrywiaeth uwch sy'n mynnu bod Awdurdodau Cyhoeddus yn cynnal a gwella bioamrywiaeth ac yn hybu cydnerthedd ecosystemau.

1.8 Rhaid i'r Cynllun 'roi sylw' i **Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040**. Diffinnir rôl Cymru'r Dyfodol gan ddeddfwriaeth a chan y Rhaglen Lywodraethu – Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Noda hon fod gan y cynllun "rôl bwysig mewn sbarduno twf cynaliadwy a brwydro yn erbyn newid hinsawdd drwy arwain datblygiad strategol dros yr 20 mlynedd nesaf." Mae gan Gymru'r Dyfodol statws Cynllun Datblygu ledled Cymru. Mae darpariaethau amrywiol yn Cymru'r Dyfodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Sir Benfro. Nodir nifer o aneddiadau yn Sir Benfro fel Canolfannau Twf Rhanbarthol drwy Bolisi 29 Cymru'r Dyfodol (Ardaloedd Twf Rhanbarthol - Caerfyrddin a'r Trefi Porthladd). Y trefi dan sylw, yn Sir Benfro, yw Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro. Mae Cymru'r Dyfodol yn rhagweld twf a reolir yn ymwneud â'u swyddogaethau isranbarthol pwysig a chysylltiadau cryf ag Ardal Twf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. Mae Polisi 32 Cymru'r Dyfodol yn ymwneud yn benodol â Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac Ynni. Mae'n cydnabod potensial y lleoliad hwn ar gyfer datblygiadau, arloesi a buddsoddiad newydd yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dywed y dylai datblygiad newydd sy'n gysylltiedig ag ynni gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol a darparu swyddi a buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau. Yng nghyd-destun cais cynllunio am gynigion ynni, mae'n ychwanegu y dylid rhoi ystyriaeth i'r cyfraniad at ddatgarboneiddio cyflenwadau ynni, yr effeithiau ar y dirwedd, morluniau, yr amgylchedd naturiol a hanesyddol ac i'r buddion economaidd a fyddai'n dilyn i'r rhanbarth. Cefnogir datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ar y môr mewn egwyddor. Elfen bellach o Gymru'r Dyfodol yw bod un o'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer Datblygu Tyrbinau Gwynt yn ymestyn i ran o ddwyrain Sir Benfro.

1.9 **Polisi Cynllunio Cymru** (Argraffiad 12) (PPW) yw polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, a dylid rhoi ystyriaeth iddo wrth baratoi cynlluniau datblygu. Mae'r **Nodiadau Cyngor Technegol** (TANs) a'r **Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau** yn ategu hyn â chanllawiau technegol. Rhoddir canllawiau gweithdrefnol yng Nghylchlythyrau Llywodraeth Cymru hefyd.

1.10 Cyhoeddwyd **Cynllun Morol Cenedlaethol** terfynol Cymru ym mis Tachwedd 2019. Bydd hwn yn arwain penderfyniadau ar ddefnydd cynaliadwy o'n moroedd. Mae'n ymdrin ag ardaloedd cynllun morol ar gyfer dyfroedd y glannau a'r môr mawr (hyd at y marc penllanw) y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod cynllunio morol ar eu cyfer. Mae tir rhwng y marciau distyll a phenllanw yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cynllun Morol a'r gyfundrefn gynllunio ddaearol. Bydd rhai cynigion datblygu cwbl ddaearol yn effeithio ar yr ardal a gwmpasir gan y Cynllun Morol ac, yn yr achosion hyn, bydd y Cynllun Morol yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu arnynt. Bydd angen integreiddio rhwng ardaloedd cynllunio morol a daearol. O amgylch Doc Penfro, mae ardal yr awdurdodaeth cynllunio daearol yn ymestyn yn anarferol at farciwr canol y sianel, felly mae'r gorgyffwrdd rhwng y trefnau daearol a morol yn fwy yn yr ardal hon nag yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill.


## Cyd-destun Rhanbarthol

### Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r Porthladd Rhydd Celtaidd

1.11 Mae Sir Benfro wedi'i lleoli ym mhen mwyaf gorllewinol Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (y Dinas-Ranbarth).[9] Amlygwyd y Dinas-Ranbarth ar sail llifoedd teithio i'r gwaith presennol, y potensial ar gyfer mwy o gysylltedd, y traddodiad o gyd-ddibyniaeth gymdeithasol ac economaidd a gwaith partneriaeth presennol.

1.12 Mae'r Dinas-Ranbarth yn cynnwys daearyddiaethau'r pedwar Awdurdod Lleol yn ne-orllewin Cymru: sef Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Disgwylir i'r Fargen Ddinesig gynyddu gwerth ychwanegol gros (GVA) Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn barhaol i £1.8 biliwn a bydd yn cynhyrchu bron 10,000 o swyddi newydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Mae'r pecyn buddsoddi cyfan yn cynnwys £241 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, £396 miliwn o fuddsoddiad arall gan y Sector Cyhoeddus a £637 gan y Sector Preifat.

[9] Adroddiad Terfynol Dinas-Ranbarthau, Llywodraeth Cymru (2012)




1.13 Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys nifer o brosiectau sydd â goblygiadau i CDLl Sir Benfro. Mae Cynllun Morol Doc Penfro yn brosiect sy'n ceisio cynhyrchu sylfaen ynni adnewyddadwy morol o'r radd flaenaf yn y rhanbarth a chyflymu datblygiad ym maes technoleg ynni adnewyddadwy morol. Mae'r cysyniad 'Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer' yn cynnwys datblygu rhaglen adeiladu tai ac ôl-osod helaeth sy'n integreiddio technolegau newydd i ganiatáu i adeiladau gynhyrchu, storio a rhyddhau ynni. Bydd yr Arfordir Rhyngrwyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer TGCh well. Thema arall sydd â goblygiadau i'r CDLl yw'r model 'Ffatri'r Dyfodol' sy'n ceisio creu swyddi newydd ym maes gweithgynhyrchu uwch ac a fydd yn cynnwys adain ffisegol ym Mhenfro.

Ym mis Medi 2022, gwahoddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gynigion i sefydlu Porthladd(oedd) Rhydd yng Nghymru. Paratowyd cais llwyddiannus y Porthladd Rhydd Celtaidd gan gonsortiwm rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cynnwys Associated British Ports, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Phorthladd Aberdaugleddau.

1.14 Y tasgau cyntaf i'r consortiwm fu paratoi achos busnes a sefydlu'r trefniadau llywodraethu, y strwythurau corfforaethol a'r strwythurau cyfreithiol, gan ragweld dynodi'r Porthladd Rhydd gan Lywodraethau'r DU a Chymru yn 2024.

1.15 Bydd safleoedd y Porthladd Rhydd yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Benfro ac, wrth edrych ymlaen at 2050, disgwylir y gwelir 16,000 o swyddi newydd, £5.5 biliwn o fuddsoddiad newydd a chyflwyno prosiectau ynni gwynt arnofiol ar y môr.

1.16 Ar hyn o bryd, megis dechrau esblygu mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd a bydd gwybodaeth fanwl am safleoedd a phrosiectau yn dod i'r amlwg maes o law. Ond mae'n bwysig cyfeirio at y datblygiad pwysig hwn yn y Cynllun hwn a rhagwelir y bydd llawer o'r hyn a all ddigwydd yn nes ymlaen yn cael ei gefnogi, o leiaf mewn egwyddor, gan bolisïau'r cynllun

hwn sy'n ymwneud â chyflogaeth strategol ac â datblygiadau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd ac ynni.

### Cynlluniau Datblygu Strategol

1.17 Bellach mae gofyniad deddfwriaethol i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) rhanbarthol. Mae CSP yn gweithio, a bydd yn parhau i weithio ar y cyd â Chyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer De-orllewin Cymru. Bydd hefyd yn gweithio gydag awdurdodau yn rhanbarth cyfagos Canolbarth Cymru ar faterion o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys cynllunio mwynau a gwastraff ac ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr afonydd.

### Ardaloedd Menter

1.18 Mae Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn Sir Benfro yn un o saith Ardal Fenter a lansiwyd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn 2012. Mae'n cynnwys safleoedd sy'n cydffinio â glannau gogleddol a deheuol Dyfrffordd Aberdaugleddau, Hwlffordd, Trecŵn ac Abergwaun. Mae gan yr Ardaloedd Menter ffiniau gofodol. Yn achos Dyfrffordd y Ddau Gleddau, mae'r cymhellion sydd ar gael o fewn y ffiniau hynny o natur gyllidol yn unig ac nid oes cynllun cynllunio penodol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Strategol ar gyfer yr amryw Ardaloedd Menter yn 2015, ac fe'i diweddarwyd yn 2017. Disgwylir i'r Bwrdd cysylltiedig ar gyfer Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau barhau tan 2021 o leiaf.

### Awdurdodau Cynllunio Cyfagos

1.19 Mae Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Caerfyrddin yn adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol ar hyn o bryd. Mae Ceredigion wedi rhoi'r gorau i'w hadolygiad o'r CDLl am y tro, tra bo Sir Gaerfyrddin wedi cyrraedd y cam Adneuo ar fwy neu lai yr un pryd â CSP ac wedi ailadrodd y cam hwnnw o broses y Cynllun yn seiliedig ar Gynllun diwygiedig yng ngwanwyn 2023. Mae Archwiliad o Gynllun Sir Gaerfyrddin i fod i ddechrau yn hydref 2024. Mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei GDLl newydd (CDLl 2) ym mis Medi 2020. Mae Cyngor Sir Penfro wedi ymrwymo i gydweithio â'i awdurdodau cyfagos ac mae nifer o sylfeini tystiolaeth ar y cyd wedi cael eu cynhyrchu. Mae'r holl Awdurdodau cyfagos yn mynychu panel rhanddeiliaid allweddol Sir Benfro ac yn ymwneud â chynghori ar y CDLl sy'n dod i'r amlwg. Mae Datganiadau Tir Cyffredin wedi cael eu cynhyrchu gyda'r Awdurdodau cyfagos ac fe'u cyhoeddir yn rhan o sylfaen dystiolaeth y Cynllun. Fel adlewyrchiad o'r angen i ddechrau paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol, mae yna hefyd gydweithio parhaus ag Awdurdodau Cynllunio

Lleol eraill yn Ne-orllewin Cymru, yn benodol Cynghorau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Cyd-destun lleol – Sir Benfro

- Mae gan Sir Benfro boblogaeth sy'n heneiddio, a disgwylir i'r boblogaeth dros 65 oed gynyddu o 32,343 yn 2021, i 43,175 yn 2033, cynnydd o 33.5% (rhyw 10,832 o bobl)[10].
- Disgwylir i grŵp oedran 0-15 Sir Benfro leihau 2% rhwng 2017 a 2033.
- Mae gan Sir Benfro gyfraddau cynhyrchedd cymharol isel fesul swydd o gymharu â gweddill Bae Abertawe, Cymru neu weddill y Deyrnas Unedig. Mae penderfyniad refferendwm Brexit wedi effeithio ar sut y mae'r economi'n perfformio er nad yw'r holl effeithiau a ragwelwyd wedi bod mor ddifrifol ag y rhagwelwyd. Amcangyfrifodd Adroddiad gan Ysgol Economeg Llundain[11] yn amcangyfrif effaith o -1.1% i -1.8% o ran GVA ar gyfer Sir Benfro. Yn amlwg, bydd llwyddiant diweddar cais y Porthladd Rhydd Celtaidd yn cael effeithiau lleol cadarnhaol dros y blynyddoedd i ddod, hyd at 2050.
- Mae economi Sir Benfro yn gymharol hunangynhwysol; hynny yw, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn Sir Benfro yn gweithio yn Sir Benfro. Gallai hynny newid yn y dyfodol, yn enwedig o ran cyfnodau adeiladu prosiectau sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd â'r Porthladd Rhydd Celtaidd.
- Mae problem yn ymwneud â methiant y farchnad sy'n golygu bod datblygu adeiladau busnes ar gyfer diwydiant yn heriol yn economaidd.
- Mae heriau a chyfleoedd mawr yn gysylltiedig â datgarboneiddio diwydiant trwm yn Sir Benfro, yn enwedig y diwydiant ar hyd Dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae trawsnewid datblygiadau diwydiannol ac ynni sy'n gysylltiedig â'r porthladdoedd yn dod i'r amlwg drwy brosiectau amrywiol, gan gynnwys cynnig Aberdaugleddau: cynnig y Deyrnas Ynni, sy'n canolbwyntio ar dechnoleg hydrogen. Unwaith eto, bydd hyn yn cysylltu â chynnig y Porthladd Rhydd Celtaidd.
- Bellach cydnabyddir bod darparu Seilwaith Gwyrdd yn holl bwysig wrth gyflawni datblygu cynaliadwy.
- Mae twristiaeth yn gynyddol bwysig i'n heconomi, gan gyflogi 12,437 o weithwyr a chyda chyfanswm o £590 miliwn yn cael ei wario gan ymwelwyr yn 2019[12] (cynnydd o £515.54 miliwn yn 2012).
- Law yn llaw â'r pontio i gynyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy bydd y sector olew a nwy yn trawsnewid i ddewisiadau carbon is a dim carbon dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan ganolbwyntio yn arbennig ar dechnoleg hydrogen.

---

[10] Gweler Asesiad Marchnad Tai Lleol Sir Benfro, 2022.
[11] Effeithiau Economaidd Lleol Brexit, Ysgol Economeg Llundain 2017 http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/brexit10.pdf
[12] Effaith Economaidd Twristiaeth Sir Benfro 2020, Destination Research https://www.visitpembrokeshire.com/wp-content/uploads/Economic-Impact-of-Tourism-Pembrokeshire-Report-2020.pdf

- Mae aelwydydd yn tueddu i fod yn llai nag yr oeddent mewn degawdau blaenorol. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau i nifer y tai a'r mathau o dai y mae eu hangen ar bobl.
- Mae gan 84.8% o aelwydydd Sir Benfro fynediad at gar neu fan, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 74%[13].
- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at dymereddau uwch yn fyd-eang. Er bod graddau'r newid tebygol yn ansicr o hyd, gallwn ddisgwyl gweld lefel y môr yn codi, tywydd cynhesach yn gyffredinol a mwy o lawiad yn y gaeaf a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol.
- Mae'r adroddiad Cyflwr Bywyd Gwyllt 2016 ar gyfer Sir Benfro yn dangos bod mwyafrif y nodweddion a aseswyd mewn cyflwr gwael neu gymedrol a bod y duedd gyffredinol yn dirywio o hyd. (Aseswyd 23 nodwedd: 16 mewn cyflwr gwael neu weddol, ond mae'r cyfeiriad hefyd yn bwysig. 7 yn dirywio; 8 sefydlog; 5 yn gwella; 3 gyda data anghyflawn. O'r rheiny y dynodwyd eu bod yn sefydlog, roedd 5 yn sefydlog mewn cyflwr gwael neu weddol. Dim ond 2 sy'n sefydlog ac mewn cyflwr da.)
- Mae tuedd gynyddol o anghydraddoldeb o ran incwm a chyfoeth.

  Mae angen buddsoddi mewn seilwaith band eang a symudol, a'i wella. Mae gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud ar hyn o bryd, er enghraifft drwy gyflwyno cysylltiadau band eang ffibr i eiddo yn nhrefi Sir Benfro.
- Mae'r sector amaethyddol yn wynebu newid strwythurol yn sgil twf cynyddol unedau fferm mwy o faint. Mae'r heriau mawr yn cynnwys dynodi Parthau Perygl Nitradau (NVZs), TB buchol, colli cymorthdaliadau fferm (o'r Undeb Ewropeaidd), pryderon am faetholion yn rhedeg i afonydd a newidiadau i farchnadoedd byd-eang.Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn Gweddnewid ei Wasanaethau Clinigol – bydd hyn yn arwain at oblygiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn Sir Benfro. Mae yna gynigion ar gyfer ysbyty isranbarthol newydd i wasanaethu Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, er efallai na fydd hwn wedi'i leoli yn Sir Benfro.

## Materion a Sbardunwyr Allweddol

1.20 Mae'r materion a'r sbardunwyr allweddol canlynol wedi cael eu hamlygu ar gyfer y CDLl. Fe'u llywiwyd gan dystiolaeth o Adroddiad Adolygu'r Cyngor, adolygu dogfennau allweddol ac ymgysylltu â Rhanddeiliaid.[14] Maen nhw wedi'u trefnu o dan y penawdau a nodir yng Nghynllun Llesiant Sir Benfro (2018). Mae'r penawdau hyn wedi'u gwreiddio yn Strategaeth a Ffafrir y CDLl newydd ac maent wedi'u dwyn ymlaen i ddogfen Cynllun Adnau 2. Ond mae Cynllun Llesiant Sir Benfro yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac mae'r fersiwn ddiweddaraf (2023) yn cynnwys set ddiwygiedig o Amcanion Llesiant, sydd fel a ganlyn:

1. Cefnogi twf, swyddi a ffyniant a galluogi'r newid i economi fwy cynaliadwy a mwy gwyrdd.

---

[13] Cyfrifiad 2021. Yn ôl ardal Awdurdod Lleol.

[14] Gweler Adroddiadau ar Ddigwyddiadau Ymgynghori Cyhoeddus https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth

2. Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant.
3. Hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli ymaddasu i'r hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng natur.
4. Galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig, dyfeisgar ac amrywiol.

## BYW A GWEITHIO

- Yn 2033, bydd aelwydydd yn llai a bydd mwy o aelwydydd nag ar hyn o bryd, sy'n golygu y bydd angen tai ychwanegol.
- Yn 2033, bydd poblogaeth Sir Benfro yn heneiddio a bydd mwy o bobl dros 65 oed, a llai o bobl ifanc. Bydd hyn yn arwain at fwy o angen am dai addas i bobl hŷn.
- Mae angen mynd i'r afael â nifer y bobl ifanc sy'n allfudo trwy dai, cyflogaeth a chanol trefi bywiog.
- Bydd angen parhaus am lefelau uchel o dai fforddiadwy.
- Bydd angen parhaus am leiniau i letya Sipsiwn a Theithwyr.
- Mae safleoedd tai bach a chanolig yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno gan y datblygwyr sy'n gweithredu ym marchnad dai leol Sir Benfro.
- Yn hanesyddol, mae rhai Safleoedd Cyflogaeth Strategol mawr wedi bod yn araf i'w darparu. Ond mae'r cyfnod presennol yn un o drawsnewid a newid, wrth i Sir Benfro addasu i ddyfodol carbon is ac yn y pen draw i ddyfodol di-garbon. Mae llwyddiant diweddar cais y Porthladd Rhydd Celtaidd yn debygol o helpu yn hynny o beth.
- Mae angen sicrhau bod safleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu cyflwyno i gefnogi cyflogaeth mewn cymunedau.
- Dylai graddfa safleoedd cyflogaeth fod yn briodol i gymunedau.
- Mae gweithio ystwyth a thechnoleg newydd yn cyflwyno cyfleoedd cyflogaeth newydd. Arweiniodd pandemig Covid-19 at newid sylweddol mewn arferion gwaith, gan gynnwys newid i weithio gartref a gweithio hybrid i lawer, sydd mewn rhai achosion wedi cynyddu'r galw am le i weithio neu swyddfa gartref.
- Mae Sir Benfro yn rhan o Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe ac felly mae'n manteisio ar agweddau ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gan gynnwys cyfleoedd newydd am swyddi.
- Mae Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth hefyd.
- Bydd llwyddiant cais y Porthladd Rhydd Celtaidd, dros gyfnod hir yn parhau hyd at 2050, yn creu nifer sylweddol o swyddi newydd, yn dod â buddsoddiad newydd mawr i mewn ac yn hwyluso trawsnewid i dechnoleg carbon isel a di-garbon (gan gynnwys technoleg hydrogen) ar hyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau a chynigion ar gyfer ynni gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd.

## CYMUNEDAU DYFEISGAR

- Gall graddau a lleoliad datblygiadau tai, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol oll effeithio ar yr iaith Gymraeg.
- Mae angen cydnabod gwerth iaith, treftadaeth, diwylliant, tirwedd a threflun wrth greu lleoedd.
- Dylai seilwaith priodol i gefnogi cymunedau gael ei ddarparu trwy ddatblygiad newydd.
- Mae mynediad at lefelau da o wasanaethau a chyfleusterau yn helpu i gefnogi a chynnal cymunedau cryf.
- Mae'r rhan fwyaf o ganol trefi'n ei chael hi'n anodd, gyda chyfraddau eiddo gwag uwch na'r cyfartaledd, a bydd angen llai o ddyraniadau manwerthu nag yn y gorffennol.

## MYND I'R AFAEL Â GWLEDIGRWYDD

- Gall llai o gyfleusterau mewn ardaloedd gwledig ei gwneud hi'n fwy anodd i gymunedau gael mynediad at wasanaethau.
- Mae mynediad at gynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy yn allweddol i gefnogi cymunedau iach sydd wedi'u cysylltu'n dda. Mae cynigion Teithio Llesol bellach yn cael eu cyflwyno ledled Sir Benfro, i gynorthwyo gyda theithio cynaliadwy ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Gall gwell band-eang a chyfathrebu digidol helpu i gefnogi mynediad at wasanaethau a chyfleoedd busnes.
- Gallai arallgyfeirio busnesau traddodiadol gefnogi cymunedau gwledig.
- O ran Mwynau, mae ymagwedd newydd at ddosrannu tywod a gro yn cael ei chyflwyno ar gyfer Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, i helpu i leihau cynhyrchu yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.

## DIOGELU EIN HAMGYLCHEDD

- Mae mwyafrif rhywogaethau a chynefinoedd Sir Benfro mewn cyflwr cymedrol neu wael er gwaethaf ymdrechion cadwraeth, felly mae angen gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn barhaus.
- Mae galw gan dwristiaid yn newid ac mae angen ystyried hyn wrth baratoi'r CDLl newydd, gan gynnwys ble y gellir lleoli safleoedd newydd a/neu ble y gellir ymestyn safleoedd presennol.
- Mae Newid yn yr Hinsawdd eisoes yn effeithio ar gymunedau (yn enwedig rhai arfordirol neu rai sydd mewn perygl o lifogydd) a'r amgylchedd, a bydd hyn yn parhau.
- Mae angen gwarchod mannau agored a seilwaith gwyrdd er mwyn cefnogi llesiant cymunedau a bioamrywiaeth.
- Bydd cyfeirio datblygiadau at leoliadau lle mae rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus a gwaith trin dŵr gwastraff gyda hyblygrwydd a Thrwydded Amgylcheddol newydd o gymorth i warchod yr amgylchedd.

- Rhaid parchu buddion mannau gwyrdd a'u cyfraniad at fywyd gwyllt, cynefinoedd, bioamrywiaeth ac ymdeimlad o le a, lle y bo'n bosibl, sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn dwysedd datblygiadau tai newydd.
- Rhaid sicrhau hefyd bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei gydnabod a'i ddiogelu, ei warchod a'i wella.
- Dylid cefnogi'r defnydd o ynni cynaliadwy, ynni isel, adnewyddadwy a mynediad at y grid mewn datblygiadau tai.
- Gallai dwysau arferion amaethyddol gael effeithiau ar yr amgylchedd, gan gynnwys maetholion yn cael eu golchi i gyrsiau dŵr. Mae cyflwyno Parthau Perygl Nitradau yn un ymateb i hyn.
- Mae problem sylweddol wedi dod i'r amlwg o ran llygredd ffosffadau yn nalgylchoedd afonol (nad ydynt yn cael eu heffeithio gan y llanw) Cleddau a Theifi. Mae amryw o resymau gan gynnwys dŵr ffo amaethyddol, datblygiad a methiant seilwaith hanfodol.
- Dylem ganolbwyntio ar atal gwastraff a, lle nad yw hynny'n bosibl, ceisio ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer cynhyrchion gwastraff. Mae CSP bellach yn cyflawni cyfraddau uchel o ailgylchu ar gyfer gwastraff a gynhyrchir yn y Sir, ond mae heriau i'w bodloni o hyd.
- Gall systemau draenio cynaliadwy (SDCau) helpu i ddiogelu ein hamgylchedd. Gellir cyflwyno'r rhain ar y cyd â datblygiadau newydd yn y rhan fwyaf o leoliadau yn ardal gynllunio'r Cyngor. Mae eu defnydd yn cael ei reoleiddio drwy'r Corff Cymeradwyo SDCau (SAB).

# 2. GWELEDIGAETH AC AMCANION

2.1 Mae canllawiau a pholisi Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn amlinellu gweledigaeth a strategaeth tymor hir a chryno. Maen nhw'n awgrymu y dylai'r Weledigaeth hon fod yn glir, y dylai'r gymuned a rhanddeiliaid gytuno â hi ac y dylai amlinellu sut y bwriedir i leoedd gael eu datblygu, eu newid neu eu gwarchod (Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 12 (Adran 1.26) a Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru – Argraffiad 3 – Mawrth 2020, Adran 5.11).

2.2 Mae'r Weledigaeth Ddrafft wedi cael ei datblygu yn dilyn trafodaethau â Chynghorwyr Sir a Rhanddeiliaid Allweddol a thrwy'r broses SA/SEA barhaus[15]. Mae'r Weledigaeth yn adlewyrchu elfennau allweddol o Gynllun Llesiant Sir Benfro (2018, ac fel y'i diwygiwyd yn 2023) a dylanwadau o Gynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008) a Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol, 2040). Mae cydnawsedd y Weledigaeth a'r Amcanion wedi cael ei ystyried yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau Cynllun Llesiant Sir Benfro.[16]

## Gweledigaeth y CDLl

**Yn 2033, bydd Sir Benfro yn ardal sydd â chymunedau dyfeisgar a chadarn, lle yr ymdrinnir yn llwyddiannus â heriau gwledigrwydd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae ymdeimlad unigryw o le yn bodoli yn seiliedig ar ei thirwedd naturiol a'i threftadaeth ddiwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. Mae'r Trefi Porthladd yn gweithredu fel Canolfannau Twf Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru. Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a ffynnu yn y Sir. Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau newydd, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a glas a sectorau newydd sy'n gysylltiedig â'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau a chysylltiadau ag Iwerddon. Mae Canol Trefi yn lleoedd bywiog a ddefnyddir mewn ffyrdd amrywiol. Mae datblygiad yn cael ei gefnogi gan seilwaith allweddol. Ledled y Sir, mae seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth yn cael eu gwella trwy amgylcheddau hygyrch ac iach a ddarperir ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.**

[15] Mae Adroddiadau ar Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Ymgynghoriadau Cyhoeddus ar yr Opsiynau Strategol ar gael yn: https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth

[16] Gweler Materion, Gweledigaeth ac Amcanion Drafft 2018 (Atodiadau) yn https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/opsiynau-strategol

## Amcanion y CDLl

2.3 Dylai CDLlau nodi prif amcanion y Cynllun yn glir, ynghyd â'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer newid.

2.4 Mae'n bwysig bod Amcanion y CDLl yn adlewyrchu Gweledigaeth y Cynllun ac yn amlinellu sut y bydd y materion y nodwyd eu bod yn wynebu'r ardal yn derbyn sylw trwy'r CDLl. Datblygwyd yr Amcanion Drafft ar y cyd â Chynghorwyr Sir a Rhanddeiliaid Allweddol a thrwy'r broses SA/SEA barhaus.

2.5 Mae amcanion y CDLl yn cyflawni'r 5 Egwyddor Allweddol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'r rhain yn cynrychioli gweledigaeth arweiniol ar gyfer pob cynllun datblygu er mwyn sicrhau bod cynllunio'n hwyluso'r datblygiad iawn yn y lle iawn ac yn cyflawni'r nodau a'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. (Gweler Tabl 1).

**A) Lliniaru ac ymateb i her y Newid yn yr Hinsawdd.**

**B) Cyflawni datblygiad o ansawdd uchel lle mae'r broses o greu lleoedd yn cael ei chefnogi trwy ddylunio cynaliadwy sy'n ymateb yn briodol i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig, y dirwedd a'r treflun.**

**C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau newydd, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Busnesau Bach a Chanolig.**

**D) Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a ategir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol.**

**E) Manteisio ar leoliad strategol y Sir o ran ynni gwyrdd/glas, a datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r môr a phorthladdoedd.**

**F) Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.**

**G) Cefnogi ystod o ddefnyddiau mewn Canol Trefi i'w helpu i adfywio.**

**H) Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt trwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd.**

**I) Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau i seilwaith[17] a chyfleusterau cymunedol a chyfeirio datblygiad at leoliadau cynaliadwy.**

**J) Gwarchod a gwella amgylchedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd y Sir.**

**K) Atal gwastraff rhag cael ei greu a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n gyfrifol.**

[17] Sylwer bod seilwaith yn cynnwys darpariaeth symudol a band eang, gweliannau trafnidiaeth a chapasiti carthffosiaeth.

Tabl 1: Amcanion y CDLl a’u perthynas ag Egwyddorion Cynllunio Allweddol Polisi Cynllunio Cymru

| | A) Lliniaru ac ymateb i her y Newid yn yr Hinsawdd. | B) Cyflawni datblygiad o ansawdd uchel lle mae’r broses o greu lleoedd yn cael ei chefnogi trwy ddylunio cynaliadwy sy’n ymateb yn briodol i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig, y dirwedd a’r treflun. | C) Cynnal a gwella’r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau newydd, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy’n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Busnesau Bach a Chanolig. | D) Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a ategir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | E) Manteisio ar leoliad strategol y Sir o ran ynni gwyrdd/glas, a datblygiadau sy’n gysylltiedig â’r môr a phorthladdoedd. | F) Diogelu a hyrwyddo’r iaith Gymraeg. | G) Cefnogi ystod o ddefnyddiau mewn Canol Trefi i’w helpu i adfywio. | H) Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt trwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd. | I) Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau i seilwaith[1] a chyfleusterau cymunedol a chyfeirio datblygiad at leoliadau cynaliadwy. | J) Gwarchod a gwella amgylchedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd y Sir. | K) Atal gwastraff rhag cael ei greu a sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n gyfrifol. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod yr Amgylchedd i’r Eithaf a Chyfyngu ar Effaith ar yr Amgylchedd** | • | • | | | | | | • | • | • | • |
| **Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach** | | • | • | • | | | • | • | • | | • |
| **Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau** | • | • | | | • | | • | | • | • | • |
| **Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy** | | • | • | • | • | | • | | • | | |
| **Creu a Chynnal Cymunedau** | | • | • | • | • | • | • | | • | | |

# 3 STRATEGAETH Y CYNLLUN

## Y Strategaeth

### Trosolwg

3.1 Datblygwyd Strategaeth y CDLl yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth ac ar y cyd â rhanddeiliaid. Fe'i llywiwyd gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno ymagwedd ar gyfer hybu twf cynaliadwy yn Sir Benfro yn ystod y cyfnod 2017-2033. Ystyriwyd nifer o Opsiynau yn rhan o Strategaeth Ddewisol y Cyngor a chawsant eu diweddaru i ystyried Rhagamcaniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer Aelwydydd Seiliedig ar 2018.[18] Amlinellir yr Opsiwn Dewisol isod.

### Lefelau Twf

3.2 Bydd y CDLl yn darparu'r lefel twf ganlynol dros gyfnod y Cynllun o 2017-2033:

> 5,840 o gartrefi newydd
> a 1,970 o swyddi newydd, ond gyda'r potensial
> am 1,000 mwy o swyddi yn deillio o gamau cychwynnol
> cynigion y Porthladd Rhydd Celtaidd

### Nifer y Cartrefi newydd

3.3 Cynhaliodd y Cyngor adolygiad o batrymau demograffig a ffurfiant aelwydydd ar gyfer ardal y Cynllun. Darparodd Papur Rhagolygon Demograffig (Gorffennaf 2018) ac Adendwm i'r Papur Rhagolygon Demograffig (Rhagfyr 2018) ystod o ragolygon demograffig yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 ac fe'u cyhoeddwyd fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir a'r CDLl Adneuo 1af.

3.4 Mae Cynllun Adneuo 2 y CDLl hwn yn defnyddio'r Rhagamcanion Aelwydydd diweddaraf gan Lywodraeth Cymru o 2018. Cyflwynir dadansoddiad o'r senarios demograffig o opsiynau a arweinir gan ddemograffeg ac a arweinir gan anheddau yn y Diweddariad i'r Rhagolygon Demograffig yn 2020. Cynigir defnyddio'r un fethodoleg ag a ddefnyddiwyd i nodi'r Strategaeth a Ffefrir a senario twf Cynllun Adneuo 1 y CDLl. Mae'r gofyniad tai i ddarparu 5,840 o gartrefi newydd dros gyfnod y Cynllun 2017 i 2033 yn cyfateb i ddarparu 365 o anheddau newydd y flwyddyn. Mae lwfans hyblygrwydd o 10% wedi'i gymhwyso, gan gynyddu cyfanswm y ddarpariaeth i 6,425 o anheddau er

[18] https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/strategaeth-ddewisol

mwyn cyflawni'r gofyniad. Mae’r senario twf wedi’i nodi drwy gymryd cyfartaledd y tri senario a ganlyn:

- Amcanestyniad Poblogaeth Hirdymor yn seiliedig ar ffigurau 2018 LlC sy'n rhagweld angen am 295 o anheddau'r flwyddyn;
- Cyfradd cwblhau gyfartalog 5 mlynedd seiliedig ar anheddau rhwng 2014/15 a 2018/19 o 413 o anheddau'r flwyddyn;
- Cyfradd cwblhau gyfartalog 10 mlynedd yn seiliedig ar anheddau rhwng 2009/10 a 2018/19 o 378 o anheddau'r flwyddyn.

3.5 Mae’r gofyniad am dai o fewn yr ystod a ddarparwyd yn hanesyddol gan y diwydiant adeiladu lleol, ac mae’r Awdurdod yn hyderus ei fod yn darged y gellir ei gyflawni. Mae’r gofyniad yn uwch nag Amcanestyniadau Aelwydydd yn seiliedig ar ffigurau 2018 Llywodraeth Cymru i gefnogi lefel uwch o dai fforddiadwy a hefyd yn cefnogi’r economi leol a’r diwydiant adeiladu i raddau mwy na chyflawni’r gofyniad tai a amlygwyd gan ragamcan Llywodraeth Cymru. Mae seilio twf ar dueddiadau mudo’r 17 mlynedd diwethaf yn golygu bod cyfnod cyn dirwasgiad yn cael ei gynnwys yn y ffigurau a bod ‘gwyriadau’ diweddar mewn symudiadau’r boblogaeth, sy’n gysylltiedig â chau cyflogwr mawr yn 2014 (Purfa Aberdaugleddau), er enghraifft, yn gytbwys yn y pen draw. Fel y dangosir yn sylfaen dystiolaeth y CDLl, mae’r lefel uwch hon o dwf hefyd yn cefnogi’r posibilrwydd o ddarparu proffil mwy cytbwys o’r boblogaeth.

## Bodloni’r Angen a Amlygwyd

3.6 Mae’r Asesiad o’r Farchnad Dai Leol (LHMA) 2022 yn dangos y dylai 18.3% o gyfanswm y stoc dai fod ar gael fel Cartrefi Gydol Oes erbyn 2036 oherwydd y disgwylir i gyfran arwyddocaol o’r boblogaeth fod â rhyw fath o anabledd erbyn y dyddiad hwn, yn sgil y cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth 65 oed neu hŷn. Mae’r LHMA hefyd yn nodi y dylai 4.1% o gyfanswm y stoc dai fod yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn erbyn 2036.

3.7 Mae safonau gofod ar gyfer pob eiddo wedi’u hamlygu fel gofyniad, er mwyn sicrhau bod llesiant yn cael ei hyrwyddo. Mae profion hyfywedd lefel uchel yn ogystal â phrofion penodol i safle a gynhaliwyd ar safleoedd wedi’u dyrannu wedi llywio’r broses o nodi targedau Tai Fforddiadwy yn y Cynllun. Mae dogfen SPG ar Safleoedd Datblygu a Seilwaith yn ategu’r Cynllun ac yn amlygu’r gofynion penodol ar gyfer seilwaith a fydd yn angenrheidiol ar safleoedd unigol.

## Nifer y Swyddi newydd

3.8 Nodwyd ffigur swyddi o 2,200 i ddechrau yn seiliedig ar dystiolaeth o Experian GOAD[19]. Mae hyn wedi’i ostwng i 1,970 fel adlewyrchiad o’r rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig, sydd wedi arwain at ffigur is o ran darparu tai ar gyfer ardal y Cynllun i’w gynnwys yng Nghynllun Adneuo 2 CDLl 2. Fodd

[19] Gweler Papur Cefndir Tueddiadau Cyflogaeth Lleol (Rhagfyr 2018) https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdll-2-aail-dystiolaeth

bynnag, mae llwyddiant diweddar cais y Porthladd Rhydd Celtaidd yn golygu y gellid rhagori ar y ffigur hwn o 1,000 a mwy o swyddi o fewn cyfnod y Cynllun.

3.9 Mae'r CDLl yn sicrhau bod cyfleoedd priodol i gefnogi twf economaidd yn cael eu hamlygu yn y Cynllun, trwy ddyraniadau penodol o dir a thrwy ymagweddau polisi amrywiol. Mae Astudiaeth Economaidd o Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin wedi cael ei pharatoi i lywio'r CDLl hwn. Diweddarwyd hwn yn 2020/21 i adlewyrchu pandemig Covid-19 a hefyd Brexit. Mae'r astudiaeth wedi amlygu'r angen am ystod o ddyraniadau Cyflogaeth strategol ar draws ardal y Cynllun sy'n ychwanegu at y cyfleoedd strategol unigryw sy'n bodoli o amgylch y Porthladdoedd yn Abergwaun ac Aberdaugleddau. [20] Cadarnhawyd bod y gofyniad hwnnw'n dal i fodoli pan ddiweddarwyd yr Astudiaeth yn 2020/21. Mae'r ddarpariaeth tir cyflogaeth yn y Sir yn cael ei monitro'n rheolaidd ac mae hefyd wedi dylanwadu ar ddarparu tir cyflogaeth yn ardal gynllunio'r Cyngor yn y dyfodol. O ystyried yr ansicrwydd mawr ynglŷn â'r economi yn sgil ymadawiad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd, mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau y gellir ymateb i amrywiaeth o amgylchiadau economaidd. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a gyflwynir trwy Fargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, a llwyddiant cais y Porthladd Rhydd Celtaidd fel modd o gefnogi ffyniant economaidd. Bydd y Cynllun yn gweithio gydag asedau Sir Benfro, gan gynnwys cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r porthladdoedd a'r sectorau ynni, technoleg newydd a thwf morol. Mae ymagweddau polisi penodol yn ymwneud ag amaethyddiaeth, arallgyfeirio gwledig a'r diwydiant twristiaeth wedi cael eu hamlygu hefyd.

## Strategaeth Gynaliadwy

3.10 Mae twf wedi'i ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â strategaeth ofodol sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn rhan o hyn, mae **Hierarchaeth Aneddiadau** yn trefnu aneddiadau'n wahanol gategorïau, yn dibynnu ar lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd wedi'u lleoli ynddynt. Defnyddiwyd system bwysoli sy'n rhoi'r pwys mwyaf i'r cyfleusterau hynny yr amlygir eu bod yn debygol o leihau'r angen i deithio ac felly sy'n fwyaf tebygol o gyfrannu at leoliad cynaliadwy. Mae'r lefelau twf mwyaf (safleoedd tai o 5 neu fwy) wedi'u lleoli mewn aneddiadau sydd ar lefel Pentref Gwasanaeth neu uwch yn yr Hierarchaeth Aneddiadau.

3.11 O fewn yr Aneddiadau, mae cyfleoedd i ddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol wedi cael eu hamlygu a'u cynnwys o fewn ffiniau lle y bo'n briodol, yn unol â'r arweiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru.

3.12 Yn ogystal â Hierarchaeth Aneddiadau'r Cynllun, mae tystiolaeth o Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer Sir Benfro wedi llywio polisïau a dyraniadau, gan sicrhau nad yw datblygiad bregus iawn yn cael ei gynnal ar safleoedd sydd naill ai mewn perygl llifogydd ar hyn o bryd neu y gallent fod yn agored i berygl llifogydd o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn y

[20] Gweler Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir (Arup, 2019) https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth

dyfodol. Ers paratoi'r SFCA ar gyfer Sir Benfro, mae Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru wedi'i baratoi, ynghyd â rhai asesiadau lleol pellach yn ymwneud â Sir Benfro. Mae'r wybodaeth ychwanegol hon hefyd wedi'i hystyried wrth baratoi Cynllun Adneuo 2 CDLl 2. Mae tystiolaeth bellach, gan ddefnyddio Mapiau Cyngor Datblygu, wedi cael ei defnyddio i amlygu ardaloedd o'r arfordir na ddylid eu datblygu ymhellach ar gyfer defnyddiau bregus iawn, oherwydd perygl cynnydd yn lefel y môr, llifogydd neu erydu arfordirol yn yr ardaloedd hynny yn ystod oes ddisgwyliedig unrhyw eiddo. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunioa ddefnyddir i nodi ardaloedd o berygl llifogydd , a fydd yn cysylltu â fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15 Llywodraeth Cymru, (nad yw mewn grym eto) mae ar gael i'w weld ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae wedi'i ddefnyddio fel adnodd pellach i fod yn sail i baratoi Cynllun Adneuo 2 CDLl 2.

3.13 Mae Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040, yn nodi nifer o egwyddorion strategol ar gyfer creu lleoedd. Un o'r rhain yw cynyddu dwysedd poblogaeth trefi a dinasoedd. Mewn ardaloedd trefol, awgrymir dwysedd o 50 annedd yr hectar o leiaf, yn seiliedig ar arwynebedd net y safle. Ar gyfer Sir Benfro, sir wledig i raddau helaeth mae Cynllun Adneuo 2 CDLl2 yn nodi dwyseddau safle gofynnol ar gyfer arwynebeddau safle gros, sy'n gyffredinol yn is oherwydd eu bod yn gwneud lwfans ar gyfer materion megis priffyrdd, mannau agored ar gyfer amwynder, mannau agored i hamdden, mannau ar gyfer gerddi, systemau draenio cynaliadwy, tirweddu, plannu a thriniaethau i ffiniau a seilwaith gwyrdd arall, gan gynnwys clustogfeydd gwyrdd lle bo angen. Ar gyfer y trefi, defnyddir ffigur gros o leiafswm o 30 annedd yr hectar fel arfer, gan ostwng i 23 annedd yr hectar ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau a Phentrefi Gwasanaethau. Byddai isafswm dwyseddau yn seiliedig ar arwynebedd datblygadwy net yn sylweddol uwch. Mae yna rai achlysuron pan fydd ffactorau penodol i safleoedd arbennig yn cyfiawnhau dwysedd is.

## Rhaniad Trefol/Gwledig Dyraniadau

3.14 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu strategaeth o raniad Trefol/Gwledig 60% / 40% o ddyraniadau tai (safleoedd o fwy na 5 uned). Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â rhaniad presennol y boblogaeth yn Sir Benfro. Manteision yr ymagwedd hon yw ei bod yn cynnig cyfleoedd i gymunedau trefol a gwledig dyfu wrth ddal i ffafrio'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiad yn y dyfodol sydd i'w cael yn y trefi. Yn seiliedig ar dystiolaeth y gorffennol mae rhaniad 60% 40% hefyd yn fwy tebygol o gael ei gyflawni na rhaniad 70% / 30%. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei fod yn cyfeirio twf at ystod ehangach o safleoedd bach a chanolig, yn lle canolbwyntio twf ar nifer fach o safleoedd mawr mewn ardaloedd trefol. Mae profiad blaenorol o CDLl 1 yn awgrymu ei bod yn haws i safleoedd bach a chanolig eu maint gael eu darparu y tu allan i drefi, yn enwedig gan adeiladwyr annibynnol llai. Dylai ymagwedd y Cynllun, sef cyfeirio mwy o dwf yn y dyfodol at aneddiadau sydd â lefelau da o

wasanaethau, ynghyd ag ymagweddau i annog adeiladau carbon isel, cynnwys mannau gwefru ULEV a hybu seilwaith band eang a ffonau symudol, liniaru unrhyw effeithiau cynaliadwyedd mewn ardaloedd gwledig. Mae defnyddio Hierarchaeth Aneddiadau yn golygu y bydd datblygiadau tai mwy (safleoedd o 5 uned neu fwy) sy'n cael eu hadeiladu yn yr ardaloedd gwledig yn cael eu cyfeirio at aneddiadau sydd â lefel dda o wasanaethau a chyfleusterau, gan gefnogi ardaloedd gwledig bywiog gyda datblygiad sy'n briodol ac yn gymesur.

## Ymagweddau Polisi Gwledig


3.15 Yn yr aneddiadau llai sydd â llai o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig (a ddiffinnir yn Bentrefi Lleol), mae Ffiniau Aneddiadau yn amlygu lleoliadau yr ystyrir eu bod yn briodol i'w datblygu (gan gynnwys tai i'r farchnad a thai fforddiadwy). Mae gan y Pentrefi Lleol hynny a amlygwyd yn Bentrefi Lleol Clwstwr fwy o gyfleoedd ar gyfer twf oherwydd eu perthynas ag Aneddiadau eraill sy'n darparu gwasanaethau allweddol.

## Hyrwyddo Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd

3.16 Ar draws y safleoedd a ddyrannwyd mae cyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth wedi'u nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Safleoedd Datblygu ac Isadeiledd.

3.17 Wrth amlygu dyraniadau tai a mathau eraill o ddyraniadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Awdurdod wedi ystyried gwybodaeth GIS am gynefinoedd a rhywogaethau presennol. Lle mae cyfleoedd yn bodoli i hybu cysylltedd cynefinoedd, mae'r SPG ar Safleoedd Datblygu a Seilwaith yn amlygu rhannau penodol o rai safleoedd y dylid eu dylunio'n fannau gardd neu'n glustogfeydd gwyrdd. Mewn ardaloedd gwledig, cafodd ffigur dwysedd is ei gynnig fel isafswm ar gyfer dyraniadau i alluogi darpariaeth o'r fath. Mae mannau agored wedi cael eu diogelu ledled ardal y Cynllun (gweler GN 51 Gwarchod a Chreu Ardaloedd Hamdden Awyr Agored a GN 52 Gwarchod Mannau Agored sydd â Gwerth Amwynder). Mae Lletemau Glas wedi'u hamlygu hefyd er mwyn diogelu cymeriad aneddiadau unigol a darparu cyfleoedd cysylltedd pwysig i fywyd gwyllt.

Ffigur 1: Diagram Allweddol Strategaeth y CDLl



© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

# 4. Polisïau Strategol

**SP 1 Creu Lleoedd Cynaliadwy**

Mae'n rhaid i bob cynnig sicrhau bod datblygiad yn helpu i gyflawni lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a datblygu cynaliadwy.

Dylai cynigion datblygu ddangos y canlynol:

1. Effeithlonrwydd adnoddau (*gweler SP 19 Atal a Rheoli Gwastraff, GN 2 Dylunio Cynaliadwy a Chreu Lleoedd a GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau ac Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel)*

2. Cynnal a gwella bioamrywiaeth (*gweler SP 12 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol, GN44 Manteision Net o ran Bioamrywiaeth a GN 50 Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth)*

3. Hybu iechyd a lles (*gweler GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol, GN 15 Cymysgedd Tai, Ail gartrefi a gosod eiddo am dymor byr, Safonau Gofod a gofynion ar gyfer Safonau Cartrefi Gydol Oes, GN 45 Seilwaith Gwyrdd a GN 29 Cyfleusterau Cymunedol)*

4. Mynediad cyfartal (*gweler SP 3 Targed Tai Fforddiadwy, GN 2 Dylunio Cynaliadwy, GN 3 Seilwaith a Datblygiadau Newydd a GN 15 Cymysgedd Tai, Ail g*

*Gartrefi a gosod Eiddo am Dymor Byr, Safonau Gofod a Gofynion ar gyfer Safonau Cartrefi Gydol Oes)*

5. Hygyrchedd i wasanaethau (*gweler SP 6 Hierarchaeth Aneddiadau - Strategaeth Aneddiadau Cynaliadwy a GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol)*

6. Cefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg (*gweler SP 19 Yr Iaith Gymraeg)*

7. Cyfraniad llai at y newid yn yr hinsawdd *(gweler GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol, GN 2 Dylunio Cynaliadwy a Chreu Lleoedd a GN4 Effeithlonrwydd Adnoddau ac Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel).*

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd a Diogelu ein Hamgylchedd*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion A, D, E, F, H, I, J a K*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru Iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu, Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang*

4.1 Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gyflawni'r nodau llesiant a amlinellir y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i sicrhau datblygu cynaliadwy a llesiant. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r prif ffyrdd y yn disgwylir i gynigion datblygu ddangos eu bod yn helpu i gyflawni lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, ac felly'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

4.2 Mae cysylltiadau â Pholisïau Cyffredinol a Strategol mwy penodol a ddefnyddir i asesu p'un a gyflawnir meini prawf SP 1 wedi'u hamlinellu yn nhestun y polisi.

4.3 O ran cyflawni Cymru lewyrchus, mae'n hollbwysig bod cynigion yn gallu dangos bod effeithlonrwydd adnoddau wedi cael ei ystyried wrth ddylunio unrhyw gynnig.

4.4 Er mwyn hyrwyddo Cymru gydnerth, mae'n rhaid i gynigion wella bioamrywiaeth yn ogystal â'i chynnal, a hybu cydnerthedd ecosystemau.

4.5 Gellir hyrwyddo iechyd a lles mewn sawl ffordd, yn rhannol trwy ddarparu llety sydd o faint a math addas i ddarparu ar gyfer pob math o anghenion (gweler GN 13 Cymysgedd Tai, Safonau Gofod a gofynion ar gyfer Safonau Cartrefi Gydol Oes). Mae darparu Seilwaith Gwyrdd (gweler GN 45 Seilwaith Gwyrdd) a Chyfleusterau Cymunedol (gweler GN 29 Cyfleusterau Cymunedol) yn helpu i gyflawni'r buddion hyn hefyd.

4.6 Mae darparu tai fforddiadwy a mynediad priodol yn agweddau allweddol ar sut mae'r Cynllun yn gallu helpu i ddatblygu Cymru sy'n fwy cyfartal – mae buddion iechyd yn gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy hefyd.

4.7 Mae strategaeth y Cynllun, a'r Hierarchaeth Aneddiadau yn arbennig, yn allweddol i gefnogi cymunedau cydlynus, a bydd datblygiad sy'n cyd-fynd â'r Hierarchaeth Aneddiadau yn dangos ei fod yn cydymffurfio â maen prawf 5 y Polisi.

4.8 Bydd cefnogi'r iaith Gymraeg yn helpu i gefnogi Cymru â diwylliant bywiog a lle mae cymunedau Cymraeg byw, sy'n hyfyw yn economaidd, yn ffynnu.

4.9 Gellir mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mewn sawl ffordd wrth ymateb i Gymru sy'n cyflawni ei chyfrifoldebau fel Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddor datblygu a sicrhau bod egwyddorion effeithlonrwydd ynni, carbon isel a dylunio da yn cael eu bodloni. Bydd gofyniad y Cynllun i bob cartref ddarparu mannau gwefru Cerbydau Allyriadau Isel Iawn yn cyfrannu at fodloni'r polisi hwn hefyd (gweler GN 2 Dylunio Cynaliadwy).

## Lefelau Twf

### SP 2 Gofyniad Tai

Darperir ar gyfer oddeutu 6,425 o anheddau yn ystod cyfnod y Cynllun, i alluogi cyflawni 5,840 o anheddau (365 y flwyddyn).

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: D*

*Nodau Llesiant: Cymru sy’n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus.*

4.10 Mae’r strategaeth twf i ddarparu 5,840 o gartrefi newydd dros gyfnod y Cynllun 2017 i 2033 yn cyfateb i ddarparu 365 o anheddau newydd y flwyddyn. Mae lwfans hyblygrwydd o 10% wedi'i gymhwyso, gan gynyddu cyfanswm y ddarpariaeth i 6,425 o anheddau er mwyn cyflawni'r gofyniad. Mae’r senario twf wedi’i nodi drwy gymryd cyfartaledd y tri senario a ganlyn:

- Amcanestyniad Poblogaeth Hirdymor LIC 2018 sy'n rhagweld angen am 295 o anheddau'r flwyddyn;
- Cyfradd cwblhau gyfartalog 5 mlynedd dan arweiniad anheddau rhwng 2014/15 a 2018/19 o 413 o anheddau'r flwyddyn;
- Cyfradd cwblhau gyfartalog 10 mlynedd dan arweiniad anheddau rhwng 2009/10 a 2018/19 o 378 o anheddau'r flwyddyn.

4.11 Fel y trafodwyd yn y Strategaeth Ddewisol, roedd Rhanddeiliaid yn cefnogi ffigur uwch na rhagamcan Llywodraeth Cymru am y rhesymau canlynol:

- Mae modd ei gyflawni (yn unol â chyfraddau adeiladu hanesyddol). Mae tan-ddarparu 336 o anheddau’r flwyddyn dros chwe blynedd gyntaf y cynllun (2017 i Ebrill 2023) yn addasu’r gofyniad tai i 382 o anheddau’r flwyddyn dros y 10 mlynedd sy’n weddill o’r cynllun (Ebrill 2023 hyd at ddiwedd 2033).
- Mae’n adlewyrchu tueddiadau mudo tymor hwy, sy’n briodol o ystyried Cyfnod y Cynllun o 16 mlynedd a fydd yn ystyried ystod o dueddiadau economaidd.
- Bydd yn helpu i ddiwallu’r ôl-groniad sylweddol o ran yr angen am dai fforddiadwy a nodwyd yn yr Asesiad o’r Farchnad Dai Leol 2022 ac yn gwneud cyfraniad mwy nag opsiwn twf sydd wedi’i seilio ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn unig.
- Bydd yn cefnogi’r diwydiant adeiladu lleol a’r economi ehangach ac gwneud cyfraniad mwy nag opsiwn twf sydd wedi’i seilio ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn unig.
- Bydd yn darparu proffil mwy cytbwys o’r boblogaeth na’r hyn a ragfynegir yn sgil lefelau twf is.
- Mae’r strategaeth twf yn ystyried canllawiau ffosffadau Cyfoeth Naturiol Cymru (a gyhoeddwyd yn 2021 ac a ddiweddarwyd wedi hynny) sy’n cyfyngu ar ddatblygiad mewn rhannau o Sir Benfro ac yn cydnabod yr effeithiau posibl

ar yr Hinsawdd, ond ar lefel sy'n cyd-fynd â'r hyn a gyflawnwyd yn hanesyddol.

- Bydd yn ategu'r ddarpariaeth swyddi newydd a ragwelir yn ystod cyfnod y Cynllun, fel y cyfeirir ato ym mholisi SP5 ar Gefnogi Ffyniant.

4.12 Cyflwynir dadansoddiad manwlo'r gofyniad tai yn Niweddariad Rhagolygon Demograffig 2020 Sir Benfro. Sicrheir bod digon o dir preswyl ar gael i fodloni anghenion cymunedau yn y dyfodol am dai'r farchnad ac i gyfrannu at yr angen am dai fforddiadwy. Mae'r gofyniad anheddau'n cynnwys cyfradd eiddo gwag o 8.1%, sy'n cynnwys lwfans am gartrefi gwag, ail gartrefi a llety gwyliau.

4.13 Mae lwfans o 585 yn uwch na'r gofyniad tai ar gyfer 5,840 o gartrefi wedi'i amlygu er mwyn caniatáu ar gyfer dewis, hyblygrwydd ac adnewyddu'r stoc dai bresennol a safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio (gan ddod â'r gofyniad i fyny at 6,425 o gartrefi). Mae hyn yn cynrychioli lwfans ychwanegol o 10%.

4.14 Bydd cartrefi newydd yn cael eu datblygu'n bennaf ar dir a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer tai ac mewn lleoliadau cynaliadwy o fewn Ffiniau Aneddiadau diffiniedig, gan ofalu i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd graddfa a dosbarthiad datblygiadau tai yn Sir Benfro yn mynd i'r afael ag anghydbwysedd ym mhroffil oedran y boblogaeth, er enghraifft trwy gynorthwyo pobl ifanc i sefydlu aelwydydd newydd mewn pentrefi gwledig. Mae'r polisïau Cyffredinol yn cynnwys maen prawf i sicrhau bod cynigion yn darparu nifer briodol o ystafelloedd gwely, yn cyflawni dyluniad hyblyg, safonau gofod priodol a gofynion Cartrefi Gydol Oes, ac yn bodloni gofynion poblogaeth sy'n heneiddio.

**SP 3 Targed Tai Fforddiadwy**

Bydd y Cynllun yn darparu o leiaf 2000 o anheddau fforddiadwy newydd (125 y flwyddyn).

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: D, F.*

*Nodau Llesiant: Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru Iachach.*

4.15 Dylai pawb yn y Sir allu cael cartref o ansawdd da sy'n bodloni eu gofynion tai. Mae darparu dewis o dai sy'n fforddiadwy i'r boblogaeth leol yn allweddol i gyflawni hyn.

4.16 Mae'r targed hwn wedi'i seilio ar lefelau hanesyddol a disgwyliedig o ddarparu tai fforddiadwy yn hytrach na lefel yr angen. Mae'r angen am dai fforddiadwy yn Sir Benfro mor uchel fel yr ystyrir ei bod yn rhy fawr i osod targed realistig ar ei chyfer. Mae'r ffigur wedi'i seilio'n rhannol ar y lefel darparu hanesyddol, ond mae hefyd yn cydnabod y bydd Cyngor Sir Penfro yn adeiladu tai Cyngor am y tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd. Mae'r ffigur o 2000 o gartrefi fforddiadwy newydd a gyflwynir yn y polisi hwn yn trosi i 125 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn rhwng 2017 a 2033.

4.17 Mae angen llawer mwy o dai fforddiadwy yn Sir Benfro nag y gellir eu darparu trwy lefelau presennol Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Gall y system gynllunio, trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio, gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy ac mae'r ddarpariaeth hon, ochr yn ochr â'r ddarpariaeth trwy'r Grant Tai Cymdeithasol, yn arwain at y ffigur targed o 2000.

4.18 Mae'r Polisïau Cyffredinol yn cynnwys ymagweddau polisi sy'n amodi bod 100% o Dai Fforddiadwy yn cael eu darparu ar rai dyraniadau Tai lle mae'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio gan y Cyngor neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Mae GN 20 Tai Fforddiadwy i Ddiwallu Anghenion Lleol yn ceisio sicrhau bod tai fforddiadwy priodol ar gael ar bob safle tai marchnad newydd. Mae GN 21 Safleoedd Eithriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy Anghenion Lleol yn amlinellu'r ymagwedd bolisi o ran safleoedd eithriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy. Mae dulliau darparu trwy Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn cael eu cefnogi trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy yn ogystal â chan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chyngor Sir Penfro.

4.19 Mae'r Cyngor Sir wedi cynnal arfarniadau hyfywedd i sefydlu targedau (canrannol) dangosol i ddatblygwyr ddarparu tai fforddiadwy ar safleoedd allweddol wedi'u dyrannu, dros 40 o unedau mewn maint, a rhoddir gwybodaeth fanwl am dargedau yn GN 16 Dyraniadau Preswyl.

**SP 4 Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn**

Gwneir darpariaeth ar gyfer safleoedd a lleiniau newydd i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn drwy'r mesurau canlynol:

1. Dyrannu safleoedd a fydd yn cael eu hymestyn yn Chwarel y Castell, Penfro, Comin Kingsmoor, Begeli a Llwynhelyg, a safle newydd cyfagos i Faes Hamdden Cil-Maen

2. Darparu fframwaith i asesu cynigion ar gyfer safleoedd a lleiniau ychwanegol i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B, D.*

*Nodau Llesiant: Cymru Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynol.*

4.20 Mae gan Sir Benfro gymuned sefydledig o Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn. Mae'r Cyngor wedi asesu'r angen am safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn dros gyfnod y Cynllun hyd at ddiwedd 2033. Nododd yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2019 fod angen dybryd am 9 o leiniau preswyl newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2024. Mae GTAA 2019 yn amcangyfrif bod angen 30 o leiniau pellach rhwng 2025 a 2033, sef cyfanswm o 39 o leiniau erbyn 2033. Ers i'r GTAA gael ei baratoi yn 2019, mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 14 o leiniau Sipsiwn a Theithwyr (Ionawr 2024) ac mae'r angen ar hyn o bryd wedi'i ddiwallu. Daeth y GTAA i'r casgliad nad oes angen safle penodol ar gyfer Siewmyn Teithiol na safle tramwy. Yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, bydd y Cyngor yn cynnal GTAA newydd bob pum mlynedd, a disgwylir i waith ar GTAA newydd ddechrau yn 2024.

Tabl 2 Angen Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn dros Gyfnod y Cynllun (wedi'i selio ar gymerwyd o GTAA 2019, gyda diweddariadau)

| **Math / Lleoliad yr Angen** | **2019-2024** | **2025-2033** | **Cyfanswm yr Angen yng Nghyfnod y CDLl** | **Dyraniad sydd ei angen yn y CDLl?** |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl | 9 llain<br>Ers 2019, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 14 llain. Bodlonwyd yr angen ar hyn o bryd. | 30 llain<br>Ers 2019, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 14 llain, ac mae 9 llain yn bodloni'r angen uniongyrchol | 39 llain<br>Ers 2019, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 14 llain, felly mae cyfanswm yr angen wedi gostwng i 25 | Oes<br>Neilltuir tir ar gyfer estyniadau i safle yn Chwarel y Castell, Penfro ar gyfer cynnydd net o 4 llain, Comin |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ar hyn o bryd a gellir lleihau'r angen tymor hwy o 5 llain. | o leiniau. | Kingsmoor, Begeli ar gyfer cynnydd net o 11 llain Llwynhelyg ar gyfer cynnydd net o 20 llain a hefyd ar safle newydd cyfagos i Faes Hamdden Cil-Maen ar gyfer 20 llain |
| Siewmyn Teithiol | 0 llain | 0 llain | 0 llain | Nac oes |
| Lleiniau Tramwy | 0 llain | 0 llain | 0 llain | Na |
| Cyfanswm y lleiniau sydd eu hangen yn ystod cyfnod y CDLl | Bodlonwyd yr angen dybryd am 9 o leiniau preswyl, ynghyd â 5 llain arall (hyd at Ionawr 2024). | Mae 39 o leiniau wedi gostwng i 18 o leiniau (2025-2033).<br>Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 5 llain ychwanegol a thir wedi'i ddyrannu ar gyfer 19 llain. | Mae 46 o leiniau preswyl wedi gostwng i 18 o leiniau.<br>Mae caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer 14 llain a thir wedi ei glustnodi ar gyfer 19 llain.<br>0 o leiniau ar gyfer Siewmyn Teithiol<br>0 o Leiniau Tramwy | Dyraniadau ar gyfer estyniadau i safleoedd yn Chwarel y Castell Penfro ar gyfer cynnydd net o 4 llain, Comin Kingsmoor, Begeli ar gyfer cynnydd net o 11 llain a Llwynhelyg am gynnydd net o 20 llain a hefyd ar safle newydd cyfagos i Faes Hamdden Cil-Maen ar gyfer 20 llain |

Noder: Bodlonwyd yr angen cyn 2019.

4.21 Mae Polisi GN 24 ‘Dyraniadau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' yn nodi pedwar safle i lleoliad ar gyfer estyniadau i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr presennol a allai ddarparu enillion net o 55 llain awdurdod lleol ychwanegol. Mae Polisi GN 25 'Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn' yn darparu polisi sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion ar gyfer safleoedd neu leiniau newydd drwy gydol cyfnod y Cynllun. Mae gan Gyngor Sir Penfro hanes cryf iawn o gymeradwyo lleiniau preifat.

4.22 Mae GTAA 2019 yn nodi bod 55 o leiniau wedi cael caniatâd cynllunio yn Sir Benfro ers cynhyrchu’r GTAA cyntaf yn 2010, ac o’r rhain, roedd 40 ar safleoedd preifat.

4.23 Ers i GTAA 2019 gael ei baratoi, mae caniatâd cynllunio wedi’i roi ar gyfer 14 llain breifat arall, fel ar Ionawr 2024. Mae’r Cyngor felly’n hyderus bod polisi sy’n seiliedig ar feini prawf yn fecanwaith effeithiol ar gyfer diwallu angen. Bydd gofynion y dyfodol ar gyfer lleiniau a'r nifer sy'n manteisio arnynt yn cael eu monitro'n agos gan ystyried y GTAA, gan ddefnyddio'r fframwaith monitro a'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Bydd dangosydd monitro yn gofyn am adolygiad cynnar o’r Cynllun os nad yw lleiniau’n cael eu darparu er mwyn cwrdd â’r angen ar y pryd a nodwyd yn y GTAA.

**SP 5 Cefnogi Ffyniant**

Yn seiliedig ar ragfynegi economaidd, bydd y Cynllun yn helpu i ddarparu amcangyfrif o 1,970 o swyddi ledled Sir Benfro i gefnogi ffyniant a thwf economaidd. I alluogi hyn i ddigwydd, mae 164,91 hectar o dir cyflogaeth yn cael ei ddyrannu ar draws ardal y Cynllun. (nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y safleoedd cyflogaeth presennol a ddiogelir gan bolisi SP 15). Yn ogystal â hyn, mae llwyddiant diweddar cais y Porthladd Rhydd Celtaidd yn golygu y disgwylir y bydd rhagor o dwf mewn swyddi yn ychwanegol at yr hyn a seiliwyd ar ragolygon economaidd blaenorol. Yn ystod cyfnod y Cynllun, rhagwelir y gallai 1,000 o swyddi pellach (uwchlaw'r 1,970 a ragwelwyd eisoes) gael eu sicrhau, er bod cynigion y Porthladd Rhydd ar hyn o bryd ar gam rhy gynnar yn eu datblygiad i roi amcangyfrif mwy cywir, neu i wahaniaethu rhwng swyddi adeiladu a rhai yn ystod y cam gweithredol.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar a Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion C, E ac I.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru sy'n Fwy Cyfartal.*

4.24 Mae rhagolygon economaidd yn dangos y potensial i economi Sir Benfro ddarparu 1.970 o swyddi rhwng 2017 a 2033. Amlygwyd y ffigur hwn yn seiliedig ar dystiolaeth o alw rhagamcanol gan Experian Goad wedi'u haddasu i ystyried newidiadau ers 2018 (yn arbennig rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig a ffigur is o ran darparu ar gyfer cyfnod y Cynllun).[21] Cynyddodd y swyddi rhagamcanol i'r gweithlu a nodir yn y Papur Cefndir am Dueddiadau Cyflogaeth Lleol yn 2018 o 62,200 yn 2017 (dyddiad sylfaen y Cynllun) i 64,400 yn 2033, sef cynnydd o 2,200. Mae'r ffigur hwn wedi'i ostwng i 1,970, i adlewyrchu'r rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd wedi'u diweddaru sydd bellach ar gael, sydd hefyd wedi arwain at ostwng y ffigur o dai i'w dyrannu o 425 y flwyddyn i 365 y flwyddyn ar gyfer Cynllun Adneuo 2 CDLl 2.

4.25 Mae'r polisi yn cyfeirio at lwyddiant diweddar cais y Porthladd Rhydd Celtaidd a'r rhagolygon y bydd twf pellach yn nifer y swyddi a grëir yn deillio o hyn. Megis dechrau cael eu datblygu y mae'r cynigion sy'n gysylltiedig â hyn ar hyn o bryd, ond y disgwyl yw y bydd 16,000 o swyddi'n cael eu creu ar draws gwahanol safleoedd y Porthladd Rhydd yn Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot yn y cyfnod hyd at 2050. Yn amlwg, bydd y rhain yn cael eu lledaenu ar draws y ddwy Sir a byddant yn cael eu darparu yn rhannol, y tu allan i gyfnod Cynllun CDLl 2. Mae addasiad pro-rata o'r 16,000 o swyddi ar gyfer y cyfnod 2023-2033 yn rhoi ffigur o 5,926 o swyddi ac os tybir bod rhaniad cyfartal rhwng Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot, mae hynny'n cyfateb i 2,963 o swyddi yr un. Mae'r ffigur hwnnw tua 1,000 o swyddi yn fwy na

[21] Gweler Papur Cefndir Tueddiadau Cyflogaeth Lleol (Rhagfyr 2018) https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth - ond gan nodi bod rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd wedi'u diweddaru wedi'u cyhoeddi ers i hwn gael ei baratoi.

rhagolwg economaidd CDLl 2 o 1,970 o swyddi. Bydd rhai o'r 1,970 yn rhan o gynigion y Porthladd Rhydd, ac eraill ddim. Felly mae'r cynnydd o 1,000 o swyddi uwchlaw'r 1,970 o swyddi a ragwelwyd eisoes ar gyfer cyfnod y Cynllun yn debygol o fod yn isafswm a gallai fod yn uwch. Mae ansicrwydd mawr hefyd ynghylch agweddau adeiladu a chyfnod gweithredu swyddi'r Porthladd Rhydd, gyda thebygolrwydd y byddai'r cyntaf yn swyddi dros dro ond y gallent fod yn sylweddol uwch na'r swyddi cyfnod gweithredol tymor hwy.

4.26 Bydd y CDLl yn helpu i gyflawni hyn trwy amrywiaeth o ddulliau polisi. Un ffordd allweddol o ganiatáu i hyn ddigwydd yw trwy ddyrannu tir cyflogaeth yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8, gan gydnabod y bydd trosiant ar safleoedd cyflogaeth presennol yn dylanwadu ar faint o ddarpariaeth newydd a gyflawnir yn y pen draw hefyd.

4.27 Mae Astudiaeth Economaidd o Ddwy Sir (2019) wedi cael ei chynhyrchu i lywio'r broses o ddyrannu safleoedd strategol yn y Cynllun (gweler SP 14 Darparu Tir Cyflogaeth). Bydd polisïau strategol ar Ddatblygiadau Porthladd a Chysylltiedig ag Ynni (SP 13), Hierarchaeth Manwerthu (SP 16), yr Economi Ymwelwyr (SP 17), Mwynau heb fod yn ymwneud ag Ynni (SP 18) ac Atal a Rheoli Gwastraff (SP 21) hefyd yn helpu i gyflawni ffigur swyddi cyffredinol y Cynllun hwn hefyd. Diweddarwyd Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir yn 2021, ond nid yw wedi'i diwygio ymhellach i adlewyrchu llwyddiant diweddar cais y Porthladd Rhydd Celtaidd. Nid oes digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i fod yn sicr a fydd y Porthladd Rhydd yn arwain at nodi safleoedd diwydiannol mawr pellach, yn enwedig ar hyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd defnydd yn cael ei wneud o dir sydd eisoes o fewn ardaloedd safleoedd gweithredol safleoedd diwydiannol mawr presennol, ond ni ellir diystyru'r posibilrwydd o safleoedd newydd neu safleoedd presennol yn cael eu hymestyn yn y cyfnod cynnar hwn.

4.28 Bydd ymagweddau polisi cyffredinol yn y Cynllun yn cefnogi safleoedd cyflogaeth lleol, gweithio o gartref ac arallgyfeirio gwledig.

4.29 O ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â'r economi yn sgil ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd, mae'n hollbwysig bod y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn cael ei greu yn rhannol gan bolisïau seiliedig ar feini prawf a fydd yn galluogi ceisiadau ar safleoedd y tu allan i ddyraniadau i gael eu hystyried.

## Strategaeth Ofodol

### SP 6 – Hierarchaeth Aneddiadau – Strategaeth Aneddiadau Cynaliadwy

Mae hierarchaeth aneddiadau wedi cael ei diffinio ar sail nodweddion swyddogaethol ac i ba raddau y mae gwasanaethau a chyfleusterau ar gael (gan gynnwys trafnidiaeth gynaliadwy), gan ystyried hefyd faint a chymeriad adeiledig presennol anheddiad. Mae'r hierarchaeth fel a ganlyn:

1. Aneddiadau Trefol

Ardaloedd Twf Rhanbarthol a amlygwyd yn Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru)

**Hwlffordd**
**Aberdaugleddau**
**Doc Penfro**
**Penfro**

Aneddiadau trefol eraill:
**Abergwaun**
**Wdig**
**Neyland**
**Arberth**

2. Aneddiadau Gwledig

2a Canolfannau Gwasanaeth:

| | | |
|---|---|---|
| **Cilgerran** | **Crymych** | **Johnston** |
| **Cilgeti** | **Llandyfái** | **Treletert** |
| **Llangwm** | **Llandudoch** | **Hendy-gwyn** |

2b Pentrefi Gwasanaeth:

| | | |
|---|---|---|
| **Begeli** | **Blaenffos** | **Boncath** |
| **Broadmoor** | **Caeriw / Sageston** | **Clarbeston Road** |
| **Clunderwen** | **Cosheston** | **Croesgoch** |
| **Cryndal** | **Eglwyswrw** | **Freystrop** |
| **Hermon** | **Hill Mountain** | **Hook** |
| **Houghton** | **Hundleton** | **Jeffreyston** |
| **Keeston** | **Llanddewi Efelffre** | **Llandysilio** |
| **Llanstadwell** | **Llanteg / Llanteglos** | **Maenclochog** |
| **Mathri** | **Milton** | **New Hedges** |
| **Penalun** | **Pentlepoir** | **Cas-mael** |
| **Llangwathen** | **Y Garn** | **Rhosfarced** |
| **Scleddau** | **Simpson Cross** | **Spittal** |
| **Y Sgwar** | **St Florence** | **Summerhill** |
| **Tafarn Ysbyty** | **Tegryn** | **Tredeml** |
| **Tiers Cross** | **Cas-Blaidd** | |

2d Pentrefi Gwasanaeth:

| | | |
|---|---|---|
| **Abercych** | **Treamlod** | **Barnlake*** |
| **Bryngwyn/Briscwm** | **Burton*** | **Burton Ferry*** |
| **Bwlchygroes** | **Camros*** | **Casmorys*** |
| **Cold Blow** | **Cresselly*** | **Cuffern** |
| **Deerland*** | **East Williamston*** | **Ffos Las (Trecwn)** |
| **Glandwr** | **Golden Hill** | **Croes Cas-lai** |
| **Lampeter Velfrey** | **Leachpool** | **Little Honeyborough** |
| **Casnewydd-bach*** | **Llandeloy** | **Llanfyrnach** |
| **Llangolman** | **Llanrhian*** | **Llawhaden** |
| **Llwyncelyn** | **Lower Freystrop*** | **Ludchurch** |
| **Maddox Moor*** | **Maidenwells*** | **Martletwy** |
| **Mascle Bridge*** | **Capel Newydd** | **New Inn** |
| **Panteg** | **Pelcomb Cross** | **Pen-y-Bryn*** |
| **Penygroes villas** | **Penycwm** | **Pleasant Valley*** |
| **Pont-yr-Hafod** | **Portfield Gate** | **Postgwyn*** |
| **Poyston Cross** | **Princes Gate** | **Redberth*** |
| **Reynalton** | **Rhoshill** | **Sardis*** |
| **Slade Cross*** | **Slade Villas*** | **Stepaside** |
| **Tremarchog** | **Eglwys Winnio** | **Thornton*** |
| **Trecwn** | **Treffgarn** | **Treffynnon** |
| **Trefgarn Owen** | **Upper Nash** | **Uzmaston** |
| **Walton East** | **Waterston*** | **Wiseman's Bridge*** |
| **Cas-Wis** | **Wolfsdale** | **Woodstock** |

Nodir pentrefi clwstwr gydag * (gweler polisi SP 10)

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar a Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, D, F a J.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru sy'n Fwy Cyfrifol yn fyd-eang.*

4.30 Mae'r Hierarchaeth Aneddiadau wedi cael ei datblygu ar sail dadansoddi a phwysoli gwasanaethau a chyfleusterau o fewn aneddiadau, a bydd yn cael ei defnyddio fel Strategaeth Aneddiadau'r Cynllun. Mae'r Strategaeth Aneddiadau'n cyfeirio'r rhan fwyaf o dwf at yr aneddiadau hynny sydd â'r nifer fwyaf o gyfleusterau presennol. Felly, bydd datblygiad yn gymesur â maint anheddiad, ei swyddogaeth a'i gymeriad, ac wedi'i seilio ar y gwasanaethau presennol a ddarperir. Amlygwyd Hwlffordd, Aberdaugleddau, Doc Penfro, Penfro, Abergwaun, Wdig, Neyland ac Arberth yn Aneddiadau Trefol (Prif Drefi â chymeriad trefol). Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg sydd wrth wraidd yr Hierarchaeth Aneddiadau wedi'i chyhoeddi yn rhan o sylfaen dystiolaeth y Cynllun (Astudiaeth Cyfleusterau Trefol 2019 ac Astudiaeth Cyfleusterau Gwledig 2019 - www.pembrokeshire.gov.uk/local-development-plan-review).

4.31 Mae'r matrics canlynol yn dangos y mannau lle mae rhai mathau o ddatblygiadau'n debygol o gael eu derbyn, ac yn dangos bod y Cynllun hwn yn darparu cyfleoedd ar gyfer ystod o ddatblygiadau a defnyddiau tir ar bob lefel o'r hierarchaeth.

| Polisi | Aneddiadau Trefol | Tref Wledig | Canolfannau Gwasanaeth | Pentrefi Gwasanaeth | Pentrefi Lleol |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniadau Tai | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Hap-safleoedd tai i'r farchnad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Safleoedd eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dyraniadau Cyflogaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Safleoedd cyflogaeth trwy bolisïau seiliedig ar feini prawf | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyfleusterau cymunedol – o fewn aneddiadau neu'n cydweddu'n dda ag aneddiadau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**SP 7 Ffiniau Aneddiadau**

Dangosir Ffiniau Aneddiadau ar gyfer pob anheddiad ac maen nhw'n diffinio'r ardaloedd lle y gallai cyfleoedd datblygu fod yn briodol. Mewn Aneddiadau Trefol, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth, mae Ffiniau Aneddiadau'n diffinio graddau ffisegol, swyddogaethol a gweledol yr anheddiad ac yn ystyried dyraniadau arfaethedig. Mae Ffiniau Aneddiadau Pentrefi Lleol wedi'u diffinio'n dynnach, gan gyfyngu ar gyfleoedd i fewnlenwi a thalgrynnu ar raddfa fach, er bod mwy o gyfleoedd yn bodoli ar gyfer datblygu mewn Pentrefi Lleol Clwstwr.

Ystyrir bod lleoliadau eraill y tu allan i Ffiniau Aneddiadau yn lleoliadau Cefn Gwlad at ddibenion cynllunio defnydd tir**.**

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar a Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd, Diogelu ein Hamgylchedd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, D, G a J.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru o Gymunedau Cydlynol, Cymru Iachach, Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.*

4.32 Mae Ffiniau Aneddiadau yn sicrhau bod datblygiad yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei warchod. Y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ddatblygiadau yw o fewn Ffin Anheddiad, er y bydd cyfiawnhad dros leoliad ar gyrion anheddiad neu yng nghefn gwlad mewn rhai achosion. Mae'r Polisïau Cyffredinol yn egluro'r lleoliadau yr ystyrir eu bod yn dderbyniol ar gyfer defnyddiau tir penodol, gan gynnwys amgylchiadau eithriadol lle y caiff datblygiad ddigwydd y tu allan i Ffin Anheddiad ac yn gyfagos iddi.

### SP 8 Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac Aneddiadau Trefol

O fewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac aneddiadau trefol eraill, bydd datblygiad yn cefnogi cymunedau cynaliadwy, perthnasoedd cyflenwol rhwng trefi twf, creu lleoedd a llesiant trwy sicrhau:

1. Hygyrchedd trwy amrywiaeth o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy;
2. Llety o ansawdd uchel sy'n cefnogi amrywiaeth o fewn y farchnad breswyl, mynediad at wasanaethau presennol ac arfaethedig ac anghenion tai cymunedau;
3. Cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau masnachol, manwerthu, cyflogaeth, twristiaeth, hamdden, adloniadol, seilwaith gwyrdd a chymunedol newydd.

Yn eithriadol, gall defnyddiau tir priodol sy'n cydweddu'n dda â'r Ffin Anheddiad ddigwydd ar yr amod eu bod yn bodloni'r ystyriaeth bolisi hon a'r holl ystyriaethau polisi eraill, gan gynnwys cydnawsedd â Fframweithiau Adfywio.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd, Diogelu ein Hamgylchedd*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B,C,D,G, H, I, J*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus*

4.33 Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi Hwlffordd, Aberdaugleddau, Doc Penfro a Phenfro fel Ardaloedd Twf Rhanbarthol, ynghyd ag Abergwaun fel porth strategol ar gyfer symud rhyngwladol (lleolir Harbwr Abergwaun yn Wdig). Mae Neyland yn anheddiad trefol arall, wedi'i leoli'n agos at Aberdaugleddau a Doc Penfro, tra bo tref Arberth yn gwasanaethu cefnwlad wledig fawr ar ochr ddwyreiniol Sir Benfro. Cyfeirir cyfran sylweddol o ddatblygiad preswyl at yr ardaloedd trefol, gan ganolbwyntio ar yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac Abergwaun, Wdig, Neyland ac Arberth. Bydd yr ardaloedd hyn cael eu cefnogi gan ddyraniadau cyflogaeth y Cynllun, a dyraniadau ar gyfer defnyddiau tir eraill i sicrhau eu rôl barhaus fel canolfannau gweithgaredd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Gwneir Dyraniadau Tai yn yr aneddiadau hyn yn ôl eu safleoedd o fewn yr hierarchaeth aneddiadau fel y nodir ym mhapurau cefndir yr Aneddiadau Trefol a'r Aneddiadau Gwledig.

4.34 Mae Ffiniau Aneddiadau wedi'u hamlygu ar gyfer yr holl Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac aneddiadau trefol eraill sy'n dangos yr ardaloedd lle y ceir rhagdybiaeth o blaid datblygu, yn amodol ar fodloni'r holl ystyriaethau polisi eraill. Er y gallai rhai defnyddiau fod yn dderbyniol lle maen nhw'n cydweddu'n dda â Ffin Anheddiad, mae ardaloedd y tu allan i'r Ffiniau Aneddiadau yn cael eu hystyried yn gefn gwlad at ddibenion cynllunio defnydd tir.

4.35 Mae adfywio canol trefi yn flaenoriaeth allweddol ac mae Prif Gynlluniau / Fframweithiau Adfywio yn cael eu datblygu ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Twf

Rhanbarthol i'w helpu a'u galluogi i adfywio. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r weledigaeth fras ar gyfer y prif ardaloedd trefol.

**Hwlffordd**

4.36 Mae Hwlffordd yn Ardal Twf Rhanbarthol ac yn dref Sirol Sir Benfro. Mae wedi'i lleoli yng nghanol y Sir ac mae ganddi gysylltiadau ffyrdd da â phob rhan o Sir Benfro a chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd cryf â gweddill de a gorllewin Cymru a thu hwnt. Hwlffordd yw prif ganolfan weinyddol Sir Benfro ac mae ganddi ddarpariaeth Addysg Uwch a gofal iechyd arwyddocaol. Bydd rôl Hwlffordd fel Canolfan is-ranbarthol yn datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun yn sgil twf yn y boblogaeth, cyfleoedd cyflogaeth a mentrau treftadaeth ac adfywio ar gyfer canol y dref. Bydd dyraniadau tai yn Hwlffordd yn cyfrannu at fodloni gofynion tai'r Cynllun. Bydd tir yn cael ei ddyrannu at ddibenion cyflogaeth mewn lleoliadau amrywiol ar draws y dref, gyda chyfleoedd strategol arwyddocaol yng Nghlwstwr Llwynhelyg[22]. Mae cyfle'n bodoli i ddatblygu'r potensial sy'n gysylltiedig â'r sector bwyd-amaeth yn yr ardal hon. Mae canol tref Hwlffordd wedi'i chyfyngu gan berygl llifogydd a thopograffeg, ond paratowyd uwchgynllun adfywio yn 2016, o'r enw 'Hwlffordd – Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol' ac mae hwn yn amlygu'r cyfleoedd i adfywio ac adeiladu ar gryfderau canol y dref.

**Aberdaugleddau**

4.37Mae Aberdaugleddau yn Ardal Twf Rhanbarthol yn Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 gyda Dyfrffordd y Ddau Gleddau hefyd yn cael ei chydnabod fel ased cenedlaethol o bwys ac yn borth rhyngwladol ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr. Dyma bumed porthladd prysuraf y DU ac mae'n chwarae rôl is-ranbarthol bwysig o ran darparu swyddi a gwasanaethau hamdden a manwerthu, addysg ac iechyd. Mae agosrwydd a natur patrymau byw a gweithio yn yr ardal yn cael eu hatgyfnerthu gan seilwaith cysylltedd ac, yn arbennig, mae nifer y safleoedd cyflogaeth mawr sy'n gysylltiedig ag ynni ger Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae Aberdaugleddau yn ganol tref ac iddo ddalgylch cyfyngedig. Bydd canol y dref yn cael ei gyfnerthu a bydd cysylltiadau gwell yn cael eu datblygu ag ardal y marina sy'n darparu cysylltiadau cryf â Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu'r diwydiannau hamdden, twristiaeth a physgota.

4.38 Mae'r Ddyfrffordd yn borth blaenllaw i longau yn y DU ac felly mae safleoedd cyflogaeth strategol wedi cael eu dyrannu mewn safleoedd heb eu datblygu gerllaw Dyfrffordd y Ddau Gleddau sydd â mynediad at ddŵr dwfn, lle y gallai llongau dŵr dwfn angori. Mae safleoedd cyflogaeth arwyddocaol presennol o natur strategol wedi cael eu hamlygu hefyd.

[22] Gweler Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir

**Doc Penfro**

4.39 Mae Doc Penfro yn cael ei gydnabod yn Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 – fel rhan o Ddyfrfford bwysig y Ddau Gleddau, ased cenedlaethol o bwys. Mae'n Ardal Twf Rhanbarthol ac mae hefyd yn ganolfan wasanaeth, cyflogaeth a manwerthu allweddol yn ne Sir Benfro. Mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau canol y dref trwy ailddatblygu detholus, a allai wella'r amgylchedd a chynyddu'r cyfle ar gyfer unedau manwerthu mwy o faint. Mae'r porthladd yn Noc Penfro yn cysylltu'r ardal â masnach ryngwladol ac mae'n datblygu fel canolfan ragoriaeth ar gyfer gweithgarwch cyflogaeth sy'n gysylltiedig â pheirianneg forol ac ynni adnewyddadwy. Mae safleoedd cyflogaeth strategol sy'n ychwanegu at y cyfleoedd a gyflwynir gan y Porthladd a'r sector peirianneg forol wedi cael eu hamlygu yn y Cynllun.

**Penfro**

4.40 Bydd tref hanesyddol Penfro yn Ardal Twf Rhanbarthol hefyd a bydd yn elwa o ddatblygiadau sy'n cryfhau cadwraeth ei threftadaeth adeiledig a naturiol drawiadol ymhellach. Mae'n gyrchfan bwysig i dwristiaid, yn ogystal â chanol tref sydd â chynnig manwerthu a gwasanaeth arwyddocaol.

**Abergwaun ac Wdig**

4.41 Mae Porthladd Abergwaun a leolir ger Tref Wdig , yn cael ei gydnabod yn Cymru'r Dyfodol fel porth strategol ar gyfer cysylltedd rhyngwladol yng Nghymru, gan gludo teithwyr a nwyddau a chysylltu tir mawr Ewrop, y DU a Chymru ag Iwerddon. Mae'n lleoliad cysgodol ardderchog ar gyfer gwasanaeth fferi Môr Iwerddon i ac o Iwerddon, ac ar gyfer croesawu llongau mordaith, gyda chysylltiadau da â'r rhwydwaith Cefnffyrdd ac â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Mae Abergwaun ac Wdig hefyd yn cyflawni rôl wasanaeth bwysig ar gyfer gogledd Sir Benfro, gyda gwelliannau diweddar i symudiadau traffig a hygyrchedd yng nghanol y dref, ond byddent yn elwa o fuddsoddiad pellach i wella eu darpariaethau manwerthu a gwasanaeth a lleihau'r angen i breswylwyr deithio i ardaloedd eraill i weithio a siopa.

**Neyland**

4.42 Mae Neyland yn darparu gwasanaethau mwy cyfyngedig na'r aneddiadau trefol eraill o amgylch Dyfrffordd y Ddau Gleddau, ond mae'n darparu gwasanaethau lleol pwysig ar gyfer ei chymuned. Mae'n elwa o farina a safle cyflogaeth lleol yn Honeyborough.

**Arberth**

4.43 Mae Arberth yn dref farchnad wledig ddeniadol yn nwyrain Sir Benfro gyda chynnig manwerthu arbenigol sy'n denu ymwelwyr o ddalgylch eang. Dylai datblygiad yn Arberth gynnal atyniad y profiad o fyw yn y dref farchnad ac ymweld â hi. Bydd datblygiadau preswyl yn ystod cyfnod y Cynllun yn cynnwys dyraniadau ar gyfer ystod o wahanol fathau o dai. Mae angen darpariaeth

cyflogaeth i gefnogi'r gymuned gynaliadwy hon. Er bod gollyngiadau wedi’u trin o Waith Trin Dŵr Gwastraff Arberth i’r rhan lanw o afon Cleddau Ddwyreiniol, mae yna orlif storm i lednant nad yw'n llanw ac felly mae angen ystyried goblygiadau canllawiau Ffosffadau CNC mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol.

### SP 9 Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth

Yn yr amrywiol Ganolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth, bydd datblygiad yn annog cymunedau cynaliadwy, economi wledig ffyniannus, creu lleoedd a llesiant trwy sicrhau:

1. Bod datblygiad ar raddfa ac o natur sy'n briodol i'r anheddiad;
2. Bod llety o ansawdd uchel ar ffurf deiliadaeth(au) sy'n briodol i anghenion tai'r gymuned;
3. Bod cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau masnachol, cyflogaeth, manwerthu, twristiaeth, hamdden, adloniadol, mannau agored, seilwaith gwyrdd a chymunedol newydd sy'n hygyrch ac yn gwasanaethu'r gymuned leol.

Yn eithriadol, gall defnyddiau tir priodol sy'n cydweddu'n dda â'r Ffin Anheddiad ddigwydd ar yr amod eu bod yn bodloni'r ystyriaeth bolisi hon a'r holl ystyriaethau polisi eraill.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd, Diogelu ein Hamgylchedd*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B,C,D,G,H,I, J*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus*

4.44 Dosberthir aneddiadau yn yr ardal wledig yn ôl hierarchaeth aneddiadau, yn seiliedig ar dystiolaeth o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr aneddiadau hynny a'u potensial i ymdopi â datblygiad ychwanegol. Ystyrir bod y rhai sydd ag ystod dda o wasanaethau yn lleoliadau mwy cynaliadwy ar gyfer datblygu ac fe'u dosberthir yn unol â hynny yn yr Hierarchaeth Aneddiadau bresennol.

4.45 Mae'r Hierarchaeth Aneddiadau yn cydnabod ei bod yn fwyfwy anodd cadw gwasanaethau'n hyfyw mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n ceisio cefnogi datblygiad yn yr aneddiadau hynny lle mae gwasanaethau'n fwyaf tebygol o aros yn hyfyw yn y tymor canolig i hir. Cefnogir dyraniadau ar gyfer datblygiad tai i fodloni anghenion y gymuned, a chyfleusterau cyflogaeth, manwerthu a chymunedol newydd sy'n helpu i gynnal cymunedau gwledig, a chynyddu ffyniant economaidd.

4.46 Mae Hierarchaeth Aneddiadau Sir Benfro yn diffinio Tref Wledig Arberth, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth fel lleoliadau lle mae ystod o ddefnyddiau tir yn briodol, ac sy'n darparu ar gyfer llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol. Gall rhai defnyddiau ddigwydd lle mae cynnig yn cydweddu'n dda â Ffin Anheddiad, er enghraifft rhai mathau o gynigion cyflogaeth a thai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig.

4.47 Mae Cymru'r Dyfodol yn amlygu pwysigrwydd cefnogi ardaloedd gwledig, sicrhau twf economaidd a thai sydd yn eu tro yn cefnogi a chadw poblogaeth o oedran gwaith ac yn gallu ailfywiogi a chynnal canolfannau a chymunedau llai trwy'r economi sylfaenol.

4.48 Mae ymagwedd y Cynllun hwn yn cydnabod y gallai sicrhau twf mewn cymunedau gwledig cynaliadwy helpu i ddarparu digon o alw i allu cadw cyfleusterau mewn aneddiadau gwledig. Mae cyfeirio tai tuag at aneddiadau sy'n gryf o ran darparu gwasanaethau, neu aneddiadau clwstwr sy'n rhannu darpariaeth gwasanaethau yn lleihau'r angen i breswylwyr deithio hefyd, yn lleihau'r angen i drigolion deithio ac yn annog teithio trwy ddulliau eraill megis cerdded neu feicio.

4.49 Mae rhai o'r Canolfannau Gwasanaeth a'r Pentrefi Gwasanaeth yn cael eu heffeithio gan broblem llygredd ffosffadau yn y rhannau di-lanw o ddalgylchoedd afonydd Cleddau a Theifi, er bod ffyrdd yn cael eu darganfod i ganiatáu datblygiad yn y dyfodol.

**Canolfannau Gwasanaeth**

4.50 Mae naw anheddiad wedi'u nodi yn yr Hierarchaeth Aneddiadau fel Canolfannau Gwasanaethau: Cilgerran, Crymych, Johnston, Cilgeti, Llandyfai, Treletert, Llangwm, Llandudoch a Hendy-gwyn ar Daf. Y Weledigaeth ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau yw eu bod yn atgyfnerthu ac yn datblygu eu rolau fel lleoedd lle darperir ystod a dewis da o wasanaethau, eu bod yn hygyrch i'w poblogaeth eu hunain a chefnwlad wledig ehangach, ac yn lleihau'r angen i'r boblogaeth wledig deithio i Aneddiadau Trefol at bob pwrpas manwerthu, hamdden a chyflogaeth. Mae gan y Canolfannau Gwasanaethau gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ardderchog ac maent yn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiad yng nghefn gwlad Sir Benfro. Nodir dyraniadau tai, cyflogaeth neu ddefnydd cymysg a chyfleusterau cymunedol lle bônt yn briodol ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau. Mae Cilgerran a Threletert yn cael eu heffeithio gan broblemau llygredd ffosffadau er bod ffyrdd yn cael eu darganfod i ganiatáu datblygiad yn y dyfodol. Effeithir ar ddatblygiad yn Llandudoch gan broblemau gweithredol yng ngwaith trin dŵr gwastraff Aberteifi, y bwriedir eu datrys yn 2027. Mae Hendy-gwyn ar Daf wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin yn bennaf, ond mae darn bach o ddatblygiad yn ymestyn i Sir Benfro. Mae dosbarthiad y Ganolfan Gwasanaethau yn adlewyrchiad o'r anheddiad yn ei gyfanrwydd, er bod y rhan fwyaf o elfennau rheolaeth gynllunio yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyfagos.

**Pentrefi Gwasanaeth**

4.51 Mae 44 o bentrefi wedi'u diffinio yn y categori hwn o'r Hierarchaeth Aneddiadau. Mae pob pentref yn cynnig gwasanaethau a chyfleusterau da i fodloni anghenion dydd i ddydd ei boblogaeth, ond yn cyflawni rôl fwy cyfyngedig i'r boblogaeth ehangach. Lle mae safleoedd priodol ar gael, bydd dyraniadau tai ar gyfer tai i'r farchnad a thai fforddiadwy yn cael eu hamlygu mewn Pentrefi Gwasanaeth, a bydd yr union nifer ar gyfer pob pentref yn amrywio yn ôl ei leoliad, y gwasanaethau a ddarperir a'i gapasiti i ymdopi â datblygiad. Anogir cynigion i ddatblygu ac ehangu safleoedd cyflogaeth mewn Pentrefi Gwasanaeth, fel modd o leihau'r angen i bobl deithio'n bell i weithio mewn trefi. Mae llygredd ffosffadau yn effeithio ar rai o'r Pentrefi

Gwasanaeth, er fel y nodwyd uchod, mae ffyrdd yn cael eu darganfod nawr i ganiatáu datblygiad yn y dyfodol.

### SP 10 Pentrefi Lleol

Mewn Pentrefi Lleol, bydd datblygiad yn cefnogi ac yn annog cymunedau cynaliadwy, creu lleoedd a llesiant cymunedau lleol trwy sicrhau

1. Datblygiadau ar raddfa ac o natur yr amlygwyd eu bod yn briodol i'r pentref neu'r pentref clwstwr
2. Llety o ansawdd uchel ar ffurf deiliadaeth(au) sy'n briodol i anghenion tai'r gymuned
3. Cyflogaeth neu fenter a fyddai'n cefnogi'r economi wledig
4. Ei fod yn darparu cyfleuster adloniadol, man agored, hamdden, seilwaith gwyrdd neu gyfleuster cymunedol sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac sydd o fewn Ffin yr Anheddiad neu'n cydweddu'n dda â hi

Dyma'r Pentrefi Clwstwr a amlygwyd:

| | | |
|---|---|---|
| **Barnlake** | **Burton** | **Burton Ferry** |
| **Camros** | **Casmorys** | **Creseli** |
| **Deerland** | **East Williamston** | **Casnewydd-bach** |
| **Llanrhian** | **Lower Freystrop** | **Maddox Moor** |
| **Maiden Wells** | **Mascle Bridge** | **Pen-y-Bryn** |
| **Pleasant Valley** | **Postgwyn** | **Redberth** |
| **Sardis** | **Slade Cross** | **Slade Villas** |
| **Thornton** | **Waterston** | **Wiseman's Bridge** |

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar, Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd, Diogelu ein Hamgylchedd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B,C,D,F,H,I,J*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus*

4.52 Ni ddisgwylir i bentrefi sy'n darparu gwasanaethau cyfyngedig ymdopi â lefelau arwyddocaol o ddatblygiad yn ystod cyfnod y Cynllun ac ni wneir unrhyw ddyraniadau tai ar gyfer Pentrefi Lleol.

4.53 Mewn Pentrefi Lleol, defnyddir Ffiniau Aneddiadau i ddangos ble y gallai cyfleoedd ar gyfer mewnlenwi a thalgrynnu tai fod yn addas, a ble y gallai cyfleusterau cyflogaeth, cymunedol a chyfleusterau eraill gael eu datblygu. Yn gyffredinol, bydd gan Bentrefi Lleol 1-2 o leiniau ar gyfer tai i'r farchnad gyffredinol neu dai fforddiadwy, a allai gynnwys cynigion ar gyfer hunanadeiladu neu adeiladu yn ôl y gofyn. Yn y lleoliadau hyn, bydd angen i bob cynnig ar gyfer tai i'r farchnad gynnwys cyfraniad 50% i gefnogi tai fforddiadwy trwy swm gohiriedig. Mae Pentrefi Clwstwr wedi'u hamlygu yn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Pentrefi Lleol yw'r rhain sydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn darparu rhai gwasanaethau mewn lleoliadau cymharol hygyrch ac yn lleihau'r angen i deithio. Mae ganddynt gysylltiad swyddogaethol â chanolfan lefel uwch

(Canolfan Wasanaeth neu uwch) trwy lwybr bws i'r anheddiad neu mae ganddynt lwybr teithio llesol, sef naill ai llwybr cerdded neu feicio penodol, i anheddiad lefel uwch a fyddai'n golygu teithio am 25 munud ar y mwyaf. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r anheddiad clwstwr arfaethedig gael sgôr wedi'i phwysoli o 5 neu fwy ar gyfer y cyfleusterau sydd ar gael.

4.54 Ar gyfer y 24 o Bentrefi Clwstwr, caniateir datblygiad preswyl ar raddfa fach o fewn ffiniau aneddiadau. Mae rhai safleoedd tai ar raddfa fach yn gallu darparu rhwng 1 a 5 o anheddau, o fewn Ffiniau Aneddiadau, ar dir nad yw wedi'i ddyrannu na'i warchod ar gyfer defnydd amgen. Ni chefnogir cynigion cynllunio sy'n ceisio datblygu rhan o safle mwy o faint ac a fyddai'n darparu 5 neu fwy o anheddau. Ystyrir graddfa cynigion cronnol hefyd.

4.55 Mae yna 45 o Bentrefi Lleol, nad ydynt yn Bentrefi Clwstwr a lle y caniateir cynigion ar raddfa fach iawn (mewnlenwi) yn unig. Anogir cynigion i gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir a chyfleoedd cyflogaeth, sydd ar raddfa ac o natur briodol, yn y Pentrefi Lleol hyn.

4.56 Mae llygredd ffosffadau a phroblemau eraill gydag ansawdd dŵr afonydd yn nalgylchoedd Cleddau a Theifi yn effeithio ar rai o'r Pentrefi Lleol, a fydd yn cyfyngu ar ddatblygiadau preswyl (a rhai eraill) yn y dyfodol. Mae adolygiad o drwyddedau amgylcheddol mewn gwaith trin dŵr gwastraff, meddylfryd newydd o ran 'cyfran deg' a buddsoddiad newydd mewn rhai gweithfeydd trin dŵr gwastraff mewn rhai achosion yn cynnig ffordd ymlaen o ran hyn.

**SP 11 Cefn Gwlad**

Cefnogir cynigion ar gyfer datblygiad mewn lleoliadau Cefn Gwlad lle mae'n ofyniad hanfodol i bobl sy'n byw ac yn gweithio yno a lle mae'n parchu'r dirwedd a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd datblygiad sy'n lleihau'r effaith weledol ar y dirwedd i'r eithaf ac sy'n ymwneud ag un o'r canlynol yn cael ei hyrwyddo:

1. Mentrau y mae'n hanfodol iddynt gael eu lleoli yng nghefn gwlad; gan gynnwys Datblygiad Un Blaned.
2. Cyfleodd i weithwyr menter wledig gael eu lletya mewn llety addas sy'n cefnogi eu cyflogaeth;
3. Cynlluniau arallgyfeirio amaethyddol priodol; ac
4. Ailddefnyddio a thrawsnewid adeiladau presennol priodol.
5. Twf busnes presennol ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymundeau Dyfeisgar a Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd, Diogelu ein Hamgylchedd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, D, F, H a J.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus.*

4.57 Ystyrir bod pob lleoliad y tu allan i'r Ffiniau Aneddiadau yn gefn gwlad. Yn gyffredinol, mae polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol yn cyfyngu ar ddatblygiad preswyl mewn ardaloedd y diffinnir eu bod yng nghefn gwlad i'r rhai y mae eu cyflogaeth yn golygu bod angen iddynt fyw yn agos i'w gweithle yng nghefn gwlad. Mae'r meini prawf ar gyfer cynigion o'r fath wedi'u sefydlu gan bolisi cenedlaethol. Mewn rhai achosion, caniateir trawsnewid adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad yn ddefnydd preswyl lle mae hynny'n golygu bod adeilad traddodiadol neu hanesyddol, a allai gael ei golli fel arall, yn cael ei warchod a'i ddefnyddio. Mae'n rhaid i'r adeilad allu darparu'r defnydd newydd yn ffisegol heb newid y strwythur gwreiddiol llawer. Gallai trawsnewid adeiladau nad ydynt yn draddodiadol fod yn dderbyniol at ddefnyddiau cyflogaeth.

4.58 Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi'r economi sylfaenol, ac mae llawer o fusnesau gwledig yn hanfodol i lesiant ardal. Bydd angen i gynigion datblygu ar gyfer busnes newydd yng nghefn gwlad ddangos bod rhaid i'r busnes gael ei leoli yng nghefn gwlad. Lle mae'n rhaid i ddatblygiad ddigwydd i fodloni gofynion hanfodol pobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, mae'n bwysig bod effaith weledol unrhyw ddatblygiad yn cael ei lleihau i'r eithaf. Mae Adran 5.6 Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod pwysigrwydd busnes gwledig i economi wledig hyblyg a chadarn. Bydd cynlluniau arallgyfeirio ffermydd ac estyniadau priodol i fusnesau presennol er enghraifft yn cael eu cefnogi lle y bônt yn briodol a lle nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau annerbyniol.

4.59 Mae mentrau yr ystyrir bod rhaid iddynt gael eu lleoli yng nghefn gwlad yn cynnwys Datblygiad Un Blaned. Mae'r polisi cenedlaethol yn galluogi Datblygiadau Un Blaned i gael eu cynnal lle maen nhw'n ddi-garbon wrth gael eu

hadeiladu ac yn defnyddio ac yn cyflawni ôl troed ecolegol o 2.4 hectar byd-eang fesul unigolyn neu lai o ran defnydd, a lle y gallant ddangos potensial clir i symud tuag at darged o 1.88 hectar byd-eang dros amser.

4.60 Mae gan Sir Benfro a'i chyd-destun ehangach amrywiaeth o amgylcheddau a thirweddau pwysig. Dangosir rhai ohonynt ar y Mapiau Cynigion fel dynodiadau natur neu cyfeirir atynt mewn Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG), fel yr SPG ar Asesu Cymeriad y Dirwedd, yr SPG ar Gymeriad y Morlun a'r SPG ar Fioamrywiaeth a fydd i gyd yn cael eu diweddaru ar ôl mabwysiadu'r CDLl newydd. Yn ogystal â'r amgylcheddau penodol a warchodir gan amrywiaeth o ddynodiadau, mae nifer o dirweddau, coetiroedd, gwrychoedd, coed a rhywogaethau heb eu dynodi sy'n digwydd ar draws ardal y Cynllun ac sy'n cyfrannu at wneud Sir Benfro yn lle arbennig. Mae rhai o'r rhywogaethau a geir yn Sir Benfro o werth arwyddocaol i ecoleg yr ardal, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir gan Ewrop fel ystlumod, dyfrgwn, pathewod a britheg y gors.

4.61 Mae amgylcheddau naturiol a hanesyddol eithriadol Sir Benfro yn rhan o'r hyn sy'n denu niferoedd mawr o ymwelwyr bob blwyddyn, ac maen nhw'n adnodd gwerthfawr i'r Sir gyfan. Yn ogystal â bod yn amgylchedd gweithio, mae cefn gwlad yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hamdden amrywiol i breswylwyr ac ymwelwyr. Nod y Cynllun hwn yw diogelu cefn gwlad a rheoli'r defnydd ohono, fel y gellir darparu'r elfennau pwysig hyn.

4.62 Mae amgylcheddau naturiol a lled-naturiol Sir Benfro yn darparu buddion i'r economi a chymdeithas hefyd, sydd weithiau'n effeithio ar leoliad ehangach na'r safle dan sylw e.e. lleddfu perygl llifogydd, ansawdd dŵr, ansawdd aer, lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd, dal a storio carbon, peillio cnydau.

4.63 Mae llawer o heriau'n gysylltiedig â chynnal amgylchedd naturiol a hanesyddol cryf ar yr un pryd â sicrhau bod amcanion allweddol eraill y Cynllun, fel darparu tai neu fanteisio ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau cysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd, yn cael eu bodloni. Bydd Polisïau Cyffredinol, eu testun ategol a Chanllawiau Cynllunio Atodol sy'n cefnogi'r Cynllun yn sicrhau bod yr heriau hyn yn cael eu rheoli'n llwyddiannus.

4.64 Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd datblygu mewn ardaloedd cefn gwlad yn cael eu cyfyngu ymhellach lle maent o fewn dalgylchoedd afonydd yr effeithir arnynt gan broblem llygredd ffosffadau yn afonydd Cleddau a Theifi.

**SP 12 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol**

Bydd amgylchedd Sir Benfro (gan gynnwys rhywogaethau, cynefinoedd, tirweddau a'r systemau sy'n sail iddynt) yn cael eu ei ddiogelu rhag datblygiad sylweddol niweidiol.

Bydd yn ofynnol I bob cynnig datblygu warchod, cadw a gwella'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys:

Gwarchod dynodiadau amgylcheddol statudol cenedlaethol sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol;

Gwarchod Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol, Gwarchodfeydd Natur Lleol ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig;

Gwarchod nodweddion tirwedd naturiol gan gynnwys coed, coetir a gwrychoedd;

Diogelu ansawdd dŵr;

Cynnal cysylltiadau Seilwaith Gwyrdd; a

Sicrhau enillion net o ran bioamrywiaeth.

Mae'n ofynnol i bob cynnig datblygu ymgorffori cyfleoedd newydd i wella cyflwr, maint a/neu gysylltedd nodweddion amgylcheddol i wella gweithrediad a gwytnwch ecosystemau, neu i wella mynediad priodol i seilwaith gwyrdd = Mae cyflawni gwelliannau amgylcheddol wedi cyfuno buddion ar gyfer bioamrywiaeth, newid hinsawdd, iechyd a lles, creu lleoedd cynaliadwy a'r economi.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar a Diogelu ein Hamgylchedd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion A, H a J.*

*Nodau Llesiant: Cymru Gydnerth, Cymru Iachach, Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang*

4.65 Mae Datganiadau Ardal De Orllewin Cymru a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) yn ddogfen allweddol sy'n darparu gwybodaeth am amgylchedd Sir Benfro, yr heriau allweddol sy'n ei wynebu a'r cyfleoedd i gryfhau rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystemau. Bydd y blaenoriaethau lleol yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Sir Benfro (2028), Offeryn Cynllunio Defnydd Tir Sir Benfro a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth ac, ar wahân, ar Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd yn ffynonellau gwybodaeth pwysig. Bydd y dogfennau hyn yn helpu i asesu p'un a fyddai datblygiad yn sylweddol niweidiol i'r amgylchedd. Bydd unrhyw gynigion datblygu o'r fath yn cael eu gwrthod.

4.66 O dan Ddeddf yr Amgylchedd 2016, mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd bioamrywiaeth uwch sy'n mynnu ei fod yn cynnal a gwella bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Yn ogystal, un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw 'Cymru Gydnerth', sy'n mynnu bod Awdurdodau'n cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag

ecosystemau sy'n gweithredu'n iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. Yn rhan o gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd y Cynllun yn mynnu bod datblygiadau'n dangos eu bod wedi cynnwys buddion amgylcheddol posibl mewn cynlluniau, lle bo hyn yn ymarferol.

4.67 Lle na chynigir gwella bioamrywiaeth fel rhan o gais, rhoddir cryn bwys ar ei absenoldeb, ac oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall bydd angen gwrthod caniatâd (Gweler Polisi Cynllunio Cymru 6.4 am ragor o fanylion).

4.68 Lle mae cyfle i ddatblygiad wella bioamrywiaeth trwy ei ddyluniad a'i osodiad, dylai hyn gael ei gynnwys yn y cynllun. Mewn rhai achosion, bydd y gyfundrefn gydsynio Draenio Trefol Cynaliadwy, a gyflwynwyd yn 2019, yn mynnu gosodiad sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer pyllau a nodweddion tirwedd eraill a allai gefnogi gwelliannau bioamrywiaeth. Lle mae cyfleoedd o'r fath yn bodoli, cefnogir y rhain gan y system gynllunio, hyd yn oed mewn achosion lle mae hyn yn arwain at ddwysedd is neu lai o anheddau fesul hectar nag y gellid eu darparu ar y safle fel arall.

4.69 Mae SPG ar Safleoedd Datblygu a Seilwaith yn cyd-fynd â'r Cynllun ac mae'n nodi lle mae cyfleoedd ar safleoedd a ddyrannwyd i hyrwyddo rhyng-gysylltedd cynefinoedd trwy ddefnydd creadigol o erddi neu dirweddau. Mae'r gofynion safle hyn wedi cael eu llywio gan yr Offeryn Cynllunio Defnydd Tir a ddatblygwyd gan Bartneriaeth Natur Sir Benfro, gyda chysylltiad â CNC ac ecolegwyr yr Awdurdod.

4.70 Mae 'Asesiad Seilwaith Gwyrdd Sir Benfro' (GIA, Chwefror 2023) yn cynnig amrywiaeth o brosiectau yn nhrefi Abergwaun ac Wdig, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Arberth, Neyland, Penfro a Doc Penfro (ac mewn prif aneddiadau yn y Parc Cenedlaethol) sydd â'r nod o wella'r Seilwaith Gwyrdd o fewn aneddiadau. Mae'r Cynllun yn amlygu ac amddiffyn ardaloedd allweddol o Fannau Agored ar y Map Cynigion i sicrhau bod prosiectau o'r fath yn gallu cael eu datblygu yn y dyfodol. Bydd SPG ar Seilwaith Gwyrdd yn y dyfodol yn nodi sut y gellir gwella nodweddion o'r fath.

4.71 O ran cynlluniau ar raddfa lai, bydd y cyngor yn yr SPG ar Fioamrywiaeth yn helpu i amlygu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau. Gellir amlygu gwelliannau priodol a phenodol i safle trwy ymgysylltu â'r Cyngor cyn cyflwyno cais hefyd.

4.72 Bydd cynigion ar safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun yn cael eu sgrinio am effeithiau sylweddol tebygol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

**SP 13 Datblygiad Cysylltiedig â Phorthladdoedd ac Ynni a'r Porthladd Rhydd Celtaidd**

Bydd cynigion datblygu ar gyfer cyfleusterau a seilwaith diwydiannol priodol a chyfleusterau a seilwaith priodol sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd, gan gynnwys cynigion ynni sy'n uniongyrchol gysylltiedig â lleoliadau porthladd, yn cael eu cefnogi ym Mhorthladdoedd Aberdaugleddau ac Abergwaun ac o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, lle y gallant ddangos eu bod yn parchu ac yn gwarchod y dirwedd a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

Er mwyn osgoi amheuaeth ac at ddibenion y polisi hwn, nid yw cynigion ynni sy'n uniongyrchol gysylltiedig â lleoliadau porthladd yn cynnwys cynhyrchu ynni gwynt.

Bydd cais llwyddiannus y Porthladd Rhydd Celtaidd yn cefnogi datblygiad economi sero net Cymru, gan greu dros 16,000 o swyddi newydd a hyd at £5.5 biliwn o fuddsoddiad newydd yn y cyfnod hyd at 2050, gyda'r buddsoddiad i'w rannu rhwng Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot. Cyflwynwyd y cais gan gonsortiwm yn cynnwys Associated British Ports, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Phorthladd Aberdaugleddau a disgwylir iddo ymestyn dros tua 250 hectar o dir ar wahanol safleoedd yn Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot. Megis dechrau datblygu y mae cynigion y Porthladd Rhydd ac mae'n debygol y bydd cysylltiadau cryf â rhai o'r meysydd a gwmpesir gan bolisi Datblygu Porthladdoedd ac Ynni'r Cyngor. Ond mae disgwyl i gamau cychwynnol y datblygiadau a ragwelir gan y Porthladd Rhydd ymddangos yn ystod Cyfnod CDLl 2.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio a Chymunedau Dyfeisgar.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion C, E ac I.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus*

4.73 Fel y cydnabyddir yn Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040, mae Porthladd Aberdaugleddau (sy'n cynnwys ardaloedd y doc yn Aberdaugleddau a Doc Penfro) yn darparu cyfleusterau porthladd dŵr dwfn prin sy'n bwysig yn rhyngwladol mewn lleoliad cysgodol. Mae Porthladd Aberdaugleddau eisoes yn cynnal gosodiadau a seilwaith mawr sy'n gysylltiedig ag ynni, ac mae potensial i ddatblygu'r rôl hon ymhellach. Mae hefyd yn darparu terfynfa fferïau, yn Noc Penfro, sy'n darparu cysylltiadau cludo nwyddau a rhai cyfyngedig iawn i gludo teithwyr i Weriniaeth Iwerddon. Yn ogystal â'r derfynfa fferïau, mae ardaloedd helaeth o dir cyflogaeth o fewn Iard Longau Penfro ac mewn safleoedd diwydiannol eraill yn agos i'r Ddyfrffordd yn Noc Penfro. Yn Noc Aberdaugleddau, mae'r defnyddiau tir presennol yn cynnwys cyflogaeth, hamdden, marina, preswyl, manwerthu, angori ar gyfer llongau pysgota a pheirianneg cysylltiedig â phorthladd. Mae cynigion yn dod i'r amlwg ar gyfer datblygiadau amlddefnydd eraill yn yr ardal hon. Mae safleoedd diwydiannol eraill yn nhref Aberdaugleddau ac yn Neyland gyfagos hefyd. Gellid cynnig aildrefnu defnyddiau tir yn Noc Penfro ac Aberdaugleddau ar y cyd â chynigion datblygu trawsffurfiol.

4.74 Mae dogfen bolisi Cymru'r Dyfodol Llywodraeth Cymru – Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cynnwys polisi 29 ar Ardaloedd Twf Rhanbarthol – Caerfyrddin a Threfi'r Ddau Gleddau a hefyd polisi ar Ddyfrffordd y Ddau Gleddau ac Ynni. Mae Polisi 32 yn nodi Dyfrffordd y Ddau Gleddau fel lleoliad ar gyfer datblygiadau, arloesedd a buddsoddiad sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd posibl. Rhagwelir y bydd yn cefnogi datblygiadau tyrbinau gwynt arnofiol yn y môr yn y Môr Celtaidd ac yn darparu sylfaen ar gyfer trawsnewid ynni ar hyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gynnwys cyflwyno technoleg hydrogen.

4.75 Terfynfa fferïau yn bennaf yw Harbwr Abergwaun ac mae'n darparu cysylltiadau i gludo nwyddau a theithwyr ymlaen i Weriniaeth Iwerddon.

4.76 Yn Harbwr Abergwaun (Wdig) ac ym Mhorthladd Aberdaugleddau, bydd gwelliannau i gyfleusterau a seilwaith o fudd i'r economi leol a chenedlaethol ac yn arwain at fuddion i wledydd eraill, yn enwedig Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn cyfeirio at y porthladd yn Abergwaun a'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae wrth gefnogi'r sector morol a'r economi genedlaethol.

4.77 Dynodwyd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn 2012 ac mae'n rhoi buddion cyllidol i fusnesau sy'n lleoli o fewn ffiniau'r Ardal. Mae gan yr Ardal Fenter bedair ffin ar wahân: un o amgylch Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac sy'n cynnwys tir yn ardaloedd Aberdaugleddau, Doc Penfro a Neyland, un yng Ngwdig, un ym Maes Awyr Hwlffordd / Parc Diwydiannol Llwynhelyg ac un yn Nhrecŵn.

4.78 Mae polisi SP 13 yn berthnasol o fewn ardal ofodol ddiffiniedig sydd wedi'i seilio ar safleoedd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac sy'n cynnwys llawer o'r ardaloedd hynny. Mae'r ardal ofodol a ddiffiniwyd yn nodi'r ardaloedd a allai fod yn addas ar gyfer datblygiadau o'r math hwn, ond nid yw'r polisi'n neilltuo'r ardaloedd hyn yn benodol ar gyfer datblygiad o'r fath, nac yn awgrymu y bydd pob cynnig yn dderbyniol. Bydd derbynioldeb unrhyw gynigion yn dibynnu ar sut maen nhw'n cyd-fynd â Pholisïau Cyffredinol manwl, a bydd ystyriaethau yn ymwneud â'r dirwedd, yr amgylchedd ac amwynder yn allweddol wrth benderfynu a yw cynigion yn y lleoliadau hyn yn briodol ai peidio. Dynodwyd yr Ardal Fenter gan Lywodraeth Cymru. Mae ei ffin yn diffinio'r ardaloedd lle mae cymhellion cyllidol ar gael ar gyfer datblygiadau economaidd o fathau penodol. Dangosir ffin yr Ardal Fenter ar y map dynodiadau a chyfyngiadau, fel y'i paratowyd gan sefydliad allanol. Bydd rhywfaint o'r tir o fewn ffin yr Ardal Fenter yn addas ar gyfer datblygiad economaidd yn y dyfodol, ond mae gan rannau eraill o dir o fewn y ffin gyfyngiadau yn ymwneud â'r amgylchedd, y dirwedd a pherygl llifogydd a allai gyfyngu ar eu datblygiad yn y dyfodol neu atal hynny. Mae ardaloedd allweddol o dir yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer datblygiad economaidd yn y dyfodol wedi'u dyrannu at y diben hwnnw gan bolisïau priodol y Cynllun hwn.

4.79 Mae llwyddiant cais y Porthladd Rhydd Celtaidd wedi digwydd yn ddiweddar iawn ac mae o arwyddocâd mawr i Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot o ran

ei botensial i ddarparu buddsoddiadau a swyddi newydd dros y 27 mlynedd nesaf. Mae hefyd yn amlwg o bwysigrwydd cenedlaethol i Gymru, y DU a thu hwnt. Yn y cyfnod cynnar hwn, mae llawer i'w wneud o hyd o ran cynllunio busnes a dewis safleoedd a phrosiectau ar gyfer y Porthladd Rhydd, er yng nghyd-destun Sir Benfro mae'r gwaith o ddatblygu cynigion ynni gwynt mawr yn y môr a thrawsnewid ynni ar hyd Dyfrffordd Aberdaugleddau yn mynd i fod yn elfennau allweddol. Mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn cyd-fynd yn dda â pholisi Cynigion Datblygu Porthladdoedd ac Ynni yn y Cynllun hwn ac mae'n gyson â Pholisi 32 Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040, sy'n benodol i Ddyfrffordd y Ddau Gleddau ac Ynni.

4.80 Bydd angen i gynigion unigol sy'n cael eu cyflwyno o dan bolisi SP 13 gael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect i ystyried eu heffeithiau arwyddocaol tebygol ar nodweddion yr ACA. Un elfen o hyn yw bod yn rhaid sicrhau na cheir unrhyw gynnydd mewn maetholion i ACA Forol Sir Benfro a bydd yn rhaid i ddatblygwyr ddangos hyn yn eu cynigion i sicrhau canlyniadau HRA boddhaol.

4.81 Terfyn rheolaeth gynllunio tua'r môr yw'r marc distyll cymedrig fel arfer (ond y marc canol-sianel yn Noc Penfro). Mae cynigion datblygu islaw'r marc hwn (neu y tu hwnt i'r marc canol-sianel yn Noc Penfro) y tu allan i gwmpas y system gynllunio ac yn cael eu rheoleiddio o dan ddarpariaethau deddfwriaeth arall.

4.82 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 a Nodyn Cyngor Technegol 23, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu ystod o safleoedd mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n addas ar gyfer datblygiad i ddibenion menter a chyflogaeth.

4.83 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i gefnogi dynodi'r Porthladd Rhydd Celtaidd, gydag ystyriaeth fanwl i'w rhoi i'r hyn sydd ei angen ar ôl mabwysiadu CDLl 2.

## SP 14 Darpariaeth Cyflogaeth Strategol

Bydd tir yn cael ei ddarparu ar gyfer datblygu tir cyflogaeth ar gymysgedd o safleoedd cyflogaeth strategol a lleol.

Nodir safleoedd cyflogaeth strategol o arwyddocâd rhanbarthol yn y meysydd canlynol:

| Cyfeirnod y Dyraniad | Cyfeirnod Clwstwr Cyflogaeth Strategol | Enw'r Safle | Arwynebedd (hectarau) | Dosbarth iadau defnydd |
|---|---|---|---|---|
| S/EMP/086/LDP/01 | | Blackbridge | 32.93 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/136/00001 | | Cyn Safle RNAD, Trecŵn | 21.22 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/034/LDP/02 | S/EMP/034G/C1 | Wdig, Parrog | 0.61 | B1; B8 |
| S/EMP/040/00004 | S/EMP/040/C1 | Stad Llwynhelyg (Stad Fasnachu) | 16.95 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/040/00005 | S/EMP/040/C1 | Clwstwr Llwynhelyg (I'r Dwyrain o Lodge Estate) | 5.37 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/040/00001 | S/EMP/040/C1 | Clwstwr Llwynhelyg (West Estate) | 20.75 | B1 |
| S/EMP/086/LDP2/01 | S/EMP/086/C1 | Clwstwr Stad Ddiwydiannol Thornton (Hayguard Hay, Thornton) | 2.64 | B1; B8 |
| S/EMP/096/00001 | S/EMP/096/C3 | Clwstwr Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro | 21.69 | B1 |

Mewn rhai achosion, mae rhan o ddatblygiad y safleoedd eisoes wedi digwydd, ond mae cryn dipyn o dir o fewn eu ffiniau yn dal i aros am ddatblygiad.

Hefyd, mewn rhai achosion efallai y bydd y safle wedi'i ddatblygu o'r blaen, ond bydd y rhan fwyaf neu'r cyfan o'r defnydd(iau) blaenorol bellach wedi dod i ben ac efallai y bydd y safle wedi'i glirio'n rhannol neu'n gyfan gwbl o adeiladau.

Caniateir y dosbarthiadau defnydd a nodir ar gyfer pob safle, ynghyd â defnyddiau eraill sy'n perthyn yn agos i'r prif ddefnydd cyflogaeth. Lle cynigir defnyddiau B2, ni ddylai'r rhain achosi effeithiau andwyol sylweddol o ran mwynderau ar ddefnyddiau tir cyfagos.

Oherwydd arwyddocâd y safleoedd hyn i'r economi leol, ranbarthol a chenedlaethol, yr unig achosion pan ganiateir iddynt gael eu rhyddhau ar gyfer defnydd heb fod yn gysylltiedig â chyflogaeth fydd a) pan fo cysylltiad agos â'r prif ddefnydd cyflogaeth neu b) mewn amgylchiadau eithriadol.

*Mater Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, E ac I.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus.*

4.84 Mae Polisi SP 14 yn dyrannu safleoedd cyflogaeth strategol mewn amrywiaeth o leoliadau, sef safleoedd sydd naill ai heb eu datblygu neu, lle y cawsant eu datblygu, mae swm sylweddol o dir o fewn eu ffiniau yn aros am gael ei ddatblygu. Mewn rhai achosion, mae'r safleoedd wedi'u datblygu o'r blaen, ond mae'r rhan fwyaf neu bob un o'r defnyddiau blaenorol wedi dod i ben ac mae'n bosibl bod y safle wedi'i glirio'n rhannol neu'n gyfan gwbl o adeiladau. Mae polisi cysylltiedig SP 15 yn diogelu amrywiol Safleoedd Cyflogaeth Presennol at ddibenion cyflogaeth, er y gall defnyddiau eraill sy'n ymwneud â phrif ddefnydd cyflogaeth gael eu caniatáu a gellid caniatáu rhyddhau at ddibenion eraill mewn amgylchiadau eithriadol. Nodir, mewn rhai achosion, bod safleoedd yn y ddau bolisi yn cael eu cyfuno o fewn un clwstwr cyflogaeth strategol.

4.85 Un o flaenoriaethau strategol Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 yw ceisio datblygu economi fwy amrywiol ac entrepreneuraidd sy'n seiliedig ar wybodaeth, ac mae'n nodi bod ynni a'r amgylchedd yn hollbwysig i gyflawni llwyddiant yn y maes hwn. Mae Cymru'r Dyfodol yn amlygu cyfleoedd allweddol ar gyfer twf yn Sir Benfro yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac yn gysylltiedig â Dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae'r egwyddorion sylfaenol hyn yn cael eu dwyn ymlaen i'r ddogfen fydd yn olynu Cymru'r Dyfodol.

4.86 Sefydlwyd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn 2012. Cynigir cymhellion cyllidol i fusnesau o fewn yr Ardal hon. Fel y nodwyd yn y cyfiawnhad rhesymegol i bolisi SP 13, mae pedair ardal ofodol ar wahân wedi'u cynnwys, sef ar hyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau, yn Hwlffordd, yn Nhrecŵn ac yn Harbwr Abergwaun, Wdig. Amlygir safleoedd sy'n strategol yn rhanbarthol yn y lleoliadau hyn, a ategir gan dystiolaeth a gasglwyd yn rhan o Astudiaeth Economaidd o Ddwy Sir (2019). Nid yw pob lleoliad yn yr Ardal Fenter wedi'i ddyrannu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth strategol, er enghraifft oherwydd bod rhai eisoes wedi cael eu datblygu tra bod eraill o fewn ardaloedd sydd â dynodiadau cadwraeth natur, tirweddau o ansawdd uchel a / neu sy'n agored i lifogydd afonol a / neu lifogydd llanw.

4.87 Bydd Polisïau Strategol a chyffredinol argynnal a gwella bioamrywiaeth yn arbennig o berthnasol i ddarparu safleoedd cyflogaeth strategol, er mwyn sicrhau bod effeithiau niweidiol arwyddocaol yn cael eu hosgoi trwy gynnal a gwella rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth, eu cynefinoedd a safleoedd dynodedig. Gallai darpariaethau lliniaru fod yn briodol mewn rhai achosion. Mae ystyriaethau allweddol eraill yn debygol o gynnwys amwynder (GN 1) ac effeithiau ar yr amgylchedd a'r dirwedd (SP 12 a GN 1).

4.88 Mae safleoedd cyflogaeth lleol i fodloni anghenion cymunedol wedi'u hamlygu mewn amrywiaeth o leoliadau eraill yn yr Aneddiadau Trefol, a hefyd mewn rhai Aneddiadau Gwledig (gweler GN 9 Dyraniadau Cyflogaeth). Bydd hyn yn cefnogi strategaeth twf a dosbarthiad y cynllun mewn modd cynaliadwy.

4.89 Anogir datblygu safleoedd ac adeiladau cyflogaeth mewn aneddiadau gwledig. Bydd hyn yn sicrhau y bydd mwy o gyfleoedd i'r boblogaeth wledig weithio'n agosach i'w cartrefi neu i weithio o gartref, gan felly leihau'r galw am deithio i Aneddiadau Trefol Sir Benfro am resymau sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae nifer uchel o unigolion hunangyflogedig – y mae llawer ohonynt yn gweithio

o gartref – yn Sir Benfro eisoes, a bydd hyn yn cael ei annog ymhellach. Bydd gwell rhwydweithiau seilwaith, trafnidiaeth a chyfathrebu yn bwysig i annog twf o'r fath, gan gynnwys parhau i wella'r graddau y mae band eang ar gael a mynediad at y rhwydwaith ffonau symudol 4G a 5G sy'n dod i'r amlwg.

4.90 Yn ogystal â safleoedd cyflogaeth newydd a amlygwyd, mae ymagwedd bolisi wedi'i seilio ar feini prawf (GN 8 Cynigion Cyflogaeth) yn darparu cyfleoedd i gynigion cyflogaeth newydd gael eu cyflwyno ar dir heb ei ddyrannu o fewn aneddiadau neu sy'n cydweddu'n dda ag aneddiadau, ac mewn lleoliadau cefn gwlad lle mae'r lleoliad hwnnw'n hanfodol i'r fenter.

4.91 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan bod yn rhaid i bob Safle Cyflogaeth Strategol yn Llwynhelyg gysylltu â'r garthffos ddŵr budr gyhoeddus. Ni fydd Trwyddedau Amgylcheddol ar gyfer draenio preifat yn cael eu rhoi yma. Mae hefyd yn cynghori y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar gyfer unrhyw Safleoedd Cyflogaeth Strategol a allai effeithio ar ACA Forol Sir Benfro.

## SP 15 Diogelu Safleoedd Cyflogaeth Strategol presennol

Bydd tir yn y safleoedd canlynol yn cael ei ddiogelu at ddibenion cyflogaeth:

| Cyfeirnod y Dyraniad | Cyfeirnod Clwstwr Cyflogaeth Strategol | Enw'r Safle | Arwynebedd (hectarau) | Dosbarthiadau Defnydd |
|---|---|---|---|---|
| S/EMP/000/00002 | | Purfa Olew Penfro (Valero) | 222.6 | B2: B8 |
| S/EMP/000/00003 | | Cyfleuster Storio petro-gemegol Aberdaugleddau (Puma Energy) | 159.14 | B8 |
| S/EMP/000/00004 | | Waterston Tank Farm and LNG, Milford Haven | 177.35 | B2; B8 |
| S/EMP/000/00007 | | South Hook LNG (rhan) | 59.75 | B2: B8 |
| S/EMP/095/00001 | | Gorsaf Bŵer Penfro | 139.95 | Sui Generis |
| S/EMP/034/00003 | S/EMP/034G/C1 | Stad Ddiwydiannol Wdig | 4.08 | B1; B8 |
| S/EMP/040/00011 | S/EMP/040/C1 | Clwstwr Llwynhelyg (Stad Ddwyreiniol) | 9.64 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/040/00012 | S/EMP/040/C1 | Clwstwr Llwynhelyg (Stad Ogleddol) | 5.19 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/086/00003 | S/EMP/086/C1 | Clwstwr Stad Ddiwydiannol Thornton | 20.51 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/096/00003 | S/EMP/096/C1 | Clwstwr Doc Penfro Gorllewin Llanion) | 6.79 | B1;B2;B8 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| S/EMP/096/00002 | S/EMP/096/C1 | Clwstwr Doc Penfro (Royal Dockyard) | 28.95 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/096/00004 | S/EMP/096/C2 | Clwstwr Stad Ddiwydiannol Waterloo (Ferry Lane) | 3.61 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/096/00005 | S/EMP/096/C2 | Clwstwr Stad Ddiwydiannol Waterloo a London Road (Kingswood) | 8.31 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/096/00006 | S/EMP/096/C2 | Clwstwr Stad Ddiwydiannol Waterloo a London Road (Stad Ddiwydiannol Waterloo a London Road) | 19.41 | B1;B2;B8 |
| S/EMP/096/00007 | S/EMP/096/C3 | Clwstwr Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro (Pont Cleddau) | 2.33 | B1 |

*Mater Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, E ac I.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus.*

4.92 Mewn rhai achosion, ni fydd elfen o'r tir o fewn ffiniau'r safleoedd presennol hyn wedi'i ddatblygu o gwbl neu bydd wedi'i ryddhau i ddibenion nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth. Ond bydd y rhan fwyaf o'r safle wedi'i ddatblygu at ddibenion cyflogaeth ar ryw adeg.

4.93 Oherwydd arwyddocâd y safleoedd cyflogaeth presennol hyn i'r economi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, caniateir newid defnydd i ddefnydd nad yw'n ymwneud â chyflogaeth o fewn eu ffiniau dim ond a) lle mae cysylltiad agos rhyngddynt a'r prif ddefnydd cyflogaeth neu b) mewn amgylchiadau eithriadol. Ond lle mae newid defnydd o'r fath i ddefnydd nad yw'n ymwneud â chyflogaeth eisoes wedi'i ganiatáu, ni fydd y Cyngor yn gofyn am ddychweliad at ddefnyddiau cyflogaeth.

4.94 Mae gan Sir Benfro nifer sylweddol o safleoedd cyflogaeth ar hyn o bryd, llawer ohonynt o bwysigrwydd strategol i'r Sir a'r rhanbarth. Er bod polisi SP 14 yn dynodi safleoedd sydd heb eu datblygu a rhai sydd wedi eu datblygu'n rhannol at ddibenion cyflogaeth strategol ac yn cynnwys elfen o ddiogelu mewn perthynas â'u defnydd at ddibenion cyflogaeth yn y dyfodol, mae hefyd angen diogelu'r safleoedd cyflogaeth strategol presennol o fewn ardal y Cynllun. Yr olaf yw pwrpas polisi SP 15, sy'n cydnabod, er bod y safleoedd hyn yn debygol o gael eu datblygu'n sylweddol, y bydd elfen o gymysgu ynddynt wrth i dir ac adeiladau fynd yn segur ac yna ddod yn ôl i ddefnydd. Gall tir ac adeiladau segur o fewn safleoedd cyflogaeth presennol wneud cyfraniad sylweddol at argaeledd tir cyflogaeth ac mae eu dychwelyd i gael eu defnyddio yn cael ei gymeradwyo fel arfer.

4.95 Fel y nodir yn y polisi, ni chaniateir newid defnydd tir ac adeiladau o fewn ffiniau'r safle i ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth oni bai eu bod yn ymwneud â'r prif ddefnydd cyflogaeth neu mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r diogelu hwnnw yn angenrheidiol ac yn briodol i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn dal i gael eu defnyddio ar gyfer cyflogaeth wrth edrych i'r dyfodol, i gefnogi'r economi leol a rhanbarthol. Wedi dweud hynny, cydnabyddir bod gwahanol fathau o ddefnyddiau heb fod yn ymwneud â chyflogaeth wedi eu caniatáu weithiau o fewn ffiniau safleoedd ac yn yr achosion hyn nid oes unrhyw ofyniad bod y rhain yn cael eu dychwelyd i ddefnydd cyflogaeth, er y byddai addasiadau cysylltiedig â chyflogaeth yn cael eu cefnogi mewn amgylchiadau priodol.

4.96 Er mwyn darparu sail ar gyfer ystyried cynigion cynllunio ar y safleoedd hyn, maent wedi'u cynnwys yn y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol am Safleoedd Datblygu a Seilwaith, ochr yn ochr â'r dyraniadau cyflogaeth strategol a lleol ym mholisïau SP 14 a GN 9.

4.97 Yn yr un modd ag SP 14, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan bod yn rhaid i bob Safle Cyflogaeth Strategol yn Llwynhelyg gysylltu â'r garthffos dŵr budr gyhoeddus. Ni fydd Trwyddedau Amgylcheddol ar gyfer draenio preifat yn cael eu rhoi yma. Mae hefyd yn cynghori y bydd angen HRA ar unrhyw Safleoedd Cyflogaeth Strategol a allai effeithio ar ACA Forol Sir Benfro.

**SP 16 Hierarchaeth Fanwerthu**

Dyma'r hierarchaeth fanwerthu ar gyfer Sir Benfro

| | |
|---|---|
| Canol Tref Is-ranbarthol | Hwlffordd |
| Canol Tref | Doc Penfro, Penfro, Aberdaugleddau, Abergwaun, Arberth |
| Canolfan Fanwerthu Leol | Wdig, Neyland, Crymych, Treletert, Johnston, Cilgeti |

Dylai pob datblygiad manwerthu a masnachol newydd fod yn gyson o ran graddfa a natur â maint a chymeriad y Ganolfan a'i rôl yn yr hierarchaeth fanwerthu, a dylai fod yn gydnaws ag unrhyw Fframwaith Adfywio Strategol. Rhaid i ddatblygiadau newydd gynnal neu wella bywiogrwydd ac atyniad y ganolfan honno, gan gefnogi darparu cyfleusterau manwerthu, swyddfa, hamdden, adloniant, diwylliannol a chymunedol priodol ar gyfer cymhariaeth a chyfleustra. Bydd cynigion datblygu newydd o fewn canolfannau manwerthu a masnachol sy'n darparu arwynebedd llawr manwerthu, cymunedol neu fasnachol ar y llawr gwaelod yn cael eu cefnogi fel arfer. Chwilir am gyfleoedd i adfywio a gwella'r amgylchedd manwerthu a gwella mynediad i, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachol drwy bob math o drafnidiaeth, gan flaenoriaethu cerdded, beicio (teithio llesol) a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Ni fydd cynigion a fyddai'n tanseilio'r hierarchaeth fanwerthu neu fframweithiau adfywio ar gyfer canol trefi yn cael eu caniatáu.

*Mater Allweddol Cysylltiedig: Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B,G.I*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.*

4.98 Mae Polisi SP16 yn hyrwyddo'r Canolfannau Trefi a Lleol fel hybiau ar gyfer gweithgaredd economaidd-gymdeithasol a chanolbwyntiau ar gyfer ystod amrywiol o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Maent yn gweithredu fel y lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy ar gyfer manwerthu newydd, hamdden a chefnogi datblygiad masnachol. Bydd cydleoli cyfleusterau a gwasanaethau mewn lleoliadau o'r fath yn helpu i gefnogi eu hiechyd a'u bywiogrwydd hirdymor fel mannau cyfleus a deniadol i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu, astudio, cyrchu gwasanaethau iechyd a lles a chynnal busnes. Bydd y dull hwn hefyd yn annog teithiau cysylltiedig a gostyngiad yn y galw am deithio, gan gydnabod eu bod yn fwy na maint yr ardaloedd manwerthu dynodedig. Rhaid i ddatblygiadau mawr gydymffurfio â'r polisi 'Canol Tref yn Gyntaf' sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol, er mwyn helpu i ddatblygu cymunedau gwydn, ac ymateb i effeithiau hirdymor Covid-19, sydd nid yn unig wedi ailffocysu bywydau pobl a chymunedau, ond wedi gweithredu fel sbardun pellach tuag at wneud canolfannau yn lleoedd amlswyddogaethol.

4.99 Wrth gydnabod bod Canolfannau Tref a Lleol yn symud i ffwrdd oddi wrth eu rolau manwerthu traddodiadol, mae SP16, a'i bolisïau ategol, yn ceisio sicrhau eu bod yn dod yn ganolbwynt i amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chyfleusterau. Mae’r dull ‘Canol Tref yn Gyntaf’ yn allweddol i alluogi canolfannau o’r fath i ddod yn gynyddol yn lleoedd aml-swyddogaeth ac yn ganolbwyntiau cymunedol, sydd trwy hynny yn eu gwneud yn fwy hyfyw fel cyrchfannau i fynd iddynt. Bydd hyn yn ategu ymdrechion i adfywio canolfannau manwerthu a masnachol drwy greu mwy o lefydd yn yr awyr agored, ailddefnyddio ardaloedd na wneir digon o ddefnydd ohonynt, sefydlu canolfannau cydweithio o bell, a bod yn ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus mwy hygyrch.

4.100 Er gwaethaf cystadleuaeth gan ddatblygiadau manwerthu y tu allan i’r canol, mae’r hierarchaeth sefydledig wedi parhau i esblygu dros nifer o flynyddoedd. Mae'r holl ganolfannau manwerthu a masnachol presennol yn cyflawni rôl bwysig o ran diwallu anghenion siopa a gwasanaeth trigolion ynghyd â'u gofynion diwylliannol a hamdden. Mae SP16 felly’n ceisio gwarchod hierarchaeth fanwerthu sefydledig yr ardal trwy ganolbwyntio datblygiad yn y canolfannau hyn a thrwy ganiatáu datblygiad manwerthu y tu allan i’r canol yn unig lle mae angen a phrawf dilyniannol wedi’i gynnal, yn unol â pholisi cenedlaethol, i warchod bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfannau manwerthu.

4.101 Mae’r polisi hwn yn ffafrio cynigion datblygu newydd mewn canolfannau manwerthu a masnachol sy’n cynnig arwynebedd llawr manwerthu, cymunedol a/neu fasnachol ar lefel llawr gwaelod. Gall darparu arwynebedd llawr manwerthu a masnachol newydd, modern o fewn canolfan ddenu preswylwyr o ansawdd uwch, a thrwy hynny gynyddu bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd cyffredinol yr ardal adwerthu. Yn yr un modd, anogir defnyddiau cymysg, gyda, er enghraifft, darpariaeth breswyl uwchben lloriau gwaelod (gweler polisi GN 31 Datblygiad Canol y Dref a Chanolfan Manwerthu Leol).

4.102 Mae SP16 yn ceisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y bydd datblygiadau newydd o fudd hirdymor i ganolfannau masnachol presennol. Wrth gydnabod y gall safle canolfannau yn yr hierarchaeth newid dros amser, dylai datblygiadau newydd gyd-fynd yn fras â chymeriad y ganolfan bresennol. Disgwylir i ddatblygwyr fod yn hyblyg ac arloesol ynghylch fformat, dyluniad a graddfa datblygiad arfaethedig, er mwyn cyflawni datblygiad newydd mewn cytgord â chanolfannau presennol.

4.103 Mae SP16 yn cydnabod rôl a swyddogaeth draddodiadol yr hierarchaeth fanwerthu sefydledig, yn ogystal â'r angen i ganolfannau esblygu'n gynyddol i fod yn ganolbwyntiau cymunedol aml-swyddogaeth. Bydd yr hierarchaeth yn cael ei defnyddio'n gadarnhaol i sicrhau bod canolfannau Tref a Lleol yn parhau i fod yn brif leoliadau ar gyfer cyfleusterau manwerthu, swyddfeydd, hamdden a chymunedol newydd. Bydd hyn yn manteisio ar ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd canolfannau, ac yn cynhyrchu mwy o weithgarwch cymdeithasol ac economaidd.

4.104 Disgwylir i gynigion manwerthu a masnachol adlewyrchu lefel yr hierarchaeth y mae’r cynnig wedi’i leoli ynddi o ran graddfa a natur. Mae’r hierarchaeth wedi

cael ei diffinio gan ystyried rôl a swyddogaeth, graddfa, yr amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau manwerthu, masnachol ac eraill, a’r dalgylch.

4.105 Mae Ardaloedd Cadwraeth wedi’u dynodi ym mhob Canol Tref, ac mae’n rhaid i gynnal a gwella cymeriad unigol trefi fod yn elfen bwysig o unrhyw gynnig datblygu.

4.106 Hwlffordd yw Tref Sirol Sir Benfro ac mae’n ganolfan manwerthu a gwasanaeth bwysig ar gyfer amrywiaeth o ddibenion siopa, gwasanaethau cyhoeddus ac ariannol, hamdden a chyflogaeth. Dylai cynigion o fewn Hwlffordd fod yn gydnaws â Phrif Gynllun Hwlffordd, sef ‘Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol’, a chefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref.

4.107 Mae canol trefi Doc Penfro a Phenfro yn ategu ei gilydd, i ryw raddau, o ran eu rolau a’u swyddogaeth, gan fod Doc Penfro yn darparu’r brif gyrchfan siopa bwyd ac mae Penfro yn cael ei chefnogi gan wariant twristiaid yn y canol hanesyddol.

4.108 Mae Canol Tref Aberdaugleddau wedi’i chael hi’n anodd cadw cymysgedd cryf o ddefnyddiau, ac mae’n gwasanaethu anghenion y gymuned leol yn bennaf. Er bod rôl ar gyfer siopa heblaw am siopa bwyd yn parhau yng nghanol y dref, mae angen ailddatblygu, yn enwedig tua phen gorllewinol canol y dref, a chyfnerthu canol y dref. Mae'r Marina wedi gweld datblygiad manwerthu sylweddol ac mae'n parhau i ffynnu.

4.109 Mae Canol Tref Abergwaun yn cynnal rôl bwysig fel cyrchfan siopa bwyd i breswylwyr lleol ac mae’n cyflawni rôl bwysig ar gyfer yr ardal wledig ehangach.

4.109A Mae Arberth yn ganol tref llai ac mae’n cyflawni rôl fanwerthu arbenigol ar gyfer preswylwyr lleol a’r gefnwlad wledig ehangach. Bydd datblygiadau ar gyfer yr hen ysgol gynradd yn cyflwyno ystod gyflenwol o ddefnyddiau, gan gynnwys cyfleoedd priodol ar gyfer defnyddiau preswyl, cymunedol, manwerthu a masnachol.

4.109B Mae Canolfannau Manwerthu Lleol yn darparu ar gyfer anghenion dydd i ddydd y gymuned leol, i bob pwrpas. Ni ddylai cynigion mewn Canolfannau Manwerthu Lleol danseilio nac effeithio ar fywiogrwydd neu hyfywedd Canol Trefi neu eu strategaethau adfywio; yn hytrach, dylent ddarparu lefel briodol o wasanaeth ar gyfer yr aneddiadau hyn a dalgylchoedd gwledig lleol.

**SP 17 Yr Economi Ymwelwyr**

Mae twristiaeth yn gallu bod yn gatalydd ar gyfer adfywio a bydd cynigion ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud â'r economi ymwelwyr. Bydd cynigion yn cael eu cefnogi ar yr amod eu bod mewn lleoliad priodol, yn cyfrannu at amrywiaeth ac ansawdd llety ac atyniadau, ac yn parchu a gwarchod amgylchedd naturiol ac adeiledig eu cymunedau gan gynnwys y dreftadaeth ieithyddol.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Byw a Gweithio, Cymunedau Dyfeisgar a Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd, Diogelu ein Hamgylchedd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B, C, H a J.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.*

4.110 Mae Cymru'r Dyfodol yn canolbwyntio ar Gymru gydnerth, sy'n cefnogi ac yn cryfhau'r economi sylfaenol a seilir ar y diwydiannau amaethyddiaeth a thwristiaeth, a thrwy harddwch ein hamgylchedd naturiol. Mae amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro wedi denu ymwelwyr ers blynyddoedd lawer, i'r Parc Cenedlaethol ac ymhellach i'r tir i afonydd, mynyddoedd, treftadaeth a threfi a phentrefi hanesyddol y Sir. Yr economi ymwelwyr yw un o sbardunwyr mwyaf arwyddocaol yr economi leol. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro yn cydnabod hyn ac yn annog ymagwedd gadarnhaol at gyfleusterau twristiaeth o ansawdd da sydd wedi'u dylunio a'u lleoli'n dda, gan gefnogi arallgyfeirio amaethyddol ac ailddefnyddio tir a chyrff dŵr a ddatblygwyd yn flaenorol.

4.111 Rhoddir pwyslais yn y dyfodol ar ddarparu diwydiant cryf ac amrywiol drwy gydol y flwyddyn, gan greu cyrchfan o ansawdd uchel y bydd pobl eisiau ailymweld â hi. Un peth sy'n allweddol i gyflawni hyn yw sicrhau bod yr agwedd sy'n denu ymwelwyr – ansawdd yr amgylchedd – yn cael ei gwella gan unrhyw ddatblygiad sy'n digwydd. I sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni, mae'n rhaid i gynigion ar gyfer llety, atyniadau a chyfleusterau hamdden i ymwelwyr, yn enwedig y rhai hynny yng nghefn gwlad, fod o ansawdd uchel a dangos ei bod yn hanfodol iddynt gael eu lleoli yno. Wrth ystyried derbynioldeb cynigion, rhoddir ystyriaeth i leoliad, dyluniad a graddfa, mynediad i'r rhwydwaith priffyrdd sylfaenol a chraidd ac effaith unrhyw draffig a gynhyrchir yn sgil hynny. Mae mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio hefyd yn bwysig i'w hystyried. Dylai cynigion adlewyrchu cymeriad a golwg yr ardal gyda thirlunio a sgrinio priodol yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen.

4.112 Mae Polisïau Cyffredinol y CDLl hwn (GN 54 – GN 57) yn cadarnhau'r lleoliadau yr ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad a'r meini prawf y disgwylir i gynigion eu bodloni er mwyn gwella cynaliadwyedd Sir Benfro fel cyrchfan i ymwelwyr.

**SP 18 Mwynau heb fod yn ymwneud ag Ynni**

Bydd cyfraniad yn cael ei wneud at yr angen lleol, rhanbarthol a chenedlaethol am gyflenwad parhaus o fwynau trwy:

1. Gynnal cronfa wrth gefn o graig galed a thywod a gro drwy gydol ac ar ddiwedd cyfnod y Cynllun;
2. Diogelu adnoddau hysbys o agregau (gan gynnwys craig galed a thywod a gro) rhag datblygiad parhaol, mewn lleoliadau y tu allan i ffiniau aneddiadau;
3. Diogelu lleoliad y lanfa ar gyfer tywod a gro sy’n cael eu treillio o’r môr;
4. Creu clustogfeydd o amgylch safleoedd cynhyrchu mwynau presennol i amddiffyn gweithredwyr chwarel a’r rhai sy’n meddiannu neu’n defnyddio tir gerllaw gan gynnwys y rhai sydd ag asedau a seilwaith ar hyn o bryd; a
5. Cefnogi ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Cymunedau Dyfeisgar a Mynd i’r Afael â Gwledigrwydd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion B a D.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru o Gymunedau Cydlynus.*

4.113 Mae’r polisi hwn yn diogelu adnodd mwynau economaidd heb fod yn ymwneud ag ynni ardal y Cynllun (craig galed a thywod a gro), yn ogystal â glanfa ar gyfer tywod a gro sy’n cael eu treillio o’r môr, yn unol â’r polisi cenedlaethol a rhanbarthol, i sicrhau bod yr adnodd yn Sir Benfro yn gallu cyfrannu at y galw lleol, rhanbarthol a chenedlaethol am fwynau. Rhestrir safleoedd gweithio mwynau presennol heb fod yn ymwneud ag ynni sydd o fewn awdurdodaeth gynllunio Cyngor Sir Penfro yn Atodiad 3 Papur Cefndir Mwynau CDLl 2. Nid yw polisi cynllunio Cymru yn mynnu bod yr adnodd glo yn cael ei ddiogelu mwyach; sut bynnag, mae hwn wedi’i hollti’n helaeth yn Sir Benfro ac mae’n annhebygol y bydd ei angen yn y dyfodol, naill ai i gynhyrchu ynni neu i gyflenwi marchnadoedd diwydiannol arbenigol. Mae Datganiad Polisi Glo Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 yn cadarnhau eu bwriad i ‘ddod â gwaith echdynnu a defnyddio glo i ben mewn ffordd wedi’i rheoli'.

4.114 Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 ar Agregau (2004) yn mynnu bod banciau tir gofynnol yn cael eu cynnal drwy gydol cyfnod y Cynllun (cyflenwad 10 mlynedd o graig galed a chyflenwad 7 mlynedd o dywod a gro). Mae hynny’n golygu, ar ddiwedd cyfnod y Cynllun, yn 2033, y disgwylir i’r adnoddau craig galed fod yn ddigonol i bara tan 2043, ac y disgwylir i’r adnoddau tywod a gro fod yn ddigonol i bara tan 2040.

4.115 Daeth y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, 2ail Adolygiad, Atodiad B, De Cymru, Medi 2020, i’r casgliadau a ganlyn mewn perthynas â Sir Benfro:

*Mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio wneud darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer agregau crai a dynnir o'r tir yn ei Gynllun Datblygu Lleol ar sail y dosraniadau blynyddol a ganlyn:*

- *Darparu tywod a graean o'r tir: Dim*
- *Darparu agregau cerrig mâl: 0.677 miliwn tunnell y flwyddyn hyd ddiwedd cyfnod y Cynllun ac am 10 mlynedd wedi hynny*

*Cyfanswm y dosraniadau ar gyfer Sir Benfro, fel y'u cyfrifwyd yn Nhablau 5.5 a 5.7 y brif ddogfen, dros y gorwel 22 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer tywod a graean a'r amserlen 25 mlynedd sy'n ofynnol ar gyfer cerrig mâl yw sero ar gyfer tywod a graean a dynnir o'r tir a 16.932 miliwn o dunelli ar gyfer cerrig mâl. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â'r banciau tir presennol (ac eithrio safleoedd segur) o sero ar gyfer tywod a graean ac 16.72 miliwn tunnell ar gyfer cerrig mâl (ar 31 Rhagfyr 2016).*

*O ystyried nad oes gan Sir Benfro unrhyw weithrediadau tywod a graean ar hyn o bryd, a bod ei chronfeydd wrth gefn o graig fâl a ganiateir yn agos iawn at gyfanswm y dosraniad sydd ei angen, nid oes angen dynodi unrhyw ddyraniadau ar gyfer y naill na'r llall yn benodol yn y CDLl ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid ystyried a oes unrhyw rai o'r ffactorau a nodir ym mharagraff B84 uchod yn arwain at unrhyw ofynion eraill o ran dyrannu adnoddau.*

*Yn ymarferol, o ystyried pa mor agos yw Sir Benfro at Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn ogystal â Cheredigion, a'r angen i ddod o hyd i ffynonellau newydd o dywod a graean y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, dylai Sir Benfro barhau i gydweithio â'r awdurdodau hynny er mwyn sicrhau'r amcan ehangach o gynnal cyflenwadau digonol o fewn isranbarth Gorllewin Cymru yn ei gyfanrwydd. Yn amodol ar yr amgylchiadau a'r ystyriaethau a nodir yn Atodiad A i Brif Ddogfen y Datganiad Technegol Rhanbarthol, efallai y bydd angen iddo gydweithio â Sir Gaerfyrddin gyfagos hefyd. Os bydd angen, efallai y bydd rhaid i'r awdurdod gynyddu ei gyfran o'r dosraniad isranbarthol cyfun ar gyfer tywod a graean, o gymharu â'r ffigurau a roddir uchod ac, o dan yr amgylchiadau hynny, mae'n bosibl iawn y bydd angen nodi dyraniadau newydd. Nid yw hyn yn berthnasol i'r dosraniad ar gyfer cerrig mâl. Os gwneir trefniadau o'r fath, byddai angen eu cadarnhau o fewn Datganiad o Gydweithredu Isranbarthol, a luniwyd yn unol â'r canllawiau a nodir yn Atodiad A, cyn cyflwyno unrhyw un o'r CDLlau cyfansoddol i'w Harchwilio.*

*Lle bo angen dyraniadau, dylai'r rhain, cyn belled ag y bo modd, gael eu nodi fel Safleoedd Penodol neu, os na ellir gwneud hynny, fel Ardaloedd a Ffefrir. Os mai dim ond Ardaloedd Chwilio eang y gellir eu nodi fel dewis olaf, dylai'r rhain fod yn ddigon i gynnig y potensial o lawer mwy o adnoddau wrth gefn, er mwyn adlewyrchu'r ansicrwydd dan sylw.*

*O ystyried argaeledd creigiau mâl a thywod a graean heb eu gweithio yn Sir Benfro, a'r uchelgais hirdymor i leihau gweithgarwch chwarela yn y Parc Cenedlaethol, byddai'n fuddiol nodi Ardaloedd Chwilio newydd (hyd yn oed os nad oes angen dyraniadau penodol) er mwyn annog diddordeb gan weithredwyr mwynau yn y dyfodol.*

4.116 Mae’r wybodaeth ym Mhapur Cefndir Mwynau CDLl 2 yn dangos bod y banc tir ar gyfer craig galed yn helaeth, ac y disgwylir i fanc tir hael fodoli ar ddiwedd cyfnod y Cynllun. Mae cyhoeddiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, Atodiad B, De Cymru, Medi 2020, yn diwygio’r casgliad hwnnw ychydig, fel y cofnodwyd uchod, ond nid yw’n ei gwneud yn ofynnol i wneud dyraniadau yn y CDLl. Mae rhoi caniatâd pellach ar gyfer cynigion cerrig mâl ers cyhoeddi ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol i raddau helaeth wedi sicrhau y gellir bodloni’r gofyniad am gerrig mâl o fewn cyfnod y Cynllun, ynghyd â 10 mlynedd ychwanegol wedi hynny.

4.117 Mae’r banc tir tywod a gro daearol a dosrannu’r ddarpariaeth i fodloni’r galw yn y dyfodol yn cael eu hystyried ar sail is-ranbarthol bellach yng Ngorllewin Cymru. Mae safleoedd cynhyrchu tywod a gro yn bodoli ar hyn o bryd ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae safleoedd a dyraniadau ychwanegol yng Ngheredigion ac mae rhywfaint o gynhyrchu ar raddfa fach yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae’r banc tir rhanbarthol ar gyfer tywod a gro yn eithaf cyfyngedig o gymharu â hwnnw ar gyfer craig galed. Bydd y tywod a’r gro o’r Parc Cenedlaethol a gynhyrchir yn y ddau safle cynhyrchu presennol yn dod i ben yn y diwedd, ac mae capasiti safleoedd cynhyrchu a dyrannu mewn rhannau eraill o’r rhanbarth yn gyfyngedig. Mae angen safleoedd cynhyrchu daearol newydd o fewn y rhanbarth felly ond y tu allan i’r Parc Cenedlaethol.

4.118 Gwneir dyraniad ar gyfer chwarel tywod a gro yn y Cynllun Datblygu Lleol hwn (gweler Polisi GN 37) a fydd yn cyfrannu at fodloni’r angen is-ranbarthol hwn.

4.119 Fel y nodwyd uchod, mae Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn dweud y dylai Cyngor Sir Penfro weithio ar y cyd â’i Awdurdod Cynllunio Lleol cyfagos yng Ngheredigion, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Sir Gaerfyrddin, i sicrhau bod cyflenwadau digonol o dywod a graean yn isranbarth Gorllewin Cymru yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei symud ymlaen drwy Ddatganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol a baratowyd ar y cyd ar gyfer is-ardal Gorllewin Cymru, fel y’i diffinnir gan Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Yn ogystal â dyrannu tywod a graean ym mholisi GN 37, mae CSP felly yn nodi Ardaloedd Chwilio ar gyfer tywod a graean mewn mannau eraill yn y Sir, yn enwedig yng Ngogledd Sir Benfro a Dwyrain Sir Benfro. Mae'r ardaloedd hyn sydd â photensial o ran adnoddau yn ymestyn i Dde Ceredigion a Gorllewin Sir Gaerfyrddin, er yn yr achosion hyn mater i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol priodol fydd ymgorffori'r Ardaloedd Chwilio hynny yn eu CDLlau newydd ar yr adeg briodol. Yn unol â’r dyhead i ddod â chynhyrchu mwynau i ben ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn y pen draw, nid oes unrhyw Ardaloedd Chwilio yn cael eu nodi yn y rhan o Sir Benfro sy’n dod o dan y dynodiad hwnnw.

4.120 Mae rhai o’r adnoddau tywod a gro sy’n dod i dde-orllewin Cymru yn dod o’r môr. Mae glanfa tywod a gro yn Noc Penfro ar gyfer y cyflenwadau hyn, sy’n cael ei diogelu gan y Cynllun. Mae ffynhonnell y deunydd ym Môr Hafren allanol. Mae Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi, mewn perthynas â thywod a graean, wrth i’r storfeydd wrth gefn a ganiateir ar hyn o

bryd ar safleoedd tir yng Ngorllewin Cymru gael eu disbyddu, efallai y bydd angen i agregau morol wneud mwy o gyfraniad yn y blynyddoedd i ddod. Ond am y tro, gofynnir i Gyngor Sir Penfro gadw cyflenwadau digonol o dywod a graean o ffynonellau daearol. Hefyd, ni all tywod a graean morol gymryd lle deunyddiau daearol bob amser.

4.121 Mae gofyniad i ddiogelu safleoedd chwarel presennol rhag defnyddiau anghydnaws ar dir cyfagos, gan sicrhau bod datblygiadau y gallai gweithrediad chwarela gael effaith niweidiol arnynt yn cael eu lleoli y tu allan i glustogfa ddiffiniedig. Yn yr un modd, mae clustogfeydd chwarel yn gallu sicrhau nad yw cynigion i estyn chwarel yn cael effaith niweidiol ar ddefnyddiau cyfagos. Dylai unrhyw asesiad o hyfywedd ar gyfer safleoedd mwynau newydd neu estyniadau gynnwys gwybodaeth am asedau a seilwaith presennol o fewn y safle a chlustogfa'r chwarel. Mae pellteroedd y clustogfeydd wedi'u hamlinellu yn arweiniad Llywodraeth Cymru, a derbynnir y gallai fod angen gwneud eithriadau pan fydd y rhain yn tresmasu ar ardal adeiledig bresennol. Mae'r clustogfeydd chwarel a ddangosir ar Fap Cynigion CDLl 2 yn adlewyrchu caniatâd ers i CDLl 1 gael ei baratoi.

4.122 Mae ailddefnyddio agregau eilaidd yn ddymunol, ond y tebyg yw mai safleoedd diwydiannol mawr y tu allan i Sir Benfro fydd ffynonellau posibl mwyaf deunydd o'r fath.

4.123 Bydd cynigion ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau yn cael eu cefnogi, lle mae'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion amgylcheddol. Gall agregau eilaidd ategu cyflenwadau o ffynonellau gwreiddiol. Fodd bynnag, nid yw'r prif ffynonellau posibl o gyflenwi agregau eilaidd yng Nghymru yn Sir Benfro.

4.124 Ar safleoedd segur, mae'n ofynnol bellach i asesu pa mor debygol yw pob safle o'r fath o gael ei weithio yn ystod cyfnod y Cynllun, yn amodol ar gwblhau adolygiad cychwynnol o amodau cynllunio a chyflwyno Datganiad o'r Effaith Amgylcheddol. Lle y deuir i'r casgliad bod ailgychwyn yn debygol, gellir gwrthbwyso cynhyrchu o'r safle dan sylw yn erbyn yr angen am ddyraniadau yn y dyfodol. Mae Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi bod chwarel igneaidd segur yn Sir Benfro ac yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol asesu'r tebygolrwydd y bydd y safle'n cael ei weithio yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad bod hyn yn annhebygol ac felly nid yw'r storfeydd wrth gefn a ganiateir ar y safle hwn yn cael eu gosod yn erbyn y gofynion ar gyfer gwaith y bydd ei angen yn y dyfodol.

**SP 19 Yr Iaith Gymraeg**

Anogir cynigion sy'n diogelu ac yn cefnogi cadw a gwella'r iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg.

O fewn ardaloedd lle y ceir sensitifrwydd o ran y Gymraeg, fel y dangosir ar y Map Cynigion, bydd angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn gwarchod, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg ar gyfer y datblygiadau a ganlyn:

Datblygiad preswyl ar hap o 5 neu fwy o anheddau;

Datblygiadau manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol gyda chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy neu arwynebedd safle sy'n mesur mwy nag 1 hectar.

Ni chaniateir cynigion a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar fywiogrwydd a hyfywedd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, oni bai y gellir lliniaru'r effaith yn briodol.

Bydd datblygiad yn cael ei reoli mewn modd sensitif mewn ardaloedd lle mae gan y Gymraeg rôl arwyddocaol yn y gymuned leol. Gallai hyn gynnwys y lleoliad, cyflwyno'n raddol, arwyddion a mesurau lliniaru priodol eraill, yn ogystal â nodi mesurau sy'n gwella buddiannau'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Cymunedau Dyfeisgar*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcanion: B, C, F.*

*Nodau Llesiant: Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu*

4.125 Rhan bwysig o'r hyn sy'n gwneud Sir Benfro'n arbennig i breswylwyr ac ymwelwyr yw ei diwylliant hanesyddol ac ieithyddol. Nod y polisi hwn yw cefnogi'r diwylliant amrywiol hwn, gan annog datblygiadau newydd priodol mewn lleoliadau sy'n sensitif i'r iaith er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn parhau'n gynaliadwy ac yn fywiog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4.126 Cymraeg 2050 yw strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Mae'n amlinellu ymagwedd tymor hir Llywodraeth Cymru at gyflawni'r weledigaeth o iaith Gymraeg sy'n ffynnu a miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Amlygir tair thema strategol i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

4.127 Nod y strategaeth yw darparu amodau ffafriol ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg ac mae'n cydnabod rôl y system cynllunio defnydd tir wrth gyfrannu at fywiogrwydd y Gymraeg trwy greu amodau addas ar gyfer cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu. Gall hyn gynnwys cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith, cefnogi economi leol gynaliadwy sy'n ffynnu mewn ardaloedd gwledig, a sicrhau nad yw penderfyniadau ynglŷn â

math, graddfa a lleoliad datblygiad o fewn cymuned benodol yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg.

4.128 Ledled y Sir, roedd 17.2% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg ar adeg cyfrifiad 2021, gyda chyfartaledd Cymru ar yr un dyddiad yn 17.8%. Wrth gymharu cyfartaledd y Sir o siaradwyr Cymraeg ar draws cyfrifiadau diweddar y mae’n gostwng yn bennaf, gyda’r ffigur wedi bod yn 19.2% yn 2011, 21.8% yn 2001[23] ac 18.3% yn 1991.

4.129 Yn hanesyddol bu cryn amrywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro, gyda chyfran isel iawn yn ne’r Sir a nifer fwy o lawer o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd y Sir. Fodd bynnag, credir bod y patrwm yn newid, yn rhannol oherwydd defnydd ehangach o'r Gymraeg yn ysgolion Sir Benfro. Gall y defnydd o’r Gymraeg amrywio yn ôl anheddiad o fewn ardal yr un cyngor cymuned hefyd, a gall newidiadau cymharol fach i nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn anheddiad effeithio ar ddefnydd dydd i ddydd o’r iaith.

4.130 Mae’r polisi hwn yn pwysleisio’r angen i ddiogelu, cefnogi a gwella proffil diwylliannol ac ieithyddol y cymunedau lleol hynny lle mae’r Gymraeg yn cyflawni rôl arwyddocaol, a bydd yn berthnasol i gymunedau lle mae mwy na 18% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg (cyfrifiad 2021). Mae Ffigur 2 isod yn dangos ardaloedd cyngor cymuned priodol lle mae siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 18% neu fwy o’r boblogaeth i adlewyrchu pa mor fregus yw’r iaith yn yr ardaloedd hyn.


4.131 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael ei gynnal o’r Cynllun, i asesu effeithiau tebygol strategaeth, polisïau a dyraniadau’r CDLl ar ddefnydd o’r Gymraeg. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â TAN 20 ‘Cynllunio a’r Gymraeg’, Hydref 2017, ac SPG y Cyngor ar Safleoedd Datblygu a Seilwaith, sy’n amlygu mesurau lliniaru priodol ar gyfer dyraniadau’r cynllun o fewn ardaloedd lle y ceir sensitifrwydd ieithyddol.

4.132 Bydd angen Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg gan ddatblygwyr ar gyfer hap-safleoedd preswyl mawr sy’n ddatblygiadau annisgwyl, nad ydynt wedi’u dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 5 neu fwy o anheddau preswyl. Bydd angen Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg hefyd ar ddatblygiadau manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol gyda chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy neu arwynebedd safle sy'n mesur mwy nag 1 hectar. Dylai Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg nodi mesurau lliniaru a allai gynnwys amseru’r datblygiad, cyflwyno’n raddol, darparu tai fforddiadwy, arwyddion, unrhyw gyfraniadau cadarnhaol arfaethedig a chyfraniadau adran 106 i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith.

4.133 Bydd monitro polisïau’r CDLl yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn cynnwys dangosydd i fonitro nifer y ceisiadau am hap-safleoedd mawr a gymeradwywyd mewn ardaloedd sensitif o ran y Gymraeg, i asesu a yw ceisiadau o’r fath wedi eu cefnogi gan Asesiad o Effaith ar y Gymraeg.

[23] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census

Ffigur 2: Nifer y Siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyngor Cymuned (Cyfrifiad 2021)



**SP 20 Seilwaith Trafnidiaeth a Hygyrchedd**

Cefnogir gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth presennol a fydd yn cynyddu hygyrchedd i gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig trwy ddulliau cynaliadwy.

Diogelir llwybrau ar gyfer gwelliannau a amlygwyd i'r seilwaith trafnidiaeth, a chyflwynir manylion diogelu ym mholisi GN 36 Llwybrau a Gwelliannau Trafnidiaeth.

Cefnogir cynlluniau ar gyfer cerddwyr a llwybrau beiciau a gyflwynir ar y cyd â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

*Materion Allweddol Cysylltiedig: Cymunedau Dyfeisgar a Mynd i'r Afael â Gwledigrwydd*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcan I.*


*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang*

4.134 Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn darparu modd o integreiddio cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth. Mae'r polisi hwn, ar y cyd â pholisïau cyffredinol fel GN 36 (Llwybrau Trafnidiaeth a Gwelliannau) a GN 2 (Dylunio Cynaliadwy) yn darparu sail ar gyfer ymagwedd integredig at gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth. Mae cynllunio trafnidiaeth a buddsoddi ynddi yn canolbwyntio mwy a mwy ar deithio trwy ddulliau cynaliadwy. O fewn ardal y Cynllun hwn, mae'r ffaith bod Sir Benfro ar rwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd strategol pwysig sy'n cysylltu Cymru â gwasanaethau fferi i Iwerddon ac oddi yno, a bod y Sir yn lleoliad o bwys cenedlaethol ar gyfer gweithgareddau economaidd sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd ac ynni yn agweddau hollbwysig o'r cyd-destun ar gyfer cynllunio trafnidiaeth. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 12, a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18, mae'r polisi hwn yn amlygu ac yn diogelu gwelliannau arfaethedig i'r seilwaith trafnidiaeth a fydd yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy. Cyflwynir mwy o fanylion am ddiogelu cynlluniau trafnidiaeth ym mholisi GN 36, ac mae polisi GN 2 yn cyfeirio at osod mannau gwefru ar gyfer Cerbydau Allyriadau Isel Iawn. Mae'r gwelliannau a amlygwyd yn y Cynllun ac ar y Map Cynigion wedi'u rhaglennu a'u hariannu, ac maen nhw'n debygol o ddigwydd yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau a amlygwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015-2020) (a baratowyd ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Caerfyrddin) a'r rhai hynny yn rhaglenni Llywodraeth Cymru, er enghraifft ar Gefnffyrdd, a'r Cyngor Sir, ar gyfer Ffyrdd Sirol. Maen nhw hefyd yn cynnwys datblygu rhwydwaith o lwybrau defnydd a rennir, sy'n darparu cyfleoedd teithio cynaliadwy i gerddwyr, beicwyr ac weithiau grwpiau eraill hefyd fel marchogion.

4.135 Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i rym yn 2014. Mae'n mynnu bod llwybrau cerdded a beicio presennol a dyheadol ledled Cymru yn cael eu mapio. Mae'r Cyngor yn gryf o blaid yr egwyddorion sydd wrth wraidd teithio llesol, gan fod hyn yn rhoi sail i deithio trwy ddulliau cynaliadwy. Mae llawer o lwybrau cerddwyr a beicio newydd wedi cael eu cyflwyno, a byddant yn parhau i gael eu cyflwyno, o

ganlyniad i'r Ddeddf hon, a bydd y Cyngor yn cefnogi cynlluniau o'r fath lle y bônt yn gyson â pholisïau eraill y CDLl.

Ffigur 3: Rhwydwaith Trafnidiaeth Allweddol



**SP 21 Atal a Rheoli Gwastraff**

Gwneir darpariaeth briodol ar gyfer cyfleusterau rheoli neu waredu gwastraff o fewn ardal y Cynllun.

Yn y lle cyntaf, bydd y Cynllun yn ceisio atal gwastraff rhag cael ei greu. Lle nad yw hynny'n bosibl, bydd yr effaith ar yr amgylchedd yn cael ei lleihau i'r eithaf a bydd y defnydd o wastraff fel adnodd yn cael ei gynyddu i'r eithaf, trwy ailddefnyddio, ailgylchu a dulliau adfer eraill. Dim ond mewn achosion lle nad oes dewis gwell ar gael y bydd gwaredu'n cael ei ystyried, a hynny trwy'r dull mwyaf cynaliadwy posibl.

*Mater Allweddol Cysylltiedig: Diogelu ein Hamgylchedd.*

*Bydd y polisi strategol hwn yn cyfrannu at gyflawni amcan K.*

*Nodau Llesiant: Cymru Lewyrchus, Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.*

4.136 Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r Gyfarwyddeb Tirlenwi Ewropeaidd yn darparu'r sail ar gyfer atal a rheoli gwastraff yng Nghymru. Adlewyrchir darpariaethau'r ddwy gyfarwyddeb hyn yn strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru, sef 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' (TZW). Mae'r ddogfen olaf yn amlinellu fframwaith ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon a rheoli gwastraff yng Nghymru hyd at 2050 ac fe'i hategir gan amryw Gynlluniau Sector, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain o safbwynt cynllunio defnydd tir yw 'Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd'. Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r Cynlluniau Sector yn darparu fframwaith yng Nghymru ar gyfer lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu a hybu lefelau uchel o ailgylchu.

4.137 Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar wastraff wedi'i amlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 12 (PPW), ac yn Nodyn Cyngor Technegol 21 ar Wastraff (TAN 21). Rhoddir pwyslais ar atal gwastraff rhag cael ei greu yn y lle cyntaf a, lle nad yw hyn yn bosibl, adfer y deunyddiau gwastraff fel y gellir eu hailddefnyddio lle y bo'n ymarferol. Mae lleihau effeithiau amgylcheddol niweidiol i'r eithaf, osgoi risg i iechyd dynol, gwarchod tirweddau dynodedig a safleoedd cadwraeth natur a diogelu amwynder preswylwyr lleol yn ystyriaethau pwysig.

4.138 Mae Papur Cefndir ar Wastraff wedi cael ei baratoi i gefnogi polisïau a chynigion gwastraff CDLl 2.

4.139 Mae'r ymagwedd at reoli gwastraff yn ardal gynllunio'r Cyngor wedi'i seilio ar y dogfennau polisi lefel uwch. Dyma'r agweddau allweddol:

- Ceisio atal gwastraff rhag cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf;
- Sicrhau bod rheoli gwastraff yn adlewyrchu'r Hierarchaeth Wastraff;
- Sicrhau bod yr egwyddor agosrwydd yn cael ei hadlewyrchu mewn penderfyniadau ar gynigion rheoli gwastraff sy'n cael eu cyflwyno yn ardal gynllunio'r Cyngor;
- Amlygu safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd (mewn adeiladau ac yn yr awyr agored);

- Gosod y meini prawf ar gyfer ystyried pob cais sy'n ymwneud â gwastraff, gan gynnwys y rhai hynny a gyflwynir ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu / eu hamlygu a safleoedd sydd heb eu dyrannu;
- Lleihau effeithiau gweithgareddau rheoli gwastraff ar yr amgylchedd, y rhwydwaith trafnidiaeth, iechyd cyhoeddus, amwynder lleol a'r dirwedd i'r eithaf;
- Gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau gwastraff; a
- Phan fydd rhaid gwaredu ar y tir, sicrhau bod digon o le gwag ar gael a bod safonau derbyniol yn cael eu cyrraedd o ran effeithiau ar yr amgylchedd, trafnidiaeth, iechyd cyhoeddus, amwynder lleol a'r dirwedd.

4.140 Mae'r polisi strategol yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer y pwyntiau y cyfeiriwyd atynt uchod, ac mae'r polisïau cyffredinol yn ymhelaethu ar elfennau penodol.

# 5 POLISÏAU ARDAL GYFAN

## CREU LLEOEDD

### GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol

Caniateir datblygiad lle y bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae natur, lleoliad, safle a graddfa'r datblygiad arfaethedig yn gydnaws â chapasiti a chymeriad y safle a'r ardal y mae wedi'i leoli ynddi;
2. Ni fyddai'n arwain at effaith niweidiol arwyddocaol ar amwynder lleol o ran effaith weledol, colli golau neu breifatrwydd, arogleuon, mwg, mygdarthau, llwch, ansawdd aer neu gynnydd mewn sŵn neu lefelau dirgryniad;
3. Ni fyddai'n achosi effaith niweidiol annerbyniol (effaith niweidiol na ellir ei lliniaru'n foddhaol) ar gymeriad, ansawdd nac amrywiaeth y dirwedd, gan gynnwys nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac awdurdodau cyfagos;
4. Ni fyddai'n achosi effaith niweidiol annerbyniol (effaith niweidiol na ellir ei lliniaru'n foddhaol) ar briddoedd ac ar gyfer safleoedd heb eu dyrannu o 1 hectar neu fwy y tu allan i Ffiniau Aneddiadau bod arolwg dosbarthiad tir amaethyddol yn cyd-fynd â'r cynnig;
5. Mae'n parchu ac yn gwarchod yr amgylchedd naturiol heb unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol (effaith niweidiol na ellir ei lliniaru'n foddhaol) ar yr amgylchedd, gan gynnwys safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir;
6. Byddai'n cael ei gynnal mewn lleoliad hygyrch, byddai'n ymgorffori egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd, ac ni fyddai'n arwain at effaith niweidiol ar ddiogelwch ar y priffyrdd nac yn achosi mwy o draffig nag y gellir ymdopi ag ef ar y rhwydwaith priffyrdd;
7. Gellir darparu seilwaith gwasanaethau, mynediad a pharcio angenrheidiol a phriodol;
8. Ni fyddai'n achosi nac yn arwain at niwed annerbyniol i iechyd a diogelwch, gan gynnwys trwy berygl llifogydd;
9. Ni fyddai'n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar ansawdd dŵr (gweler hefyd bolisi GN 47);
10. Rhaid i unrhyw lygredd golau fod yn angenrheidiol ac wedi'i gyfiawnhau'n llawn a rhaid i gynigion â llygredd golau sylweddol gynnwys cynllun goleuo. Rhaid i gynigion leihau eu heffaith golau trwy fesurau lliniaru priodol lle bynnag y bo modd;
11. Mae'n lleihau faint o wastraff a gynhyrchir i'r eithaf yn ystod gweithredu ac mae'n rheoli unrhyw wastraff a gynhyrchir; ac
12. Nid yw'n cyfrannu at gyfuno aneddiadau ar wahân nac yn creu neu'n cyfnerthu datblygiad hirgul.

5.1 Diben y polisi hwn yw darparu fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithiau posibl datblygiad. Fe'i defnyddir ar y cyd â pholisïau eraill y cynllun i bennu a yw'r datblygiad arfaethedig yn briodol.

5.2 Bydd y polisi'n gweithredu fel dull o sicrhau bod datblygiad yn briodol ar gyfer y lleoliad uniongyrchol y mae wedi'i fwriadu ynddo a'i leoliad/cyd-destun ehangach.

Mae'n rhaid i gynigion barchu gallu aneddiadau unigol i ymdopi â thwf o ran graddfa a chyfradd datblygu, ac o ran safle'r anheddiad yn yr hierarchaeth. Yng nghefn gwlad, mae'n rhaid i gynigion ddangos bod lleoliad o'r fath yn angenrheidiol i'r datblygiad a bod natur y cynnig yn briodol mewn ardal wledig. Mae'n rhaid i raddfa, natur a safle cynnig fod yn briodol i'r lleoliad a gynigir, a rhaid iddo beidio â thanseilio cymeriad y safle neu'r ardal.

5.3 Bydd yr amwynder a fwynheir gan bobl yn eu cartrefi, eu gweithleoedd a'u hardaloedd hamdden yn cael ei warchod rhag datblygiad amhriodol, niweidiol. Diffinnir amwynder fel yr elfennau hynny o olwg a gosodiad aneddiadau a chefn gwlad sy'n gwneud bywyd yn bleserus.

5.4 Bydd amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro yn cael ei warchod rhag datblygiad amhriodol ac yn cael ei wella lle y bo'n bosibl. Mae amryw ddynodiadau, gan gynnwys dynodiadau natur, dynodiadau daearegol a geomorffolegol, Meysydd Tref a Phentref, Tir Comin a Lletemau Glas, yn cyfrannu at warchod cymeriad mannau gwyrdd Sir Benfro a'r ardaloedd o'u hamgylch. At hynny, mae ardal y Cynllun yn cynnwys nifer o dirweddau swyddogaethol deniadol sy'n dibynnu ar arferion rheoli tir a chadwraeth cadarn, ac mae ganddynt gydberthynas ffisegol a swyddogaethol agos â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro cyfagos. Felly, mae'n rhaid i unrhyw gynnig datblygu ddangos ei fod yn parchu'r amgylchedd naturiol, cymeriad, cydlyniad a chyfanrwydd y dirwedd, rhywogaethau brodorol, priddoedd, a dyfroedd daear ac wyneb. Anogir tirweddu a phlannu sensitif, a chreu, cynnal a rheoli nodweddion tirwedd sy'n bwysig i fywyd gwyllt. Lle y byddai cynnig datblygu'n arwain at golli nodwedd dirwedd leol, mae'n rhaid dangos y byddai hyn yn cael ei orbwyso gan ei effaith gadarnhaol ar gymeriad cyffredinol yr ardal. Lle cynigir datblygiad ar safle heb ei ddyrannu o 1 hectar neu fwy y tu allan i Ffiniau Anheddiad, rhaid cael arolwg dosbarthiad tir amaethyddol i gyd-fynd ag ef. Bydd effaith bosibl y cynnig ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (sef graddau 1, 2 a 3a) yn ystyriaeth berthnasol wrth werthuso'r cynnig.

5.5 Mae coetiroedd trefol a gwledig, grwpiau o goed a gwrychoedd yn cyfrannu at ansawdd gweledol ac amrywiaeth y dirwedd, cyfleoedd hamdden ac addysgol a buddion amgylcheddol sylweddol, fel cynefinoedd blaenoriaeth ac ardaloedd chwilota am fwyd ychwanegol neu well, lloches, cysgod, gwelliant o ran dal carbon, lleddfu micro-hinsoddau a gwella ansawdd aer. Dylai cynigion datblygu ddefnyddio nodweddion naturiol safle a lle mae coed, coetiroedd a gwrychoedd yn bresennol, dylid nodi y dylid eu cadw mewn ceisiadau cynllunio. Bydd angen i ddatblygiad a fyddai'n effeithio ar goed, coetir a/neu wrychoedd gael arolwg coedyddiaeth, a dylai gadw'r nodweddion hyn a'u gwarchod yn ddigonol cyn, yn ystod ac ar ôl datblygu. Dim ond lle byddai hynny'n cyflawni buddion cyhoeddus sylweddol ac wedi'u diffinio'n glir y caniateir cael gwared ar goed, coetir a gwrychoedd yn barhaol. Dylai darpar ddatblygwyr cynlluniau a allai effeithio ar Goetir Hynafol neu Led-Naturiol gyfeirio at y Rhestr Coetiroedd Hynafol[24] cyn

[24] https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/trees-woodlands-and-forests/identifying-ancient-woodlands/?lang=cy

tarfu ar safle. Mae gan Sir Benfro gyfres lawn o haenau LANDMAP gyda sicrwydd ansawdd sy'n gwerthuso'r dirwedd weledol a synhwyraidd, y dirwedd ddiwylliannol, cynefinoedd tirwedd, y dirwedd ddaearegol, a'r dirwedd hanesyddol. Defnyddiwyd yr haenau hyn i lywio Asesiad o Gymeriad Tirwedd yr Awdurdod sy'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun hwn. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bydd yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd yn cael ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Ynghyd â'r polisi cynllunio cenedlaethol, anogir ymgeiswyr i ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu cynigion gan y bydd yn ystyriaeth berthnasol ac yn cael ei defnyddio wrth benderfynu ar ddatblygiad.

5.6 Mae priddoedd yn adnodd pwysig yn ardal y cynllun gan eu bod yn sail i amaethyddiaeth lwyddiannus gan gynnal amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid a gallant fod yn storfa bwysig ar gyfer carbon, yn enwedig y rhai gyda chynnwys mawn uchel[25]. Gall priddoedd wneud cyfraniad cadarnhaol at sefydlogrwydd y tir hefyd. Yn ôl y system Dosbarthu Tir Amaethyddol, tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3A yw'r gorau a'r mwyaf amlbwrpas, ac mae Polisi Cynllunio Cymru (Cymru'r Dyfodol a PPW argraffiad 12, paragraff 3.58) yn ei ddiogelu fel adnodd y mae pen draw iddo ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r cynllun hwn yn rhoi cryn bwys ar warchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, ac mae'n ei warchod rhag datblygu lle bynnag y bo'n bosibl. Dylai tir o radd 1, 2 a 3A gael ei ddatblygu dim ond lle mae angen tra phwysig am y datblygiad ac a) nid oes tir a ddatblygwyd yn flaenorol neu dir o radd amaethyddol is ar gael neu b) lle mae tir o radd is ar gael, ond mae iddo werth amgylcheddol uchel, a gydnabyddir gan ddynodiad am resymau tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archaeolegol. Lle nad oes dewis arall yn lle datblygu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, dylid cyfeirio'r datblygiad at y tir o'r radd isaf sydd ar gael (mewn geiriau eraill, gradd 3A yn ôl y dilyniant, yna gradd 2 ac yn olaf, os nad oes dewis amgen, gradd 1).

5.7 Mae'n rhaid i ddatblygiadau fod ar raddfa y gall y rhwydwaith ffyrdd cyfagos ymdopi â hi, heb niweidio'r rhwydwaith priffyrdd na nodweddion amgylcheddol y ffordd. Lle y bo'r angen, bydd datblygwyr yn ariannu gwelliannau sy'n ofynnol i wneud cynigion datblygu'n dderbyniol. Dylai pob datblygiad newydd fod yn hygyrch iawn ar droed, ar feic neu drafnidiaeth gyhoeddus, er bod gwasgariad aneddiadau'n golygu y bydd ceir yn parhau i fod yn bwysig er mwyn cyrraedd sawl rhan o Sir Benfro. Mae cerdded a beicio yn chwarae rôl bwysig, yn enwedig o fewn aneddiadau, er mwyn lleihau nifer y teithiau byr a wneir mewn car. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr roi ystyriaeth ofalus i leoliad, dyluniad a threfniadau mynediad. Bydd angen Asesiadau Trafnidiaeth ar gyfer cynigion sy'n debygol o gynhyrchu teithiau ychwanegol arwyddocaol, i ddangos bod egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd wedi cael eu hymgorffori yn y datblygiad, gan gynnwys darparu lle i barcio beiciau ac ardaloedd 'gollwng' ar gyfer bysiau. Bydd SPG sy'n amlinellu Canllawiau Parcio yn cynghori ar ddarpariaeth briodol ar gyfer mathau amrywiol o ddatblygiadau mewn gwahanol

[25] Am fanylion pellach ar leoliad mawndir pwysig yn Sir Benfro gweler https://mapdata.llyw.cymru/layers/inspire-wg:wg_unified_peat_2019 a hefyd CCA Bioamrywiaeth CDLl2

leoliadau yn dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd. Bydd yr SPG yma hefyd yn amlinellu'r gofynion i ddarparu mannau gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn (ULEVs), fel y cyfeirir ato ym mholisi GN.2 Dylunio Cynaliadwy a Chreu Lleoedd.

5.8 Mae Seilwaith Gwasanaethau'n cynnwys parcio, cyflenwadau pŵer, dŵr, modd o waredu carthion, gwaredu dŵr wyneb a thelathrebu. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen i ddatblygwr gyfrannu at gost cynyddu seilwaith gwasanaethau mewn ardal lle y ceir prinder.

5.9 Lle mae pryderon y byddai cynnig yn achosi niwed i iechyd a diogelwch trwy halogiad, effaith niweidiol ar ansawdd aer, ansefydlogrwydd tir, llifogydd neu erydu, ceisir cyngor proffesiynol gan yr awdurdod perthnasol. Lle mae pryderon o'r fath yn ymwneud â llifogydd afonol neu lifogydd llanw a / neu erydu, bydd darpariaethau'r Cynllun Rheoli Traethlin a / neu'r Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a gyhoeddwyd gan CNC ar gyfer Rheoli Llifogydd perthnasol yn llywio'r ystyriaeth a roddir i'r materion iechyd a diogelwch. Mewn rhai achosion, gallai problemau disgwyliedig ar y safle neu oddi arno olygu bod datblygiad yn amhriodol; mewn achosion eraill, gallai datblygiad fod yn bosibl os oes mesurau lliniaru ar gael i alluogi'r cynnig i wrthsefyll y problemau a amlygwyd. Ni amlygwyd unrhyw ddyraniadau tai o fewn parthau llifogydd C1 neu C2 yn y Cynllun. Mae nifer fach o ddyraniadau eraill wedi'u lleoli mewn parthau llifogydd C1 neu C2. Lle mae dyraniadau mewn perygl o lifogydd afonol neu lifogydd dŵr wyneb, dangosir hyn yn yr SPG ar Safleoedd Datblygu a Seilwaith, gyda gofynion sy'n pennu faint o wybodaeth sydd i'w darparu ar bob cam ymgeisio.

5.10 Bydd penderfyniadau ar gynigion a wneir o fewn parth diogelu gosodiad presennol neu ar gyfer gosodiad(au) peryglus newydd (gan gynnwys meysydd awyr) yn cael eu llywio gan ganllawiau'r cyrff diogelu perthnasol ar oblygiadau iechyd a diogelwch y cynnig, gan gynnwys cydnawsedd â defnyddiau tir cyfagos a gerllaw a'r goblygiadau i lwybrau dynesu yn y cyffiniau. Bydd nodyn cynghori ar wahân yn cael ei baratoi ar ba osodiadau peryglus sydd â pharthau diogelu a sut y gellir cael gwybodaeth bellach ynglŷn â'r parthau hyn.

5.11 Ceir rhagor o fanylion am ofynion polisi yn ymwneud ag ansawdd dŵr ym mholisi GN 47 Ansawdd Dŵr a Gwarchod Cyrsiau Dŵr. Mae hyn yn adlewyrchiad arbennig o'r ymwybyddiaeth uwch o faterion llygredd mewn dalgylchoedd afonydd sy'n ymwneud â maetholion, gan gynnwys ffosffadau a nitradau, sy'n effeithio ar yr afonydd a warchodir gan ddynodiadau ACA yn Sir Benfro, Afon Teifi ac Afon Cleddau. Mae canllawiau newydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ffosffadau yn rhannau di-lanw afonydd yr ACA yng Nghymru a chanfuwyd bod lefelau ffosffadau yn rhannau di-lanw dalgylchoedd Teifi a Chleddau yn rhy uchel. Rhagwelir y bydd canllawiau pellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ond yn ymwneud â rhannau llanw afonydd ACA Cymru (gan gynnwys afonydd Teifi a Chleddau) yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol.

5.12 Wrth gyfeirio at ddraenio cynaliadwy, bydd angen i ddatblygiadau newydd sy'n cynnwys mwy nag un annedd, neu lle mae'r arwynebedd lle y bydd gwaith

adeiladu'n digwydd yn gyfwerth â 100 metr sgwâr neu fwy, gael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo SDCau (SAB) – sef Cyngor Sir Penfro yn yr achos hwn. Ni ellir dechrau adeiladu hyd nes y ceir cymeradwyaeth SDCau gan y SAB – hyd yn oed os rhoddwyd caniatâd cynllunio.

5.13 Mae Polisi Cynllunio Cymru, argraffiad 12, yn cynghori y dylai darparu SDCau fod yn rhan annatod o ddyluniad datblygiad newydd ac y dylai fod yn dasg cam cynnar wrth lunio cynigion datblygu.

5.14 At ddibenion Cynllunio Datblygu, mae argraffiad 12 PPW yn argymell dulliau cydweithredol o ddraenio cynaliadwy, gan ddefnyddio tystiolaeth a gafwyd trwy asesiadau seilwaith gwyrdd, er mwyn integreiddio SDCau mewn strategaethau twf ar gyfer ardaloedd penodol. Bydd darpariaethau'r Cynllun hwn, ar y cyd â'r cynlluniau SDCau a gymeradwywyd gan y SAB, yn helpu i gyflawni'r dyhead hwnnw.

5.15 Wrth ddarparu SDCau, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio datrysiadau seilwaith caled weithiau, er enghraifft lle mae ystyriaethau archaeolegol pwysig. Fodd bynnag, datrysiadau naturiol yw'r dewis a ffefrir yn y rhan fwyaf o achosion. Lle na ellir defnyddio SDCau oherwydd amodau'r tir, er enghraifft lle mae rhewglai'n bresennol, ceisir y datrysiad gorau nesaf sydd ar gael i ddraenio'r safle.

5.16 Gall llygredd golau gael effaith andwyol sylweddol ar rywogaethau a safleoedd gwarchodedig allweddol, ac felly dylid ei leihau. Dylai'r goleuadau fod yn briodol i'r amgylchedd a chymeriad yr ardal gyfan, nid dim ond y safle, a dylent anelu at leihau aflonyddwch golau. Mae'n rhaid i unrhyw lygredd golau sy'n cael ei greu yn rhan o ddatblygiad fod yn angenrheidiol ac wedi'i gyfiawnhau, er enghraifft oherwydd pryderon diogelwch, a lle mae cynigion yn cael effaith sylweddol rhaid iddynt gynnwys cynllun goleuo llawn a chynigion lliniaru. Gall goleuo hefyd gael effaith niweidiol ar yr ymdeimlad o le, gydag effeithiau cronnol ar leoliadau tirwedd. Bydd nodiadau canllaw ar lefelau priodol o oleuo yn cael eu cynhyrchu a byddant yn cynnwys cyfleoedd lliniaru. Mae'r SPG ar Fioamrywiaeth yn rhoi arweiniad ar sut mae goleuo'n gallu effeithio ar rywogaethau pwysig a rhywogaethau a warchodir. Efallai y bydd cyfle i baratoi CCA ar y cyd ar Oleuo ac Awyr Dywyll, gan weithio ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

5.17 Mae lleihau gwastraff i'r eithaf a defnyddio adnoddau am gyn hired â phosibl yn elfennau pwysig o'r economi gylchol (gweler PPW argraffiad 12, paragraff 5.11.2 am ragor o fanylion). Y ffordd orau o sicrhau bod cynnig datblygu'n bodloni'r gofynion hyn yw trwy gyflwyno Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol ar gyfer y datblygiad. Mae'n well paratoi hwn yn gynnar yn ystod y broses ddatblygu a gall osgoi problemau'n ddiweddarach a lleihau'r costau i ddatblygwyr. Y materion i'w hystyried o ran rheoli adnoddau naturiol yw gosodiad a dyluniad y datblygiad, defnyddio deunyddiau wrth adeiladu ac ailddefnyddio ac ailgylchu unrhyw wastraff a gynhyrchir yn ystod adeiladu, gan gynnwys unrhyw wastraff a gynhyrchir trwy ddymchwel neu ailffurfio lefelau'r safle.

5.18 Mae rhan o warchod natur unigryw Sir Benfro, o ran y dirwedd a diwylliant, yn ymwneud â gwarchod natur unigryw ei haneddiadau. Felly, ni chaniateir cynigion a fyddai'n cyfrannu at gyfuno aneddiadau na datblygiad hirgul sy'n tresmasu ar gefn gwlad.

**GN 2 Dyluniad Cynaliadwy a Chreu Lleoedd**

Caniateir datblygiad lle y bodlonir meini prawf perthnasol:

1.Mae'r datblygiad o ddyluniad yn dda sy'n rhoi ystyriaeth briodol i nodweddion lleol unigryw ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at y cyd-destun lleol;

2.Mae'n briodol i'r cymeriad lleol a chyd-destun y dirwedd/treflun o ran gosodiad, graddfa, ffurf, safle, màs, uchder, dwysedd, cymysgedd, manylion, defnydd o ddeunyddiau, tirweddu a threfniadau / gosodiad mynediad;

3.Mae'n cynnwys dyluniad sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac sy'n ymatebol i'r hinsawdd trwy leoliad, cyfeiriad, dwysedd, gosodiad, defnydd o dir, deunyddiau adeiladu lleol a chynaliadwy, cadwraeth dŵr a'r defnydd o systemau draenio cynaliadwy (SDCau);

4. Mae'n darparu digon o gyfleusterau a lle i gasglu ac ailgylchu deunyddiau gwastraff;

5.Mae'n cyflawni dyluniad hyblyg y gellir ei addasu;

6.Mae'n creu amgylchedd cynhwysol a hygyrch i ddefnyddwyr sy'n mynd i'r afael â diogelwch cymunedol ac yn annog cerdded a beicio;

7.Mae'n darparu tir cyhoeddus bywiog o ansawdd da sy'n integreiddio'n dda â strydoedd a mannau cyffiniol;

8.Mae'n cyfrannu at ddarparu lle awyr agored a ddyluniwyd yn dda sydd â chysylltiadau da â strydoedd, mannau a seilwaith gwyrdd arall cyffiniol; ac

9. Mae'n darparu ar gyfer mannau gwefru cerbydau allyriadau isel iawn lle y cynigir datblygiad preswyl newydd, neu mewn datblygiadau masnachol mewn amgylchiadau priodol.

5.19 Mae cyflawni datblygiad cynaliadwy yn sail i'r system gynllunio yng Nghymru. Yn rhan o'r agenda datblygu cynaliadwy gyffredinol ar gyfer Cymru a Sir Benfro, mae'r polisi hwn yn ceisio darparu mwy o adeiladau a lleoedd cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cael ei ddylunio a'i adeiladu i fodloni'r holl feini prawf polisi perthnasol a chyda goblygiadau cynnal a chadw isel. Yn ogystal â bod o bwysigrwydd arwyddocaol i bob adeilad newydd, bydd meini prawf y polisi hefyd yn berthnasol i newidiadau ac estyniadau i adeiladau presennol. O ran cynigion ar raddfa fach, bydd ystyriaethau ynglŷn â meini prawf y polisi yn gymesur â'r math o ddatblygiad a gynigir.

5.20 Er mwyn sicrhau dyluniad da, mae'n rhaid i gynigion ddeillio o ddealltwriaeth o'r safle a'i gyd-destun, yn hytrach na dibynnu ar ddefnydd anghreadigol o osodiadau safle safonol ac adeiladau o fath safonol. Nod y polisi hwn yw codi'r safon dylunio ar gyfer pob datblygiad newydd ledled y Sir er mwyn creu adeiladau a mannau deniadol a swyddogaethol, a gwella ardaloedd sydd wedi'u dylunio a'u gosod yn wael.

5.21 Mae amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd preswylwyr yr ardal a phobl sy'n ymweld â hi. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn ceisio gwrthdroi tuedd i Gymru ddod yn fwy unffurf gyda mathau safonol o adeiladau nad ydynt yn aml yn adlewyrchu arddulliau adeiladu lleol traddodiadol, trwy hybu natur unigryw leol. Ceir nodweddion dylunio gwahanol mewn rhannau gwahanol

o'r Sir, felly mae'n bwysig i ddatblygwyr ddefnyddio ymagwedd a arweinir gan ddylunio sy'n sicrhau bod pob datblygiad newydd yn ymateb yn gadarnhaol i nodweddion y safle a'i amgylchoedd. Nod y polisi hwn yw sicrhau bod pob datblygiad newydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at natur unigryw a chymeriad lleol yr amgylchedd adeiledig a naturiol a'r cymunedau yn Sir Benfro. Lle nad oes nodweddion lleol cryf yn bodoli, bydd dyluniad cynaliadwy da, cyfoes yn briodol.

5.22 Fel y cydnabyddir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), mae creu lleoedd a 'dylunio' yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau esthetig traddodiadol ac yn ymwneud â'r berthynas rhwng pob elfen o'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo ymagwedd fwy ystyriol at ddylunio adeiladau yn Sir Benfro yn hytrach na datrysiad dylunio unffurf ar gyfer pob ardal, ac mae'n annog defnyddio agweddau priodol ar draddodiadau a nodweddion dylunio lleol i gynhyrchu adeiladau cyfoes.

5.23 Mae'r newid yn yr hinsawdd yn her amgylcheddol tymor hir allweddol, ac mae'r angen i leihau allyriadau a defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon yn hanfodol. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr fynd i'r afael â dyluniad sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac sy'n ymatebol i'r hinsawdd yn gynnar yn ystod y broses ddylunio trwy ddwyseddau a phatrymau datblygu cynaliadwy ac ymgorffori dyluniad adeilad cynaliadwy. Dylid rhoi ystyriaeth i leoliad, gosodiad, cyfeiriad, dwysedd, defnydd o dir, deunyddiau, technegau adeiladu, tirweddu, cadwraeth dŵr a datrysiadau rheoli gwastraff. Disgwylir i gynigion datblygu newydd ddefnyddio deunyddiau adeiladu wedi'u hailgylchu lle y bo'n briodol, gan gynnwys agregau eilaidd. Yn sgil cyflwyno'r gyfundrefn gydsynio Cynllun Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn gynnar yn 2019, bydd yn orfodol i SDCau gael ei gynnwys ym mhob datblygiad sy'n fwy na 100m$^2$ neu sydd ar gyfer 2 annedd neu fwy. Dylid rhoi ystyriaeth gynnar i'r gofyniad ar gyfer SDCau yn y gosodiad dylunio.

5.24 Dylid darparu lle i reoli a storio gwastraff, yn enwedig i'w gwneud yn hwylus i wastraff a gesglir gan yr awdurdod lleol gael ei ddidoli wrth ymyl y ffordd.

5.25 MaePolisi Cynllunio Cymru, argraffiad 12, yn gofyn am osod mannau gwefru ULEV ar y cyd â darpariaeth parcio ceir mewn cynigion datblygu dibreswyl. . O ran cynigion dibreswyl, y gofyniad lleiaf a gynghorir gan PPW yw bod 10% o'r mannau parcio ceir a ddarperir yn cynnwys pwyntiau gwefru o'r fath. Bydd rhagor o fanylion am y pwnc hwn yn cael eu cynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ganllawiau Parcio a fydd yn cael eu paratoi i ategu'r Cynllun hwn. Yn ogystal â gofyniad PPW 12, mae'r Cynllun hwn yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn darparu mannau gwefru cerbydau allyriadau isel iawn yn unol â'r SPG ar Ganllawiau Parcio. Mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio diogelu tai newydd at y dyfodol ac mae'n rhan o ymrwymiad Cyngor Sir Penfro i fynd i'r afael ag argyfwng y newid yn yr hinsawdd.

5.26 Bydd angen i ddyluniadau gynnwys ymatebion i effaith debygol y newid yn yr hinsawdd o ran tymereddau uwch trwy gysgodi, oeri ac awyru naturiol a goblygiadau stormydd a llifogydd. Dylai adeiladau a seilwaith cysylltiedig gael eu dylunio i fod yn hyblyg nid yn unig i newid hinsoddol ond hefyd i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau ac anghenion sy'n newid ar hyd eu hoes.

5.27 Dylai tir cyhoeddus gael ei ystyried yn elfen annatod o'r broses ddylunio. Dylai cynigion datblygu gael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i greu tir cyhoeddus bywiog, hygyrch o ansawdd da sy'n cydweddu'n dda â strydoedd a mannau cyffiniol. Dylai cynigion integreiddio â rhwydweithiau symud presennol, gan gynyddu cysylltedd i'r eithaf, ar yr un pryd â darparu ymdeimlad o gaeadle a pharhad i helpu i greu strydoedd a mannau clir sy'n unigryw yn lleol.

5.28 Dylai'r egwyddor dylunio cynhwysol gael ei chymhwyso i bob datblygiad newydd er mwyn creu amgylcheddau hygyrch i bob defnyddiwr sy'n annog cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dylai cynigion annog strydoedd a mannau i fod yn lleoedd amlswyddogaethol lle y rhoddir blaenoriaeth i gerddwyr, fel y cynghorir yn y 'Llawlyfr Strydoedd'.

5.29 Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr wella diogelwch cymunedol trwy ddyluniad datblygiad newydd, trwy gyflwyno mesurau diogelwch priodol a galluogi cymunedau i feithrin ymdeimlad o berchenogaeth a chyfrifoldeb am fan lleol. Bydd hyn, yn ei dro, yn gwneud cymunedau'n lleoedd mwy dymunol i fyw ynddynt ac ymweld â nhw.

### GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd

Lle mae datblygiad yn creu angen uniongyrchol gysylltiedig am seilwaith, gwasanaethau neu gyfleusterau cymunedol newydd neu well, ac nid yw hyn eisoes wedi'i raglennu gan gwmni gwasanaeth neu seilwaith, mae'n rhaid iddo gael ei ariannu gan y datblygiad, a:

1. Bod yn gysylltiedig â'r datblygiad o ran graddfa a math; a

2. Chael ei ddarparu ar y safle lle bynnag y bo'n briodol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellid gwneud cyfraniadau at ddarparu cyfleusterau mewn man arall, ar yr amod bod eu lleoliad yn gallu gwasanaethu'r datblygiad yn ddigonol. Bydd darparu seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol uniongyrchol gysylltiedig yn amserol yn cael ei sicrhau gan amod(au) cynllunio, ceisio rhwymedigaeth(au) cynllunio trwy negodi, a/neu drwy unrhyw gytundeb neu ymgymeriad arall.

Bydd hyfywedd datblygiad yn ystyriaeth allweddol wrth sicrhau rhwymedigaethau cynllunio, a gallai goddefeb gael ei chaniatáu mewn rhai amgylchiadau lle mae tystiolaeth glir na fyddai'r datblygiad yn hyfyw.

Yn y lle cyntaf, bydd angen mesurau sy'n angenrheidiol i gyflawni datblygiad yn ffisegol a sicrhau ei fod yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. Lle y bo'n briodol, gellid ceisio cyfraniadau at ystod o ddibenion, gan gynnwys:

1. Tai fforddiadwy
2. Seilwaith Gwyrdd, Mannau Agored Hamdden ac Amwynder
3. Cyfleusterau Trafnidiaeth Gynaliadwy
4. Addysg
5. Cyfleusterau Cymunedol a Diwylliannol, gan gynnwys llyfrgelloedd, a neuaddau cymunedol
6. Adfywio
7. Gwastraff
8. Ynni adnewyddadwy a charbon isel
9. Bioamrywiaeth
10. Band eang
11. Seilwaith Dŵr, Trin Dŵr Gwastraff a Charthffosiaeth

Os yw ystyriaethau hyfywedd yn dangos nad yw'n rhesymol mynnu'r holl gyfraniadau a amlygwyd, pennir cyfraniadau blaenoriaethol ar sail amgylchiadau unigol pob achos. O ran datblygiadau tai, rhoddir blaenoriaeth i dai fforddiadwy oni bai bod angen tra phwysig i'r cyfraniad sydd ar gael gael ei neilltuo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i ryw ddiben arall/dibenion eraill priodol.

Yr ail flaenoriaeth ar ôl tai fforddiadwy fydd darparu rhyngrwyd sydd â band eang gyda chyflymder lawrlwytho o 1 gigabit yr eiliad o leiaf, yn unol â darpariaethau GN 27: Band Eang a Thelathrebu ar Ddatblygiadau Newydd. Mae'r rhain yn flaenoriaethau cyffredinol, ond gellir gwneud eithriadau mewn achosion lle mae angen mawr i'r cyfraniad sydd ar gael, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gael ei ddyrannu i ryw ddiben(ion) priodol eraill. Ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd, rhoddir blaenoriaeth i ddarparu rhyngrwyd sydd â band eang gyda chyflymder lawrlwytho o 1 gigabit yr eiliad o leiaf, yn unol â gofynion GN 27 Band Eang a Thelathrebu ar Ddatblygiadau Newydd. Yn yr un modd â datblygiadau tai, gellir gwneud eithriadau i hyn lle mae angen mawr i'r cyfraniad sydd ar gael, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gael ei ddyrannu ar gyfer rhyw ddiben(ion) priodol eraill.

5.30 Mae datblygiad newydd yn gosod gofynion ychwanegol ar seilwaith a gwasanaethau, felly disgwylir iddo gyfrannu at seilwaith cymdeithasol, diwylliannol a ffisegol. Mae darparu cyfleusterau digonol ac effeithlon, gan gynnwys cyfleustodau fel cyflenwad dŵr; draenio dŵr brwnt a dŵr wyneb; rheoli gwastraff; cynhyrchu a dosbarthu pŵer; telathrebu; trafnidiaeth gyhoeddus; mannau agored a chyfleusterau cymunedol, yn sail i ddarparu datblygiad cynaliadwy o fewn ardal y Cynllun.

5.31 Mae hefyd yn bwysig bod darpariaeth yn cael ei gwneud i liniaru effeithiau niweidiol posibl datblygiad newydd ar fioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol. Gallai effeithiau niweidiol gynnwys, er enghraifft, mwy o erydu, pwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau, newidiadau i gymeriad y dirwedd, treftadaeth ddiwylliannol neu fywiogrwydd ieithyddol sy'n lleihau, ymwthiad sŵn, ansawdd aer a thagfeydd.

5.32 Lle y bo'r angen, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau gyfrannu tuag at seilwaith, gwelliannau i'r dirwedd a mesurau lliniaru trwy rwymedigaethau cynllunio, ymgymeriad unochrog neu Ardoll Seilwaith Cymunedol, fel y bo'n briodol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn asesu ei safbwynt o ran yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a bydd yn ystyried p'un ai cyflwyno Rhestr Codi Tâl ar gyfer prosiectau mwy. Byddai Rhestr o'r fath yn gweithredu ochr yn ochr â defnydd parhaus o rwymedigaethau cynllunio ar gyfer seilwaith ar raddfa fach ac i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu. Gallai gofynion ar gyfer cyfraniadau gynnwys tai fforddiadwy, trafnidiaeth, seilwaith ffisegol, cynlluniau lliniaru llifogydd, Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau), cynlluniau ynni, darpariaeth addysg, llyfrgelloedd, diogelwch cymunedol, creu rhwydwaith hamdden neu ei wella, cyfleusterau cymunedol, a bioamrywiaeth / cadwraeth natur. Bydd CSP yn trafod unrhyw gynigion i osod Ardoll Seilwaith Cymunedol gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a byddai'n croesawu datblygu dull cydweithredol o ymdrin â'r mater hwn. Fel arfer bydd angen cysylltu â'r brif garthffos yr un pryd â chynigion datblygu newydd ac yn yr achos hwn, ni fydd defnyddio amod cynllunio i sicrhau hyn fel arfer yn ddigonol. Dylid sefydlu'r gallu i gysylltu â'r brif garthffos cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod cam y cais cynllunio.

5.33 Ar gyfer datblygiadau tai, mae'r Cyngor yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf wrth geisio cyfraniadau i ddarparu tai fforddiadwy. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r angen dybryd am lety o'r fath yn ardal y Cynllun, fel y trafodir yn fanylach ym mholisi GN 20 Tai Fforddiadwy i Ddiwallu Anghenion Lleol. Yr ail flaenoriaeth fydd darparu rhyngrwyd sydd â band eang gyda chyflymder lawrlwytho o 1 gigabit yr eiliad o leiaf, gan adlewyrchu dyhead y Cyngor i hwyluso gweithio gartref mewn Sir sy'n cynnig amgylchedd o ansawdd uchel ac ansawdd bywyd rhagorol, gyda mynediad da at ystod o wasanaethau a chyfleusterau[26]. Ar gyfer datblygiadau cyflogaeth, darparu rhyngrwyd sydd â band eang gyda chyflymder lawrlwytho o 1 gigabit yr eiliad o leiaf fydd y brif flaenoriaeth. Mae'r disgwyliadau yn uwch ar gyfer cynlluniau mawr nag ar gyfer cynlluniau llai.

5.34 Mae Polisi GN 26 Seilwaith Telathrebu a Thechnoleg Ddigidol yn nodi polisi'r Cyngor ar Delathrebu a Seilwaith Technoleg Ddigidol. Mae Polisi GN 27 ar Fand Eang a Thelathrebu ar Ddatblygiadau Newydd yn ymhelaethu ar hyn, gan egluro sut y bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r diwydiant telathrebu a'r rheolydd cyfathrebiadau Ofcom i wella darpariaeth band eang cyflym iawn o ansawdd uchel, lleihau nifer y mannau digyswllt diwifr a gwella argaeledd signal ffonau symudol ar gyfer cartrefi a busnesau. Bydd angen darparu cysylltiad band eang cyflym a dibynadwy i ddatblygiadau preswyl a chyflogaeth mawr o'r cychwyn cyntaf. Bydd disgwyl hefyd i ddatblygiadau preswyl a chyflogaeth ar raddfa lai ddarparu mynediad at y cysylltiad cyflym iawn mwyaf hyfyw sydd ar gael, oni bai nad yw hyn yn bosibl, yn ymarferol nac yn economaidd hyfyw. Yn yr achosion olaf, gofynnir i ddatblygwyr ddarparu tystiolaeth pam nad yw'n bosibl. Bydd hyn fel arfer ar ffurf gohebiaeth a dderbynnir gan ddarparwyr gwasanaeth. Ymgynghorir â Thîm Band Eang y Cyngor ynghylch y ceisiadau cynllunio tai a chyflogaeth hynny lle mae'r ymgeisydd naill ai'n anfodlon darparu'r cysylltedd band eang disgwyliedig a / neu'n dadlau bod ystyriaethau hyfywedd yn atal hyn rhag cael ei gyflawni.

5.35 Bydd gofynion manwl ar gyfer unrhyw gyfraniadau o'r fath (gan gynnwys blaenoriaethau) yn cael eu hamlygu mewn SPG i alluogi darpar ddatblygwyr i gynnwys y costau angenrheidiol yn eu cyllid datblygu ar gam cynnar.

5.36 Mae'r polisi hwn yn caniatáu ar gyfer adleoli seilwaith hollbwysig, fel ffyrdd, is-orsafoedd trydan, gorsafoedd pwmpio a chyfleusterau trin dŵr gwastraff, fel eithriad, lle mae llifogydd afonol neu arfordirol a / neu erydu yn cael effaith niweidiol arno, neu lle yr amlygwyd ei fod yn fregus iawn yn y cynllun perthnasol. Gan gyfeirio at bwynt 11 y polisi, mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi paratoi Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, a fydd yn chwarae rhan fawr mewn darparu dull cyfannol, wedi'i flaenoriaethu, o reoli'r rhwydwaith draenio a charthffosiaeth yn y blynyddoedd i ddod, gan ategu'r polisïau a'r cynigion a nodir mewn CDLlau, Cynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol ac yn Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 Llywodraeth Cymru.

---

[26] Strategaeth Adfer ac Adfywio Sir Benfro 2020-2030 https://www.sir-benfro.gov.uk/cynlluniaur-prosiect-adfywio

**GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

Dylai cynigion datblygu geisio lleihau'r galw am adnoddau i'r eithaf, gwella effeithlonrwydd adnoddau a cheisio pŵer sy'n cael ei gynhyrchu o adnoddau adnewyddadwy, lle y bo'n briodol. Disgwylir iddynt gael eu dylunio'n dda o ran defnyddio ynni.

Bydd datblygiadau sy'n galluogi ynni adnewyddadwy i gael ei gyflenwi trwy ddatrysiadau sy'n amgylcheddol dderbyniol yn gael eu cefnogi.

5.37 Mae effeithlonrwydd adnoddau ynni, gwres a dŵr yn gyffredinol yn elfen bwysig o ddylunio da. Mae lleihau'r galw am adnoddau i'r eithaf yn arwain at fuddion mawr, gan gynnwys helpu i gyflawni targedau'r Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, lleihau'r pwysau ar adnoddau lleol fel cronfeydd dŵr a lleihau costau cynnal tymor hir i ddeiliaid tai unigol.

5.38 Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn paratoi Asesiadau Ynni Adnewyddadwy (REAs), a fydd yn llywio polisïau Cynllun Datblygu Lleol ac yn llywio'r posibilrwydd o amlygu ardaloedd chwilio a dyraniadau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa awdurdod lleol (5MW i 25MW ar gyfer ynni gwynt) neu dechnolegau carbon isel eraill. Mae darpariaethau TAN 8 Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ardaloedd Chwilio Strategol (nad oedd yr un ohonynt yn Sir Benfro) bellach wedi'u dirymu. Yn lle hynny, mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi Ardaloedd Rhag-Asesedig ar gyfer Ynni Gwynt, y mae un ohonynt yn ymestyn i ran fwyaf dwyreiniol Sir Benfro ac y cyfeirir ati ym Mholisi GN 6, Targed a Dyraniadau Ynni Adnewyddadwy isod. Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau cynhyrchu ar y tir yng Nghymru sy'n cynnig capasiti cynhyrchu gosodedig o rhwng 10MW a 50MW (a heb derfyn uchaf ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu gwynt ar y tir) yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan y broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), ac mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn hwyluso'r broses o ystyried cynigion o'r fath.

5.39 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Becyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer Cynllunwyr yn 2010, i helpu i baratoi sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio polisïau CDLl sy'n cefnogi datblygiad systemau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Fe'i diweddarwyd yn 2015, ac roedd y fersiwn ddiweddaraf hon yn sail i baratoi REA CDLl Cyngor Sir Penfro, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017. Mae hwn yn bapur cefndir ar gyfer CDLl 2, gan ddarparu cyd-destun polisi ynni adnewyddadwy a chanlyniadau amryw dasgau'r pecyn cymorth a gynhaliwyd. Rhoddir crynodeb o gyfraniadau posibl, ynghyd ag asesiad o rôl y Cyngor wrth gefnogi ynni adnewyddadwy cymunedol.

5.40 Mae technolegau ynni adnewyddadwy yn bodoli ar amrywiaeth o wahanol raddfeydd, o ficro-gynhyrchu i raddfa fawr. Mae ystod o wahanol dechnolegau ar gael hefyd, ac mae cyfleusterau ar y môr yn dibynnu ar seilwaith glanfa. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) Cynhyrchu pŵer o fiomas

b) Ynni dŵr

c) Cynhyrchu pŵer o nwy tirlenwi

ch) Cynhyrchu pŵer o wastraff trefol a diwydiannol

d) Gwresogyddion dŵr solar a ffotofoltäig, a hefyd dyluniad solar goddefol

dd)Cynhyrchu pŵer o nwy carthion

e) Ynni'r llanw a ffrwd lanw

f) Ynni tonnau

ff) Ynni gwynt ar y môr

g) Ynni gwynt ar y tir

ng) Amryw dechnegau micro-gynhyrchu, gan gynnwys micro-dyrbinau a phŵer solar ar raddfa fach, ynghyd ag inswleiddio ac ailgylchu dŵr glaw

h) Ffynonellau daear (a gyrhaeddir trwy bympiau gwres)

5.41 Nid oes rhaid i'r safleoedd ar gyfer y cynigion hyn fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chynigion datblygu newydd o reidrwydd, ond yn aml bydd angen i gynlluniau mawr gael cysylltiad swyddogaethol rhwng ffynhonnell y pŵer a defnyddiwr y cynnyrch terfynol a / neu'r Grid Cenedlaethol. Gall aneddiadau mwy neu ddatblygiadau cyflogaeth ddarparu angor gwres ar gyfer cynigion o'r fath.

5.42 Bydd yr effaith ar y dirwedd, yn unigol ac ar y cyd, yn ystyriaeth o bwys wrth werthuso cynigion ynni adnewyddadwy, a bydd LANDMAP a'r Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru yn darparu offeryn gwerthfawr i ddadansoddi'r dirwedd. Yr eithriad i hyn yw'r rhannau o ardal Cymru'r Dyfodol a ragaseswyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ynni gwynt 8, lle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effeithiau tebygol ar dirwedd a chanfod eu bod yn gallu cynnwys datblygiadau ynni gwynt mewn ffordd dderbyniol.

5.43 Disgwylir i gynigion datblygu ddangos bod y defnydd o ynni wedi cael ei ystyried yn ystod y cam dylunio.

5.44 Unwaith y bydd y gwaith o adeiladu prosiect ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi'i gwblhau, dylid gwneud darpariaeth ar gyfer symud strwythurau, peiriannau ac offer dros dro o'r safle. Unwaith y bydd y gosodiad wedi dod i ddiwedd ei oes weithredol, dylid symud yr holl strwythurau, peiriannau, offer a seilwaith cysylltiedig o'r safle. Fel arfer disgwylir i hyn ddigwydd o fewn 6 mis i ddatgomisiynu, oni bai bod cyfnod arall wedi'i gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Ar ôl datgomisiynu, dylid adfer y tir i safon dderbyniol - fel arfer bydd amodau cynllunio yn cael eu gosod i sicrhau bod hyn yn digwydd.

5.45 Cyfeirir at fuddion cymunedol, trafodaethau a gweinyddiaeth yn nogfen TAN8 Llywodraeth Cymru. Gellir cyfiawnhau rhai buddion fel lliniaru effeithiau datblygu drwy'r broses gynllunio. Yn ogystal, efallai y bydd datblygwyr yn cynnig buddion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses gynllunio, a allai helpu i leihau rhywfaint ar yr effeithiau ar gymunedau lleol. Fodd bynnag, nid yw hwn yn ofyniad gorfodol ac ni ddylid ei gymryd fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar rinweddau cynllunio cynllun penodol. Os oes gwrthwynebiadau cynllunio sylfaenol, ni fydd buddion cymunedol yn gallu gorbwyso'r rhain.

5.46 Gallai buddion cymunedol fod ar sawl ffurf ac ymdrin ag agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol / ecolegol ac addysgol. Gallent gynnwys buddion mewn nwyddau, megis adeiladu cyfleuster cymunedol sydd ei angen, cyfandaliad ariannol er budd y gymuned, taliadau blynyddol i'r gymuned a / neu ymrwymiad gan y datblygwr i ddefnyddio llafur lleol, contractwyr a gwasanaethau lle bynnag y bo modd.

5.47 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi ar Ynni Adnewyddadwy ac ar Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt ar Dirwedd ac Amwynder Gweledol.

### GN 5 Ynni Adnewyddadwy – Targed a Dyraniadau

1. Bydd y Cyngor yn ceisio caniatáu 9MW ychwanegol o gapasiti ynni adnewyddadwy y flwyddyn yn ystod cyfnod y Cynllun.
2. Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer datblygu capasiti ynni adnewyddadwy newydd:

(Rhestr o safleoedd, arwynebedd y safle a'r dechnoleg a ffefrir)

| Cyfeirnod y safle | Enw'r safle | Arwynebedd (hectarau) | Technoleg ynni adnewyddadwy a ffefrir |
|---|---|---|---|
| SPV/066/LDP2/01 | Man i'r dwyrain o Hazelbank, Llanstadwell | 0.68 | Aráe Ffotofoltäig Solar |
| SPV/149/LDP2/01 | Man i'r gorllewin o Fferm Ford, Cas-blaidd | 1.55 | Aráe Ffotofoltäig Solar |

5.48 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod gan y system gynllunio rôl weithredol i'w chwarae wrth sicrhau bod targedau Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru yn cael eu bodloni. Yn rhan o hyn, mae'n ofynnol i ACLlau bennu targedau ynni adnewyddadwy lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan y dylai awdurdodau Cynllunio ystyried yr adnoddau ynni adnewyddadwy sydd ar gael yn eu hardaloedd wrth lunio eu targed ynni adnewyddadwy, a lywiwyd gan sylfaen dystiolaeth briodol, a defnyddio'r ystod lawn o opsiynau polisi sydd ar gael, gan gynnwys datblygu polisïau gofodol yn eu cynlluniau datblygu. Rhaid peidio ag ystyried targedau'n derfynau uchaf; yn hytrach, dylid eu defnyddio fel offeryn i gynyddu'r adnodd sydd ar gael i'r eithaf, ac ni ddylid gwrthod cynigion os ydynt yn fwy na'r targed.

5.49 Yn ystod y tair blynedd diwethaf, caniatawyd 6MW o gapasiti ynni adnewyddadwy newydd y flwyddyn ar gyfartaledd. Yn absenoldeb cymhellion tariff cyflenwi trydan, mae hynny'n ymddangos yn ddisgwyliad rhesymol ar gyfer targed blynyddol am gapasiti newydd a ganiatawyd ar gyfer y Cynllun newydd. Ond gan fod y polisi hwn hefyd yn cynnwys dau arae Solar Ffotofoltaig a bod posibilrwydd hefyd o Arae Solar Ffotofoltaig arall ar ran o hen safle Maes Awyr Breudeth, cynyddwyd y targed I isafswm o 9MW y flwyddyn, gan ddisgwyl y cyflenwir mwy na'r llinell sylfaen.

5.50 Yn amlwg, mae'n bosibl y bydd cymhellion newydd i ddarparu capasiti ynni adnewyddadwy yn dod i'r amlwg yn ystod cyfnod y Cynllun – a gallai hyn gael ei adlewyrchu mewn cynnydd mewn ceisiadau. Os felly, gallai polisïau'r Cynllun ar ynni adnewyddadwy sydd wedi'u seilio ar feini prawf a'r dyraniadau ar gyfer ynni adnewyddadwy helpu i ragori ar y targed.

5.51 Wrth gwrs, bydd angen i unrhyw gapasiti ynni adnewyddadwy ychwanegol a ganiateir barchu cyfyngiadau yn ymwneud â'r amgylchedd, y dirwedd a chapasiti'r grid o fewn ardal y Cynllun, a bydd polisïau cyffredinol ar y meysydd hyn yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu. Yr eithriad i hyn mewn perthynas â thirwedd yw'r rhannau o ardal Cymru'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a ragaseswyd ar gyfer ynni gwynt 8, lle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effeithiau tebygol ar dirwedd a chanfod eu bod yn gallu darparu ar gyfer datblygiadau ynni gwynt mewn ffordd dderbyniol.

**GN 6 Cynigion Datblygu mewn Ardaloedd a Ragaseswyd ar gyfer Ynni Gwynt (fel y nodir yn Cymru'r Dyfodol)**

Mewn Ardaloedd a Ragaseswyd ar gyfer Ynni Gwynt a ddiffiniwyd gan Gymru'r Dyfodol, ni ddylai polisïau a phenderfyniadau cynllunio lleol ddylanwadu'n annheg ar y gallu i gyflwyno datblygiadau gwynt ar raddfa fawr.

5.52 Mae datblygiadau ynni ar raddfa fawr yn cael eu dosbarthu fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru. Ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt ar y tir, mae'r rhain yn gynlluniau o 10MW neu fwy.

5.53 Mae dogfen Cymru'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn rhan o'r Cynllun Datblygu ac yn diffinio'n ofodol nifer o ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer datblygiadau ynni gwynt. Mae un o'r ardaloedd hyn, ardal 8, yn ymestyn i'r gorllewin o Sir Gaerfyrddin i ran ddwyreiniol Sir Benfro. O fewn yr ardaloedd hyn, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi canfod y gallent gynnwys datblygiad mewn ffordd dderbyniol. Felly, mae rhagdybiaeth, a nodir ym mholisi Cymru'r Dyfodol 17, o blaid datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr (gan gynnwys ail-bweru) yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar ddarpariaethau polisi 18 Cymru'r Dyfodol.

5.54 Mae argraffiad 12 o PCC (PPW), paragraff 5.9.18 yn cynghori na ddylai Awdurdodau Cynllunio Lleol geisio diwygio'r Ardaloedd sydd wedi eu Rhagasesu o fewn eu ffiniau gan eu bod yn rhan o'r Cynllun Datblygu. Ychwanega, er bod modd diffinio defnyddiau tir eraill o fewn yr Ardaloedd a Ragaseswyd (gan gynnwys safleoedd ynni adnewyddadwy o lai na 10MW), na ddylai unrhyw bolisi a phenderfyniad cynllunio lleol ddylanwadu yn annheg ar y gallu i gyflwyno datblygiadau gwynt ar raddfa fawr (10MW neu fwy) o fewn yr Ardaloedd a Ragaseswyd. Pwrpas Polisi GN 6 yw sicrhau nad yw hyn yn digwydd mewn perthynas â'r rhan o Ardal a Ragaseswyd 8 sy'n ymestyn i Sir Benfro.

5.55 Rhaid i gynigion a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 / Ramsar (i gydymffurfio â PPW 12 a TAN 5).

### GN 7 Barics Cawdor gan gynnwys hen Faes Awyr Breudeth

## POLISÏAU CYFFREDINOL BYW A GWEITHIO

### GN 8 Cynigion Cyflogaeth

Caniateir cynigion cyflogaeth (yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a / neu B8):

1. Ar safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer defnyddiau cyflogaeth gan bolisi SP 14, uchod neu GN.7, isod; neu
2. Ar dir heb ei ddyrannu o fewn Ffiniau Aneddiadau; neu
3. Ar safleoedd ger Ffin Anheddiad, os nad oes unrhyw safleoedd a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth a / neu o fewn yr un Ffin Anheddiad yn bodoli i wasanaethu'r datblygiad; neu
4. Mewn lleoliadau yng nghefn gwlad, ond dim ond os nad oes unrhyw safleoedd eraill addas yn bodoli yn yr ardal leol ac mae'n rhaid i'r fenter gael ei lleoli yng nghefn gwlad; neu
5. Lle cynigir trosi neu newid defnydd adeiladau amaethyddol y tu allan i Ffin Anheddiad at ddibenion cyflogaeth, dan delerau polisi GN 28 (Trosi neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol).

Lle y cynigir defnyddiau cyflogaeth B2, mae'n rhaid i'r rhain beidio ag achosi effaith niweidiol arwyddocaol ar amwynder lleol, yn y cyd-destun a ddarperir gan bolisi GN 1, maen prawf 2.

5.61 Mae defnyddiau tir economaidd yn cynnwys amrywiaeth o wahanol ddefnyddiau tir, gan gynnwys y defnyddiau tir traddodiadol sy'n dod o fewn defnyddiau dosbarth B y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn ogystal â gweithgarwch o fath arall, gan gynnwys manwerthu, twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, adeiladu, ynni, mwynau, gwastraff a thelathrebu. Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar y defnyddiau tir cyflogaeth traddodiadol o fewn Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 a / neu B8. Mae polisïau ar wahân yn y cynllun sy'n ymdrin â llawer o'r defnyddiau tir economaidd eraill.

5.62 Mae awdurdodau cynllunio yn darparu tir i fodloni anghenion y farchnad gyflogaeth ar raddfeydd amrywiol, gan gynnwys strategol a lleol. Mae safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth wedi'u hamlygu ym mholisi strategol SP 14. Mae safleoedd eraill o bwysigrwydd strategol lleol a / neu i fodloni anghenion cyflogaeth lleol wedi'u dyrannu ym mholisi GN 9.

5.63 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r amgylchiadau lle y bydd cynigion cyflogaeth ar gyfer defnyddiau dosbarth B yn cael eu caniatáu, ac mae'n ymdrin â safleoedd sydd wedi'u dyrannu a heb eu dyrannu a gynigir ar gyfer hap-ddatblygiadau cyflogaeth.

5.64 Bydd y polisi'n cefnogi darparu cynigion cyflogaeth newydd ar dir heb ei ddyrannu sydd o fewn Ffin Anheddiad neu ger Ffin Anheddiad. Gallai datblygiad o'r fath gael ei ganiatáu mewn lleoliadau yng nghefn gwlad hefyd os nad oes unrhyw safleoedd eraill addas yn bodoli ac mae'n rhaid i'r fenter gael

ei lleoli yng nghefn gwlad. Gallai hyn helpu i gefnogi cymunedau Cymraeg drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol. Lle cynigir lleoliad yng nghefn gwlad, disgwylir i ymgeiswyr gyfiawnhau'r lleoliad a ddewiswyd ar yr adeg ymgeisio.

5.65 Lle bo'r cynnig dan sylw mewn lleoliad yng nghefn gwlad ac wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r Porthladd Rhydd Celtaidd, rhaid ystyried yr angen strategol i gefnogi'r Porthladd Rhydd ochr yn ochr â'r cyfyngiadau cenedlaethol a lleol.

**GN 9 Dyraniadau Cyflogaeth**

Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a / neu B8:

| Cyfeirnod y safle | Enw'r safle | Arwynebedd (hectarau) | Dosbarthiadau defnydd |
|---|---|---|---|
| EMP/030/00001 | Parc Gwynfryn, Crymych | 6.92 | B1, B8 |
| EMP/034/00006 | Parc Busnes Celtic Link, ger Scleddau | 13.29 | B1, B2, B8 |
| EMP/040LDP2/01 | Maes y Sioe Llwynhelyg, Hwlffordd | 9.74 | B1, B2, B8 |
| EMP/053/00001 | Hen Iard yr Orsaf, Treletert | 1.23 | B1, B8 |
| EMP/088/LDP/01 | Estyniad i Barc Menter Rushacre, Arberth | 1.33 | B1, B8 |
| EMP/000/LDP2/01 | Tir ar safle Princes Gate Spring Water | 4.33 | B1, B8 |
| EMP/030/LDP2/01 | Man i'r de o Barc Gwynfryn, Crymych | 1.79 | B1, B8 |
| EMP/132/LDP2/01 | Man i'r de o K.P. Thomas & Sons, ger Templeton | 2.57 | B1, B8 |
| EMP/093/00001 | Man i'r gogledd o Ystad Ddiwydiannol Honeyborough, Neyland | 1.55 | B1, B8 |

Y defnyddiau penodedig yw'r rhai a ganiateir ar y safleoedd a restrir. Lle y bo'n briodol, gallai dosbarthiadau eraill o ddefnydd cyflogaeth neu ddefnyddiau sui generis cydnaws gael eu caniatáu hefyd (neu gyfuniadau o ddefnyddiau o'r fath).

5.66 Y safleoedd a ddyrannwyd gan y polisi hwn yw'r rhai yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer defnyddiau tir cyflogaeth traddodiadol yn Nosbarthiadau Defnydd B. Fodd bynnag, ni ystyrir bod pob safle a amlygwyd gan y polisi hwn yn addas ar gyfer yr ystod lawn o ddefnyddiau dosbarth B – mae colofn dde'r tabl dyraniadau yn nodi'r defnyddiau a fyddai'n cael eu cefnogi, o bosibl, ar sail safleoedd unigol.

5.67 Y safleoedd a ddyrannwyd yw'r rhai yr ystyrir eu bod yn briodol i fodloni'r galw am safleoedd cyflogaeth lleol yn y dyfodol.

5.68 Mae dyrannu'r safleoedd hyn yn ategu'r safleoedd cyflogaeth strategol o bwys rhanbarthol a ddarperir o dan bolisi strategol SP 14.

5.69 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd hefyd angen tir cyflogaeth yn y dyfodol, i ryw raddau, yn sgil 'trosiant' ar safleoedd cyflogaeth presennol. Hynny yw, mae defnyddiau o fewn y safleoedd hyn yn cychwyn ac yn dod i ben yn rheolaidd, sy'n golygu y bydd tir ac adeiladau'n cael eu defnyddio ac yn segur o fewn y ffiniau ar unrhyw un adeg. Mae'r Cyngor yn monitro'r sefyllfa ar y prif safleoedd cyflogaeth presennol trwy arolygon rheolaidd o dir cyflogaeth, a chyhoeddir eu canlyniadau ar wefan y Cyngor.

5.70 Mae'r safleoedd cyflogaeth presennol mwyaf arwyddocaol wedi'u rhestru yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Safleoedd Datblygu, sydd hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y safleoedd a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth gan bolisïau SP 14 a GN 9.

5.71 Gyda'i gilydd, bydd dyraniadau SP 14 a GN 9, ynghyd â 'throsiant' ar safleoedd presennol, yn sicrhau bod cyflenwad parhaus o dir cyflogaeth addas ar gael ar draws ardal y Cynllun, sy'n darparu dewis a hyblygrwydd, i fodloni gofynion Polisi Cynllunio Cymru, argraffiad 12 (Chwefror 2024), a Nodyn Cyngor Technegol 23 ar Ddatblygu Economaidd (Chwefror 2014).

### GN 10 Cynigion Defnydd Cymysg

Caniateir cynigion defnydd cymysg lle maent yn addas ar gyfer y lleoliad, wedi'u hasesu yn erbyn polisïau'r Cynllun hwn a pholisi cynllunio cenedlaethol. Bydd effaith ar fwynderau'r rhai sy'n byw ar y safle, neu gerllaw'r safle, yn ystyriaeth allweddol o ran derbynioldeb y cynigion.

Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer defnydd cymysg

| Cyfeirnod y safle | Enw'r safle | Arwynebedd (hectarau) | Defnydd |
|---|---|---|---|
| MXU/040/01 | Old Hakin Road, Hwlffordd | 1.32 | Tai (dosbarth defnydd C3) a chyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B1 a B8) |
| MXU/095/LDP2/01 | South Quay, Penfro | 0.50 | Defnyddiau manwerthu, masnachol a chymunedol |

Mae'r dyraniad ar safle Old Hakin Road yn ddatblygiad ar gyfer defnydd cymysg o dai a chyflogaeth, a bydd cyfran sylweddol o'r datblygiad yn ymwneud â chyflogaeth.

Mae'r dyraniad yn South Quay, Penfro o fewn Canol Tref Penfro a bydd Polisi GN 31 Datblygu Canol y Trefi a Chanolfannau Manwerthu Leol yn ystyriaeth allweddol o ran derbynioldeb unrhyw gynigion. Mae cynigion ailddatblygu yn y lleoliad hwn wedi'u cyflwyno drwy geisiadau cynllunio ac yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd.

5.72 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r math o gynnig defnydd cymysg gan gynnwys defnydd preswyl, cyflogaeth, masnachol neu gymunedol. Gallai mathau eraill o ddatblygiadau defnydd cymysg gael eu cynnig hefyd, ac fe'u hystyrir o dan bolisïau perthnasol y CDLl ar gyfer y defnyddiau tir a ddisgrifiwyd, neu yn eu habsenoldeb yn unol â pholisi cynllunio Cymru.

5.73 Gallai cynigion tai a chyflogaeth defnydd cymysg fod ar ffurf unedau byw a gweithio, lle mae'r defnyddiau preswyl a chyflogaeth yn bodoli yn yr un adeilad. Fel arall, gallai cymysgedd o ddefnyddiau cyflogaeth preswyl ac annibynnol ar wahân gael eu cynnig o fewn un safle. Yn y ddau achos, mae'n rhaid mynd i'r afael ag ystyriaethau amwynder yn foddhaol.

5.74 Mae'n bosibl cyfuno amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys defnyddiau tai a chyflogaeth, o fewn un safle a gall hyn gyfrannu at gyflawni dyheadau datblygu cynaliadwy trwy hwyluso gweithio o gartref neu weithio ar safle sy'n agos iawn i

gartref. Bydd hyn yn lleihau'r angen i gymudo rhwng y cartref a'r gwaith i'r eithaf, neu'n dileu'r angen hwnnw'n gyfan gwbl.

5.75 Mae gan y safle a ddyrannwyd yn Old Hakin Road, Hwlffordd ganiatâd cyfredol ar gyfer datblygiad tai a chyflogaeth defnydd cymysg (a rhai defnyddiau atodol eraill) y mae'r Cyngor eisiau ei weld yn symud ymlaen i'r cam gweithredu yn ystod cyfnod y Cynllun.

5.76 Mae'r safle yng Nghei'r De (Northgate Street a Castle Terrace) o fewn Canol Tref Penfro ac mae ganddo Ffryntiadau Manwerthu ar hyd llawer o ffryntiad y stryd ar lefel y ddaear. Bydd polisi GN 21 'Datblygiad mewn Canol Trefi a Chanolfannau Adwerthu Lleol' yn ystyriaeth allweddol wrth bennu derbynioldeb unrhyw gynigion, wrth nodi bod rhai elfennau o'r hyn a gynigir yn cael eu cyflwyno drwy geisiadau cynllunio a ystyriwyd o dan CDLl 2013 ac yn cael eu gweithredu.

5.77 Lle mae safle'n cael ei ddatblygu at ddibenion tai a chyflogaeth defnydd cymysg ac mae cynnig yn dod i law sy'n golygu y bydd yr elfen gyflogaeth yn cael ei cholli, mae'n rhaid bodloni gofynion polisi GN 11 (Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth).

**GN 11 Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth**

Bydd cynigion i ailddatblygu, neu ddefnyddio, safleoedd busnes, diwydiannol cyffredinol, storio neu ddosbarthu (y rhai hynny o fewn dosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8) at ddibenion eraill yn cael eu caniatáu dim ond lle nad yw'r safle'n Safle Cyflogaeth Strategol, fel yr amlygwyd gan Bolisi SP 14 Darpariaeth Cyflogaeth Strategol, ac mae un o'r meini prawf canlynol yn cael ei fodloni:

1. Mae'r defnydd presennol yn amhriodol i'r ardal;
2. Mae digon o ddarpariaeth amgen ar gyfer tir cyflogaeth yn y cyffiniau (yr anheddiad dan sylw neu dir sy'n cyffinio â'r anheddiad hwnnw); neu
3. Dangoswyd bod defnydd parhaus o'r safle neu'r adeilad yn anhyfyw.

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol lle y cynigir defnydd nad yw'n ymwneud â chyflogaeth ar safle a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth gan y Cynllun hwn, heblaw am ddyraniad defnydd cymysg o dan bolisi GN.8 Cynigion cyflogaeth, lle mae egwyddor cymysgu defnyddiau cyflogaeth a defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth eisoes wedi'i sefydlu.

5.78 Diben y polisi hwn yw sicrhau nad yw safleoedd presennol a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8 yn cael eu colli i ddefnyddiau eraill, oni bai bod cyfiawnhad eglur dros dderbyn defnydd amgen. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyflenwad digonol o safleoedd cyflogaeth yn parhau i fod ar gael yn ardal y Cynllun. Caniateir colli safleoedd o'r fath dim ond lle y gellir bodloni un o feini prawf y polisi.

5.79 Gan gyfeirio'n benodol at faen prawf 1, i ddangos bod defnydd cyflogaeth presennol yn amhriodol i ardal, dylai datblygwr ddarparu tystiolaeth sy'n ymwneud â natur a graddfa'r defnydd presennol a'i effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a / neu amwynder lleol.

5.80 Gan gyfeirio'n benodol at faen prawf 3, dylai tystiolaeth o ddiffyg hyfywedd gynnwys:

- Tystiolaeth o ddiffyg elw ariannol (er enghraifft, o gyfrifon cyhoeddedig); a
- Thystiolaeth o anallu i werthu / rhentu'r safle.

5.81 Gan gyfeirio'n benodol at faen prawf 2, dylai datblygwr gyflwyno tystiolaeth i ddangos bod tir cyflogaeth amgen a digonol yn cael ei ddarparu yn y cyffiniau. Mae'r Cyngor yn cynnal Arolygon Tir Cyflogaeth rheolaidd ac yn cyhoeddi'r canlyniadau ar ei wefan. Mae hyn yn rhoi sylfaen dystiolaeth gyfredol ynglŷn â'r tir cyflogaeth a ddarperir ledled ardal y Cynllun.

**GN 12 Estyniadau i Safleoedd Cyflogaeth**

Caniateir cynigion i amrywiaethu, dwysáu a / neu ymestyn busnes presennol (yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a / neu B8) ar dir cyffiniol pan fydd graddfa a natur y datblygiad gwreiddiol, ynghyd â'r estyniad, yn gydnaws â'i leoliad, gan gynnwys effeithiau posibl ar amwynder defnyddwyr tir cyfagos.

5.82 Mae Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 – yn cydnabod y rôl gadarnhaol y gall awdurdodau cynllunio ei chwarae wrth ddiwallu anghenion cyflogaeth gwledig a chynyddu ffyniant economaidd. Diben y polisi hwn yw hwyluso twf busnesau presennol yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a / neu B8, trwy ganiatáu iddynt ymestyn ar dir sy'n cyffinio â'r ardal weithredol gyfredol. Mewn amgylchiadau priodol, bydd hyn yn caniatáu i fusnesau dyfu heb iddynt orfod adleoli. Mae angen i'r defnydd gwreiddiol a'i ardal estyn arfaethedig fod yn gydnaws â'r lleoliad, gan roi ystyriaeth arbennig i'r effeithiau posibl ar amwynder defnyddwyr tir cyfagos.

**GN 13 Datblygiad Preswyl**

Caniateir datblygiad preswyl, gan gynnwys hunanadeiladu, lle mae'r cynnig ar gyfer un neu fwy o'r canlynol:

1. Tai i'r farchnad agored neu dai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol, wedi'u lleoli o fewn Ffin Anheddiad Prif Dref neu Dref Wledig, Canolfan Wasanaeth, Pentref Gwasanaeth neu Bentref Lleol, fel y diffinnir yn yr hierarchaeth aneddiadau;
2. Amnewid neu isrannu annedd bresennol;
3. Trawsnewid adeilad hanesyddol yn ddefnydd preswyl; neu
4. Annedd gweithiwr menter wledig neu ddatblygiad Un Blaned

Bydd cartrefi newydd ar ar safleoedd a ddyrannwyd mewn Canolfannau Gwasanaethau a Phentrefi Gwasanaeth ac fel arall ar safleoedd o 0.10 hectar ac uwch yn cael eu hadeiladu ar ddwysedd o 20 annedd o leiaf fesul hectar, gan gynyddu i 30 annedd o leiaf fesul hectar ar safleoedd mewn Trefi. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai tystiolaeth o gyfyngiadau seilwaith neu ffisegol gyfiawnhau dwysedd is.

5.83 Cefnogir egwyddor adeiladu cartrefi newydd o fewn Ffiniau Aneddiadau oherwydd bod gan y lleoliadau hyn fynediad da at wasanaethau. Gall cartrefi newydd mewn Trefi, Canolfannau Gwasanaeth, Pentrefi Gwasanaeth, Pentrefi Lleol a Phentrefannau fod ar werth ar y farchnad agored neu fod yn dai fforddiadwy i fodloni anghenion lleol, yn dibynnu ar y gofynion polisi penodol yn yr ardal honno. Ymdrinnir â rhyddhau safleoedd bach fel "eithriad" i'r ddarpariaeth dai gyffredinol ym Mholisi GN 21 Safleoedd Eithriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy i Ddiwallu Anghenion Lleol.

5.84 Gall ailddatblygu neu amnewid ganiatáu ar gyfer datblygu tai sydd wedi'u haddasu'n well i fodloni anghenion tai'r presennol a'r dyfodol, a chyfrannu at effeithlonrwydd ynni a lefelau carbon deuocsid is, ar yr amod bod ansawdd yr amgylchedd yn cael ei wella. Ymdrinnir â pholisi ar Anheddau Newydd yng Nghefn Gwlad ym Mholisi GN 14 Anheddau sy'n Cymryd Lle Anheddau Eraill yng Nghefn Gwlad. Caniateir isrannu annedd bresennol yn ddwy annedd ar wahân neu fwy yn amodol ar fodloni meini prawf GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol. Rhoddir ystyriaeth arbennig i effaith yr isrannu arfaethedig ar amwynder y meddianwyr bwriadedig a phreswylwyr cyfagos, yr effaith ar gymeriad a golwg yr adeilad a'r goblygiadau i barcio lleol a chapasiti traffig.

5.85 Caniateir trawsnewid adeiladau hanesyddol yn ddefnydd preswyl lle mae'r ymgeisydd yn dangos safonau dylunio a chynaliadwyedd rhagorol. Gall adeiladau o'r fath wneud cyfraniad arwyddocaol at ansawdd esthetig tirweddau trefol a gwledig, ac mae'n rhaid i'r cynnig ddangos ei fod yn ategu ac yn gwella ei amgylchoedd.

Caniateir cynigion ar gyfer trawsnewid adeiladau hanesyddol ar yr amod bod y strwythur yn gallu cael ei drawsnewid heb ei newid yn sylweddol a chan gadw'r ffurf wreiddiol i raddau helaeth, heb lawer o newidiadau i fanylion addurnol. Gallai adeiladau o'r fath gynnwys tai tref neu blastai, adeiladau crefyddol a hen safleoedd milwrol. Mae'n rhaid i unrhyw gynnig i drawsnewid adeilad hanesyddol warchod a gwella nodweddion allanol a mewnol sy'n arwydd o'i ddefnyddiau blaenorol. Ymdrinnir â thrawsnewid adeiladau amaethyddol o dan GN 34 Trosi neu Newid Defnydd Adeiladau Traddodiadol ac Ehangu, neu Newidiadau i, Adeiladau Traddodiadol a Addaswyd yn Flaenorol y Tu Allan i Ffiniau Anheddiad

5.86 Bydd penderfyniadau ar gynigion i ddarparu llety preswyl ar gyfer gweithiwr menter wledig hanfodol yn cael eu gwneud yn unol ag egwyddorion Nodyn Cyngor Technegol 6 (Gorffennaf 2010). Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos angen swyddogaethol iddo gael ei leoli'n agos i'r fenter, ac nad oes llety amgen posibl yn bodoli'n lleol, gan gynnwys cyfleoedd trawsnewid ac anheddau sydd ar gael ar y farchnad dai.

5.87 Lle bo cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl o fewn ardaloedd newid arfordirol, dylid ystyried darpariaethau polisi GN 46 Newid Arfordirol hefyd.

5.88 Mae'n bwysig bod datblygiad preswyl newydd yn defnyddio tir yn effeithlon, ond hefyd bod cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth yn cael eu mabwysiadu. Mae hefyd yn hanfodol bod cynigion yn cynnwys mesurau lliniaru priodol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy ac yn mynd i'r afael â gofynion i gynnal a gwella bioamrywiaeth trwy barchu nodweddion naturiol fel ffiniau gwrychoedd a sefydlu clustogfeydd o amgylch coridorau bywyd gwyllt, lle y bo'n briodol. O ganlyniad i'r gofynion hyn, amlygir dwysedd o 23 annedd o leiaf fesul hectar mewn Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth a 30 annedd o leiaf fesul hectar mewn Trefi i sicrhau bod tir yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ledled ardal y Cynllun. Er mwyn eglurder, mae'r rhain yn seiliedig ar arwynebedd safle gros: felly bydd dwyseddau net yn uwch. Bydd dwysedd datblygiad preswyl yn uwch mewn trefi oherwydd bod y gwasanaethau sydd wedi'u crynhoi yn y lleoliadau hyn yn gallu gwasanaethu dwyseddau poblogaeth uwch, a dylent wneud hynny. Gallai dwysedd is gael ei dderbyn mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft lle y byddai datblygiad yn cael effaith annerbyniol fel arall ar faterion fel diogelwch ar y priffyrdd, bioamrywiaeth neu gyflenwadau dŵr cynaliadwy.

### GN 14 Anheddau sy'n Cymryd Lle Anheddau Eraill yng Nghefn Gwlad

Caniateir cynigion i amnewid annedd presennol yng nghefn gwlad lle:

1. Byddai'r annedd arfaethedig yn disodli annedd breswyl bresennol gyda defnydd preswyl cyfreithlon sefydledig;
2. Ni fyddai'r cynnig yn arwain at golli Adeilad Rhestredig (un o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig) nac ychwaith un o ddiddordeb o ran ei gymeriad brodorol lleol, oni bai y gellir dangos yn gyntaf nad yw'r adeilad yn strwythurol gadarn a bod atgyweiriadau yn economaidd anhyfyw;
3. Dylai'r annedd newydd gael ei lleoli ar, orgyffwrdd neu ffinio ag ôl troed yr annedd bresennol ac ym mhob achos dylai fod o fewn y cwrtil preswyl presennol, oni bai bod manteision cynllunio amlwg i leoliad arall.
4. Ni ddylai'r annedd newydd fod yn sylweddol fwy na'r annedd sydd i'w adnewyddu a rhaid i'w ddyluniad, graddfa, deunyddiau lleoli, edrychiad allanol a thirlunio fod yn gydnaws â'r amgylchedd adeiledig a naturiol o'i amgylch; a
5. Rhaid i unrhyw adeiladau allanol fod yn briodol o ran graddfa.

5.89 Mae polisi GN 14 yn cefnogi amnewid annedd gyfreithlon bresennol yng nghefn gwlad ac yn ceisio;

1. Sicrhau bod anheddau yng nghefn gwlad yn darparu amrywiaeth a chymysgedd o ran maint anheddau; a
2. Diogelu cefn gwlad rhag mathau rhy amlwg o ddatblygiadau adeiledig.

5.90 Rhaid i annedd newydd gadw at egwyddorion dylunio da. Dylai barchu edrychiad gweledol, cymeriad a natur yr hyn sydd o'i gwmpas ac ni ddylai gyflwyno ffurf o ddatblygiad sy'n fewnwthiol yn weledol i'r dirwedd.

5.91 Dylai'r annedd newydd gael ei lleoli ar, orgyffwrdd neu ffinio ag ôl troed yr annedd bresennol. Gallai newid i leoliad yr annedd fod yn dderbyniol lle mae manteision amlwg o ran yr amgylchedd, mynediad neu fanteision gweledol. Ni chaniateir unrhyw ymlediad diangen i gefn gwlad trwy ymestyn cwrtil preswyl.

5.92 Bydd pob cynnig am annedd newydd yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun. Ond fel canllaw cyffredinol, mae annedd newydd yng nghefn gwlad gyda chyfanswm arwynebedd llawr sydd fwy na 50% yn fwy na'r annedd y mae'n ei disodli yn debygol o gael ei ystyried yn 'sylweddol fwy' ac efallai na fydd yn dderbyniol.

5.93 Wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer annedd newydd mewn lleoliad sensitif, gellir tynnu hawliau datblygu a ganiateir sydd fel arfer yn ei gwneud yn bosibl i godi rhai estyniadau domestig ac adeiladau annibynnol heb fod angen caniatâd cynllunio yn ôl drwy amod cynllunio, er mwyn rheoli unrhyw gynnydd pellach mewn datblygiad adeiledig.

### GN 15 Cymysgedd Tai, Ail Gartrefi ac Eiddo ar Osod dros Dymor Byr, Safonau Gofod a Gofynion ar gyfer Safonau Cartrefi Gydol Oes

Dylai datblygiadau preswyl newydd a phresennol gyfrannu at greu cymunedau cytbwys a diwallu anghenion y farchnad ac anghenion y gymuned o ran tai fforddiadwy. Dylai cynigion ar gyfer datblygiad preswyl (gan gynnwys newid defnydd):

A. Sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o dai fforddiadwy yn unol â Pholisi GN 20 Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol;

B. Darparu cymysgedd priodol o fathau o dai, deiliadaeth a niferoedd y llofftydd, i gwrdd ag anghenion canfyddedig cymunedau presennol a dyfodol y Cynllun;

C. Darparu cydbwysedd priodol o dai fel prif breswylfeydd (Defnydd Dosbarth C3), preswylfeydd eilaidd (Dosbarth Defnydd C5) ac eiddo ar osod dros dymor byr (Dosbarth Defnydd C6) i sicrhau bod tai ar gael i bobl mewn angen lleol, er mwyn cynnal a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant ac i gynnal cymunedau presennol;

D. Mae'n rhaid i bob datblygiad preswyl sy'n cael ei adeiladu o'r newydd ar safleoedd o 5 uned neu fwy ddarparu o leiaf 20% o eiddo a adeiladwyd yn ôl Safonau Cartrefi Gydol Oes ac yn ogystal, bydd anheddau ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn cael eu cefnogi; ac

E. Mae'n rhaid i bob datblygiad preswyl gael ei adeiladu yn unol â safonau gofod a amlygwyd, oni bai bod y cynnig ar gyfer addasu neu drawsnewid adeilad rhestredig, hanesyddol neu amaethyddol traddodiadol ac nid yw'n bosibl i'r adeilad fodloni'r safonau heb gael effaith negyddol ar gymeriad yr eiddo.

5.94 Mae'r farchnad dai yn ardal y cynllun yn cael ei herio gan brisiau tai uchel a materion fforddiadwyedd, niferoedd uchel o ail gartrefi a thai haf a phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) diweddaraf yn amlinellu'r gofynion ar gyfer gwahanol fathau o dai fforddiadwy, gan gynnwys nifer yr ystafelloedd gwely a deiliadaeth, yn ôl ardal Marchnad Dai. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried gwybodaeth o'r Gofrestr Tai i asesu addasrwydd y gymysgedd arfaethedig o dai. Defnyddir ymagwedd gydweithredol yn seiliedig ar dystiolaeth o hyfywedd y datblygiad newydd er mwyn sefydlu cymysgedd priodol o fathau o dai a deiliadaethau a fydd yn cyfrannu at gyflawni cymunedau cymysg a chynaliadwy.

5.95 Mae newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn rhoi'r gallu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, lle

ceir tystiolaeth leol gadarn, reoli nifer yr ail gartrefi a'r eiddo ar osod tymor byr mewn ardal ddaearyddol benodol. Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol, trwy Gyfarwyddyd Erthygl 4, fynnu bod caniatâd cynllunio yn cael ei geisio i newid y defnydd rhwng (prif) breswylfa bresennol (Dosbarth Defnydd C3), ail gartref (Dosbarth Defnydd C5) neu eiddo ar osod dros dymor byr (Dosbarth Defnydd C6) yn yr ardal(oedd) y mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cyfeirio ati/atynt. Mewn perthynas â datblygiad preswyl newydd, gellir gosod amodau ar anheddau newydd i gyfyngu eu defnydd i brif breswylfa (C3), lle byddai amod yn bodloni'r profion perthnasol. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi yn unol â'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg am ail gartrefi ac eiddo ar osod tymor byr yn ardal y cynllun.

5.96 Bydd yr Awdurdod hefyd yn monitro'n flynyddol, o ddyddiad sylfaen y Cynllun (2017), y ganran o dai a gwblhawyd o dai newydd i wirio a yw deiliadaeth tai a gwblhawyd o fewn y gyfradd lwfans o 8.1% ar gyfer gosodiadau gwyliau. ac ail gartrefi sydd wedi'u cynnwys yn y gofyniad tai. Pan fydd 50 neu fwy o gartrefi gwyliau ac ail gartrefi yn cael eu datblygu y tu hwnt i lwfans y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer darpariaeth o'r fath, bydd angen ymchwilio ymhellach a gweithredu ymhellach. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal yn flynyddol a'i gyhoeddi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

5.97 Lle nodir tueddiadau o'r fath, bydd angen i'r awdurdod cynllunio ymchwilio i ba fesurau lliniaru sydd eu hangen. Gan ystyried dylanwad mentrau cyllidol ehangach ar dueddiadau, efallai y bydd angen ystyried opsiynau cynllunio defnydd tir hefyd, gan gynnwys nodi a oes lleoliadau penodol lle rhagorwyd ar y lwfans a lle mae tai ychwanegol newydd wedi'u cynllunio yn ystod cyfnod y Cynllun sy'n gofyn am reolaethau ychwanegol.

5.98 Mae'n bosibl y bydd angen gosod amodau addas ar y tai newydd hyn er mwyn sicrhau bod cynigion yn adlewyrchu'r cymysgedd darpariaeth tai arfaethedig gan gynnwys lefel y lwfans eiddo hunanarlwyo a/neu ail gartrefi gwag ar gyfer yr ardal Cyngor Cymuned/Tref honno a oedd yn sail i Bolisi SP 2 Lwfans Gofyniad Tai yn wreiddiol.

5.99 Mae'r Cyngor wedi nodi bod poblogaeth sy'n heneiddio yn fater allweddol i'r CDLl. Ochr yn ochr â'r duedd tuag at niferoedd cynyddol o bobl dros 65 oed, ceir tuedd tuag at angen cynyddol i adeiladau allu cael eu haddasu a bod yn addas i gadeiriau olwyn, o bosibl. Yn ôl yr Asesiad o'r Farchnad Dai yn 2019, bydd cyfran y boblogaeth sydd ag anabledd yn cynyddu'n sylweddol rhwng 2017 a 2033. Ar y sail hon, mae'n rhaid i 20% o'r adeiladau ar safleoedd o 10 neu fwy gael eu hadeiladu yn unol â safonau Cartrefi Gydol Oes. Lle y cynigir adeiladau i'r farchnad ar safle, bydd y gofyniad canrannol yn berthnasol i'r adeiladau i'r farchnad yn benodol, gan fod safon Cartrefi Gydol Oes yn un o ofynion Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021. Mae Safonau Cartrefi Gydol Oes yn sicrhau bod adeiladau deulawr yn cael eu hadeiladu'n safonol i fod yn addas i gadeiriau olwyn ar y llawr gwaelod a bod y grisiau'n syth fel y gellir gosod cadair risiau, o

bosibl, heb fod angen trac unigryw. Mae byngalos sy'n cael eu hadeiladu yn unol â'r safonau hyn yn cynnwys cylch troi ehangach yn yr ardaloedd cyntedd. Mae sicrhau cymysgedd priodol o adeiladau i fodloni anghenion y boblogaeth yn elfen hollbwysig o sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion y Ddeddf Iechyd a Llesiant. Yn ogystal, mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2022 yn rhagweld erbyn 2036, y bydd yn ofynnol i 4.1% o gyfanswm y stoc tai fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn a chefnogir cartrefi a adeiladir i safon a fydd yn eu gwneud yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

5.100 Mae sicrhau bod cartrefi'n cael eu hadeiladu yn unol â safonau gofod priodol yn rhan o gyflawni datblygiad sy'n ddiogel at y dyfodol, sy'n gallu addasu ac sy'n hyblyg. Mae'n golygu bod adeiladau'n fwy tebygol o fodloni anghenion y boblogaeth gan eu bod yn darparu arwynebedd llawr mewnol mwy helaeth gyda digon o le storio. Mae hyn yn rhan o sicrhau bod adeiladau'n bodloni gofynion llesiant.

5.101 Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r Safonau Gofod Rhagnodedig Cenedlaethol ar gyfer Lloegr i lywio'r broses o brofi hyfywedd ar safleoedd tai. Mae'r gofyniad i 20% o adeiladau ar safleoedd o 5 neu fwy gael eu hadeiladu yn unol â safonau Cartrefi Gydol Oes wedi cael ei gynnwys yn y profion hyfywedd ar gyfer y Cynllun hefyd. Mae'r safonau a'r gofynion gofod hyn yn ffurfio'r sail i safonau gofod Cyngor Sir Penfro a fydd yn cael eu hamlinellu yn yr SPG ar Ddylunio Preswyl, ynghyd â gofynion penodol sy'n gysylltiedig â sicrhau bod adeiladau'n gallu ymdopi â threfniadau ailgylchu lleol. Bydd yr SPG yn dangos sut mae'r safonau gofod hyn yn gallu cael eu cyflwyno wrth ddylunio adeiladau preswyl.

## GN 16 Dyraniadau Preswyl

Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiad preswyl:

| Cyfeirnod CDLl 2 | Enw Safle | Setliad | LLeiafswm yn uno yng nghyfnod y Cynllun | Gofyniad Tai Fforddiadwy Dangosol | | Amserlen cyflwyno Blwyddyn 1-5 (TB) Blwyddyn 6-10 (TC) Blwyddyn 11-16 (TH) | Unedau y Tu Hwnt i Gyfnod y Cynllun | Arwynebedd Ha | Potensial ar gyfer Hunan adeiladu a nodir gan hyrwyddwr y safle |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Canran (%) | Rhif yr Uned | | | | |
| HSG/040/LDP2/1 | Cyn-ganolfan Addysg Gymunedol, Dew Street | Hwlffordd | 22 | 100% | 22 | TB | 0 | 0.63 | Nage |
| S/HSG/040/LDP2/6 | Lôn Slade (gweler polisi GN18) | Hwlffordd | 330 | 83% | 275 | TC/TH | 680 | 38.88 | Anhysbys |
| HSG/040/LDP2/3 | Y tu cefn, 76, Pembroke Road | Pont Fadlen | 51 | 22.5% | 11 | TH | 0 | 1.71 | Ie |
| HSG/086/00222 | De-orllewin o The Meads | Aberdaugleddau | 93 | 100% | 93 | TC/TH | 0 | 3.1 | Anhysbys |
| HSG/086/LDP2/1 | Tir yn Myrtle Meadows, Steynton | Aberdaugleddau | 60 | 15% | 9 | TH | 0 | 3.07 | Nage |
| HSG/086/LDP2/2 | I'r dwyrain o Castle Pill Road Steynton | Aberdaugleddau | 23 | (Cyfraniad oddi ar y safle) | | TC/TH | 0 | 0.78 | Ie |
| HSG/086/LDP2/4 | Hen Ysgol Fabanod Hakin | Aberdaugleddau | 14 | 100% | 14 | TH | 0 | 0.49 | Nage |

| Cyfeirnod CDLl 2 | Enw Safle | Setliad | LLeiafswm yn uno yng nghyfnod y Cynllun | Gofyniad Tai Fforddiadwy Dangosol | | Amserlen cyflwyno Blwyddyn 1-5 (TB) Blwyddyn 6-10 (TC) Blwyddyn 11-16 (TH) | Unedau y Tu Hwnt i Gyfnod y Cynllun | Arwynebedd Ha | Potensial ar gyfer Hunanadeiladu a nodir gan hyrwyddwr y safle |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Canran (%) | Rhif yr Uned | | | | |
| HSG/086/LDP2/5 | Cyn Ysgol Hubberston VC , Hakin | Aberdaugleddau | 26 | 100% | 26 | TC | 0 | 0.9 | Nage |
| HSG/086/LDP2/6 | Hen Ysgol Iau Hakin | Aberdaugleddа | 43 | 100% | 43 | TH | 0 | 1.46 | Nage |
| HSG/086/LDP2/7 | Gogledd-ddwyrain o Beaconing, Steynton | Aberdaugleddau | 14 | (Cyfraniad oddi ar y safle) | | TC | 0 | 0.49 | Ie |
| S/HSG/086/LDP2/3 | I'r de o Conway Drive, Castle Pill Road, Steynton (gweler polisi GN 19B) | Aberdaugleddau | 117 | 15% | 17 | TH | 163 | 9.32 | Nage |
| HSG/095/00144 | I'r gogledd o Ffordd Gibbas | Penfro | 43 | 25% | 10 | TC/TH | 43 | 2.86 | Nage |
| HSG/095/LDP2/1 | Rhwng Bryn St. Daniels a Bryn Norgans | Penfro | 147 | 25% | 36 | TH | 0 | 4.9 | Ie |
| HSG/095/LDP2/2 | De Orllewin o Southlands, Bryn St. Daniels | Penfro | 19 | 12.5% | 2 | TH | 0 | 0.64 | Nage |
| HSG/095/LDP2/4 | I'r dwyrain o Golden Hill Road | Penfro | 50 | 20% | 10 | TC/TH | 0 | 1.68 | Nage |

| Cyfeirnod CDLl 2 | Enw Safle | Setliad | LLeiafswm yn uno yng nghyfnod y Cynllun | Gofyniad Tai Fforddiadwy Dangosol | | Amserlen cyflwyno Blwyddyn 1-5 (TB) Blwyddyn 6-10 (TC) Blwyddyn 11-16 (TH) | Unedau y Tu Hwnt i Gyfnod y Cynllun | Arwynebedd Ha | Potensial ar gyfer Hunanadeiladu a nodir gan hyrwydd dwr y safle |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Canran (%) | Rhif yr Uned | | | | |
| HSG/095/LDP2/5 | De-ddwyrain o Southlands, Bryn St. Daniels | Penfro | 26 | 15% | | TH | 0 | 0.87 | Ie |
| HSG/096/00238 | I'r Gogledd o Pembroke Road | Doc Penfro | 38 | (Cyfraniad oddi ar y safle) | | TC/TH | 0 | 1.52 | Anhysbys |
| HSG/096/LDP2/1 | Tir yn Hampshire Drive | Doc Penfro | 33 | 0 (Cyfraniad oddi ar y safle) | | TC/TH | 0 | 1.12 | Nage |
| HSG/096/LDP2/2 | I'r gorllewin o Stranraer Road | Doc Penfro | 59 | 15% | 8 | TH | 0 | 1.99 | Ie |
| S/HSG/034F/LDP2/1 | Maesgwynne | Abergwaun | 175 | 10% | 17 | TC/TH | 167 | 11.39 | Nage |
| HSG/093/00066 | I'r dwyrain o Poppy Drive | Neyland | 101 | 100% | 101 | TC/TH | 0 | 3.39 | Nage |
| HSG/088/LDP2/1 | I'r gorllewin o Bloomfield Gardens ac i'r gogledd o Adams Drive a Highfield Park | Arberth | 89 | 40% | 35 | TC/TH | 64 | 5.75 | Ie |
| **Cyfanswm Aneddiadau Trefol** | | | **1576** | | | | **1117** | **96.86** | |
| **Aneddiadau Trefol Cyfanswm fel canran o gyanswm y dyraniadau** | | | **67%** | | | | **85%** | **68%** | |

| Cyfeirnod CDLl 2 | Enw Safle | Setliad | LLeiafswm yn uno yng nghyfnod y Cynllun | Gofyniad Tai Fforddiadwy Dangosol | | Amserlen cyflwyno Blwyddyn 1-5 (TB) Blwyddyn 6-10 (TC) Blwyddyn 11-16 (TH) | Unedau y Tu Hwnt i Gyfnod y Cynllun | Arwynebedd Ha | Potensial ar gyfer Hunanadeiladu a nodir gan hyrwyddwr y safle |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HSG/020/LDP2/1 | Tir ar Gaeau Tan Ffynnon | Cilgerran | 50 | 17.5% | 8 | TH | 40 | 3.95 | Nage |
| HSG/030/LDP/01 | I'r dwyrain o Waunaeron | Crymych | 28 | Cyfraniad oddi wrth y safle | | TH | 0 | 1.23 | Ie |
| HSG/048/00038 | I'r gogledd o Hayston View | Johnston | 50 | 6% | 3 | TC/TH | 42 | 4.01 | Ie |
| HSG/048/LDP2/1 | Maes yr Ysgol | Johnston | 13 | Cyfraniad oddi wrth y safle | | TC/TH | 0 | 0.58 | Nage |
| HSG/050/LDP2/1 | I'r de o Rock Park | Cilgeti | 19 | 12.5% | 2 | TC/TH | 0 | 0.85 | Ie |
| HSG/052/00011 | I'r de o Cleggars Park | Llandyfai | 55 | 25% | 13 | TC/TH | 0 | 2.43 | Ie |
| HSG/052/LDP2/1 | Ger Ysgol Llandyfai | Llandyfai | 40 | 20% | 8 | TH | 0 | 1.75 | Nage |
| HSG/053/LDP2/1 | Rhwng Longstone Court and 62, St. Davids Road | Treletert | 38 | Cyfraniad oddi wrth y safle | | TH | 0 | 1.69 | Nage |
| HSG/063/00024 | I'r gogledd o The Kilns | Llangwm | 66 | 15% | 9 | TC | 0 | 2.89 | Nage |
| HSG/122/00035 | Estyniad Awel y Mor | Llandudoch | 28 | Cyfraniad oddi wrth y safle | | TH | 0 | 1.23 | Anhysbys |
| **Cyfanswm y ganolfan wasanaeth** | | | **387** | | | | **82** | **20.58** | |
| **Service centre Total as percentage of total allocations** | | | **16%** | | | | **6%** | **15%** | |

| Cyfeirnod CDLl 2 | Enw Safle | Setliad | LLeiafswm yn uno yng nghyfnod y Cynllun | Gofyniad Tai Fforddiadwy Dangosol | | Amserlen cyflwyno Blwyddyn 1-5 (TB) Blwyddyn 6-10 (TC) Blwyddyn 11-16 (TH) | Unedau y Tu Hwnt i Gyfnod y Cynllun | Arwynebedd Ha | Potensial ar gyfer Hunanadeiladu a nodir gan hyrwyddwr y safle |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HSG/003/LDP2/01 | I'r gogledd Fferm Begeli | Begeli | 46 | 100% | 46 | TC/TH | 0 | 2.58 | Ie |
| HSG/006/00003 | Ger yr Hafod | Blaenffos | 6 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TC | 9 | 0.93 | Nage |
| HSG/022/LDP2/1 | Tir yn Dungleddy Court | Clarbeston Road | 19 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TC/TH | 0 | 0.83 | Ie |
| HSG/152/LDP2/1 | I'r de of Fro'r Dderwen | Clunderwen | 31 | 25% | 7 | TH | 31 | 2.71 | Nage |
| HSG/029/00014 | Gyferbyn â Woodholm Close | Cryndal | 15 | 12.5% | 1 (fel cyfraniad oddi ar y safle) | TC/TH | 0 | 0.66 | Ie |
| HSG/029/LDP2/1 | I'r gorllewin o Ashford Park | Cryndal | 22 | 15% | 3 | TC/TH | 18 | 1.77 | Ie |
| HSG/043/LDP2/1 | Gerllaw Brackenhurst | Hill Mountain | 15 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TC/TH | 11 | 1.16 | Ie |
| HSG/046/LDP2/1 | Tir yn West End Cottages | Hundleton | 14 | 12.5% | 1 (fel cyfraniad oddi ar y safle) | TH | 0 | 0.65 | Ie |
| HSG/047/LDP2/1 | I'r de o The Crown | Jeffreyston | 8 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TH | 0 | 0.42 | Ie |
| HSG/049/LDP2/1 | I'r dwyrain o Brookfield Close ac i'r gorllewin o Bridge Lane | Keeston | 27 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TC/TH | 0 | 1.21 | Nage |

| **Cyfeirnod CDLl 2** | **Enw Safle** | **Setliad** | **LLeiafswm yn uno yng nghyfnod y Cynllun** | **Gofyniad Tai Fforddiadwy Dangosol** | | **Amserlen cyflwyno Blwyddyn 1-5 (TB) Blwyddyn 6-10 (TC) Blwyddyn 11-16 (TH)** | **Unedau y Tu Hwnt i Gyfnod y Cynllun** | **Arwynebedd Ha** | **Potensial ar gyfer Hunanadeiladu a nodir gan hyrwydd dwr y safle** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HSG/060/LDP2/1 | Gerllaw Maesybryn | Llandissilio | 26 | 100% | 26 | TH | 17 | 1.9 | Nage |
| HSG/066/LDP2/1 | I'r dwyrain o Hazelbank | Llanstadwell | 10 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TH | 0 | 1.04 | Nage |
| HSG/081/LDP2/1 | I'r gorllewin o Globe Inn | Maenclochog | 15 | 100% | 15 | TC/TH | 21 | 1.57 | Nage |
| HSG/099/LDP2/1 | Tir yn Coppins Park | Pentlepoir | 11 | 12.5% | 1 (fel cyfraniad oddi ar y safle) | TH | 0 | 0.49 | Ie |
| HSG/113/LDP2/01 | I'r de o Robeston Court | Robeston Wathen | 5 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TC | 0 | 0.27 | Nage |
| HSG/114/LDP/01 | I'r dwyrain o Pilgrim's Way | Y Garn | 52 | 13% | 4 | | 0 | 2.19 | Anhysbys |
| HSG/119/LDP2/1 | Rhwng Cornerways ac Austalise | Simpson Cross | 18 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TC/TH | 0 | 0.8 | Ie |
| HSG/120/00018 | I'r gogledd-orllewin o Wesley Way | Spittal | 10 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TC/TH | 10 | 0.89 | Anhysbys |

| **Cyfeirnod CDLl 2** | **Enw Safle** | **Setliad** | **LLeiafswm yn uno yng nghyfnod y Cynllun** | **Gofyniad Tai Fforddiadwy Dangosol** | | **Amserlen cyflwyno Blwyddyn 1-5 (TB) Blwyddyn 6-10 (TC) Blwyddyn 11-16 (TH)** | **Unedau y Tu Hwnt i Gyfnod y Cynllun** | **Arwynebedd Ha** | **Potensial ar gyfer Hunanadeiladu a nodir gan hyrwyddwr y safle** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Canran (%)** | **Rhif yr Uned** | | | | |
| HSG/123/LDP/01 | I'r gogledd o Parsons Green | St Florence | 20 | 30% | 6 | TC/TH | 0 | 0.88 | Ie |
| HSG/132/LDP2/1 | I'r gorllewin o Fferm Kings Park | Tredeml | 14 | 25% | 3 | TH | 0 | 0.61 | Nage |
| HSG/135/LDP2/1 | I'r gogledd o Ffordd Osgoi Bulford Road | Tiers Cross | 6 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TH | 0 | 0.28 | Ie |
| HSG/149/LDP2/1 | Tir yn Ford Farm | Casblaidd | 14 | Cyfraniad oddi ar y safle | | TH | 0 | 0.61 | Nage |
| **Cyfanswm y Pentref Gwasanaeth** | | | **404** | | | | **117** | **25.03** | |
| **Cyfanswm y Pentref Gwasanaeth fel canran o gyfanswm y dyraniadau** | | | **17%** | | | | **9%** | **17%** | |
| **Housing Allocation Total** | | | **2605** | | | | **1075** | **142** | |

5.102 Mae'r isafswm unedau a nodwyd ar gyfer pob safle yn ddangosol ac wedi'i seilio ar ardal yr amlygwyd y gellir ei datblygu (mae mannau gwyrdd angenrheidiol, gan gynnwys gwrychoedd clustogi, wedi cael eu heithrio o'r ffigur). Disgwylir i ddatblygwyr ddangos eu bod yn darparu cymysgedd o fathau o dai i ddarparu ar gyfer patrymau sy'n newid o ran maint aelwydydd, yn unol â'r wybodaeth yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (gweler polisi GN 15 Cymysgedd Tai, Ail gartrefi a Gosod Eiddo am Dymor Byr, Safonau Gofod a gofynion ar gyfer Safonau Cartrefi Gydol Oes).

5.103 Mae gofyniad dangosol ar gyfer tai fforddiadwy wedi cael ei amlygu, yn seiliedig ar brofion hyfywedd.

5.104 Lle mae perchenogion safle wedi dweud y byddent yn cefnogi datblygu safle ar gyfer hunanadeiladu ac mae'r safle'n addas ar gyfer datblygiad o'r fath, mae'r potensial ar gyfer hyn wedi cael ei nodi yn y tabl.

5.105 Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyflawni safleoedd datblygu a ddyrannwyd, gan gynnwys gwybodaeth am gyflwyno'n raddol, wedi'i chynnwys yn yr SPG ar Safleoedd Datblygu a Seilwaith.

## GN 17 - Ymrwymiadau Preswyl

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfanswm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farch-nad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 040/00431 | Scarrowscant | Hwlffordd | 181 | 9 | 0 | 0 | 0 | TB/TC | 0 | 4.74 |
| 040/00397 | 141, Portfield | Hwlffordd | 20 | 0 | 20 | 15 | 5 | TB | 0 | 0.42 |
| 040/00077 | Tir y tu ôl i City Rd | Hwlffordd | 133 | 3 | 2 | 5 | 0 | TB/TC | 44 | 1.68 |
| 040/00373 | Eglwys Calvary | Hwlffordd | 8 | 0 | 8 | 6 | 2 | TC | 0 | 0.16 |
| 040/00430 | Y Clwb Snwcer | Hwlffordd | 16 | 0 | 8 | 8 | 0 | TC | 0 | 0.06 |
| 040/00106 | Scarrowscant (Brooklands Park) | Hwlffordd | 21 | 0 | 18 | 13 | 5 | TB/TC | 0 | 0.72 |
| 040/00445 | 7, Dew Street | Hwlffordd | 5 | 0 | 5 | 5 | 0 | TC | 0 | 0.02 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfanswm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farch-nad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 086/00129 | Steynton Beaconing Field | Aberdaugleddau | 81 | 2 | 28 | 28 | 0 | TB/TC | 0 | 2.45 |
| 086/00223 | Thornton Rd | Aberdaugleddau | 10 | 10 | 0 | 0 | 10 | TB/TC | 0 | 0.57 |
| 086/00377 | Tir yn Milford Marina | Aberdaugleddau | 190 | 0 | 45 | 43 | 2 | TC/TH | 145 | 23.12 |
| 086/00378 | 132 Robert Street | Aberdaugleddau | 8 | 0 | 8 | 8 | 0 | TC | 0 | 0.02 |
| 086/00381 | 72-78 Charles St | Aberdaugleddau | 15 | 0 | 15 | 0 | 15 | TC | 0 | 0.09 |
| 086/00282 | Woodlands Park | Aberdaugleddau | 7 | 0 | 4 | 4 | 0 | TB/TC | 0 | 0.31 |
| 096/00373 | Imble Lane | Doc Penfro | 100 | 30 | 70 | 0 | 100 | TB | 0 | 3.58 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfan swm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farch-nad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 096/00274 | Tir i'r Gog. o'r Cleddau Bridge Hotel | Doc Penfro | 5 | 1 | 2 | 3 | 0 | TC | 2 | 0.22 |
| 096/00375 | Tir i'r gogledd o Cleddau Bridge Hotel | Doc Penfro | 14 | 0 | 7 | 7 | 0 | TC/TH | 7 | 0.92 |
| 096/00230 | Hampshire Drive | Doc Penfro | 6 | 2 | 4 | 4 | 0 | TB/TC | 0 | 1 |
| 095/00180 | Green Haven, Monkton | Penfro | 30 | 0 | 11 | 11 | 0 | TB/TC | 12 | 0.87 |
| 095/00240 | Springfield | Penfro | 5 | 0 | 2 | 2 | 0 | TB/TC | 1 | 0.15 |
| 034/00165 | I'r gorllewin o Clos-y-Bigney | Abergwaun | 50 | 0 | 50 | 0 | 50 | TC | 0 | 1,87 |
| 034/00165 | Adeiladau Fferm Maesgwyn | Abergwaun | 5 | 1 | 2 | 3 | 0 | TC | 2 | 0.39 |
| 034/00099 | Delfryn, Heol Penlan, Stop & Call | Wdig | 9 | 0 | 5 | 5 | 1 | TC | 4 | 0.26 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfan swm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farch-nad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 034/00292 | Stryd Fawr | Wdig | 26 | 0 | 26 | 26 | 0 | TC | 0 | 1.02 |
| 088/00077 | I'r gorllewin o Rushacre | Arberth | 54 | 0 | 27 | 22 | 5 | TC | 21 | 2.35 |
| 088/00074 | Dingle Farm | Arberth | 33 | 0 | 16 | 16 | 0 | TH | 17 | 1.22 |
| 088/00360 | Hen Ysgol GS Arberth | Arberth | 11 | 0 | 8 | 8 | 0 | TB/TC | 0 | 0.11 |
| 030/00043 | Rhwng yr ysgol a Station Road | Crymych | 56 | 0 | 56 | 0 | 56 | TC | 0 | 2.55 |
| 030/00019 | Gerllaw Crug yr Efydd | Crymych | 26 | 2 | 5 | 5 | 2 | TB/TC | 0 | 0.37 |
| 048/00017 | Pond Bridge Farm | Johnston | 123 | 14 | 40 | 54 | 0 | TB/TC | 0 | 1.73 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfanswm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farchnad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19/0412/PA | Tir tu ôl i Newton Hall | Cilgeti | 19 | 0 | 19 | 15 | 4 | TB | 0 | 1.33 |
| 053/00034 | Parc Maen Hir | Treletert | 26 | 0 | 26 | 0 | 26 | TB | 0 | 0.78 |
| 053/00009 | Cam 2, Dol y Llys | Treletert | 27 | 0 | 27 | 27 | 0 | TC | 26 | 1.28 |
| 053/00052 | Cyn Drac Gwibgartio | Treletert | 23 | 2 | 11 | 13 | 0 | TB/TC | 11 | 0/75 |
| 007/00047 | Iard yr Hen Orsaf | Boncath | 30 | 0 | 20 | 20 | 0 | TC | 10 | 1.34 |
| 003/00040 | I'r gogledd o New Road | Begeli | 70 | 0 | 35 | 32 | 3 | TB/TC | 0 | 3.01 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfan swm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farch-nad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 003/00025 | Barley Park Close | Begeli | 26 | 3 | 17 | 28 | 2 | TB/TC | 0 | 0.87 |
| 025/00028 | I'r de o Tinker's Fold | Cosheston | 6 | 2 | 4 | 6 | 0 | TB | 0 | 0.69 |
| 028/00012 | I'r Gogledd o'r Efail | Croescoh | 22 | 0 | 1 | 1 | 0 | TB/TC | 0 | 0.82 |
| 029/00013 | Dingle Lane | Crundale | 40 | 0 | 1 | 1 | 0 | TB/TC | 0 | 0.29 |
| 029/00026 | Woodholm Farm | Crundale | 5 | 1 | 2 | 3 | 0 | TH | 2 | 0.25 |
| 033/00035 | I'r de orllewin o Ysgol Eglwyswrw | Eglwyswrw | 23 | 23 | 0 | 0 | 23 | TC | 0 | 1.23 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfan swm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farch-nad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 035/00021 | Poplar Meadow | Freystop | 7 | 1 | 0 | 1 | 0 | TB/TC | 0 | 0.19 |
| 035/00030 | Will Meadows | Freystrop | 28 | 2 | 11 | 13 | 0 | TB/TC | 0 | 2.34 |
| 042/00013 | I'r gogledd o Cartref | Hermon | 15 | 0 | 8 | 8 | 0 | TB/TC | 7 | 0.78 |
| 044/00050 | Leven Close | Hook | 13 | 0 | 1 | 1 | 0 | TB/TC | 0 | 0.1 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfanswm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farchnad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 044/00063 | Cyfin Barn Farm | Hook | 11 | 1 | 3 | 4 | 0 | TB/TC | 0 | 0.35 |
| 044/00015 | Harcourt Close | Hook | 40 | 0 | 14 | 14 | 0 | TC | 14 | 0.88 |
| 081/LDP/01 | Ger y Lein Fach | Maenclochog | 13 | 0 | 2 | 2 | 0 | TB/TC | 0 | 0.43 |
| 081/LDP/01 | Maes Rhoslyn | Maenclochog | 13 | 0 | 13 | 13 | 0 | TC | 0 | 0.51 |
| 085/00022 | Parc yr Odyn | Mathri | 7 | 1 | 4 | 5 | 0 | TB/TC | 0 | 0.43 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfanswm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farchnad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 099/00045 | Sycamore Close | Pentlepoir | 6 | 0 | 3 | 2 | 1 | TB/TC | 0 | 0.43 |
| 015/00024 | Cornfields Walk | Sageston | 100 | 30 | 0 | 30 | 0 | TB/TC | 0 | 30.85 |
| 015/00022 | Sageston Fields | Sageston | 38 | 0 | 7 | 7 | 0 | TB/TC | 0 | 0.75 |
| 119/LDP/01 | I'r Dwyrain o Hill Lane | Simpson Cross | 20 | 0 | 20 | 16 | 4 | TC | 0 | 0.75 |
| 119/00028 | Canolfan Grefftau Old Smithy | Simpson Cross | 4 | 4 | 0 | 4 | 0 | TC | 0 | 0.12 |
| 119/00030 | Amgueddfa Moduron Sir Benfro | Simpson Cross | 26 | 0 | 13 | 13 | 0 | TC | 13 | 1.27 |
| 123/00045 | Gerddi Ash Grove | St Florence | 11 | 2 | 3 | 3 | 2 | TB/TC | 0 | 0.37 |
| 131/00021 | Tir ger Fferm Blaenffynnon | Tegryn | 30 | 1 | 13 | 14 | 0 | TC | 12 | 1.53 |
| 011/00011 | Llyn Hake | Burton | 13 | 0 | 1 | 1 | 0 | TB/TC | 0 | 0.18 |
| 012/00004 | Tir i'r de o Kiln Park | Burton Ferry | 8 | 1 | 6 | 7 | 0 | TB/TC | 0 | 1.55 |
| 110/00015 | Maes Elwyn John | Reynalton | 7 | 1 | 1 | 2 | 0 | TB/TC | 0 | 0.24 |

| Cyf DM | Enw'r safle | Anheddiad / Parth Twf | Cyfan swm y safle | Unedau'n cael eu hadeiladu | Unedau a ymrwymwyd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun | Nifer yr Unedau ar y Farch-nad Agored | Nifer Unedau o Dai Fforddiadwy | Amserlen ar gyfer cyflawni Bl. 1-5 Bl. 6-10 Bl. 11-15 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 125/00009 | Fferm St Twynnells | St Twynnells | 5 | 2 | 0 | 2 | 0 | TB/TC | 3 | 0.25 |
| 000/01202 | Lôn Clychau'r Gog | Wolfsdale | 7 | 1 | 0 | 1 | 0 | TB/TC | 2 | 0.32 |

5.106 Mae'r tabl uchod yn crynhoi'r ymrwymiadau preswyl sydd eisoes ar droed yn ardal y Cynllun. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn cynnwys rhif cyfeirnod monitro'r datblygiad, enw'r safle, yr anheddiad a chyfanswm yr anheddau sydd i'w darparu. Darperir rhagor o wybodaeth am anheddau sy'n cael eu hadeiladu, anheddau sydd ar ôl i'w hadeiladu, y rhaniad rhwng unedau marchnad agored a fforddiadwy, yr amserlen cyflawni, anheddau y disgwylir iddynt gael eu cwblhau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun ac arwynebedd y safle.

**GN 18 – Slade Lane, Hwlffordd – S/HSG/040/LDP2/6**

Mae dyraniad preswyl Slade Lane, Hwlffordd, yn elfen o safle a fydd yn cael ei uwchgynllunio i ddarparu datblygiad preswyl, man agored, ysgol gynradd newydd, caeau chwarae i'r ysgol a chyfleusterau cymunedol eraill, ynghyd â chynigion integredig ar gyfer teithio cynaliadwy.

Mae dau gam cyntaf y safle, ar gyfer datblygiad preswyl yn bennaf, yn cael eu datblygu gan gymdeithas tai Pobl ac mae llawer o'r gweddill (er nad y cyfan) bellach yn eiddo i Lywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer tai newydd ynghyd â defnyddiau tir priodol eraill.

Mae maint a chymhlethdod y safle hwn yn gofyn am ymagwedd gydlynol at ei ddatblygu, gyda golwg ar greu amgylchedd o ansawdd uchel sydd wedi'i ddylunio'n dda ar gyfer ei breswylwyr yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o baratoi prif gynllun ar gyfer y safle cyfan, y gobeithir ei ddwyn ymlaen fel Canllawiau Cynllunio Atodol i CDLl 2 ar ôl mabwysiadu'r cynllun.

5.107 Newidiodd perchnogaeth llawer o safleoedd datblygu preswyl Slade Lane yn 2023. Mae bellach yn rhannol ym mherchnogaeth Pobl (cymdeithas dai) ac yn rhannol ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae rhai elfennau llai o'r safle yn parhau mewn perchnogaeth breifat.

5.108 Mae Pobl yn bwriadu gweithredu cam cychwynnol y cynnig preswyl yn seiliedig yn bennaf ar yr hyn sydd eisoes wedi cael caniatâd llawn (gyda rhai mân amrywiadau). Mae hefyd yn debygol o ddatblygu'r cynigion ar gyfer ail gam y cynnig preswyl.

5.109 Llywodraeth Cymru yw perchennog llawer o weddill y safle ac mae wedi nodi ei bod yn bwriadu comisiynu'r gwaith o baratoi uwchgynllun ar gyfer y safle cyfan, a fydd yn cynnwys elfennau preswyl a hefyd gynigion datblygu cysylltiedig eraill, gan gynnwys mannau agored cyhoeddus ac ar gyfer amwynderau, systemau draenio cynaliadwy (SDCau), ysgol gynradd newydd yn cynnwys caeau chwarae'r ysgol, ardaloedd wedi'u diogelu oherwydd eu gwerth cadwraeth natur a phob mater sy'n ymwneud â mynediad cynaliadwy.

5.110 Mae un rhan o'r safle sy'n parhau mewn perchnogaeth breifat eisoes wedi cael caniatâd ar gyfer cynnig ar wahân ar gyfer 24 annedd (sydd bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth). Gallai tir i'r gogledd fod yn ail gam i hyn, ond ar hyn o bryd nid yw'n glir sut y bydd mynediad yn cael ei sicrhau ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i hyn ddod o dir Llywodraeth Cymru yn nes ymlaen.

### GN 19A Maesgwyn, Abergwaun S/HSG/034F/LDP2/1

Ym Maesgwyn, mae'r rhan o'r safle sy'n cael ei adnabod fel Parc Loktudi wedi'i ddatblygu, ond mae rhannau eraill o'r safle yn parhau heb eu datblygu. Yn ddiweddar, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu 50 o gartrefi ar dir ger Clos-y-Bigney (a elwir hefyd yn dir i'r Gogledd o Faesgwyn), sef cynnig tai fforddiadwy 100% sy'n cael ei gyflwyno gan Gymdeithas Tai Wales and West. Bydd uwchgynllun yn cael ei baratoi ar gyfer gweddill y safle, yn seiliedig ar ddatblygiad preswyl pellach, ynghyd â mannau agored cyhoeddus a mannau ar gyfer amwynderau, systemau draenio cynaliadwy (SDCau), parth clustogi gerllaw cyfadeilad Fferm Maesgwyn, ardaloedd a warchodir oherwydd eu gwerth o ran cadwraeth natur a phob mater yn ymwneud â mynediad cynaliadwy.
Mae maint a chymhlethdod y safle yn gofyn am ymagwedd gydlynol at ei ddatblygu, gyda golwg ar greu cynllun o ansawdd uchel sydd wedi'i ddylunio'n dda sy'n sensitif i'w leoliad. Rhaid i fynediad cerbydau i'r safle o Gefnffordd yr A40 gyd-fynd â gofynion yr Awdurdod Cefnffyrdd.
Mae Cymdeithas Tai Wales and West wedi comisiynu Asbri Planning Ltd i baratoi uwchgynllun ar gyfer y rhannau o'r safle sydd heb eu datblygu, a allai fod yn sail ar gyfer ceisiadau cynllunio yn y dyfodol ac ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol CDLl 2 ar ôl mabwysiadu'r cynllun.

5.111 Cymdeithas Tai Wales and West bellach yw'r sefydliad arweiniol sy'n ceisio bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r rhannau o safle Maesgwyn sydd ar ôl heb eu datblygu. Mae'r safle hwn wedi cael caniatâd yn flaenorol ar gyfer cynigion datblygu preswyl, a oedd yn rhannol ddibynnol ar greu cyffordd gylchfan i gefnffordd yr A40 (er bod rhai elfennau ar wahân o'r safle wedi gallu symud ymlaen heb hyn). Mae cyflawni gweddill y dynodiad yn dibynnu ar ddatblygu cynigion mynediad i gerbydau sy'n bodloni gofynion yr Awdurdod Cefnffyrdd, sydd â'r pŵer i gyfarwyddo ar y mater hwn yn ystod y cam ymgeisio.

5.112 Mae Cymdeithas Tai Wales and West yn bwriadu gweithredu'r cynllun tai fforddiadwy ar gyfer 50 annedd yn unol â'r caniatâd sydd eisoes yn ei le. Bydd camau dilynol y cynnig preswyl yn cael eu huwchgynllunio, bydd angen ymgorffori cynigion ar gyfer mynediad i briffyrdd a gefnogir gan yr Awdurdod Cefnffyrdd a rhaid darparu ar gyfer mannau agored cyhoeddus ac amwynder, SDCau, parth clustogi o amgylch cyfadeilad Fferm Maesgwyn, sy'n cynnwys rhywfaint o Adeiladau Rhestredig a gwarchod ardaloedd o bwysigrwydd o ran cadwraeth natur, gan gynnwys Lôn Maesgwyn a gwrychoedd a choed cysylltiedig. Rhaid i'r cynigion hefyd wneud darpariaeth ar gyfer mynediad cynaliadwy, gan gynnwys y mynediad o'r Gefnffordd a chynllun y safle yn gyffredinol.

### GN 19B I'r De o Conway Drive, Castle Pill Road, Steynton S/HSG/086/LDP2/3

Mae ardal Steynton yn Aberdaugleddau wedi darparu nifer o anheddau newydd o ganlyniad i safleoedd tai a ddyrannwyd yn flaenorol ac mae'r cynllun hwn wedi dyrannu pedwar dyraniad tai pellach gan gynnwys y safle hwn. Mae angen uwchgynllun ar gyfer y dyraniad tai strategol a elwir 'i'r De o Conway Drive' er mwyn sicrhau cysylltedd i gerddwyr a beicwyr â'r camau datblygu blaenorol hyn lle bo modd, yn ogystal â dyraniadau tai cyfagos eraill a restrir ym mholisi GN16, sef HSG/086/LDP2 /1 Tir yn Myrtle Meadows trwy Castle Pill Road a HSG/086/LDP2/2 i'r dwyrain o Castle Pill Road.

Bydd angen i'r uwchgynllun ymgorffori mannau agored ar gyfer hamdden, systemau draenio cynaliadwy (SDC), clustogfa ecolegol ar hyd y ffin ddeheuol yn ogystal â llwybrau cerdded a beicio i'r gogledd, y gorllewin a'r de-orllewin.

Bydd angen o leiaf ddau bwynt mynediad i gerbydau i'r safle er mwyn sicrhau y gall cerbydau brys gael mynediad i'r safle bob amser, sef o Castle Pill Road a Neyland Road trwy Beaconing Drive, St Peter's Way a Hilton View. Rhaid datblygu'r mynedfeydd i gerbydau mewn ymgynghoriad â'r Asiantaeth Cefnffyrdd a'r Awdurdod Priffyrdd Lleol. Bydd angen i'r nifer o anheddau y gellir cael mynediad iddynt drwy Castle Pill Road gael eu seilio ar Asesiad Traffig ar y gyffordd rhwng Castle Pill Road a Steynton Road (Cefnffordd yr A4076) yn ogystal â'r gyffordd sydd â signalau pedair ffordd gyfagos i'r gogledd.

Gallai'r uwchgynllun fod yn sail ar gyfer ceisiadau cynllunio yn y dyfodol ac ar gyfer Canllawiau Cynllunio Atodol CDLl 2 ar ôl mabwysiadu'r cynllun.

5.113 Mae ardal Steynton yn Aberdaugleddau wedi gweld twf tai sylweddol dros nifer o gynlluniau datblygu olynol. Y safle hwn i'r de o Conway Drive a Beaconing Drive fydd y datblygiad mwyaf hyd yma, felly bydd angen uwchgynllun i sicrhau y gellir creu lleoedd a chysylltedd â chyfnodau datblygu blaenorol a safleoedd eraill a ddyrannwyd ar gyfer tai yn y cynllun hwn.

5.114 Mae'r safle wedi'i leoli rhwng Castle Pill Road a Neyland Road, trwy Beaconing Drive a St Peters Way. Mae hyn yn gyfle unigryw i greu llwybr cerdded a beicio drwy'r safle i ddarparu llwybr hamdden trwodd i Castle Pill a llwybr teithio llesol i rannau eraill o Aberdaugleddau, yn enwedig yr Ysgol Uwchradd a Chanol y Dref, trwy Mariners Way a thir HSG/086/LDP2/1 sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer tai yn Myrtle Meadows, Steynton. Byddai hyn yn osgoi'r llwybr cylchredol presennol trwy Neyland Road a'r A4076 (T) Steynton Road (yn rhannol) ac yn lleihau pellteroedd teithio rhwng gwahanol rannau o Steynton, sydd ar hyn o bryd wedi'u gwahanu gan Castle Pill Road. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r uwchgynllun flaenoriaethu llwybr defnyddwyr a rennir ar echel gorllewin-ddwyreiniol o fewn cynllun y safle a chreu allanfa ddiogel ger y gornel

dde-orllewinol i Castle Pill Road, sydd hefyd yn ystyried y pwynt lle y bydd dyraniad cyfagos ar yr ochr arall hefyd yn creu cyffordd â Castle Pill Road.

5.115 Mae'r ffordd a elwir Castle Pill Road yn ffinio â'r rhwydwaith ffyrdd ehangach wrth gyffordd T heb signalau â'r A4076(T) Steynton Road. Mae hyn lai na 30m i'r de o gyffordd gyda signalau 4-ffordd, sef y brif fynedfa i gerbydau i dref Aberdaugleddau ac i raddau penrhyn Dale. Mae Is-adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru wedi datgan y gall rhywfaint o draffig cerbydau o'r dyraniad adael gan ddefnyddio Castle Pill Road ac ymlaen i'r A4076(T) Steynton Road. Ar y sail hon, mae'n rhaid i'r uwchgynllun gynnwys Asesiad Traffig o'r gyffordd T a'r gyffordd â signalau 4-ffordd, gan y bydd hyn yn pennu nifer yr anheddau a all adael Castle Pill Road ac felly bydd yn dylanwadu ar gynllun y safle.

## GN 20 Tai Fforddiadwy i Ddiwallu Anghenion Lleol

Ceisir tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol ar ddatblygiadau tai yn seiliedig ar ardaloedd y farchnad dai a nodwyd. Mae ardaloedd y farchnad dai wedi'u nodi drwy ddadansoddi data gwerthiant ar gyfer adeiladau newydd diweddar ar draws ardal yr awdurdod cynllunio lleol.

. Amlinellir targedau dangosol ar gyfer darpariaeth ar safleoedd a ddyrannwyd ym Mholisi GN.16 Dyraniadau Preswyl, a bydd y ddarpariaeth ar safleoedd heb eu dyrannu fel a ganlyn:

<table>
<tr><th>Maint y safle</th><th>1 uned</th><th>2-5 uned</th><th>6-9 uned</th><th>10-19 uned</th><th>20-32 o unedau</th><th>33-49 o unedau</th><th>50-99 o unedau</th><th>100 o unedau</th></tr>
<tr><td>Band 1</td><td rowspan="4">Swm Cymudedig</td><td colspan="7">Swm Cymudedig</td></tr>
<tr><td>Band 2</td><td colspan="5">Swm Cymudedig</td><td>5%</td><td>17.5%</td></tr>
<tr><td>Band 3</td><td colspan="2">Swm Cymudedig</td><td>12.5%</td><td>15%</td><td>20%</td><td>25%</td><td>30%</td></tr>
<tr><td>Band 4</td><td>Swm Cymudedig</td><td>25%</td><td>25%</td><td>30%</td><td>35%</td><td>35%</td><td>35%</td></tr>
</table>

Lle y dangosir nad yw'n bosibl darparu 2 neu fwy annedd fforddiadwy ar safle, ceisir cyfraniad at dai fforddiadwy ar ffurf swm gohiriedig. Bydd y swm gohiriedig yn gysylltiedig â'r cyfraddau cyfraniad a amlinellir uchod ac yn cael ei godi ar sail lle llawr (fesul metr sgwâr).

Gallai'r awdurdod geisio cyfraniad canrannol uwch ar unrhyw safle lle mae amgylchiadau lleol a/neu ddatblygiadau diweddar yn yr ardal yn awgrymu y byddai'n ariannol hyfyw. Lle y gellir dangos newid cadarnhaol parhaus o ran hyfywedd ariannol datblygiad trwy fonitro, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio cyfraniad canrannol uwch tuag at dai fforddiadwy. Gallai fod yn briodol darparu tai fforddiadwy islaw'r ffigur targed mewn amgylchiadau eithriadol, lle yr ategir hyn gan dystiolaeth o hyfywedd economaidd ac y gellir dangos bod newidiadau sylweddol wedi bod i hyfywedd ers profi hyfywedd gwreiddiol dyraniadau tai unigol a phrofion hyfywedd preswyl lefel uchel ar gyfer y Cynllun cyfan.

5.116 Mae'r angen dybryd am dai fforddiadwy yn Sir Benfro, fel y gwelir trwy ddata rhestrau aros am dai, Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol ac arolygon Cyngor Cymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod dyletswydd ar y system gynllunio i roi blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy, ac mae'r angen am dai fforddiadwy mewn cymuned yn ystyriaeth gynllunio o bwys. Disgwylir y bydd o leiaf 2000 o dai fforddiadwy newydd yn cael eu darparu dros gyfnod y Cynllun.

5.117 Bydd yr awdurdod yn ceisio cyfraniad materol neu ariannol at dai fforddiadwy gan ddatblygiadau tai newydd i'r farchnad agored lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn cynyddu'r tai fforddiadwy a ddarperir i'r eithaf mewn ymgais i fodloni'r angen presennol a'r angen newydd sy'n dod i'r amlwg. Mae cynigion trawsnewid wedi'u heithrio o ddarpariaethau o'r fath ar sail cyfyngiadau hyfywedd. Lle mae'r safle'n ddigon mawr, disgwylir i'r datblygwr ddarparu tai fforddiadwy ar y safle, yn unol â'r targedau canrannol a nodwyd yn GN16 (ar gyfer dyraniadau tai) neu GN20 uchod (ar gyfer hap-safleoedd). Deilliwyd y targedau hyn o brofion hyfywedd tai ac maen nhw'n ffurfio targed dangosol. Mae'r profion hyfywedd, a gynhaliwyd fel tystiolaeth ar gyfer y CDLl, yn ystyried nodweddion unigryw safle ac yn caniatáu ar gyfer newidiadau i gyflwr yr economi ac economeg datblygu. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle y gall datblygwr ddangos nad oes modd darparu'r ganran ddisgwyliedig, caiff drafod â'r ACLl i sicrhau bod nifer resymol o dai fforddiadwy'n cael eu darparu, sy'n cyfrannu at fodloni'r angen am dai fforddiadwy yn Sir Benfro. Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu tystiolaeth o newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd ers y profion hyfywedd gwreiddiol ar ddyraniadau tai unigol a'r profion hyfywedd preswyl lefel uchel ar gyfer y Cynllun yn ei gyfanrwydd.

5.118 Os nad yw'n ymarferol darparu ar y safle, gan y byddai yn arwain at lai na 2 uned fforddiadwy ar ddatblygiad bach neu lle mae 'talgrynnu' yn golygu bod safle mawr wedi'i adael â ffracsiwn o annedd fforddiadwy i'w ddarparu, bydd y Cyngor yn ceisio swm gohiriedig i gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy oddi ar y safle.

5.119 Ni fydd yr Awdurdod yn derbyn datblygu safleoedd mawr yn dameidiog, p'un a ydynt wedi'u dyrannu ai peidio, fel modd o osgoi'r gofyniad am dai fforddiadwy. Mae'r SPG ar Dai Fforddiadwy yn cynnwys manylion pwysig ynglŷn â deiliadaeth a'r math o dai fforddiadwy a geisir gan yr awdurdod. Mae hefyd yn cadarnhau sut y gellir addasu ardaloedd y farchnad dai a sut y bydd swm gohiriedig yn cael ei gymhwyso. Yn gyffredinol, bydd y targed tai fforddiadwy yn yr SPG yn unol â'r ganran a amlygwyd ar gyfer dyraniadau yn yr anheddiad hwnnw. Caiff ei hamrywio lle mae costau annormal yn gysylltiedig â dyraniad, neu lle mae amrywiadau mewn ardaloedd marchnad dai o fewn anheddiad.

5.120 Casglwyd data ar gyfer gwerthu eiddo newydd a adeiladwyd yn ddiweddar ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol i nodi ardaloedd o werthoedd prisiau tai tebyg, pan gânt eu trosi'n bunnoedd fesul metr sgwâr (£psqm). Cymhwyswyd codiadau chwyddiant i gyfrif am amrywiadau yn amseriad y gwerthiannau a gwnaed lwfansau ar gyfer datblygiad byngalos unllawr er mwyn osgoi rhagfarn. Yna cafodd y rhain eu grwpio gyda'i gilydd i greu'r ardaloedd marchnad dai isod:

Band 1

| Enw'r Ardal | Aneddiadau |
|---|---|
| Aber Cleddau Dwyreiniol | Martletwy |
| Gogledd-ddwyrain | Abercych, Blaenffos, Boncath, Bwlch-y-Groes, Crymych, Eglwyswrw, Glandwr, Hermon, Llanfyrnach, Capel Newydd, Postgwyn, Rhoshill, Tegryn |
| Gogledd | Ambleston, Casmorys, Croescoch, Abergwaun, Ffos Las, Gwdig, Hayscastle Cross, Treletert, Little Newcastle, Llan-lwy, Llangolman, Llanrhian, Maenclochog, Mathri, Panteg, Penycwm, Penygroes Villas, Pont-yr-Hafod, Cas-mael, Square & Compass, St Nicholas, Trecwn, Treffynnon, Tregarn, Trefgarn Owen, Walton East, Casblaidd, Woodstock |
| De-orllewin | Johnston, Aberdaugleddau (ac eithrio Steynton), Rosemarket, Tiers Cross, Thornton |

Band 2

| Enw'r Ardal | Aneddiadau |
|---|---|
| Canolog | Camros, Clarbeston Road, Cuffern, Golden Hill, Jeffreyston, Keeston, Llanbedr Efelffre, Leachpool, Llandysilio, Llanhuadain, Eglwys Lwyd, Pelcomb Cross, Poyston Cross, Princes Gate, Roch, Robeston Wathen, Simpson Cross, Spittal, Tafarn-sbeit, Hendy-gwyn, Cas-wis, Wolfsdale |
| Aber Cleddau Gogledd a Gorllewin | Barnlake, Burton, Burton Ferry, Deerland, Freystrop, Hill Mountain, Hook, Houghton, Little Honeyborough, Llangwm, Freystrop Isaf, Madox Moor, Mascle Bridge, Aberdaugleddau (ardal Steynton yn unig), Neyland, Sardis, Waterston |
| Ardal Doc Penfro | Cosheston, Llandyfái, Doc Penfro, Slade Cross, Upper Nash. |
| Aber afon Teifi | Bryngwyn, Cilgerran, Llwyncelyn, Pen-y-Bryn, Llandudoch |

Band 3

| Enw'r Ardal | Aneddiadau |
|---|---|
| Clunderwen | Clunderwen |
| Ardal Hwlffordd | Crundale, Hwlffordd/Pont Fadlen, Portfield Gate, Slade Villas, Uzmaston |
| Coridor deheuol yr A477 | Begeli, Broadmoor, Caeriw/Sageston, Cold Blow, East Williamston, Cilgeti, Llanteg/Llanteglos, Milton, New Inn, Pentlepoir, Pleasant Valley, Redberth, Reynalton, Stepaside, Summerhill |
| Ardal Penfro | Hundleton, Maiden Wells, Penfro, St Tywnells |

Band 4

| Enw'r Ardal | Aneddiadau |
|---|---|
| Ardal Arberth | Arberth, Templeton |
| De-ddwyrain | New Hedges, Penalun, St.Florence |

**GN 21 Safleoedd Eithriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy i Ddiwallu Anghenion Lleol**

Bydd tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol ar dir na fyddai'n cael ei ryddhau ar gyfer tai fel arall yn cael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol lle y bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae'r safle o fewn Ffin Anheddiad neu'n cyffinio â hi;
2. Mae angen lleol am dai fforddiadwy wedi cael ei amlygu;
3. Mae'r gymuned y mae'r safle wedi'i leoli ynddi yn cael ei gwasanaethu'n ddigonol gan gyfleusterau i gefnogi'r datblygiad arfaethedig; a
4. Bydd holl fuddion darpariaeth tai fforddiadwy, a adeiladwyd yn unswydd i'w meddiannu gan bobl leol y mae arnynt angen cartrefi fforddiadwy, yn trosglwyddo i'r meddianwyr cychwynnol a phob meddiannwr dilynol.

5.121 Cefnogir safleoedd eithriedig mewn lleoliadau o fewn Ffiniau Aneddiadau. Lle mae angen a amlygwyd am dai fforddiadwy, na ellir ei fodloni gan y ddarpariaeth bresennol, gellir darparu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol fel eithriad i bolisïau cynllunio arferol. Gellir cael tystiolaeth o'r angen trwy'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, data'r Gofrestr Tai Cyffredin ac arolygon Cyngor Cymuned. Mae'n rhaid i unrhyw gais am safle eithriedig fod yn gymesur â'r anheddiad y mae wedi'i leoli ynddo o ran graddfa a natur.

5.122 Rhoddir rhagor o fanylion yn y polisi cenedlaethol (gweler PPW 12 paragraff 4.2.34).

5.123 Disgwylir y bydd mwyafrif y tai fforddiadwy yn parhau i gael eu darparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Cyngor trwy ei raglen adeiladu Cyfrif Refeniw Tai, ond gall sefydliadau lleol eraill fel grwpiau hunanadeiladu ac ymddiriedolaethau tir cymunedol gyfrannu at y ddarpariaeth, ar yr amod bod yr anheddau'n aros yn fforddiadwy i bobl leol yn y dyfodol. Mae Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn amrywio o ran maint, gallant fod yn wledig neu'n drefol, ac maen nhw'n darparu amrywiaeth o ddeiliadaethau tai yn ogystal â chyfleusterau cymunedol eraill, fel gweithleoedd, cynhyrchu ynni, bwyd cymunedol a ffermio. Maen nhw'n caniatáu math o dai dan arweiniad y gymuned sy'n dal tir ar y cyd mewn ymddiriedolaeth nid er elw ac sy'n sicrhau fforddiadwyedd am byth trwy gytundeb Adran 106, gan gysylltu cost tai ag incwm lleol yn hytrach na'r farchnad eiddo. Mae Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn gweithredu fel datrysiad tymor hir i sicrhau bod pobl y mae gwir angen tai fforddiadwy arnynt yn gallu cael mynediad at dai o'r fath trwy gadw buddiant ecwitïol mewn unrhyw gartrefi a werthir.

**GN 22 Llety Arbenigol a Llety â Chymorth**

Caniateir llety arbenigol neu lety â chymorth newydd, neu estyniadau i rai presennol, lle dynodwyd angen a phan fodlonir y meini prawf canlynol

1. Lle mae cyfleusterau newydd oddi mewn i Ffin Anheddiad neu â chysylltiad da â Ffin Anheddiad, neu'n cynnwys addasu neu drosi adeilad presennol priodol
2. Mae estyniadau i adeiladau presennol o faint a natur sy'n gydnaws â'r adeilad gwreiddiol a'i leoliad
3. Ym mhob achos, mae trefniadau mynediad yn galluogi cerddwyr, ceir, cerbydau argyfwng, cerbydau dosbarthu a cherbydau gwasanaeth i symud yn ddiogel

5.124 Mae gan Sir Benfro boblogaeth hŷn, gyda Chyfrifiad 2021 yn cofnodi bod 48.4% o bobl y Sir (gan gynnwys ardal y Parc Cenedlaethol) yn 50 oed a hŷn, gyda 12.1% yn 75 oed neu'n hŷn. Mae 22% o'r boblogaeth wedi'u cofnodi'n anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2021[27]. Nod y polisi hwn yw sicrhau y darperir llety arbenigol a llety â chymorth i ddiwallu'r anghenion a amlinellwyd yn 'Asesiad o'r Angen am Dai a Llety Arbenigol ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngorllewin Cymru, Tachwedd 2018' ac 'Asesiad anghenion tai a llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngorllewin Cymru hyd at 2037', 2018, a gwybodaeth wedi'i diweddaru yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2022. Mae llety arbenigol a llety â chymorth yn cynnwys tai ar gyfer pobl hŷn, tai â gofal, gofal preswyl a gofal nyrsio. Mae'r tabl canlynol yn dangos amcangyfrif o'r angen net cyffredinol ar gyfer pobl hŷn (diffyg o ran unedau/gwelyau) hyd at 2035. Bydd ar lawer o bobl sy'n byw mewn tai arbenigol i bobl hŷn angen cartrefi hygyrch a chartrefi sydd wedi'u haddasu i gadair olwyn. Amcangyfrifir y bydd angen cartrefi wedi'u haddasu i gadair olwyn ar ryw chwarter o bobl hŷn sy'n byw mewn tair arbenigol. Hefyd, mae angen llety arbenigol i gefnogi pobl ag anableddau dysgu, pobl iau, neu bobl sy'n ddigartref neu'n agored i niwed. Er y gwyddwn beth yw'r lefelau angen amcangyfrifedig ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu, bydd y polisi hwn yn berthnasol i'r holl grwpiau sy'n agored i niwed lle mae angen am y datblygiad wedi'i dderbyn gan y Cyngor.

[27] Asesiad Marchnad Dai Leol Sir Benfro, 2022.

Ffigur 4 Angen net a amcangyfrifir (diffyg o ran unedau/gwelyau) hyd at 2035[28]

| | Ardal 1 Gogledd Orllewin | Ardal 2 De Orllewin | Ardal 3 De Ddwyrain | Ardal 4 Gogledd Ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai ar gyfer Pobl Hŷn | 318 | 232 | 303 | 287 | 1140 |
| *I'w rhentu* | *191* | *163* | *151* | *172* | *677* |
| *Ar werth* | *127* | *70* | *151* | *115* | *463* |
| Tai â Gofal | 56 | 50 | 97 | 7 | 211 |
| *I'w rhentu* | *34* | *35* | *49* | *4* | *122* |
| *Ar werth* | *23* | *15* | *49* | *3* | *89* |
| Gofal Preswyl | 62 | 61 | 19 | 57 | 199 |
| Gofal Nyrsio | 109 | 180 | 25 | 128 | 443 |

5.125 Y duedd gyffredinol fu symud darpariaeth gofal o leoliadau sefydliadol tuag at dai mwy annibynnol sy'n integreiddio tai a chymorth ar gyfer pobl hŷn yn y gymuned. Dylai tai fodloni anghenion dyheadol ar gyfer pob mathau o dai i bobl hŷn, lle gall pobl hŷn aros gerllaw ffrindiau a theulu, a'r rhwydweithiau anffurfiol y darparant, a lle gellir cynnal eu hannibyniaeth.

5.126 Gellir darparu'r angen dynodedig trwy gyfleusterau cyhoeddus neu breifat, ac ym mhob achos, rhoddir ystyriaeth i'r modd y mae'r datblygiad yn cydfynd â chymeriad yr ardal leol, yn gwarchod amwynder trigolion lleol, ac yn cynnig cyfleoedd i drigolion gael mynediad i gyfleusterau lleol.

5.127 Ar hyn o bryd mae llety i bobl ag anableddau dysgu[29] yn rhoi lle i 421 o oedolion 18+ oed yn Sir Benfro. Amcangyfrifir y bydd y boblogaeth hon yn tyfu i 473 erbyn 2037. Yr angen a ragwelir yw cynnydd cyffredinol yn yr angen am 57 o dai/unedau llety ychwanegol erbyn 2027 ac 119 erbyn 2036 fel a ganlyn -

[28] Asesiad o'r Angen am Dai a Llety Arbenigol ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngorllewin Cymru, Tachwedd 2018
[29] Asesiad anghenion tai a llety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngorllewin Cymru, 2018

Ffigur 5 Yr Angen a Ragwelir am Lety ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

| Math o lety / math o dai | Darpariaeth hyd at 2017 | Gofyniad net erbyn 2027 | Gofyniad ychwanegol net erbyn 2037 | Angen cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| Lleoedd gofal preswyl | 92 | 76 o leoedd (- 16) | 47 o leoedd (-29) | -45 |
| Lleoliadau Cysylltu Bywydau | 18 | 36 o leoliadau | 57 o leoliadau +21) | +39 |
| Tai â chymorth / trefniadau byw â chymorth | 110 | 143 o unedau (+33) | 175 o unedau (+32) | +65 |
| Tai â gofal y brif ffrwd | 56 | 62 o unedau (+6) | 71 o unedau (+9) | +15 |
| Angen cyffredinol am Dai/ unedau llety | 276 | +57 | +62 | +119 |

5.128 Gyda mwy o opsiynau tai i bobl ag anabledd dysgu, awtistiaeth, neu'r ddau y bwriad yw eu galluogi i gael mynediad i'r llety cywir gyda gofal a chymorth yn cael eu darparu er mwyn cynnig atebion cynaliadwy. Yr uchelgais eto yw symud i ffwrdd oddi wrth ofal o fath sefydliadol at atebion â mwy o ffocws yn y gymuned.

**GN 23 Dyraniadau Llety Arbenigol a Llety â Chymorth**

Dyrennir tir ar gyfer cyfleusterau ychwanegol yn:

| Cyfeirnod Safle | Enw'r Safle | Arwynebedd (hectarau) | Cyfleuster dynodedig |
|---|---|---|---|
| SSA/089/01 | I'r de orllwein o Park House, Dinbych-y-pysgod | 3.20 | Cyfleuster gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn |
| SSA/089/LDP2/02 | I'r dwyrain o Park House, Dinbych-y-pysgod | 0.25 | Estyniad i'r cyfleuster preswyl/nyrsio |
| SSA/135/LDP2/01 | I'r Gogledd o Ffordd Osgoi Bulford Road, Tiers Cross | 0.44 | Cyfleuster gofal pobl hŷn – pobl ag anableddau dysgu |
| SSA/088/LDP2/01 | Redstone, Arberth | 1.97 | Cyfleuster gofal pobl hŷn |

5.129 Fel yr amlinellir ym Mholisi GN 22 ceir angen dynodedig sylweddol yn Sir Benfro am Lety Arbenigol a Llety â Chymorth. Bydd y dyraniadau a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at fodloni'r angen dynodedig hwn.

**GN 24 Dyraniadau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

Mae tir wedi'i ddyrannu ar gyfer estyniadau i'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr mewn tri lleoliad, ac mae pob un wedi'i ddangos ar y Map Cynigion:

| Cyfeirnod Safle | Enw'r Safle | Arwynebedd (hectarau) | Cynnydd net dangosol yn nifer y lleiniau |
|---|---|---|---|
| GT/095/LDP2/01 | Tir i'r dwyrain o safle Sipsiwn a Theithwyr Chwarel y Castell, Cil-maen, Penfro | 0.35 Ha | 4 |
| GT/003/LDP2/01 | Tir i'r gorllewin o safle Sipsiwn a Theithwyr Comin Kingsmoor, Begeli | 0.58 Ha | 11 |
| GT/040/LDP2/01 | Tir i'r dwyrain o safle Sipsiwn a Theithwyr Llwynhelyg | 1.21 Ha | 20 |
| GT/095/LDP2/02 | Cyfagos i Faes Hamdden Cil-Maen | 2.43 | 20 (gyda phosibilrwydd ar gyfer lleiniau pellach tu hwnt i'r cyfnod Cynllun) |

Cynnydd net dangosol yn niferoedd y lleiniau ar y tri safle: 55

5.130 Mae tir wedi'i glustnodi i ddarparu budd net o 55 o leiniau trwy'r estyniad i'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr presennol sydd wedi'i hen sefydlu a reolir gan yr Awdurdod Lleol yn Chwarel y Castell, Cil-maen, Penfro, Comin Kingsmoor, Begeli a Llwynhelyg. Yn ychwanegol i rhain, mae safle newydd wedi'i ganfod ar gyfer math o ddarpariaeth, ym Maes Hamdden Cil-Maen. Mae manylion am gyflenwi'r safleoedd, gan gynnwys costau dangosol, ffynonellau cyllid posibl ac amserlenni disgwyledig ar gyfer cyflawni wedi'u cynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Safleoedd Datblygu a Seilwaith.

5.131 Yn Chwarel y Castell a Llwynhelyg, efallai y bydd y safleoedd yn cael eu hymestyn ar y cyd â gwelliannau i'r safleoedd presennol. Yn Kingsmoor, mae'n debygol y bydd angen llain gyda chaniatâd er mwyn gallu ymestyn cynllun y ffordd fewnol. Bydd y safle cyfagos i Faes Hamdden Cil-Maen yn darparu lleiniau newydd a hefyd gyda'r posibilrwydd ar gyfer defnydd rhannol fel safle tramwy pe bai angen o'r fath yn cael ei nodi.

**GN 25 Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn**

Bydd cynigion ar gyfer safleoedd parhaol neu dros dro newydd ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr, a Siewmyn neu estyniadau i safleoedd awdurdodedig presennol y tu allan i Ffiniau Anheddiad, ond yn cael eu caniatáu lle

1. Dangoswyd nad oes unrhyw safle addas ar gael ar gyfer safleoedd neu leiniau newydd yng nghefn gwlad o fewn Ffiniau Anheddiad neu ar safleoedd awdurdodedig a safleoedd a ganiateir presennol; ac
2. Mae'r safle wedi'i leoli'n gynaliadwy ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cymunedol, cymdeithasol, addysg a gwasanaethau eraill presennol; ac
3. Mae'r safle wedi'i leoli'n sensitif o fewn y dirwedd, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol; ac
4. Mae'r safle'n briodol o ran maint i'r gymuned leol ac ni fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar amwynder lleol neu ddefnyddiau cyfagos.

5.132 Rhaid i gynigion ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn newydd fod yn unol â'r cyngor yng Nghylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn, a fydd yn ystyriaeth berthnasol, fel y bo'n briodol, wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio. Mae ffiniau anheddiad yn darparu gwell lleoliadau dilyniannol i ddatblygu safleoedd a lleiniau Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn. Y tu allan i Ffiniau Anheddiad, rhaid i ymgeiswyr ddangos nad oes gwell safleoedd dilyniannol o fewn Ffiniau Anheddiad neu'n agosach atynt. Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd awdurdodedig presennol fod â mynediad da at wasanaethau, yn enwedig ysgolion cynradd a meddygfeydd teulu, trwy fodd heblaw am y car preifat. Bydd llwybrau teithio llesol a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn allweddol i benderfynu p'un a oes gan safle fynediad da at wasanaethau a'i fod mewn lleoliad cynaliadwy, ymarferol ar gyfer cysylltu â gwasanaethau, yn cynnwys dŵr, gwaredu a chasglu dŵr gwastraff.

5.133 Bydd safleoedd yn cael eu hystyried hefyd yn eu cyd-destun ac mewn perthynas â'r seilwaith lleol, maint a dwyster y boblogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â chymunedau sefydlog lleol. Mae'n rhaid i ddyluniad safle gyfuno gosodiad sy'n diwallu anghenion trigolion y safle, a dylai safleoedd a ddatblygir gan gorff cyhoeddus, megis Awdurdod Lleol, gael eu dylunio yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru[30]. Rhaid i bob cynnig liniaru'n foddhaol effaith y cynnig ar y dirwedd.

5.134 Mae ystyriaethau perthnasol ychwanegol yn cynnwys p'un a fyddai'r cynnig yn cyfrannu at unrhyw angen lleol am lety Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Sir Benfro 2019 (GTAA 2019), neu unrhyw

[30] 'Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' Llywodraeth Cymru Mai 2015 https://www.llyw.cymru/dylunio-safleoedd-sipsiwn-theithwyr

ddiweddariadau dilynol. Mae'r GTAA yn nodi angen ychwanegol am 9 o leiniau rhwng 2019 a 2024 sydd wedi'u bodloni'n rhifiadol. Dros gyfnod y Cynllun hyd at 2033, disgwylir y bydd yr angen hwn yn codi i 39 o leiniau, fodd bynnag, oherwydd caniatâd cynllunio a roddwyd ers 2019 a dyraniadau'r safleoedd a argymhellwyd yn y pedwar safle a restrwyd ym mholisi GN24, mae'r angen mwy hirdymor hwn wedi'i ddiwallu'n rhifiadol. Ond y mae mwy a mwy o ansicrwydd dros gyfnodau amser mor hir, a chan fod gofyniad i ddechrau adolygiad o'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn 2024, bydd hyn yn sicrhau y bydd asesiad mwy cywir o lawer o'r angen ar gael unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau (rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn gynnar yn 2027).

5.135 Nod y polisi hwn yw galluogi darparu llety diwylliannol briodol o garafannau sefydlog a charafannau teithiol. Bydd cynigion ar gyfer llety brics a morter ar safle neu lain Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu gwrthod gan y byddai hyn yn lleihau argaeledd llety diwylliannol briodol i'r gymuned yn sylweddol.

### GN 26 Seilwaith Telathrebu a Thechnoleg Ddigidol

Bydd cynigion ar gyfer seilwaith telathrebu a thechnoleg ddigidol yn cael eu caniatau lle:

1. Bydd y cynigion yn cyfrannu at baratoi cynigion datblygu ac adfywio i'r dyfodol, yn ffurfio rhan o ddatblygiad arfaethedig rhwydwaith ehangach a / neu yn gwella'r cwmpas mewn ardaloedd lle mae darpariaeth yn gyfyngedig neu'n absennol;
2. Lle bo'n ymarferol, mae'r cynigion yn manteisio ar gyfleoedd ar gyfer rhannu mastiau a safleoedd; a
3. Darperir tystiolaeth i ddangos bod y strwythur a'r lleoliad a gynigir wedi'u dewis i leihau effeithiau amgylcheddol ac ymyrraeth ar y tir, o fewn cyfyngiadau gofynion y rhwydwaith a dichonoldeb technegol.

5.136 Mae cyfathrebu electronig yn elfen hanfodol o fywyd modern i bobl ac i fusnesau. Maent yn sicrhau bod pobl wedi'u cysylltu â'i gilydd ac â'r busnesau sy'n darparu gwasanaethau iddynt. Mae disgwyliad y bydd telathrebu yn ddibynadwy, yn gyflym, yn gynhwysol yn ddaearyddol ac yn seiliedig ar rwydweithiau diogel. Eglura Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 bod amcan gan Lywodraeth Cymru i gynnig band eang cyflym a dibynadwy i bob eiddo yng Nghymru ac i gefnogi darparu seilwaith symudol ledled Cymru.

5.137 Yng nghyd-destun Sir Benfro, mae darpariaeth band eang yn gwella a bydd yn parhau i ddatblygu yn sgil cyflwyno band eang ffeibr ledled y Sir. Mae'r potensial gan gwmpas y rhwydwaith ffonau symudol yn y Sir i wella, gan fod lleoliadau lle ceir signal gwael o hyd, ac mewn rhai achosion, nid oes signal o gwbl.

5.138 Bydd prosiect Arfordir Rhyngrwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn helpu i wella'r ddarpariaeth seilwaith cyfathrebu electronig ledled De Orllewin Cymru, gan gynnwys Sir Benfro. Noda'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft y bydd Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol yn cael eu nodi ledled Cymru, ond nid yw lleoliad y rhain wedi'i gyhoeddi eto.

5.139 Mae llawer o agweddau ar y seilwaith cyfathrebu electronig yn elwa o hawliau datblygu a ganiateir, sy'n golygu nad oes rhaid gwneud ceisiadau cynllunio ar wahân lle mae rhai mathau o uwchraddiadau rhwydwaith yn cael eu cynnig. Er hyn, bydd rhai agweddau ar ddiweddaru seilwaith yn mynnu caniatâd cynllunio, ac mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud darpariaeth polisi briodol yn eu CDLlau.

5.140 Mae Cyngor Sir Penfro, felly, wedi paratoi'r polisi hwn sy'n seiliedig ar feini prawf, sydd o natur alluogi, yn amodol ar rai amodiadau, gan gynnwys y rheiny'n ymwneud â thirluniau a threfluniau, gan gynnwys effeithiau posibl ar leoliadau Parciau Cenedlaethol. Ochr yn ochr â'r polisi hwn, bydd Polisi GN 1 Datblygu Cyffredinol yn hollbwysig wrth asesu sut fydd yr holl gynigion yn effeithio ar

amwynder a thirwedd. Bydd Polisi GN 28 Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol yn ystyriaeth bwysig hefyd.

### GN 27: Band Eang a Thelathrebu ar Ddatblygiadau Newydd

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r diwydiant telathrebu a'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau Ofcom i sicrhau'r mynediad mwyaf posibl at fand eang hynod o gyflym gyda chyflymder lawrlwytho sydd o leiaf yn 1 gigabit yr eiliad, lleihau nifer y mannau gwan diwifr a gwella argaeledd ffonau symudol i bob preswylydd a busnes, gan eu cynorthwyo (lle bo'n briodol) i gyflawni eu cynlluniau buddsoddi i ymdrin ag unrhyw ddiffygion yn y seilwaith.

Mae'n rhaid i ddatblygiadau preswyl a chyflogaeth mawr newydd gael eu gwasanaethu gan gysylltiad band eang cyflym a dibynadwy i'r eiddo gyda chyflymder lawrlwytho sydd o leiaf yn 1 gigabit yr eiliad. Mae datblygiadau preswyl mawr yn gynlluniau ar gyfer 10 neu fwy o anheddau a datblygiadau cyflogaeth mawr yw'r rhai ar safleoedd o 0.5 hectar neu fwy. Dylai datblygiadau preswyl a chyflogaeth llai ddarparu mynediad i'r cysylltiad cyflym iawn mwyaf hyfyw sydd ar gael ac, os oes angen, darparu pibelli ychwanegol i hwyluso gosod Ffeibr i'r Adeilad (FTTP) yn y dyfodol neu ddarpariaeth debyg arall lle nad yw FTTP yn bosibl (er enghraifft, lle mae systemau band eang lloeren neu ddiwifr yn cael eu gosod oherwydd na ellir defnyddio ceblau copr neu ffeibr am resymau technegol a / neu hyfywedd).

Ar gyfer datblygiadau preswyl a chyflogaeth ar raddfa lai, gwneir eithriadau lle mae ymgeiswyr wedi dangos, drwy ymgynghori â darparwyr seilwaith band eang, na fyddai hyn yn bosibl, yn ymarferol nac yn economaidd hyfyw.

5.141 Mae'r polisi'n ceisio adlewyrchu gofynion Cymru fodern am rwydweithiau cyfathrebu cyflym a chyda chapasiti uchel dibynadwy. Yn hyn o beth, mae'n cefnogi amcan Llywodraeth Cymru i gynnig band eang cyflym a dibynadwy i bob eiddo yng Nghymru ac i gefnogi'r gwaith o leoli seilwaith symudol ar draws y wlad. Mae'n ceisio adlewyrchu cyd-destun seilwaith band eang fel gwasanaeth hanfodol, a all helpu i gefnogi a datblygu'r economi leol yn ogystal â chymunedau bywiog a chynhwysol.

5.142 Mae BT Openreach a darparwyr eraill yn cynnig cysylltiad band eang cyflym iawn Ffeibr i'r Adeilad (FTTP) seiliedig ar gebl ar gyfer pob datblygiad newydd. Mae BT Openreach eisoes wedi gosod cysylltiadau ffeibr o'i gyfnewidfeydd i'r rhan fwyaf o gabinetau ar ochr y ffordd. Fodd bynnag, er bod llawer o ddefnyddwyr presennol yn elwa o hyn, mae'n bosibl y byddant yn dal i ddibynnu ar gysylltiadau gwifrau copr cynharach o'r cabinet i'r eiddo. Gelwir hyn yn fand eang FTTC (Ffeibr-i'r-Cabinet). Fodd bynnag, yn rhai o drefi Sir Benfro, mae FTTP yn cael ei ddarparu gan y cwmni telathrebu Ogi. Ar gyfer cynigion tai a chyflogaeth newydd, nid yw FTTC yn cael ei ffafrio, a'r opsiwn a ffefrir yw FTTP llawn. Cydnabyddir hefyd bod opsiynau eraill ar gael i gyflawni band eang cyflym, a allai gynnwys, er enghraifft, y rhwydweithiau technoleg symudol 4G a 5G sy'n ymddangos, cysylltiadau diwifr sefydlog trwy antena, lloerennau neu

brosiectau band eang cymunedol. Lle gosodir technoleg symudol 5G o fewn cabinet ar ochr y ffordd, gellir ei defnyddio i ddarparu cyswllt o'r cabinet i lwybrydd o fewn eiddo, nad yw'n dibynnu ar naill ai wifrau copr na chysylltiadau ffeibr.

- Ar safleoedd datblygu preswyl a chyflogaeth mwy (fel y'u diffinnir uchod), gellir darparu'r cysylltiad yn rhad ac am ddim, neu fel rhan o bartneriaeth wedi'i hariannu ar y cyd gan gynnwys partneriaethau a ariennir gan y gymuned. Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob annedd newydd ar safleoedd preswyl mawr gael FTTP wedi'i osod o'r cychwyn cyntaf. Bydd hefyd yn disgwyl FTTP ar bob safle cyflogaeth newydd o 0.5 hectar a throsodd oni bai bod tystiolaeth gymhellol yn dangos na ellir cyflawni hyn.

- Ar safleoedd preswyl a chyflogaeth llai, mae'r sefyllfa'n fwy amrywiol a dim ond pan fydd datblygwr yn talu am y seilwaith rhwng y cabinet ar ochr y ffordd agosaf sydd â darpariaeth ffeibr a'r safle datblygu y gellir cyflawni FTTP.

5.143 Wrth gefnogi cyflenwi ffeibr llawn, mae BT Openreach wedi gosod targedau ar gyfer y DU gyfan, ac yn rhoi arweiniad a chymorth i ddatblygwyr ar adeiladu rhwydweithiau FTTP llawn i safleoedd preswyl/masnachol preswyl neu gymysg newydd. BT Openreach yw'r prif ddarparwr ar gyfer y rhwydwaith ffeibr, ond nid nhw yw'r unig ddarparwyr. Mae ffordd arall hefyd o ddod â band eang ffeibr i Sir Benfro, sef drwy ei roi mewn pibelli sy'n dilyn rhwydwaith y Cefnffyrdd. Gallai hynny gynnig ffordd o ymdrin â rhai problemau cysylltedd a brofir ar hyn o bryd, fel rhan o ystod ehangach o opsiynau.

5.144 Fel y nodwyd uchod, mae'r polisi hefyd yn cydnabod, mewn cyfran fach o achosion, na fydd band eang cebl yn gallu cael ei ddarparu i ddatblygiadau newydd. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y bydd modd defnyddio systemau lloeren neu ddiwifr i ddarparu band eang ac mae hwnnw'n ddewis arall a dderbynnir, ar yr amod bod y darparwyr yn cael eu rheoleiddio gan god drwy Ofcom. Lle nad oes unrhyw opsiynau ymarferol a hyfyw o ran technoleg, gwneir eithriad i'r dull polisi pan fydd datblygwr yn rhoi tystiolaeth i'r Cyngor nad yw cysylltiad band eang cyflym yn bosibl. Bydd hynny fel arfer ar ffurf gohebiaeth ag un o'r darparwyr band eang. Ymgynghorir â Thîm Band Eang y Cyngor ynghylch y ceisiadau cynllunio tai a chyflogaeth hynny lle mae'r ymgeisydd naill ai'n anfodlon darparu'r cysylltedd band eang disgwyliedig a / neu'n dadlau bod ystyriaethau hyfywedd yn atal hyn rhag cael ei gyflawni.

5.145 Mewn ardaloedd trefol, mae band eang cyflym a dibynadwy sy'n seiliedig ar gebl neu drwy loeren/diwifr ar gael eisoes yn y rhan fwyaf o achosion. Yn achos band eang sy'n seiliedig ar gebl, mae cysylltiadau mewn ardaloedd trefol ar gael i'r cabinet (Ffeibr i'r Cabinet neu FTTC) ond prin oedd y rhai oedd wedi manteisio ar gysylltiad ymlaen i eiddo erbyn 2021. Fodd bynnag, mae cysylltiad ffeibr wedi'i osod mewn ysgolion ledled Sir Benfro. Mae darpariaeth band eang cyflym a dibynadwy mewn ardaloedd gwledig yn dameidiog, ond lle gellir ei gyflawni, bydd yn cynorthwyo i gefnogi cyflawni strategaeth y Cynllun trwy ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithio gartref ac yn fwy cyffredinol i hybu'r economi wledig ac arallgyfeirio economaidd.

5.146 Fel y nodwyd uchod, ym mhrif drefi Sir Benfro, mae cwmni Ogi yn sicrhau bod Ffeibr i'r Adeilad ar gael i eiddo preswyl presennol. Ar hyn o bryd (2023) dyma'r unig gwmni sy'n gosod FTTP i eiddo domestig presennol yn y Sir ac mae'n canolbwyntio ei fuddsoddiad dechreuol ar y prif ganolfannau trefol.

## POLISÏAU CYFFREDINOL CYMUNEDAU DYFEISGAR

### GN 28 Amddiffyn a Gwella’r Amgylchedd Hanesyddol

Bydd datblygiad yn cael ei gefnogi dim ond lle mae’n cadw, yn gwarchod, yn diogelu neu’n gwella’r asedau diwylliannol a hanesyddol canlynol a’u lleoliad:

a) Adeiladau Rhestredig;
b) Ardaloedd Cadwraeth;
c) Parciau, Gerddi a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig; a
d) Henebion Cofrestredig a Gweddillion Archeolegol.

5.147 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn gwella ansawdd bywyd, gan feithrin hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniant cymunedol ac mae'n ased mawr i economi ymwelwyr Sir Benfro. Mae'r polisi hwn yn cydnabod graddfa ac arwyddocâd yr asedau hyn yn Sir Benfro gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn, eu cadw a'u gwella.

5.148 Mae gan Sir Benfro amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol, sy'n cynnwys nodweddion pensaernïol, hanesyddol ac archeolegol sy'n hanfodol i'w hansawdd a'i hynodrwydd. Gwarchodir ardaloedd a safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol gan bolisi cenedlaethol, gan gynnwys Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Henebion Rhestredig, Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol a Pharciau a Gerddi Hanesyddol. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi cyflwyno mesurau newydd ar gyfer rheoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yn gadarnhaol. Ei nod yw:

a) Rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i Adeiladau Rhestredig a Henebion Rhestredig;

b) Gwella rheolaeth gynaliadwy ar yr amgylchedd hanesyddol; a

c) Chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

5.149 Cefnogir y Ddeddf gan Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, a chyfres o ganllawiau a chyngor sy'n ategu ei amcanion. Bydd yr holl ddogfennau hyn yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar asedau yn Sir Benfro. Ni chaniateir datblygiad a allai effeithio'n andwyol ar gymeriad neu gyfanrwydd ardaloedd o'r fath.

5.150 Mae 1,649 o Adeiladau Rhestredig yn ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro. Wrth ystyried gwaith ar Adeiladau Rhestredig, rhaid i'r pwyslais fod ar eu hatgyweirio a'u gwella'n sensitif gan ddefnyddio deunyddiau a thechnegau traddodiadol. Bydd unrhyw waith y tu mewn neu’r tu allan i Adeiladau Rhestredig, neu o fewn eu hardaloedd cwrtil yn cael ei gefnogi dim ond lle dangosir na fydd unrhyw niwed arwyddocaol i’w harwyddocâd hanesyddol neu bensaernïol arbennig a’u lleoliad. Ni chaniateir dymchwel Adeiladau Rhestredig fel arfer.

5.151 Mae 24 o Ardaloedd Cadwraeth yn ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro. Dylai cynigion o fewn Ardaloedd Cadwraeth geisio cadw neu wella eu cymeriad a'u hymddangosiad arbennig. Mewn polisi cynllunio cenedlaethol mae rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad, gan gynnwys hysbysebion, a fyddai'n niweidio cymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth neu ei hamgylchion i lefel annerbyniol. Yn ogystal â pholisi cenedlaethol, bydd Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a fabwysiadwyd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei Ardaloedd Cadwraeth a mabwysiadu Arfarniadau Ardaloedd Cymeriad a Chynlluniau Rheoli newydd.

5.152 Mae ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro yn cynnwys 20 o Barciau a Gerddi Hanesyddol a 2 Dirwedd Hanesyddol. Rhoddir ystyriaeth i effaith cynigion datblygu ar Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig a Thirweddau Hanesyddol, gan gynnwys eu lleoliad, wrth ystyried ceisiadau cynllunio o fewn ac yn agos at yr asedau hyn. Ni fydd cynigion a fyddai'n cael effaith andwyol ar rinweddau arbennig yr asedau hyn yn cael eu cefnogi.

5.153 Mae 248 o Henebion Cofrestredig o fewn ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) ar geisiadau cynllunio o fewn lleoliad Heneb Gofrestredig ac sy'n bodloni'r meini prawf gosodedig a nodir yn yr atodiad i ddogfen y canllawiau arfer gorau 'Lleoliad Asedau Treftadaeth' (2017) . Dylid gwneud ceisiadau am waith ar Heneb Gofrestredig (a elwir yn geisiadau am Ganiatâd Heneb Gofrestredig) yn uniongyrchol i Cadw.

5.154 Ni fydd yr holl weddillion archeolegol sy'n haeddu cael eu cadw yn Gofrestredig ac ni fydd mwyafrif helaeth y safleoedd archeolegol yn cael eu diogelu'n statudol. Wrth asesu datblygiad a allai effeithio ar olion archaeolegol, bydd y Cyngor yn ystyried y canlynol:

I. Gwybodaeth am gymeriad, maint a phwysigrwydd yr olion, gan gynnwys yr hyn sydd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) gyda chymorth Heneb – Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru – Rhanbarth Dyfed;
II. Y graddau y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith arnynt; a
III. Dulliau o liniaru effaith y datblygiad arfaethedig, trwy ailgynllunio os oes angen, i gyflawni cadwraeth ffisegol yn y fan a'r lle.

5.155 Gallai nodweddion arbennig yr amgylchedd hanesyddol ddeillio o nifer o ffactorau eraill yn ychwanegol at y rhai a restrir mewn dynodiadau ffurfiol, megis ffurf, graddfa neu'r ffordd o grwpio adeiladau; golygfeydd a chyfansoddiad gweledol y treflun/tirwedd; manylion pensaernïol; deunyddiau adeiladu; coed a nodweddion tirwedd eraill. Mae llawer o'r nodweddion hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad a golwg cymunedau lleol. Mae trefi a phentrefi Sir Benfro yn cynnwys llawer o adeiladau sydd o bwysigrwydd lleol, ac sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad ac ansawdd yr ardal leol. Bydd y Cyngor yn ceisio creu a mabwysiadu cofrestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig i gefnogi cynnwys polisïau yn y Cynllun Datblygu

Lleol yn ystod y cam adolygu. Bydd hefyd yn cyflwyno ac os bydd angen yn diweddaru CCA yr Amgylchedd Hanesyddol (Archeoleg).

**GN 29 Cyfleusterau Cymunedol**

A Caniateir datblygu cyfleusterau cymunedol newydd pe lleolir cynigion o fewn y gymuned neu lle mae ganddynt gysylltiad da â'r gymuned y bwriedir iddynt eu gwasanaethau ac maent yn hygyrch trwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.

B Caniateir estyniad(au) neu welliannau i gyfleusterau cymunedol presennol ar yr amod bod y cyfleuster wedi'i leoli'n briodol i ddiwallu anghenion y gymuned y mae'n i'w gwasanaethu, neu lle cynigir gwelliannau i hygyrchedd.

C Caniateir newid defnydd neu golli cyfleuster cymunedol yn unig lle:

1. Gellir dangos nad yw parhau i ddefnyddio'r cyfleuster bellach yn ddichonadwy a bod atebion amgen i gefnogi'r defnydd hirdymor o'r cyfleuster ar gyfer y gymuned wedi'u harchwilio'n ddigonol; ac
2. Mae'r eiddo yn wag ac mae wedi'i farchnata'n weithredol at ei ddefnydd presennol am chwe mis o leiaf; a
3. Gellir dangos bod y cyfleuster yn ddiangen i ofynion y gymuned y parheir i'w gwasanaethu gan ddarpariaeth amgen ddigonol sydd mewn lleoliad da; neu
4. Sicrheir bod cyfleuster amgen addas ar gael.

5.156 Mae cadw a gwella cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at lesiant cymunedau trwy Gymru iachach a Chymru o gymunedau cydlynus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) ac fe'i cefnogir lle maent wedi'u lleoli'n gynaliadwy i wasanaethu'r gymuned leol.

5.157 Ni chaniateir colli cyfleusterau cymunedol oni bai bod darpariaeth amgen ddigonol sydd wedi'i lleoli'n dda i wasanaethu'r gymuned leol ac sy'n hygyrch trwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Mewn rhai achosion, ni fydd cyfleusterau cymunedol yn hyfyw mwyach, ac yn y cyfryw achosion dylid dangos bod opsiynau amgen i alluogi'r cyfleuster cymunedol i barhau i weithredu wedi'u harchwilio. Gallai hyn gynnwys cynlluniau perchnogaeth gymunedol.

5.158 Gwasanaethau a chyfleusterau sy'n ymateb i ofynion lleol ac sy'n gwasanaethu'r gymuned leol yn bennaf yw cyfleusterau cymunedol. Maent yn cefnogi llesiant cymdeithasol, iechyd neu economaidd yr ardal ac yn darparu cyfleoedd i bobl ryngweithio'n gymdeithasol.

5.159 At ddibenion y polisi hwn, mae cyfleusterau cymunedol yn cynnwys neuaddau cymuned, canolfannau a mannau cyfarfod, theatrau yn y gymuned, cyfleusterau dysgu cymunedol acaddysgol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a chanolfannau ieuenctid, cyfleusterau crefyddol a mannau addoli, siopau lleol a siopau pentref, swyddfeydd post, meysydd chwarae a chyfleusterau chwaraeon, tafarndai, rhandiroedd, cyfleusterau gofal iechyd ac iechyd, gorsafoedd petrol gwledig a golchdai.

## GN 30 Dyraniadau Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer cyfleusterau cymunedol:

| Cyfeirnod Safle | Enw'r Safle | Defnydd Arfaethedig | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|
| CF/040/01 | Ysgol Gynradd Newydd, Slade Lane, Hwlffordd | Ysgol Gynradd | Yn amodol ar ganlyniad Prif Gynllun y safle. |
| CF/086/LDP2/01 | Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd newydd, Aberdaugleddau | Ysgolion cynradd ac uwchradd newydd on safle'r Ysgol Uwchradd bresennol | 15.01 |

5.160 Mae'r safleoedd uchod wedi eu nodi er mwyn ymdrin â diffyg o ran darpariaeth mewn cyfleusterau addysgol o fewn ardal y Cynllun.

**GN 31 Datblygu Canol y Trefi a Chanolfannau Manwerthu Leol**

A. O fewn Canol Trefi diffiniedig, caniateir datblygu ar gyfer y defnyddiau tir a ganlyn:

Mewn Prif Ffryntiad: caniateir defnydd A1, A2, A3, D1 neu D2 heb unrhyw ddefnydd preswyl ar y llawr gwaelod, ond derbynnir defnydd preswyl ar loriau uwch; ac

Mewn Ffryntiad Eilaidd: Defnydd A1, A2, A3, D1, D2 a B1. Bydd defnydd preswyl ar lawr gwaelod yn cael ei ystyried fesul achos a bydd yn cael ei dderbyn ar y lloriau uwch.

Mewn mannau eraill o fewn Canol Trefi, caniateir mwy o gymysgedd o ddefnyddiau.

Yn ogystal:

- Ym mhob lleoliad yng Nghanol Trefi, bydd cynigion datblygu ar gyfer defnyddiau manwerthu, masnachol a/neu gymunedol sy'n gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi ac sy'n gydnaws â strategaethau adfywio yn cael eu cefnogi'n gyffredinol;
- Ym mhob lleoliad yng Nghanol Trefi, disgwylir i gynigion datblygu gadw unrhyw flaenau siopau hanesyddol sydd wedi goroesi;
- Mewn ardaloedd gyda Phrif Ffryntiadau a Ffryntiadau Eilaidd, ni fydd cynigion datblygu'n cael eu cefnogi lle byddant yn creu neu'n cyfrannu at grynodiad annerbyniol o siopau cludfwyd cyflym.

B. Mewn Canolfannau Manwerthu Lleol, cefnogir cynigion ar gyfer defnyddiau masnachol neu gymunedol, sy'n cysylltu'n dda gyda chyfleusterau presennol, sy'n hygyrch trwy amrywiaeth o ddulliau teithio, gan gynnwys cerdded, beicio a/neu drafnidiaeth gyhoeddus ac sydd ar raddfa sy'n gydnaws â rôl a swyddogaeth y Ganolfan Fanwerthu Leol.

5.161 Anogir defnyddiau heblaw A1, A2 ac A3 y tu allan i Brif Ffryntiadau Manwerthu a datblygiadau preswyl ar loriau uchaf adeiladau yng Nghanol Trefi a Chanolfannau Manwerthu Lleol cyn belled ag y bônt yn gydnaws â pholisïau eraill yn y cynllun. Caniateir newid defnydd i rai heblaw A1, A2 neu A3 ar y llawr gwaelod y tu allan i Brif Ffryntiadau Manwerthu ond o fewn Canol Tref:

1) Os ydynt at ddibenion preswyl: a) lle mae'r eiddo / arwynebedd llawr wedi bod yn wag am o leiaf flwyddyn ac wedi cael ei farchnata'n weithredol dros yr amser

hwnnw; a b) lle nad yw'r eiddo / arwynebedd llawr yn rhan o amgylchedd manwerthu pwrpasol neu ffryntiad parhaus o dair neu fwy o unedau masnachol presennol.

2) Os, at ddibenion eraill: a) nad yw’r cynnig yn golygu colli arwynebedd llawr A1 presennol a b) lle bo hynny’n bosibl, bod cynigion ar gyfer newid defnydd arwynebedd llawr presennol yn cael eu dylunio fel na fyddant yn dylanwadu’n annheg ar gynllun i drawsnewid yn ôl i fanwerthu neu ddefnydd masnachol yn y dyfodol.

5.162 Fel y mynegir uchod, nod y Cyngor yw cynyddu bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau manwerthu a masnachol yn Sir Benfro. Mae’r polisi felly yn annog datblygiadau preswyl ar y lloriau cyntaf a’r lloriau uchaf mewn safleoedd Manwerthu gyda Phrif Ffryntiad, a Ffryntiad Eilaidd ac mewn mannau eraill yng Nghanol Trefi, fel rhan o ddatblygiadau defnydd cymysg. Gall ymgorffori defnyddiau preswyl hyrwyddo mwy o ymdeimlad o gymuned gyda mwy o bobl yn byw mewn canolfannau masnachol, lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat, gwella balchder dinesig, hyrwyddo canolfannau mwy diogel, cynyddu gwariant gan gymudwyr lleol a denu mwy o fusnesau i ganolfannau trwy’r gweithlu medrus sy'n byw'n lleol.

5.163 Mae’r polisi hefyd yn cydnabod bod y rhagolygon o ddenu datblygiadau masnachol newydd (defnyddiau A1, A2 ac A3) yn gyfyngedig mewn rhai canolfannau hŷn. O dan yr amgylchiadau hyn, mae angen mabwysiadu agwedd fwy hyblyg a phragmatig wrth hyrwyddo’r budd hefyd o ddod ag unedau gwag a lloriau uwch yn ôl i ddefnydd gweithredol. Yn y rhan fwyaf o'r Canolfannau Lleol, mae'r canolfannau masnachol yn frith o ddatblygiadau preswyl, ac yn wir, roedd llawer o'r siopau unwaith yn dai annedd preifat sydd wedi eu haddasu. Byddai’r Cyngor yn bryderus pe byddai siopau, o dan yr amgylchiadau hyn, yn parhau’n wag am gyfnod sylweddol o amser, gan arwain at ddirywiad yn eu cyflwr ac amharu ar yr amgylchedd lleol. Ystyrir felly ei bod yn briodol datblygu meini prawf lle gellid trosi unedau manwerthu y tu allan i ardaloedd siopa’r Prif Ffryntiad i ddefnyddiau mwy hyfyw megis defnyddiau preswyl. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai angen dangos bod yr eiddo wedi cael ei farchnata'n weithredol am o leiaf 2 flynedd cyn cyflwyno cais. Bydd angen i’r Cyngor fod yn fodlon bod y marchnata wedi’i wneud ar delerau rhesymol ac, fel isafswm, byddai angen cyflwyno manylion gwerthu a gwybodaeth gan asiantau gwerthu / gosod fel rhan o gais.

5.164 Gall cydbwysedd a dosbarthiad defnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau A1 gael effaith sylweddol ar rôl fanwerthu Ffryntiadau Manwerthu, a chefnogir defnyddiau cyflenwol, yn cynnwys caffis a bwytai, lle nad ydynt gyda’i gilydd yn tanseilio cymeriad a rôl fanwerthu’r Ffryntiad Manwerthu Sylfaenol. Bydd ystyriaethau yn cynnwys p’un a fyddai’r defnydd yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan a llesiant trigolion ac ymwelwyr, yn darparu blaen siop

weithgar yn ystod oriau siopa arferol, yn lleihau’r gyfradd siopau gwag hirdymor ac yn cyfrannu at ymdeimlad o le.

5.165 Mae crynodiadau unedau sy’n gweithredu fel lleoedd bwyd brys parod yn unig yn annhebygol o gefnogi llesiant trigolion neu ymwelwyr. Mae llesiant trigolion ac ymwelwyr yn cynnwys eu hiechyd meddwl a chorfforol a bwriedir iddo gefnogi’r nod llesiant ‘Cymru iachach’ drwy sicrhau nad yw defnyddiau o’r fath yn gor-grynhoi o fewn Prif Ffryntiadau Manwerthu.

5.166 Mae Prif Ffryntiadau Manwerthu yn sefydlu ardaloedd masnachol craidd canol trefi, ac wrth sicrhau bod cyfleoedd yn parhau i siopau sefydlu mewn ardaloedd craidd, rhaid cydnabod bod newidiadau i arferion siopa a thechnoleg siopa yn golygu bod rhaid i ganol trefi chwilio am rolau newydd ac annog ystod ehangach o ddefnyddiau er mwyn cynnal mannau hanfodol a hyfyw ar gyfer cymunedau, ymwelwyr a gweithwyr. Gall hybiau cydweithio wneud cyfraniad pwysig at fywiogrwydd canolfannau a byddant yn cael eu cefnogi. Ceir canolfannau tref a chanolfannau lleol â chyfraddau siopau gwag uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer eiddo masnachol. Mewn rhai achosion, bydd yr awdurdod yn ceisio rheoli dirywiad y cyfryw ganolfannau drwy ganiatáu i eiddo masnachol ar gyrion canol trefi ac nad yw o fewn Prif Ffryntiad Manwerthu gael eu rhyddhau at ddefnydd preswyl. Byddai’r ymagwedd hon yn helpu rheoli dirywiad rhai canolfannau ac yn cyflwyno defnydd preswyl mewn lleoliadau cynaliadwy. Mae trawsnewid unedau manwerthu yn aml yn arwain at ddarnio ffryntiadau masnachol ond ystyrir bod hyn yn well na lleoedd a thai gwag hirdymor. Bydd defnyddio Prif Ffryntiadau Manwerthu yn helpu i frwydro yn erbyn hyn. Serch hynny, mae'n rhaid cadw'r rhain mewn cydbwysedd fel nad yw union ddiben canolfannau manwerthu a masnachol yn cael ei wanhau'n ormodol. Er bod gweithgareddau sy’n disgyn o fewn Dosbarth B1 trwy ddiffiniad yn dderbyniol mewn ardaloedd preswyl o ran eu safonau amgylcheddol, ni fydd y Cyngor yn caniatáu defnyddiau o’r fath a fyddai’n arwain at golli defnyddiau manwerthu A1 presennol. Gellir darparu’n llwyddiannus ar gyfer defnyddiau o’r fath uwchlaw lefel y llawr gwaelod mewn prif ffryntiadau siopa ac mewn eiddo nad yw’n eiddo manwerthu mewn mannau eraill mewn canolfannau masnachol sefydledig.

5.167 Nododd Astudiaeth Manwerthu Ranbarthol De-orllewin Cymru Chwefror 2017 nad oes angen dyrannu arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol ar gyfer cyfleusterau yn Sir Benfro. Felly ni wneir unrhyw ddyraniadau ar gyfer siopau bwyd.

5.168 Mae’r astudiaeth yn nodi bod lle ar gyfer arwynebedd llawr ar gyfer nwyddau cymharu (fel ceir) ac mae’r tabl a ganlyn yn nodi’r angen a ragwelir ar gyfer pob prif dref hyd at ddiwedd cyfnod y Cynllun, gan gymryd ymrwymiadau presennol i ystyriaeth. Mae llai o sicrwydd ynglŷn â lefel yr angen dros gyfnod mor hir o amser, a chan fod yr angen hyd at 2031 yn llai na 1,000 metr sgwâr (0.1Ha) net, nid yw hyn wedi'i ddyrannu yn y cynllun. Rhagwelir y cyflenwir yr angen trwy gyfleoedd ailddatblygu o fewn canolfannau, ac yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol.

Ffigur 6 Cymhariaeth o'r Angen am Ofod Llawr ar gyfer Nwyddau

| | Capasiti arwynebedd llawr net – nwyddau cymharu m.sg. (Ha) | |
|---|---|---|
| Canolfan Manwerthu | Erbyn y flwyddyn 2031 | Erbyn y flwyddyn 2036 |
| Hwlffordd | 735 metr sgwâr | 2,916 metr sgwâr |
| Aberdaugleddau | - | - |
| Penfro | 137 | 217 |
| Doc Penfro | 330 | 713 |
| Abergwaun | 172 | 273 |
| Arberth | - | - |

Mae'r angen a nodwyd mewn metrau sgwâr net ac mae'n rhagdybio cymhareb net / gros o 70%.

5.169 Mae rhai o ardaloedd Canol y Dref hefyd mewn parthau perygl llifogydd ac yn y lleoliadau hyn bydd angen ystyried darpariaethau polisi GN 1 (Polisi Datblygu Cyffredinol) (maen prawf 8) wrth asesu cynigion datblygu.

## GN 32 Datblygiad Manwerthu a Masnachol y Tu Allan i Ganol Tref

Er mwyn sicrhau bod datblygiad manwerthu a masnachol wedi'i leoli'n briodol ac nad yw'n tanseilio'r hierarchaeth fanwerthu a amlinellwyd yn SP 16 'Hierarchaeth Fanwerthu', bydd datblygiadau manwerthu a masnachol y tu allan i ganolfannau diffiniedig ond yn cael eu caniatáu lle

1. Nad yw unrhyw safleoedd dilyniannol gwell yn addas ac ar gael; a
2. Dangoswyd bod angen meintiol neu ansoddol; ac
3. Ni fyddai effaith y cynnig, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â datblygiadau manwerthu a ganiatawyd neu a ddyrannwyd, yn tanseilio bywiogrwydd neu hyfywedd canolfannau manwerthu
4. Os ydyw wedi'i leoli mewn canolfan fanwerthu leol, bod cynigion o raddfa a natur sy'n gydnaws â rôl a swyddogaeth y ganolfan.

Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i gyfleusterau cymunedol wedi'u lleoli yn y gymuned y mae'n ceisio ei gwasanaethu (gweler polisi GN 29 Cyfleusterau Cymunedol) neu gynigion sy'n gweithredu Strategaethau Adfywio diweddar a gymeradwywyd gan yr awdurdod.

5.170 Nod y polisi hwn yw gweithredu ymagwedd canolfannau yn gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiad manwerthu a masnachol. Dylai'r holl gynigion ar gyfer defnyddiau, gan gynnwys defnyddiau manwerthu a defnyddiau cyflenwol, ddangos ymagwedd ddilyniannol at ddewis safle lle caiff safleoedd ac eiddo o fewn canol trefi eu hystyried yn gyntaf, yna lleoliadau ar gyrion y canol ac yn olaf, lleoliadau y tu allan i'r canol. Dylai canolfannau sy'n ffurfio rhan o'r prawf dilyniannol gael eu cytuno gyda'r awdurdod cyn cyflwyno unrhyw gais gynllunio. Mae defnyddiau manwerthu a'r holl ddefnyddiau eraill sy'n ategol at ganolfannau manwerthu a masnachol yn cynnwys gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, bwyd a diod, swyddfeydd, gwestai, sefydliadau addysgol a sefydliadau dibreswyl eraill, hamdden, golchdai a theatrau. Dylai rhai defnyddiau addysgol, gofal iechyd a chymunedol, fodd bynnag, gael eu lleoli gerllaw'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethau. Un ystyriaeth allweddol fydd derbynioldeb y cynigion o dan GN 1 'Polisi Datblygu Cyffredinol'.

5.171 Mabwysiedir ymagwedd gymesur at ddangos angen ac effaith. Ystyrir bod datblygiadau manwerthu a masnachol mawr yn gynigion dros 500 o fetrau sgwâr o arwynebedd llawr net ychwanegol naill ai o fewn cynnig unigol neu lle mae cynigion cronnol wedi dod gerbron ers y datblygiad cychwynnol. Bydd angen i ddatblygiadau manwerthu a masnachol mawr ddangos bod angen am y cynnig. Lle bo angen (meintiol neu ansoddol) yn cael ei nodi, yna bydd yn ofynnol cynnal Asesiad Effaith Manwerthu. Ar gyfer cynigion llai na 500 o fetrau sgwâr, rhaid i ddatblygwyr ddangos na fydd effaith sylweddol ar siopau tebyg o fewn canolfannau cyfagos, a bod angen am y cynnig.

5.172 Caniateir cynigion datblygu y tu allan i Ganol Trefi a Chanolfannau Manwerthu Lleol a fyddai'n arwain at golli arwynebedd llawr manwerthu a masnachol dim ond lle profir bod digon o ddarpariaeth amgen yn lleol neu lle

mae’r eiddo / arwynebedd llawr wedi bod yn wag am o leiaf 12 mis ac wedi cael ei farchnata'n weithredol dros y cyfnod hwnnw.

5.173 Wrth gymhwyso’r prawf dilyniannol ar gyfer cynigion manwerthu nad ydynt yn rhai ar gyfer Canol Trefi, rhoddir y pwys mwyaf ar yr effaith ar y Canol Tref/Trefi (d)diffiniedig agosaf, ac yna ar ôl hynny ar ardaloedd manwerthu ar gyrion y canol, y tu allan i’r canol ond o fewn ardaloedd manwerthu aneddiadau ac yna'r gweithgareddau manwerthu hynny sy'n digwydd ar stadau diwydiannol sy'n gysylltiedig â'r aneddiadau agosaf.

## POLISÏAU CYFFREDINOL MYND I'R AFAEL Â GWLEDIGRWYDD

### GN 33 Arallgyfeirio ar Ffermydd

Caniateir arallgyfeirio'r amrywiaeth o weithgareddau economaidd ar fferm weithredol lle bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae'r defnydd arfaethedig yn helpu i gynnal gwaith amaethyddol parhaus y fferm;

2. Os yw adeilad newydd wedi'i gyfiawnhau, dylai gael ei leoli mewn grŵp o adeiladau presennol neu gerllaw pa bryd bynnag y bo modd; ac

3. Os yw'r cynnig yn cynnwys defnydd manwerthu, ac ni fydd y cwmpas yn niweidio bywiogrwydd a hyfywedd cyfleusterau manwerthu mewn unrhyw aneddiadau cyfagos.

5.174 Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi economi sylfaenol rhanbarth yn gryf, sydd mewn sir wledig fel Sir Benfro yn rhoi pwyslais mawr ar fusnesau gwledig. Mae lles lleoedd, cymunedau a phobl yn dibynnu ar economi leol wydn ac felly mae'n bwysig cynnal gweithgarwch economaidd mewn cymunedau gwledig wrth warchod cymeriad y dirwedd a'i diwylliant ieithyddol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog ymagwedd adeiladol at gynigion datblygiadau amaethyddol, yn enwedig y rheiny a gynllunnir i ddiwallu anghenion arferion ffermio sy'n newid, neu sy'n angenrheidiol i gyflawni cydymffurfiaeth â deddfwriaeth newydd yn ymwneud â'r amgylchedd, hylendid neu les. Gall arallgyfeirio helpu i gryfhau'r economi wledig, gan ddod â chyflogaeth a ffyniant ychwanegol i gymunedau.

5.175 Nod y polisi hwn yw cefnogi arallgyfeirio ar ffermydd fel modd o gynnal hyfywedd hirdymor ffermio yn Sir Benfro. Gall fod ar rai cynlluniau angen darpariaeth adeiladau newydd, a gall rhai eraill fynnu datblygu yng nghefn gwlad, ac mae gweithgareddau o'r fath yn debygol o gael llai o effaith ar ardal os gellir darparu ar eu cyfer mewn adeiladau presennol, a gorau i gyd os ydynt wedi'u lleoli'n agos at ddeiliadaeth fferm. Lle bo'n briodol, bydd amod cynllunio yn cael ei bennu, neu rwymedigaeth gynllunio'n cael ei sicrhau drwy gytundeb, i sicrhau bod y datblygiad yn parhau yn rhan o'r uned amaethyddol. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau ar gymeriad yr ardal, ar amwynder trigolion neu ar gyfleusterau manwerthu ar raddfa fach gerllaw, ar sail graddfa, natur a gweithrediad y datblygiad, a sŵn traffig a gynhyrchir. O ran siopau fferm, gallai amodau cynllunio gael eu gosod i gyfyngu ar amrywiaeth a tharddle'r nwyddau y gellir eu gwerthu o'r safle, ac er mwyn sicrhau bod yr arwynebedd llawr manwerthu net yn briodol.

5.176 Mae polisi cynllunio'r llywodraeth yn cynghori bod arallgyfeirio ar fferm yn gynnig arallgyfeirio economaidd ar fferm weithredol sy'n amodol ar reolaeth gynllunio. Fferm weithredol yw un sy'n ymwneud â hwsmonaeth tir neu anifeiliaid fel modd o ennill incwm. Mae cynigion arallgyfeirio ar fferm yn

cynnig incwm ategol gan helpu i gynnal hyfywedd fferm honno felly, a gall gynnwys da byw a phrosesu cnydau, prosiectau twristiaeth, siopau fferm, a gwneud a gwerthu cynhyrchion anamaethyddol. Hefyd, gall arallgyfeirio gynnwys cynigion ynni adnewyddadwy fel cyfleusterau treulio anaerobig neu osodiadau solar a gwynt, a fydd yn helpu cynyddu hyfywedd mentrau gwledig drwy leihau costau ynni (ymdrinnir â'r rhain o dan Bolisi GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel). Pan gaiff cynnig i arallgyfeirio ar fferm ei gyflwyno dylai'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gyfiawnhau'r cynnig. Disgwylir esboniad cryno o rai o'r canlynol neu bob un ohonynt:

- Hanes y fferm;
- Yr angen am adeiladau newydd a pham nad yw'r rhai presennol yn addas; a
- Y berthynas rhwng y gweithgarwch ffermio a'r gwaith arallgyfeirio arfaethedig neu unrhyw anghenion o ran ehangu yn y tymor hwy.

5.177 Bydd maint y datblygiad hefyd yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu a yw'r cynigion yn gydnaws â'r ardal leol, a chaiff y rhai y penderfynir eu bod yn amhriodol ar gyfer lleoliad yng nghefn gwlad eu cyfeirio at safleoedd cyflogaeth y darperir ar eu cyfer yn y Cynllun. Os bydd tystiolaeth yn dangos nad yw fferm bellach yn fferm weithredol neu y byddai'r cynnig i arallgyfeirio yn golygu na fyddai'r busnes bellach yn fferm weithredol, yna caiff y cynnig ei ystyried yn erbyn polisïau cyflogaeth eraill y Cynllun a pholisïau addasu'r Cynllun fel y bo'n briodol.

### GN 34 Trosi neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol ac Ehangu, neu Wneud Newidiadau i, Adeiladau Amaethyddol a gafodd eu Trosi o'r Blaen

A Caniateir adnewyddu, addasu neu newid defnydd adeiladau amaethyddol y tu allan i unrhyw Ffin Anheddiad ar gyfer defnydd cyflogaeth, llety hunanddarpar neu ddefnydd preswyl, cyhyd ag y bodlonir y meini prawf canlynol:

Ar gyfer gweithgareddau yn ymwneud â chyflogaeth (ac eithrio llety gwyliau):

1. Gall yr adeilad, yn ffisegol, ymdopi â'r defnydd newydd ac unrhyw ofynion cysylltiedig heb waith newid nac ymestyn helaeth; a

2. Gellir darparu storfa tu allan, gwasanaethau newydd, gwaith mynediad, ffensys, waliau neu strwythurau eraill sy'n gysylltiedig â defnydd yr adeilad neu ei gwrtil, heb niweidio tirwedd y safle; a

3. Cynigion addasu mewn perthynas â'r dirwedd ac arddulliau a deunyddiau adeiladu lleol; ac

Ar gyfer defnydd preswyl, llety gwyliau neu unedau byw-gweithio:

1. Mae'r adeilad yn draddodiadol ei natur a'i gymeriad; a

2. Gall yr adeilad, yn ffisegol, ymdopi â'r defnydd newydd ac unrhyw ofynion cysylltiedig heb waith adnewyddu, ehangu nac ailadeiladu helaeth; a

3. Gwneir cyn lleied â phosibl o unrhyw waith newid sydd ei angen, gellir gwneud y gwaith heb effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad neu ei leoliad, a defnyddir deunyddiau sy'n cydfynd ac/neu yn gydnaws ac sy'n parchu'r dirwedd o amgylch; a

4. Gellir darparu storfa y tu allan, gwasanaethau newydd, gwaith mynediad, ffensys, waliau neu strwythurau eraill sy'n gysylltiedig â defnydd yr adeilad a'i gwrtil, heb niweidio tirwedd y safle na chymeriad yr adeilad.

B Caniateir ehangu neu addasu cyn adeilad amaethyddol sydd wedi ei drosi ar gyfer defnydd cyflogaeth, defnydd preswyl, llety gwyliau neu unedau gwaith byw cyn belled ag y cydymffurfir â'r meini prawf canlynol:

1. Gellir gwneud yr ehangu neu'r newid heb effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad na'i leoliad, ac
2. Fe'i hadeiladir gan ddefnyddio deunyddiau cyfatebol a/neu gydnaws ac mae'n parchu'r dirwedd o amgylch.

5.178 Mae llawer rhan o Sir Benfro yn wledig iawn ac felly ceir nifer o adeiladau traddodiadol y tu allan i'r prif aneddiadau y mae eu cymeriad a'u golwg yn cyfrannu'n sylweddol at dirwedd a hanes nodedig y Sir, a'i hymdeimlad o le. Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol 6 (Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy) a 23 (Datblygu Economaidd )yn annog ymagwedd gadarnhaol at addasu adeiladau gwledig i'w hailddefnyddio ar gyfer busnes. Mae'r polisi hwn yn galluogi ailddefnyddio adeiladau amaethyddol

mewn amgylchiadau priodol ac mae'n gwahaniaethu rhwng achosion lle gallai adeiladau amaethyddol presennol gael eu haddasu at ddefnydd cyflogaeth, a lle gallai fod yn dderbyniol i addasu adeiladau mwy traddodiadol at ddefnydd preswyl neu lety gwyliau neu unedau byw-gweithio, y gall pob un ohonynt gynnal yr economi leol a helpu cadw asedau diwylliannol na fyddai'n ddichonadwy i'w cadw fel arall efallai.

5.179 Dylai ceisiadau i addasu (newid defnydd ac ymaddasu) osgoi cyflwyno neu ddwysáu defnyddiau a fyddai'n andwyol i amwynder ardal. Rhaid i gynigion i ailddefnyddio cyfadeilad neu adeilad unigol sydd â chyfanswm arwynebedd llawr mawr ymdrin â'r cyfadeilad yn gyfan ac nid ceisio ei ddatblygu yn dameidiog. Bydd effaith y datblygiad ar fywiogrwydd a hyfywedd aneddiadau cyfagos yn ystyriaeth berthnasol hefyd.

5.180 Bydd amgylchiadau pan na ellir addasu adeilad am ei fod yn rhy fach at y defnydd arfaethedig. Yn yr un modd, mae'n bosibl na fydd addasu yn bosibl oherwydd y bydd y defnydd ei hun, neu'r addasiadau / estyniadau sydd eu hangen ar gyfer y defnydd hwnnw yn effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad. Yn yr achosion hyn, ni roddir caniatâd cynllunio. Mewn rhai achosion, gellir sicrhau y caiff yr adeilad ei ailddefnyddio heb niweidio ei gymeriad ond dim ond drwy beidio â chaniatáu i du allan yr adeilad gael ei newid na'i estyn. Mewn achosion o'r fath caiff hawliau datblygu a ganiateir eu diddymu yn aml fel amod o'r caniatâd, er mwyn gwarchod yr adeilad.

5.181 Mae TAN 23 yn cydnabod y gall ACLlau fod eisiau rhoi blaenoriaeth i ddefnydd cyflogaeth dros ddefnydd preswyl. Mae'r polisi hwn yn cydnabod y buddion economaidd, diwylliannol a chymdeithasol o ganiatáu i adeiladau traddodiadol gael eu haddasu at ddefnydd cyflogaeth neu ddefnydd preswyl mewn amgylchiadau priodol a thrwy hynny gefnogi'r economi wledig. Wrth ystyried addasu adeiladau amaethyddol at ddefnyddiau preswyl, neu unedau byw-gweithio, rhaid i'r adeilad fod yn draddodiadol ei gymeriad ac o faint domestig, yn gadarn ei strwythur, wedi'i adeiladu'n barhaol a sylweddol a gellir ei addasu heb waith ailadeiladu sylweddol na'i ailadeiladu yn gyfan gwbl.

5.182 Diffinnir adeiladau amaethyddol traddodiadol fel a ganlyn:

- Rhai a adeiladwyd o ddeunyddiau a gynhyrchwyd yn lleol, ac a ddefnyddiwyd ers amser maeth yn yr ardal, (fel arfer mae hyn yn cyfeirio at waliau wedi'u gwisgo â cherrig lleol neu ddull adeiladu clom, ond gall gynnwys adeiladau brics hefyd);
- Rhai sy'n adlewyrchu defnydd gwreiddiol yr adeilad yn gyffredinol (mewn llawer o achosion o'r fath bydd y dyluniad yn ategu'r diben gwreiddiol); a
- Rhai sydd i raddau helaeth yn eu ffurf wreiddiol (er y gellir ystyried adeiladau lle y rhoddwyd to llechi neu fetel rhychiog yn ddiweddarach yn lle to gwellt gwreiddiol yn rhai traddodiadol). Yn gyffredinol, bydd adeiladau o'r fath yn adeiladau o gryn oed, gyda'r rhan fwyaf yn rhai cyn-1949 o ran tarddiad.

5.183 Mae amgylchiadau pan fyddai defnyddio adeilad wedi ei addasu i fyw ynddo drwy'r amser yn amhriodol oherwydd y byddai'n cynnig amodau byw o safon is o

ran lefel isel o breifatrwydd neu ddarpariaeth amwynder. Yn y sefyllfaoedd hyn gellid defnyddio amodau meddiannaeth gwyliau, a fyddai’n cyfyngau ar yr amser y gallai un tyaid aros mewn uned a’r amser y gallent ddychwelyd.

5.184 Rhaid i estyniad neu addasiad i adeilad amaethyddol sydd wedi'i drosi'n flaenorol fod yn gydnaws â'i raddfa a'i gymeriad traddodiadol. Mewn achosion lle mae’r adeilad wedi’i ymestyn neu ei addasu fel rhan o’r addasiad neu’n ddiweddarach, rhaid i unrhyw estyniad neu addasiad pellach ystyried yr effaith gyfunol ar gymeriad yr adeilad. Mewn rhai achosion ni fydd yn briodol i gyn adeilad amaethyddol gael estyniadau lluosog oherwydd yr effaith andwyol y byddai hyn yn ei gael ar raddfa, cymeriad traddodiadol a defnydd hanesyddol yr adeilad gwreiddiol.

### GN 35 Marinas

Caniateir cynigion ar gyfer marinas newydd, estyniadau i farinas neu farinas wedi'u hail-ddylunio, lle bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae'r cynigion wedi'u lleoli mewn anheddiad presennol neu'n gyffiniol ag anheddiad presennol;
2. Ni fyddai'r cynigion yn cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad y dirwedd, yr arfordir nac ar dreflunia pwysig;
3. Ni fydd cynigion ategol yn tanseilio bywiogrwydd na hyfywedd cyfleusterau a gwasanaethau mewn aneddiadau presennol; ac
4. Ni fyddai'r cynigion yn gwrthdaro â'r gwaith o reoli'r arfordir yn gynaliadwy.

5.185 Dywed polisi Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 12, na ddylai datblygiad gael ei gynnig fel arfer mewn lleoliadau arfordirol, oni bai bod angen iddo fod ar yr arfordir. Ychwanega mai prin iawn y bydd ardaloedd arfordirol sydd heb eu datblygu yn lleoliad mwyaf priodol ar gyfer datblygu.

5.186 Yn Sir Benfro, mae llawer o'r morlin wedi'i leoli o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac felly mae tu allan i awdurdodaeth y Cynllun hwn. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r arfordir o fewn ardal gynllunio'r Cyngor, gan gynnwys ardal fach o dir i'r dwyrain o Amroth, tir yn ardal Abergwaun ac Wdig, gan gynnwys y tir hwnnw sy'n cyffinio â Harbwr Abergwaun a rhannau sylweddol o Ddyfrffordd Aberdaugleddau a'r Daugleddau, gan gynnwys tir yn nhrefi Aberdaugleddau a Doc Penfro ac o'u hamgylch.

5.187 Mae'r ardaloedd morol sy'n cyffinio â Sir Benfro, gan gynnwys Dyfrffordd y Ddau Gleddau, o bwysigrwydd mawr i gadwraeth natur, ac mae llawer o leoliadau o bwysigrwydd o ran tirwedd hefyd, gan gynnwys yr holl rai yn y Parc Cenedlaethol. Mae arfordir Sir Benfro yn gweld newidiadau o ganlyniad i newid hinsawdd hefyd, sy'n cyfrannu at gynnydd yn lefelau'r môr ac at ddigwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach.

5.188 Er gwaetha'r uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae marinas yn ei wneud i economi ymwelwyr Cymru (Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Mae cyflenwad o angorfeydd a gwasanaethau cysylltiedig bob hyn a hyn ar hyd arfordir Cymru yn ddymunol i hwyluso teithio morol hamdden.

5.189 Paratowyd polisi yn seiliedig ar feini prawf i alluogi datblygu marinas newydd mewn lleoliadau priodol. Bydd disgwyl i leoliadau marina gysylltu'n dda ag anheddiad presennol oherwydd eu maint a'u natur, a bydd datblygiadau ar hyd arfordir sydd heb ei ddatblygu yn annerbyniol. Mae marinas yn darparu cyfleusterau datblygedig, parhaol, arnofiol ac ar y tir gydol y flwyddyn, ac yn aml y lleoliad gorau ar eu cyfer yw o fewn porthladdoedd, harbyrau a threfi arfordirol

presennol. Yn aml, bydd angen datblygiadau ategol megis bwytai, siopau, cyfleusterau toiledau, siandleriaid, llefydd i storio cychod, llefydd parcio a thai, er mwyn cefnogi bywiogrwydd cymdeithasol a hyfywedd economaidd marinas. Mae lleoliadau datblygedig hefyd yn ffafriol ar gyfer y rhain, lle na fyddant yn peryglu tirweddau pwysig neu ardaloedd a warchodir oherwydd eu gwerth o ran cadwraeth. Bydd cynigion o'r fath yn dderbyniol lle dangosir y byddent yn cydategu ac nid yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd cyfleusterau yn y canolfannau presennol. Mae angen mynediad da ar ffyrdd hefyd er mwyn hwyluso gwasanaethu'r marinas o'r tir.

5.190 Bydd GN 41 Gwarchod Dynodiadau Amgylcheddol Statudol Cenedlaethol yn arbennig o berthnasol i unrhyw gynigion marina sydd â photensial i effeithio ar safleoedd gwarchod natur pwysig. Yn benodol, mae hyn yn cyfeirio at Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Safle Morol Sir Benfro, ACA Bae Ceredigion a Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Weithiau mae cynigion marinas y tu allan i awdurdodaeth cynllunio, sydd fel arfer yn gorffen ar y Marc Distyll Cymedrig (er bod eithriad o amgylch Doc Penfro, lle mae'r awdurdodaeth honno'n ymestyn i'r marc canol sianel). Fodd bynnag, bydd i'r rhan fwyaf o gynigion oblygiadau ar y tir o ran mynediad a darparu gwasanaethau, sydd yn dod o dan awdurdodaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Yn aml, bydd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar yr agweddau hyn ar gynigion datblygu. Gall fod angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar rai prosiectau o'r fath hefyd. Yn ogystal, bydd angen ystyriaeth o dan gyfundrefnau caniatáu eraill ar nifer o agweddau ar gynigion marina.

5.191 Wrth werthuso cynigion marinas, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i bolisïau a chynigion y Cynlluniau Rheoli Traethlin perthnasol. Mae dau Gynllun Rheoli Traethlin yn effeithio ar ardaloedd arfordirol o amgylch Sir Benfro, a cheir manylion eu darpariaethau ar wefan Cyngor Sir Penfro.

## GN 36 Llwybrau Trafnidiaeth a Gwelliannau

A. Caniateir gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth (priffyrdd ac is-ffyrdd newydd ac wedi'u gwlla, gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd, llwybrau beicio, llwybrau amlddefnydd / llwybrau cyd-ddefnyddio, safleoedd cynlluniau parcio a theithio a mannau gwasanaeth ymyl y ffordd) lle:
   1. Mae'r dewis o lwybr a / neu safle yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, tirweddau ac eiddo; a
   2. Mae'r tir a gymerir yn barhaol yn cael ei gadw i'r lleiafswm sy'n gyson â dylunio da a thirlunio o ansawdd uchel; a
   3. Yn achos ffyrdd, llwybrau beicio, llwybrau amlddefnydd / llwybrau cyd-ddefnyddio a pharcio a theithio, bydd y cynllun yn helpu i wella diogelwch y ffyrdd; a
   4. Yn achos ffyrdd, mae amrediad cyflawn o atebion ymarferol i'r broblem drafnidiaeth wedi ei ystyried a gwella'r ffordd sy'n cynnig yr ateb gorau; a
   5. Yn achos mannau gwasanaeth ymyl ffordd, mae'n rhaid i'r cynllun gydffinio â'r rhwydwaith ffyrdd strategol, canolbwyntio'n bennaf ar ddiwallu anghenion modurwyr a theithwyr eraill, peidio â rhwystro symudiad traffig strategol a pheidio â thanseilio'r ddarpariaeth fanwerthu yng nghanol trefi, canolfannau lleol neu bentrefi.

B. Caiff y llwybrau trafnidiaeth a'r gwelliannau canlynol eu gwarchod rhag datblygu a fyddai'n debygol o amharu ar eu gweithrediad:

| Cyfeirnod | Math o Gynllun | Enw'r Cynllun | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| TS/LDP2/03 | Ffordd a Llwybr Troed | Gwelliant Well Hill, Penfro | Well Hill - Penfro |
| TS/LDP2/03 | Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus | Cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus Aberdaugleddau | Gorsaf Drenau Aberdaugleddau |
| TS/LDP2/04 | Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus | Cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus Hwlffordd | Gorsaf Drenau Hwlffordd |
| TS/LDP2/08 | Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus | Cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus Hwlffordd | Gorsaf Bysiau Hwlffordd |

5.192 Mae dwy elfen i'r polisi hwn. Y cyntaf yw cynnig dull seiliedig ar feini prawf ar gyfer gwerthuso cynlluniau trafnidiaeth newydd. Yr ail yw nodi'r prif gynigion yn ardal y Cynllun ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth, a, lle bynnag y mae'r llwybrau ar gyfer y rhain yn hysbys, eu diogelu rhag datblygiadau eraill a allai beryglu'u gweithredu.

5.193 Mae'r cynlluniau trafnidiaeth dynodedig yn cynnwys y rheiny sydd wedi'u rhaglennu gan Lywodraeth Cymru, darparwyr y rhwydwaith trafnidiaeth cenedlaethol ac, ar lefel leol, gan y Cyngor Sir. Yn ogystal â bod wedi'u rhaglennu, y cynlluniau dynodedig yw'r rheiny y nodwyd mecanwaith cyllido ar eu cyfer ac sy'n debygol o gael eu gweithredu yn ystod cyfnod y Cynllun. Ble bynnag y maent yn hysbys, dangosir y llwybrau / safleoedd gwarchodedig ar y Map Cynigion. Mae Atodiad 4 i'r Cynllun hwn yn amlinellu'r manylion rhaglennu ar gyfer y cynlluniau dynodedig.

5.194 Un ffynhonnell wybodaeth allweddol ar gyfer y rhaglennu yw Cyd-gynllun Trafnidiaeth De-Orllewin Cymru ar gyfer 2015 i 2020. Paratowyd hwn mewn partneriaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Sir Penfro. Lle mae'n hysbys bod manylion yn y Cyd-gynllun Trafnidiaeth wedi'u newid ers cyhoeddi, mae diweddariadau priodol wedi'u gwneud.

5.195 Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru wedi'i pharatoi gan Lywodraeth Cymru, ac mae hon yn darparu fframwaith polisi strategol ar gyfer trafnidiaeth ledled Cymru hyd at 2030. Bydd canllawiau i Awdurdodau Lleol yn dilyn ar baratoi Cyd-gynlluniau Trafnidiaeth, wedi'u gosod yng nghyd-destun y ddogfen Strategaeth hon. Bydd hyn yn darparu sail ar gyfer adolygu'r Cyd-gynllun Trafnidiaeth cyfredol ar gyfer De-Orllewin Cymru.

5.196 Dylid edrych ar y cynigion a ddiogelir gan y Cynllun hwn ar y cyd â Ffigur 53, sy'n nodi llwybrau trafnidiaeth allweddol i gefnogi polisïau trafnidiaeth ac yn diffinio rhwydwaith ffyrdd strategol, yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18 ar Drafnidiaeth, a hefyd yn adlewyrchu darpariaethau Cyd-gynllun Trafnidiaeth De-Orllewin Cymru a'r egwyddorion sy'n sail i Deithio Llesol.

5.197 Nid yw'n briodol i'r Cynllun hwn nodi cynigion dyheadol pan nad oes sicrwydd y cânt eu gweithredu o fewn cyfnod y Cynllun. Ni all ychwaith ddiogelu llwybrau unrhyw gynigion trafnidiaeth na ragwelir eu gweithredu o fewn cyfnod y Cynllun.

5.198 Mae DCWW yn cynghori y gallai fod lleoliadau lle mae'r llwybrau a ddiogelir yn mynd dros garthffosydd cyhoeddus a phrif bibellau dŵr. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, 1991, mae gan DCWW hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar bob amser. Felly, bydd angen mesurau diogelu mewn perthynas â'r asedau hyn, naill ai ar ffurf lled hawddfraint neu o bosibl ddargyfeirio'r ased. Mae DCWW yn croesawu trafodaeth gynnar ar faterion o'r fath.

**GN 37 Gweithio Mwynau**

Caniateir cynigion ar gyfer gweithio mwynau nad ydynt ar gyfer ynni, ar gyfer estyniadau i safleoedd gweithio mwynau presennol, ac ar gyfer pyllau benthyg dros dro, lle:

1. Mae angen y mwyn i gyflenwi angen dynodedig na ellir ei gyflenwi o ddeunyddiau eilaidd neu ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, nac o gronfeydd wrth gefn presennol;
2. Mae maint y datblygiad yn briodol i wasanaethu'r farchnad leol a chyfran addas o'r farchnad ranbarthol;
3. Yn achos safleoedd gweithio mwynau blaenorol, ni cheir effaith andwyol ar dir sydd wedi'i adfer yn foddhaol ac mae'r cynnig yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gymeriad y dirwedd leol a'r amgylchedd lleol; ac
4. Mae darpariaeth ar gyfer tirweddu, gwarchod dŵr daear, defnydd buddiol dilynol, gwaith adfer a rheoli'r safle ar ôl iddo gau, gan gynnwys, lle bo'n briodol, adfer y safleoedd yn gynyddol.

Penderfynir ar gynigion ar gyfer gweithio mwynau ynni yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio Cymru.

Mae'r safle canlynol wedi'i ddyrannu ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt ar gyfer ynni yn y dyfodol:

| Cyfeirnod y safle | Enw'r Safle | Mwyn | Arwynebedd (hectarau) |
|---|---|---|---|
| MN/000/LDP2/001 | Estyniad i Chwarel Trefigin | Tywod a Graean | 9.30 |

Ar gyfer tywod a graean, os na all y safle a neilltuwyd ddarparu'n llawn ar gyfer anghenion y dyfodol, bydd yr Ardaloedd Chwilio am dywod a graean a ddiffinnir ar y Map Cynigion yn darparu ffocws, i annog diddordeb gan weithredwyr mwynau yn y dyfodol.

5.199 Mae polisïau mwynau Llywodraeth Cymru wedi'u hamlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru argraffiad 12 ac mewn cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau. Mae'r rhain, law yn llaw â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau 2ail Adolygiad (2020) yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y polisïau a'r cynigion yn y Cynllun hwn. Fel y nodwyd yn y cyfiawnhad rhesymegol i bolisi SP 18 (Mwynau heb fod yn ymwneud ag Ynni), mae yna ofyniad isranbarthol i ddod o hyd i safleoedd newydd ar gyfer cynhyrchu tywod a graean ar y tir yn isranbarth Gorllewin Cymru y DTRh (RTS's), yn ogystal ag amcan hirdymor i roi'r gorau i gynhyrchu mwynau ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae Cyngor Sir Penfro'n gweithio gyda'i Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos yng Ngheredigion, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Sir Gaerfyrddin ar Ddatganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol ar gyfer mwynau, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae Ail Adolygiad

y Datganiad Technegol Rhanbarthol hefyd yn nodi gofyniad bach iawn am i Gyngor Sir Penfro wneud darpariaeth newydd ar gyfer chwarel carreg galed dros gyfnod y Cynllun, ond noda bod hyn ar raddfa mor fach nad oes angen dyraniad. Yn wir, mae caniatadau newydd a roddwyd ers cyhoeddi Ail Adolygiad y DTRh (RTS) i raddau helaeth yn diwallu'r diffyg bach yn y ddarpariaeth yn y dyfodol.

5.200 Mae darpariaethau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn berthnasol hefyd, am fod glanfa tywod a graean yn Noc Penfro, lle mae adnoddau o'r môr yn cael eu glanio o Fôr allanol Hafren.

5.201 Mae'n rhaid i'r holl gynigion datblygu mwynau fodloni gofynion polisi GN 1 (Polisi Datblygu Cyffredinol). Mae'r polisi hwnnw'n cyfeirio, ymhlith pethau eraill, at briddoedd (maen prawf 4) ac ar safleoedd echdynnu mwynau yn aml mae potensial i storio pridd i'w ailddefnyddio yn y pen draw yn ystod cam adfer y safle (ar ôl echdynnu), ond mae posibilrwydd o ddiraddiad yn ystod y cyfnod storio interim.

5.202 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ac eithrio mewn Parciau Cenedlaethol) i gynnal banciau tir ar gyfer carreg galed (cyfeirir ati weithiau hefyd fel carreg fâl) ac ar gyfer tywod a graean. Fel arfer ceir carreg galed o'r tir, ond gellir cael tywod a graean o'r tir neu'r môr.

5.203 Mae'r Cynllun hwn yn mabwysiadu ymagwedd cronfeydd wrth gefn ar y cyd ar gyfer carreg galed, gan gyfuno adnoddau Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan barhau â'r trefniant presennol. Gall fod angen rhoi ystyriaeth arbennig i ffynonellau agregau tra phenodedig i'w defnyddio ar gyfer gosod wyneb, adeiladu a chynnal a chadw ffyrdd, ac i faint y banc tir ar gyfer calchfaen.

5.204 Cymerir darpariaeth isranbarthol De-orllewin Cymru ar gyfer tywod a graean, i adlewyrchu gofynion Ail Adolygiad y DTRh (RTS), sy'n argymell dull cydweithredol o sicrhau cyflenwadau o'r deunyddiau hyn yn y dyfodol. Ar ddechrau'r broses o adolygu'r CDLl, paratowyd Datganiad Tir Cyffredin gan Gynghorau Sir Penfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mewn perthynas â thywod a graean. Yn fwy diweddar, yn y cyd-destun a ddarparwyd gan Ail Adolygiad y DTRh, mae'r un pedwar awdurdod wedi dechrau paratoi Datganiad o Gydweithrediad Isranbarthol yn ymwneud â mwynau ar gyfer isranbarth Gorllewin Cymru. Mae hwn yn ymdrin â chraig galed (craig wedi'i malu) a thywod a graean, ond mae'r pwyslais ar yr olaf, gan fod cyflenwadau is-ranbarthol o dywod a graean a dynnwyd o'r tir yn gyfyngedig.

5.205 Y dyddiad terfyn ar gyfer y Cynllun hwn yw 2033 ac felly bydd angen i'r gofyniad banc tir fod yn ddigonol i bara hyd at 2043 ar gyfer carreg galed (carreg wedi'i malu), a 2040 ar gyfer tywod a graean.

5.206 Mae bwriad hirdymor i ddileu cynhyrchu mwynau o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, lle mae carreg galed a thywod a graean o'r tir yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd. Bydd caniatadau cyfredol yn galluogi cynhyrchu mwynau yn y Parc Cenedlaethol i barhau am gryn amser i'r dyfodol. Fodd bynnag, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y bydd caniatadau mwynau newydd yn cael eu rhoi yn y Parc Cenedlaethol.

5.207 O ganlyniad, mae angen dod o hyd i safleoedd cynhyrchu daearol amgen ar gyfer carreg galed ac ar gyfer tywod a graean, i ddisodli'r rheiny yn y Parc Cenedlaethol. Ar gyfer carreg galed, ceir hyd i'r rhain yn rhywle arall yn Sir Benfro (gan eu hategu o bosibl gan adnoddau yn rhywle arall yn is-ranbarth Gorllewin Cymru), lle mae'r banc tir carreg galed yn ddigon mawr i ganiatáu i hyn ddigwydd. Ar gyfer tywod a graean, nid oes unrhyw gynhyrchiant ar hyn o bryd yn y rhan o Sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, er bod adnoddau a allai sicrhau echdynnu economaidd yng ngweddill Sir Benfro ac efallai mewn siroedd cyffiniol yn is-ranbarth Gorllewin Cymru (Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) hefyd.

5.208 Gwneir dyraniad tywod a graean yn y Cynllun, i gyfrannu at yr angen rhanbarthol.

5.209 Ceir rhai o'r adnoddau tywod a graean sy'n dod i mewn i dde-orllewin Cymru o'r môr. Yn Sir Benfro, mae glanfa tywod a graean yn Noc Penfro, lle caiff deunyddiau a gloddiwyd o Fôr allanol Hafren eu glanio. Mae'r lanfa hon wedi'i diogelu gan y Cynllun hwn ar gyfer ei defnydd presennol trwy ddarpariaethau polisi GN 38.

5.210 Mae papur cefndir ar fwynau wedi'i gyhoeddi, sy'n rhoi gwybodaeth a lywiodd y gwaith o baratoi polisïau'r Cynllun hwn ar fwynau. Cyhoeddwyd Ail Adolygiad y DTRh (RTS) ym mis Medi 2020 ar ôl hwn ac mae ei ddarpariaethau hefyd wedi'u hystyried wrth lunio polisïau mwynau'r Cynllun hwn. Mae'r gwaith o baratoi'r Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol ar gyfer Gorllewin Cymru, sy'n deillio o ofynion Ail Adolygiad y DTRh hefyd wedi rhoi cyd-destun ar gyfer polisïau a chynigion y Cynllun hwn.

5.211 Mae dau safle mwynau segur yn ardal gynllunio'r Cyngor (er mai dim ond un a gofnodir yn Ail Adolygiad yr RTS). Ni fu unrhyw arwydd, drwy gyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol, o fwriad i ddechrau chwarela yn yr un o'r ddau safle. Felly, nid ydynt wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiadau mwynau gan y Cynllun hwn ac nid ydynt yn cael eu offsetio yn erbyn y gofynion ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Ystyrir cyflwyno Gorchmynion Gwahardd Mwynau ym mhob achos.

5.212 Gosodir y polisi hwn yng nghyd-destun y paragraffau uchod, yn y Papur Cefndir ar Fwynau, Ail Adolygiad y DTRh (RTS) a'r Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol ar gyfer is-ranbarth Gorllewin Cymru ac mae'n cynnwys dwy elfen. Mae'r gyntaf yn darparu sail ar gyfer ystyried ceisiadau sy'n gofyn am ganiatâd i gloddio mwynau di-ynni, ac yn benodol, carreg galed (carreg fâl) a thywod a

graean. Mae’r elfen hon o’r polisi hefyd yn cwmpasu cynigion ar gyfer estyniad mewn safleoedd gweithredol presennol a chynigion ar gyfer pyllau benthyg, sef chwareli dros dro a agorir ar sail tymor byr i ddiwallu angen penodol am y mwyn dan sylw.

5.213 Mae ail elfen y polisi yn dyrannu safle penodol ar gyfer cloddio mwynau di-ynni ar gyfer echdynnu tywod a graean. Mae'r dyraniad ar gyfer echdynnu tywod a graean. Mae diffyg cydnabyddedig yn y ddarpariaeth o safleoedd cloddio tywod a graean tiriogaethol yn is-ranbarth Gorllewin Cymru, a bydd dyrannu’r safle hwn yn darparu cyfle newydd i ddiwallu anghenion sy’n codi yn Sir Benfro a Siroedd cyffiniol yn yr is-ranbarth.

5.214 Rhoddir blaenoriaeth i ddefnyddio deunydd wedi’i ailgylchu ac agregau eilaidd a bydd datblygu ffynonellau cyflenwi newydd ond yn cael ei ganiatáu lle gellir dangos nad oes modd darparu unrhyw ddeunydd ymarferol arall ar gost amgylcheddol is.

5.215 Mae maen prawf 4 y polisi yn cyfeirio at nifer o ystyriaethau pwysig lle mae gwaith mwynau newydd yn cael ei gynnig. Mae’r rhain yn cynnwys tirweddu, gwarchod dŵr daear, sicrhau ôl-ddefnydd buddiol, gwaith adfer a rheoli’r safle ar ôl iddo gau, gan gynnwys, lle bo’n briodol, adfer y safleoedd yn gynyddol. Ceir mwy o wybodaeth am adfer ac ôl-ofal safleoedd yn y Papur Cefndir ar Fwynau.

5.216 Mae’r Papur Cefndir ar Fwynau yn cynnwys paragraff hefyd sy’n egluro pwysigrwydd ystyriaethau cludiant wrth asesu cynigion mwynau. Lle bynnag y bo’n ymarferol, cludiant ar y rheilffordd neu ddŵr sydd orau. Lle mai cludiant ar y ffordd yw’r unig opsiwn realistig, yna mae’n debygol y bydd yn ofynnol cynnal Asesiad Effaith Traffig i gydfynd â chais cynllunio mwynau.

5.217 Dylid parhau i warchod cyflenwadau dŵr wyneb a dŵr daear lle ceir cynnig i gloddio mwynau. Mae angen rhoi ystyriaeth i oblygiadau posibl gofynion trwyddedu ar gyfer dad-ddyfrio chwarel wrth baratoi cynigion chwarela.

5.218 Nid oes unrhyw fwynau ynni yn cael eu gweithio yn Sir Benfro ar hyn o bryd, ac ni dderbyniwyd unrhyw Safleoedd Ymgeisiol yn cynnig defnydd o’r fath. Nid yw’r Cyngor, felly, wedi cynnwys polisi yn y Cynllun hwn yn ymwneud â mwynau ynni. Pe byddai cais am y cyfryw ddefnydd yn dod i law, bydd y Cyngor yn dibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

**GN 38 Diogelu a Chloddio'r Adnodd Mwynau Ymlaen Llaw**

Caiff adnoddau mwynau carreg galed hysbys (yn cynnwys tywodfaen, calchfaen, siâl a cherrig igneaidd amrywiol) a thywod a graean eu diogelu fel y dangosir ar y map cynigion.

Dim ond mewn ardal lle ceir adnodd mwynau hysbys y caniateir datblygiad newydd lle dangoswyd yn gyntaf:

1. Y gellir cloddio unrhyw gronfeydd mwynau yn economaidd cyn dechrau'r datblygiad;neu
2. Byddai cloddio yn cael effaith annerbyniol ar ystyriaethau amgylcheddol neu amwynder; neu
3. Na fyddai'r datblygiad yn cael effaith sylweddol ar y posibilrwydd o weithio'r adnodd oherwydd ei natur neu faint; neu
4. Mae'r adnodd dan sylw o ansawdd gwael / yn wael o ran ei faint.

Mae'r Lanfa Tywod a Graean yn Noc Penfro hefyd wedi'i diogelu er mwyn sicrhau ei bod ar gael yn barhaus at y diben hwnnw ac fe'i dangosir ar y map cynigion.

5.219 Mae'r Cyngor yn defnyddio mapiau diogelu mwynau Arolwg Daearegol Prydain (BGS) 2012 fel sail ar gyfer diogelu adnodd mwynau economaidd ardal y Cynllun. Nid yw'r ardal a ddiogelir yn cynnwys aneddiadau, a ddiffinnir gan Ffiniau Aneddiadau at ddibenion paratoi'r Cynllun hwn. Nid oes gofyniad mwyach i ddiogelu'r adnodd glo, felly ar gyfer y Cynllun hwn mae'r diogelu'n ymwneud ag adnodd carreg galed ac adnodd tywod a graean ardal y Cynllun. Mae'r lanfa tywod a graean yn Noc Penfro hefyd wedi'i diogelu, er mwyn sicrhau ei bod ar gael o hyd ar gyfer glanio tywod a graean wedi'u carthu o'r môr i wasanaethu marchnadoedd lleol yn Ne-orllewin Cymru.

5.220 Nid oes fawr o olwg y bydd cloddio glo yn economaidd hyfyw hyd y gellir rhagweld, ac mae'n annhebygol hefyd y bydd angen yr adnodd yn Sir Benfro i gyflenwi marchnadoedd diwydiannol arbenigol. Yn y cyd-destun hwnnw, ac yn absenoldeb unrhyw Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer cloddio am lo, nid yw adnodd glo ardal y Cynllun yn cael ei ddiogelu mwyach. Ystyriaeth bellach wrth wneud y penderfyniad hwn yw y byddai llosgi glo i gynhyrchu gwres yn groes i bolisi Cymru i gyflawni uchelgeisiau carbon isel, a dim carbon yn y pen draw. Mae Datganiad Polisi Glo Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 yn cadarnhau eu bwriad i 'ddod â gwaith echdynnu a defnyddio glo i ben wedi'i reoli'.

5.221 Gall fod angen cloddio'r adnodd mwynau ymlaen llaw lle cynigir math arall o ddatblygiad ar safle mwynau wedi'i ddiogelu. Mae hyn yn ymwneud â dyddodion bas o dan y safle. Fodd bynnag, bydd galw'r farchnad am y deunydd yn ffactor wrth benderfynu p'un a yw cloddio ymlaen llaw yn ddichonadwy. Gall ffactorau

amgylcheddol fod yn ystyriaeth bwysig hefyd o ran p’un ai i fwrw ymlaen â chloddio ymlaen llaw. Gall fod yn ddymunol, er enghraifft, i gadw nodweddion ar safle, gan gynnwys coed, cloddiau, priddoedd, ynghyd â’r rhywogaethau a’r cynefinoedd y maent yn eu cynnal. Lle mae safleoedd wedi’u diogelu am eu pwysigrwydd cadwraeth natur, ni cheisir cloddio ymlaen llaw - yn wir, mae’n annhebygol iawn y byddai unrhyw fath o gloddio mwynau yn cael ei ganiatáu mewn amgylchiadau o’r fath.

5.222 Bydd y Cyngor yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar ofynion cloddio ymlaen llaw, gan ystyried y materion a amlinellwyd yn y paragraff uchod, ynghyd â natur a maint y cynnig datblygu.

5.223 Ychydig iawn o ddyraniadau CDLl sydd o fewn yr adnodd mwynau a ddiogelir. Yn yr amgylchiadau prin lle maent yn digwydd, byddant yn cael blaenoriaeth dros y gofyniad diogelu. Yn yr achosion hyn, bydd yn ofynnol cloddio’r adnodd mwynau ymlaen llaw lle bo’n briodol i hyn ddigwydd.

5.224 Bydd y Canllawiau Arfer Da ar y testun hwn a baratowyd ar gyfer CDLl 1 yn cael eu hadolygu a’u hail-gyhoeddi ar gyfer CDLl 2.

**GN 39 Agregau Eilaidd a Mwynau Gwastraff wedi'u Hailgylchu**

Caniateir cynigion i ddefnyddio agregau eilaidd a mwynau gwastraff wedi'u hailgylchu fel (gan gynnwys defnyddio deunyddiau adeiladu yn deillio o ddymchwel) lle bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae maint y gweithrediad yn briodol i'r ardal lle canfyddir y deunydd crai;
2. Lle cynigir safle unigol i ymdrin â gwastraff a ddaw o fwy nag un lleoliad, mae'r safle hwnnw, lle bynnag y bo'n bosibl, wedi'i leoli'n dda mewn perthynas â deunyddiau crai;
3. Caiff y cynnyrch gwastraff a'r agregau eilaidd eu cludo ar reilffordd neu ar ddŵr lle bynnag y bo'n ddichonadwy; ac
4. Mae darpariaeth ar gyfer tirweddu, gwarchod dŵr daear, defnydd buddiol dilynol, gwaith adfer a rheoli'r safle ar ôl iddo gau, gan gynnwys, lle bynnag y bo'n bosibl, manylion adfer y safle yn gynyddol.

5.225 Mae polisi cynllunio Cymru yn datgan yn glir, ei bod yn well defnyddio agregau eilaidd a mwynau gwastraff wedi'u hailgylchu, lle maent ar gael, na chloddio agregau sylfaenol o'r tir neu ddefnyddio agregau wedi'u cloddio o'r môr.

5.226 Gallai meintiau sylweddol o ddeunydd agregau eilaidd fod ar gael o bosibl mewn safleoedd yn ne Cymru, yn enwedig yn Aberddawan ym Mro Morgannwg. Bydd yr hyn sy'n digwydd ar y safle hwnnw ac ar safleoedd diwydiannol mawr eraill yn ne Cymru yn y dyfodol yn ystyriaeth bwysig yng nghyd-destun agregau eilaidd ledled de a gorllewin Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r safleoedd hyn, yn gyffredinol, yn agos iawn at Sir Benfro a bydd y gost o brosesu a chludo'r deunydd i'w ailddefnyddio yn ystyriaeth bwysig.

5.227 Ceir rhai cynhyrchwyr agregau wedi'u hailgylchu a chynhyrchwyr agregau eilaidd yn lleol yn Sir Benfro, ond mae'r rhain yn gweithio ar raddfa fach o gymharu â safleoedd fel Aberddawan. Fodd bynnag, gwnânt gyfraniad lleol at gyflenwi agregau. Mae'r safleoedd lleol hyn wedi'u rhestru mewn Atodiad at y Papur Cefndir ar Fwynau, a chafwyd y wybodaeth o adroddiad blynyddol diweddaraf Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru.

**GN 40 Lleiniau Clustogi o Amgylch Safleoedd Mwynau**

Fel arfer ni chaniateir datblygiadau cloddio mwynau newydd a datblygiadau sensitif newydd o fewn Lleiniau Clustogi o amgylch safleoedd gwaith mwynau, lle gallai defnyddiau o'r fath gael effaith andwyol ar ei gilydd oherwydd eu hagosrwydd.

5.228 Mae angen parhaus i ddiogelu safleoedd chwarel daearol presennol a hefyd y rheiny sy'n defnyddio tir gerllaw at ddibenion eraill. I gyflawni hyn, sefydlwyd lleiniau clustogi chwareli. Gosodir y cyfryw leiniau o amgylch pob gwaith mwynau gweithredol a segur, ac o amgylch safleoedd dyranedig, lle nad yw cynhyrchu wedi dechrau eto. Pe bai Gorchmynion Gwahardd Mwynau yn cael eu cadarnhau ar y safleoedd segur, ni fyddai'r lleiniau clustogi chwarel yn weithredol mwyach. Mae'r lleiniau clustogi wedi'u diwygio i adlewyrchu newidiadau i ffiniau chwareli a gymeradwywyd ers mabwysiadu CDLl 1, ac fe'u dangosir ar y Map Cynigion.

5.229 Mae'r defnydd presennol o'r lanfa tywod a graean yn Noc Penfro wedi'i diogelu hefyd, yn unol â pholisi Cymru.

5.230 Mae'r rhesymau dros ddefnyddio Lleiniau Clustogi Chwarel wedi'u nodi'n fanylach yn y Papur Cefndir ar Fwynau. Mae hwn yn egluro, o fewn y lleiniau hyn, na ddylai fod unrhyw ddatblygiadau cloddio mwynau newydd na datblygiadau sensitif newydd, er y gallai rhai mathau o ddatblygiad llai sensitif fod yn bosibl. Mae eithriad i'r ymagwedd gyffredinol hon lle mae safle'r datblygiad newydd mewn perthynas â'r gwaith mwynau wedi'i leoli mewn ardal adeiledig sydd eisoes yn mynd i mewn i'r llain clustogi, neu ar ben draw ardal adeiledig o'r fath.

5.231 Mae'r pellteroedd lleiaf ar gyfer lleiniau clustogi chwareli wedi'u cofnodi yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 Llywodraeth Cymru - Agregau. Ar gyfer chwareli tywod a graean, y pellter yw 100m, ac ar gyfer chwareli carreg galed mae'n 200m. Nid oes unrhyw weithiau glo gweithredol na segur yn ardal y Cynllun. Mae'r lleiniau clustogi yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol hefyd:

- Maint, math a lleoliad y gweithfeydd;
- Topograffi'r ardal o amgylch;
- Lefelau sŵn a llwch presennol a'r lefelau a ragwelir;
- Dirgryniadau presennol a dirgryniadau a ragwelir yn sgil gweithrediadau ffrwydro a pha gamau lliniaru sydd ar gael; a'r
- Mwyn sy'n cael ei gloddio a natur y gwaith.

## POLISÏAU CYFFREDINOL GWARCHOD EIN HAMGYLCHEDD

### GN 41 Gwarchod Dynodiadau Amgylcheddol Statudol Cenedlaethol

Bydd datblygiad yn safleoedd statudol dynodedig Sir Benfro o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei reoli'n llym er mwyn gwarchod nodweddion pwysig y dynodiad. Mae Dynodiadau Statudol Cenedlaethol yn cynnwys: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol; Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; Safleoedd RAMSAR a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

Rhaid i gynigion datblygu o fewn Dynodiadau Statudol Cenedlaethol ddangos na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y rhywogaeth neu'r nodweddion y mae safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer a

1. Bod y cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â, neu'n angenrheidiol ar gyfer diogelu, gwella a rheoli'r safleoedd yn gadarnhaol at ddibenion cadwraeth; neu

2. Mae'r cynnig datblygu ar raddfa fechan ac fe'i hystyrir yn angenrheidiol i sicrhau rôl y dynodiad fel tirwedd fyw.

O fewn parthau clustogi, bydd datblygiad hefyd yn cael ei asesu o ran ei effaith debygol ar nodweddion neu rywogaethau gwarchodedig y safle gwarchodedig statudol.

Mewn amgylchiadau eithriadol, lle nad oes datrysiad amgen ac y mae'n rhaid ei gyflawni am resymau hanfodol o fudd personol tra phwysig (IROPI), gellir awdurdodi datblygiad er gwaethaf asesiad negyddol o'r goblygiadau, yn amodol ar hysbysu Gweinidogion Cymru.

Bydd cynigion sy'n debygol o gael effaith andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).

5.232 Mae'r polisi yn ceisio gwarchod safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol a ddynodwyd yn statudol. Gwarchodir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC) o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000, Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Nid oes unrhyw Safleoedd RAMSAR yn Sir Benfro. Mae'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn cynnwys: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). O fewn ACA ac AGA ni chaniateir datblygiad oni bai ei fod yn dangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (ac unrhyw ddiwygiadau dilynol).

5.233 Lle cynigir datblygiad a allai gael effaith ar safle dynodedig cenedlaethol, bydd angen gwybodaeth ddigonol gan ymgeiswyr i allu gwneud asesiad llawn o'r effaith debygol ar y safle gwarchodedig a dangos na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y rhywogaethau neu'r nodweddion y dynodwyd y safle ar eu cyfer. Ni fydd yr angen am asesiad o'r fath yn gyfyngedig i ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli o fewn yr ardal ddynodedig

5.234 Gall cynigion sy'n angenrheidiol ar gyfer gwarchod, gwella a rheoli'r safle dynodedig fod yn dderbyniol a gallant gynnwys: darparu mynediad cyhoeddus neu lwybrau teithio llesol, neu gynigion i gyflwyno ymwybyddiaeth addysgol (Gweler Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 6).

5.235 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Pennod 6) yn nodi datblygiadau a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau ei rôl fel tirwedd fyw. Gallai cynigion sy'n angenrheidiol i sicrhau rôl y dirwedd fyw gynnwys:

- datblygiad amaethyddol ar gyfer ysguboriau newydd, storfeydd slyri sydd eu hangen i leihau llygredd neu drawsnewid ysguboriau i gefnogi twristiaeth
- Newidiadau neu estyniadau i anheddau presennol
- Newidiadau neu estyniadau i adeiladau ar safleoedd cyflogaeth

5.236 Lle gallai cynigion datblygu fod yn debygol o achosi aflonyddwch neu niwed i safle gwarchodedig statudol neu ei gynefin, gofynnir am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur.

5.237 Os rhoddir caniatâd cynllunio, gallai fod yn ddarostyngedig i amodau priodol, cytundebau rheoli neu rwymedigaethau cynllunio yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau amddiffyniad, monitro, lliniaru neu ddigolledu priodol a rheolaeth ffafriol.

5.238 **Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd -** O fewn y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, sy'n cynnwys: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), dim ond datblygiad sy'n dangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (Diwygiad) ac unrhyw ddiwygiadau dilynol) a ganiateir.

5.239 Rhaid i gynigion sy'n debygol o gael effaith andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu safleoedd Ramsar fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Caniateir datblygiad sy'n gofyn am HRA dim ond lle gellir penderfynu na fyddai'r cynnig yn arwain at effeithiau andwyol ar rywogaethau neu gyfanrwydd y cynefin neu'r safle, naill ai ar ei ben ei hun, neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

5.240 Gellir caniatáu cynigion hefyd lle mae'r HRA yn profi nad oes unrhyw ddewisiadau eraill, a bod y datblygiad o fudd cyhoeddus tra phwysig (IROPI) a bod mesurau digolledu priodol yn cael eu sicrhau.

**GN 42 Gwarchod Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safle Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol a Dyddodion Mawn**

Caniateir cynigion datblygu a fyddai'n effeithio ar Warchodfeydd Natur Lleol, Safle Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol ac ardaloedd o ddyddodion mawn dim ond lle gellir dangos:

1. Bydd y cynnig yn cadw a, lle bo modd, yn gwella pwysigrwydd amgylcheddol naturiol y safle; neu
2. Ni ellid lleoli'r datblygiad yn rhesymol yn rhywle arall, ac mae buddion y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd amgylcheddol neu dreftadaeth y safle ac unrhyw niwed sy'n debygol o gael ei achosi iddo.

Ym mhob achos, rhaid i gynigion datblygu beidio ag achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth. Bydd angen cytuno ar fesurau lliniaru a/neu ddigolledu lle nad oes modd osgoi effeithiau andwyol.

5.241 Mae rhai safleoedd yn ardaloedd o bwysigrwydd lleol i gadwraeth natur, mae llawer o'r safleoedd hyn yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gorllewin Cymru. Mae'r safleoedd hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fioamrywiaeth, yr amgylchedd lleol ac amwynder. Mae Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) wedi'u dynodi gan Geoconservation Cymru – Wales ac fe'u dangosir hefyd ar y Map Cyfyngiadau. Mae'r safleoedd hyn wedi'u nodi oherwydd eu pwysigrwydd daearegol oherwydd nodweddion gwyddonol, addysgol, hanesyddol ac esthetig y safle.

5.242 Mewn amgylchiadau lle gallai'r angen am ddatblygiad fod yn drech na'r angen i warchod safle penodol, yna bydd yr effaith yn cael ei hosgoi, ei lleihau, a'i lliniaru cyn belled ag y bo modd trwy ddylunio gofalus, amserlennu gwaith neu fesurau eraill (yn unol â'r dull gweithredu fesul cam ym Mholisi Cynllunio Cymru, pennod 6). Lle bydd effeithiau gweddilliol yn parhau, bydd mesurau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer cynefinoedd bywyd gwyllt neu greu cynefinoedd yn digwydd er mwyn sicrhau nad oes colled net yng ngwerth cadwraeth cyffredinol yr ardal neu nodwedd. Lle bo'n briodol, bydd yr awdurdod yn ystyried defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru a/neu ddigolledu priodol. Dylid hefyd archwilio cyfleoedd i ddarparu buddion newydd. Rhaid i gynigion hefyd gynnwys mesurau ar gyfer cynnal a chadw'r safle yn y tymor hwy (gan gynnwys unrhyw gynefinoedd) i sicrhau eu bod yn parhau'n gynaliadwy.

**GN 43 Gwarchod Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd**

Caniateir datblygiad dim ond lle nad yw'n achosi niwed annerbyniol i goed, coetiroedd a gwrychoedd o seilwaith gwyrdd sylweddol, gwerth ecolegol, neu werth o ran amwynder cyhoeddus neu werth diwylliannol. (Bydd coed hynafol yn arbennig yn cael eu hamddiffyn lle bynnag y bo modd).

Bydd coetir hynafol, a nodir ar y map cyfyngiadau, yn cael ei warchod rhag unrhyw ddatblygiad a fyddai'n achosi effaith andwyol oni bai bod budd cyhoeddus tra phwysig.

Dylai pob cais cynllunio gynnwys arolwg coed lle mae coed yn bresennol ar y safle.

Bydd cynigion datblygu, lle bo'n briodol yn:

1 Cyfrannu at warchod coetiroedd ac ymylon coetir;

2 Hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy, gan osgoi effaith andwyol ar goed, coetiroedd a gwrychoedd;

3 Gwneud pob ymdrech i gadw, diogelu ac integreiddio coed, coetiroedd a gwrychoedd presennol a blaenoriaethu'r rhai sydd â'r gwerth mwyaf a'r cyflwr gorau o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu trwy ddylunio cynllun safle iteraidd, sy'n osgoi effeithiau posibl.

4 Plannu coed tebyg wrth golli coed, coetir a gwrychoedd, er mwyn sicrhau cynnydd cyffredinol mewn gorchudd coed. Yn ddelfrydol dylai hyn fod o fewn, neu gerllaw'r safle. Lle bo'n ymarferol, dylid ystyried trawsleoli ar gyfer gwrychoedd yr effeithir arnynt.

5 Cadw'r effeithiau posibl ar goed, coetiroedd a gwrychoedd sy'n cael eu colli i'r lleiaf posibl trwy ddylunio, datganiadau dull a mesurau diogelu ar gyfer safleoedd penodol.

6 Darparu lle ar gyfer y cyfaint gwreiddio o fewn cynllun y safle ac mewn perthynas â defnyddiau tir cyfagos, i alluogi twf iach coed, coetiroedd a gwrychoedd presennol a rhai sydd newydd eu plannu i aeddfedu ac i osgoi colled posibl yn ystod oes y datblygiad;

7 Rheoli coed, coetiroedd a gwrychoedd presennol i wella eu cyflwr o fewn ac ar ffiniau'r safle; a

8 Plannu mwy o goed, coetiroedd a gwrychoedd sy'n briodol i'r safle a fydd yn sicrhau manteision seilwaith gwyrdd.

5.243 Mae'r polisi hwn hwn yn darparu arweiniad manwl ar ystyried cynigion sydd â'r potensial i effeithio ar goed, coetir a gwrychoedd presennol ac i arwain y gwaith o integreiddio plannu o fewn datblygiadau newydd. Pwrpas y polisi yw gwarchod coed, coetiroedd a gwrychoedd. Mae eu cyfraniad o fewn y ffurf drefol yn cael ei gydnabod yn arbennig. Gallant helpu i ymdrin â llygryddion aer, llifogydd, a llygredd sŵn, a darparu nifer o fanteision eraill gan gynnwys darparu cysgod ac amwynder gweledol. Maent hefyd yn darparu ardaloedd helaeth o gynefin i fywyd gwyllt, yn enwedig coed aeddfed.

5.244 Dylai datblygiadau newydd sicrhau bod coed, coetiroedd, perllannau traddodiadol a gwrychoedd o werth cydnabyddedig yn cael eu cadw, eu

gwella a'u rheoli'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn disgwyl bod coed, coetiroedd a gwrychoedd sylweddol yn cael eu cadw, a'u diogelu ac ochr yn ochr â chynigion datblygu ac felly'n cael dyraniad priodol o le i ganiatáu datblygiad naturiol nodweddiadol a dirwystr. Lle bo'n bosibl, dylid cadw coed amwynder a choed o faint mawr a'u hymgorffori mewn mannau agored cyhoeddus.

5.245 Rydym yn ystyried bod cadw coed a phlannu rhai newydd ychwanegol yn rhan bwysig o greu cymunedau cydlynol ac iach o fewn cyd-destun gwledig a thirwedd werthfawr a bioamrywiol. Dylai pob cais cynllunio gynnwys arolwg coed lle mae coed yn bresennol ar y safle. Dylai hyn gynnwys mesurau amddiffyn, lliniaru a rheoli. Rhaid gweithredu mesurau rheoli hirdymor a thymor byr priodol i ddiogelu coed, coetiroedd a/neu wrychoedd sydd newydd eu plannu a rhai sy'n bodoli eisoes.

5.246 Dylai coed newydd a blannwyd fod o rywogaeth sy'n frodorol i'r safle, ac o aeddfedrwydd sy'n briodol i'r safle i foddhad y Cyngor. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd wneud pob ymdrech resymol i gadw nodweddion presennol, ac felly dylid ystyried bod eu cadw (lle bo'n briodol) yn rhan annatod o ddyluniad safle'r datblygiad arfaethedig o'r cychwyn cyntaf. Lle nad oes modd osgoi colled, dylai plannu i wneud iawn am y coed a gollwyd fod yn gymesur â'r golled a nodwyd yn yr asesiad coedyddiaeth a rhoi ystyriaeth i aeddfedrwydd ac ansawdd, pwysigrwydd amgylcheddol ac ecolegol y coed a gollwyd. Gweler PCC (Pennod 6) am fanylion pellach.

5.247 Mae Coetiroedd Hynafol yn gynefinoedd unigryw o werth bioamrywiaeth uchel, sy'n darparu cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol yn ogystal â buddion adloniadol ac addysgol ac, fel y cyfryw, byddant yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiad ac effeithiau cysylltiedig a fyddai'n cael effaith andwyol ar y gwerthoedd a'r gwasanaethau a ddarperir.

5.248 Ni all hen goed, treftadaeth, coed hynafol a gwrychoedd hynafol gael eu hail greu ac felly disgwylir i ddatblygiadau ddarparu ar gyfer eu cadw a'u diogelu yn y tymor hir trwy ddarparu'r cliriadau mwyaf posibl o ddatblygiad arfaethedig, mesurau diogelu digonol a chynlluniau rheoli. Ni fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymeradwyo datblygiad sy'n cyflwyno lefel annerbyniol o risg i goed a gwrychoedd o'r fath a'u cynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig.

5.249 Lle bo'n briodol ac yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, bydd Gorchmynion Cadw Coed yn cael eu cyflwyno i ddiogelu coed pwysig o ran amwynderau rhag cael eu symud neu eu niweidio.

5.250 Rhaid rhoi chwe wythnos o rybudd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am waith ar goed mewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae angen hysbysiad ar gyfer gwaith ar goed sydd â boncyff gyda diamedr o fwy na 75mm pan gaiff ei fesur ar 1.5m o lefel y ddaear (neu fwy na 100mm bydd nifer y coed yn cael eu lleihau i helpu coed eraill i dyfu).

**GN 44 Budd Net i Fioamrywiaeth**

Dylai pob cynnig datblygu ddangos agwedd gadarnhaol tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth a dylai hybu cydnerthedd ecosystemau.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caniateir unrhyw ddatblygiad a fyddai’n tarfu ar rywogaethau a warchodir neu eu cynefinoedd neu’n eu niweidio fel arall, neu gyfanrwydd cynefinoedd, safleoedd neu nodweddion eraill sy’n bwysig i fywyd gwyllt a rhywogaethau unigol, pan fydd yr effeithiau’n cael eu lleihau neu eu lliniaru trwy ddyluniad manwl. amserlennu gwaith neu fesurau priodol eraill.

Rhaid i bob cynnig datblygu gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd i ddangos budd net i fioamrywiaeth yn unol â’r dull cam-doeth.

5.251 Nod y polisi yw sicrhau bod rhywogaethau a'u cynefinoedd yng nghefn gwlad ac amgylcheddau trefol yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau andwyol posibl datblygiad, a lle bo'n bosibl eu bod yn cael eu gwella. Mae hefyd yn cynnwys gofyniad i warchod, cynnal a lle bo modd ymestyn coridorau cysylltedd ecolegol a chynefinoedd ‘carreg sarn’, megis ymylon ffyrdd, gerddi, afonydd a mannau gwyrdd er mwyn diogelu bioamrywiaeth a chynefinoedd ac atal eu darnio a/neu ynysu rhywogaethau. . Fel y cydnabyddir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Chymru’r Dyfodol, dylid ystyried y buddion lluosog y mae ecosystemau’n eu cynnig i gymdeithas, gan gynnwys y cyfraniad economaidd a chymdeithasol a wnânt i ardaloedd lleol, wrth gydbwyso a gwella’r anghenion hyn.

5.252 Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r polisi wrth wraidd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro (CGBLl), y Cynllun Adfer Natur a'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r CGBLl yn nodi rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gynnal a gwella’r rhywogaethau a’r cynefinoedd a restrir yn atodiadau’r Cynllun Adfer Natur. Gall effeithiau andwyol posibl gynnwys tarfu ar rywogaethau a chynefinoedd cyn, yn ystod a/neu ar ôl adeiladu, neu effeithiau cronnol datblygiad, er enghraifft, effeithiau sŵn, golau neu draffig annerbyniol.

5.253 Bydd cynigion cynllunio sy’n effeithio ar safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, fel y dangosir ar y Map Cyfyngiadau, yn cael eu hasesu yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, gan weithio gyda rhanddeiliaid ac ymgyngoreion statudol, a defnyddio ffynonellau data priodol megis LANDMAP, Mapiau Safleoedd Gwarchodedig, Cynlluniau Rheoli Craidd safleoedd perthnasol y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, data Arolwg Cynefinoedd Cam 1 a chronfa ddata geodata o gofnodion rhywogaethau a gwybodaeth am gynefinoedd Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

5.254 Bydd cynigion datblygu a allai gael effaith andwyol ar safleoedd pwysig yn gofyn am asesiad manwl cyn symud ymlaen. Bydd cynigion datblygu (ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynigion a phrosiectau eraill) sy’n debygol o

gael effaith sylweddol ar Rwydwaith Safle Cenedlaethol neu rywogaethau yn destun Asesiad Priodol (gweler adran 5.3 Nodyn Cyngor Technegol 5 Llywodraeth Cymru: Cadwraeth Natur a Chynllunio, 2009) o'r goblygiadau mewn perthynas ag amcanion cadwraeth y safle.

5.255 Dylai gwelliannau i fioamrywiaeth fod yn gymesur â maint a natur y datblygiad arfaethedig a disgrifio sut mae seilwaith gwyrdd wedi'i ymgorffori yn y cynnig. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) yn disgrifio'r budd net i fioamrywiaeth fel a ganlyn: "Budd net i fioamrywiaeth yw'r cysyniad y dylai datblygiad adael bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau mewn cyflwr llawer gwell nag o'r blaen, trwy sicrhau ar unwaith ac yn y tymor hir, budd mesuradwy ac amlwg, yn bennaf ar y safle neu'n union gerllaw iddo" (paragraff 6.4.5). Mae hefyd yn cyfeirio at safonau Adeiladu gyda Natur sy'n cynrychioli cyngor rhagweithiol da i ddatblygwyr i wella ansawdd cynlluniau a dangos rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

5.256a Bydd yn ofynnol i bob cais gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd i ddangos gwelliant mewn bioamrywiaeth, darparu budd net o'r cyflwr gwaelodlin a dangos y dilynwyd dull cam-doeth, fel yr amlinellir yn Adran 6.4 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12).

5.256b Dylai'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd amlygu unrhyw ddyddiad gwaelodlin ac arolygon a gynhaliwyd mewn perthynas â chynefinoedd a rhywogaethau ar y safle; er enghraifft, yn ymwneud â choedyddiaeth, draenio cynaliadwy, tirwedd ac ecoleg, darpariaeth mannau agored a gwyrdd a chysylltiadau teithio llesol. Mae'r dull cam-doeth yn gofyn yn gyntaf i osgoi effeithiau andwyol, yna eu lleihau, eu lliniaru ac fel y dewis olaf i wneud iawn amdanynt.

5.256c Rhaid sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth yn bennaf ar y safle neu'n union gerllaw iddo a gall gynnwys plannu coed neu wrychoedd brodorol, toeau gwyrdd, dolydd blodau gwyllt neu laswelltir ar gyfer bywyd gwyllt neu greu gwlyptir. Ar gyfer datblygiadau ar raddfa fwy, gall mesurau tirwedd ehangach gynnwys creu dolydd llawn rhywogaethau, ehangu coetiroedd a gwella cysylltiadau rhwng seilwaith gwyrdd presennol.

5.256d Mae paragraff 6.4.12 Polisi Cynllunio Cymru yn datgan "Lle na chynigir gwella bioamrywiaeth sy'n gymesur â graddfa a natur y datblygiad fel rhan o gais, rhoddir pwysau sylweddol i'w absenoldeb, ac oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill o bwys yn nodi fel arall, bydd angen gwrthod caniatâd."

**GN 45 Seilwaith Gwyrdd**

Bydd angen datblygiad i ddangos effaith gadarnhaol ar rwydwaith Seilwaith Gwyrdd y sir trwy warchod, gwella a rheoli, neu ddarparu Seilwaith Gwyrdd newydd sy'n cryfhau'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a'i gysylltedd drwy:

i) Integreiddio seilwaith gwyrdd mewn cynigion datblygu;
ii) Hyrwyddo rhyng-gysylltedd seilwaith gwyrdd i'r eithaf o fewn ac o amgylch y safle a chysylltiadau â'r rhwydwaith ecolegol ehangach; a
iii) Hyrwyddo aml-swyddogaeth seilwaith gwyrdd i'r eithaf

Bydd yn ofynnol lliniaru unrhyw seilwaith gwyrdd a gollir mewn modd derbyniol, ac efallai y gofynnir am gyfraniadau (gweler polisi GN 3).

5.256 Asedau Seilwaith Gwyrdd yw mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth y sir, cadwraeth natur, nodweddion unigryw ac ymdeimlad o le, ac mae'n cefnogi llesiant ymwelwyr a thrigolion drwy eu mwynhad o fannau ar gyfer natur, hamdden neu chwaraeon. Mae asedau seilwaith gwyrdd allweddol i'w gwerthfawrogi, eu hamddiffyn a'u gwella yn cynnwys:

1. Cefn gwlad a morlin heb eu datblygu
2. Coridorau afon
3. Safleoedd bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth wedi'u dynodi'n genedlaethol ac yn rhyngwladol
4. Coed, coetiroedd, cloddiau a pherthi
5. Parciau, caeau chwarae, mannau agored hamdden ac amwynder (gweler GN 51 Gwarchod a Chreu Ardaloedd Hamdden Awyr Agored a GN 52 Gwarchod Mannau Agored sydd â Gwerth o ran Amwynder)
6. Darpariaeth Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy
7. Atebion seiliedig ar natur i leddfu llifogydd a gwella ansawdd dŵr;
8. Llwybrau teithio llesol, yn cynnwys llwybrau troed, traciau beicio a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus
9. Ymylon ffyrdd;
10. Rhandiroedd, gerddi cymunedol a thoeon gwyrdd
11. Safleoedd Hanesyddol

5.257 Nod y polisi hwn yw cadw a gwella rhwydwaith mannau naturiol a lled-naturiol 'Seilwaith Gwyrdd' o fewn y sir. Dylai seilwaith gwyrdd fod yn amlswyddogaethol a gall ateb ystod eang o ddibenion. Mae manteision seilwaith gwyrdd yn cynnwys lleihau effaith newid hinsawdd, gwella a gwarchod rhwydweithiau ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth a chynefinoedd ar gyfer cysylltedd rhywogaethau, chwaraeon a hamdden, gwelliannau i iechyd a llesiant sy'n cyfrannu at greu lleoedd.

5.258 Lle caniateir datblygiad, bydd amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio yn cael eu defnyddio i warchod neu wella'r rhwydwaith seilwaith

gwyrdd. Dylai datblygiadau newydd sicrhau nad yw cysylltedd yn cael ei golli na’i ddarnio, a gall fod yn ofynnol darparu seilwaith gwyrdd newydd o faint, math a lleoliad priodol. Fel arall, gall fod angen lliniaru a digolledu i wrthbwyso effeithiau andwyol datblygiad (gweler GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd). Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi mwy o fanylion am y modd y gweithredir y polisi hwn.

## GN 46 Newid Arfordirol

O fewn ardaloedd rheoli newid arfordirol a nodwyd ar y map cyfyngiadau, caiff datblygiad ond ei ganiatáu lle:

1. Mae'n ddatblygiad sy'n gydnaws â dŵr, seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau hanfodol, ac wedi cyfiawnhau datblygiad sydd dan lai o fygythiad; neu
2. Ni fyddai'n creu datblygiad preswyl newydd, nac yn newid defnydd datblygiad preswyl, yn cynnwys addasu neu ymestyn adeiladau presennol; neu
3. Ni fyddai'n ymestyn eiddo preswyl dosbarth defnydd C presennol.

5.259 Mabwysiedir ymagwedd ragofalus i gyfrif am y potensial ar gyfer newid arfordirol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, ac mae'n eithrio datblygiadau preswyl newydd neu estyniadau i ddatblygiadau preswyl o fewn neu yn rhannol o fewn ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd neu erydu arfordirol. Mae'r map cynigion yn dangos ardaloedd risg o fewn cyfnod y cynllun a thu hwnt, lle na ddisgwylir i amddiffynfeydd môr presennol nac arfaethedig i ddiogelu eiddo.

5.260 Defnyddiwyd data ar gynnydd yn lefel y môr i ddiffinio ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, a dangosir y rhain ar y map cyfyngiadau fel ardaloedd newid arfordirol. Mae'r map cyfyngiadau'n cynnwys Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) Cyfoeth Naturiol Cymru . Mae hyn yn cynnwys haenau o'r enw 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Parthau a Amddiffynnir TAN 15 a 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Parthau Llifogydd 2 a 3'. Mae angen edrych ar yr haenau hyn gyda'i gilydd ac mewn cyfuniad i ddiffinio'r hyn y mae'r Cynllun hwn yn cyfeirio ato fel yr 'ardaloedd rheoli newid arfordirol' – ond nodi mai dim ond elfen 'môr' Parthau Llifogydd 2 a 3 sydd angen ei hystyried yn yr achos olaf

5.261 Nod yr ymagwedd yw lleihau perygl i gymunedau presennol ac eiddo dan fygythiad, yn ogystal â diffinio ardaloedd lle mae eiddo yn debygol o fod mewn perygl yn y dyfodol. Ni ddylid caniatáu i ddatblygiad dan fygythiad ddigwydd mewn ardaloedd lle mae llifogydd, llifogydd o'r môr neu erydu arfordirol yn debygol o ddigwydd yn ystod oes yr eiddo. Mae oes yr eiddo yn ystyriaeth allweddol a bydd ardaloedd wedi'u mapio bob amser yn cael eu hystyried i fod mewn perygl dros y tymor hir, sydd at ddibenion y Cynllun hwn yn cael ei gymryd i fod yn berthnasol i ddigwyddiad llifogydd 1 mewn 100 mlynedd

5.262 At ddibenion y polisi hwn, mae datblygiad preswyl yn cynnwys pob cynnig sy'n ymwneud â dosbarth defnydd C.

### GN 47 Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr

Caniateir cynigion lle nad ydynt yn cael effaith andwyol ar adnoddau dŵr, ansawdd dŵr, pysgodfeydd, elfennau o gadwraeth natur, mynediad cyhoeddus, neu ddefnydd hamdden cysylltiedig â dŵr yn ardal y Cynllun.

Rhaid i gynigion datblygu wneud defnydd effeithlon o adnoddau dŵr a, lle y bo'n bosibl, gyfrannu at wella ansawdd dŵr drwy:

1.Rhaid ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) mewn cynigion datblygu; a2. Diogelu cyrsiau dŵr trwy glustogfeydd neu goridorau ecolegol, yn gwarchod agweddau megis cynefinoedd a rhywogaethau glannau afon, yn cynnal ac os yn bosibl gwella ansawdd dŵr; a

3. Sicrhau darpariaeth o gapasiti gorlifdir.

Dim ond os gellir dangos nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol sensitif i ffosfforws y caniateir datblygiad. Yn y dalgylch hydrolegol a ddynodwyd ar gyfer ACAau afonol, bydd angen i ddatblygiadau sy'n creu gollyngiadau dŵr gwastraff ddangos bod capasiti o fewn terfynau'r drwydded amgylcheddol a osodir yn y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff y mae'n draenio iddo, gan ystyried egwyddorion cyfran deg o fewn y dalgylch y mae'r Gwaith yn arllwys iddo.  Lle mae tystiolaeth yn dangos y gellir osgoi neu wrthbwyso effeithiau andwyol ar gyfanrwydd ACA afon drwy ddefnyddio mesurau lliniaru, rhaid cytuno ar y mesurau lliniaru arfaethedig gyda'r Cyngor.

Efallai y bydd angen ystyried nodweddion eraill ansawdd dŵr afonydd hefyd.

5.263 Mae dŵr fel adnodd yn hynod werthfawr ac mae materion fel llygryddion, atal llifogydd, dŵr daear a diogelu a gwella ecosystemau dyfrol i gyd yn ystyriaethau pwysig a adlewyrchir gan ddeddfwriaeth a chanllawiau. Mae Rheoliadau Amgylchedd Dŵr 2017 yn nodi'r gofynion mewn perthynas â'r amgylchedd dŵr a dylid rhoi ystyriaeth lawn i'w gynnwys wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr ac iechyd ecolegol afonol.  Rheolir perygl llifogydd o ddŵr drwy Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, 2010, sy'n ymdrin â materion fel y defnydd o SDCau ac ymatebion i ddiffyg adnoddau dŵr, er enghraifft oherwydd sychder.

5.264 Gall llygredd dŵr ac ansawdd dŵr gwael o ganlyniad fod o ffynhonnell un pwynt (ee gollyngiad gwaith trin dŵr gwastraff), neu o ffynonellau gwasgaredig, o ddefnydd tir amaethyddol a threfol. Mae'r WFD wedi rhoi'r cyfle i weithio gyda sefydliadau partner, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru, i gydnabod yr angen i wella'r amgylchedd dŵr cyfan a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr er budd pobl a bywyd gwyllt. Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon (RBMP) wedi'u paratoi sy'n nodi amcanion a safonau amgylcheddol, a rhaglen o fesurau y gellir eu cyflawni.

5.265 Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn gyfrifol am gyflenwi a thrin dŵr yn y Sir. Mae DCWW yn parhau i ateb y galw cynyddol am wasanaethau

carthffosiaeth trwy fecanweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol, a buddsoddiad mewn cyflenwad / galw fel y nodir yn y Rhaglen Rheoli Asedau (AMP) a rhaglenni buddsoddi tebyg eraill. Bydd y buddsoddiad AMP yn helpu i gefnogi twf ac adfywio yn y dyfodol a gynigir gan y CDLl hwn mewn rhai lleoliadau.

5.266 Mae ystyried yr amgylchedd yn elfen allweddol o'r cysyniad datblygu cynaliadwy. O ystyried bod effaith dyraniadau ac ymrwymiadau'r Cynllun eisoes wedi'u hystyried gan yr Awdurdod a'r gallu i'w cyflawni wedi'i sefydlu, y cyfan y mae'r polisi hwn yn ei ddarparu yw modd i archwilio materion ar lefel prosiect neu gais fesul safle, fel y bo'n briodol. Mae'r polisi hwn yn ceisio rhoi modd i'r Awdurdod ystyried rhinweddau cynigion a gyflwynir o fewn cyfnod y Cynllun nad ydynt wedi'u nodi'n benodol yn y Cynllun.

5.267 Gellir gwella ansawdd dŵr trwy fesurau megis dylunio, adeiladu a gweithredu systemau carthffosiaeth yn effeithiol, defnyddio seilwaith gwyrdd fel gwlyptiroedd neu fannau gwyrdd i liniaru llifogydd, a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau). Gall mesurau o'r fath hefyd ddod â manteision ehangach megis gwella bioamrywiaeth a lliniaru llifogydd. Gall hyrwyddo arfer amaethyddol da a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy hefyd gyfrannu at wella ansawdd dŵr. Lle bo'n briodol ac yn berthnasol i'r system gynllunio, mae'r cynllun hwn yn nodi mesurau y gellir eu datblygu. Cyfeirir at adfer fel un o egwyddorion allweddol Rheoliad yr Amgylchedd Dŵr 2017, megis y defnydd o beirianneg werdd i adfer cyflwr naturiol a gweithrediad y system afonydd trwy gael gwared ar geuffosydd i helpu i gefnogi bioamrywiaeth, hamdden, rheoli llifogydd a datblygu tirwedd.

5.268 Lle bynnag y bo modd, dylai cynigion geisio ymgorffori technegau cadwraeth dŵr gan gynnwys cynaeafu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr llwyd.

5.269 Mae gofynion cyflenwad dŵr Sir Benfro yn cael eu bodloni yn y rhan fwyaf o achosion gan Dŵr Cymru Welsh Water, er bod rhai adeiladau yn cael eu gwasanaethu gan systemau preifat. Mae ardal y Cynllun yn bennaf o fewn Parth Adnoddau Dŵr Sir Benfro. Daw mwyafrif y cyflenwad dŵr o Waith Trin Dŵr Bolton Hill. Daw’r dŵr o afonydd Cleddau Ddu a Chleddau Wen, trwy Bont Canaston a Crowhill yn y drefn honno. Porthiant Pont Canaston yw’r mwyaf pwysig ac fe'i cyflenwir trwy ollyngiadau dŵr o gronfa ddŵr Llys-y-Frân. Roedd yna ddiffyg sylweddol o gyflenwad yn erbyn y galw yn Sir Benfro, a oedd angen rheoli’r galw, a nodwyd gan Gynllun Rheoli Adnoddau DCWW, 2019. Mae Cynllun Rheoli Adnoddau drafft DCWW ar gyfer 2024 (heb ei gwblhau eto) hefyd yn cyfeirio at y risg yn y cyflenwad. Fodd bynnag, mae’r Cynllun mwy diweddar hwn yn cyfeirio at brif bibell gyswllt wedi’i huwchraddio o gronfa ddŵr Llys-y-Frân i Waith Trin Dŵr Preseli, a gwblhawyd yn gynnar yn 2023. Mae hefyd yn cyfeirio at gyflwyno Cynllun Pont Canaston yn gyflymach, drwy osod datrysiad dros dro i gwtogi ar y dŵr sy’n cael ei dynnu i lawr o gronfa ddŵr Llys-y-Frân. Mae Parth Adnoddau Dŵr Sir Benfro bellach yn cael ei ystyried yn ddigon cadarn i wrthsefyll digwyddiad o sychder 1 mewn 200 mlynedd heb fod angen gorchmynion sychder brys. Mae ffynonellau cyflenwadau dŵr eraill yn y Sir yn ychwanegol at y rhai a grybwyllwyd uchod, gan gynnwys dyfrhaenau dŵr

daear amrywiol sy'n cael eu diogelu rhag halogiad trwy ddefnyddio Parthau Gwarchod Tarddiad.

5.270 Dylai datblygiad geisio cysylltu â'r prif rwydwaith seilwaith dŵr gwastraff presennol yn y lle cyntaf. Yn eithriadol, ar gyfer cynigion datblygu lle nad yw'n ymarferol cysylltu â gweithfeydd trin dŵr gwastraff cyhoeddus (GTDG), byddai angen i'r cynigydd gyfiawnhau pam nad yw cysylltiad yn ymarferol a dangos cydymffurfiaeth â Chylchlythyr LlC 008/2018 a chanllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cysylltiadau â gweithfeydd / systemau trin dŵr preifat.

5.271 Rhaid i gynigion datblygu newydd sy'n rhoi pwysau ar gapasiti'r cyflenwad dŵr presennol a'r seilwaith trin dŵr a charthffosiaeth sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol yn ei le i wasanaethu'r hyn a gynigir, neu sydd wedi'i raglennu i'w gyflawni, yn ddigonol, er enghraifft trwy ei gynnwys mewn rhaglen AMP a fabwysiadwyd neu debyg. Mae'r pwysau cynyddol ar y seilwaith ac ar natur yn ystyriaeth bwysig a disgwylir i gynigion datblygu newydd ddangos bod cadwraeth adnoddau dŵr a diogelu ansawdd dŵr wedi'u hystyried a bod darpariaeth briodol wedi'i gwneud i ymdrin ag unrhyw faterion a nodwyd.

5.272 Mae ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol i ddatblygiadau newydd lle mae potensial i gynnydd mewn maetholion (ffosfforws a / neu nitrogen), yn enwedig oherwydd gollyngiadau dŵr gwastraff a newidiadau defnydd tir, gael effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Cleddau ac Afon Teifi, yn unol â Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd).

5.273 Mae mwy o ddatblygiad a chysylltiadau yn y pen draw yn golygu cynhyrchu mwy o faetholion. Mae gan Dŵr Cymru Welsh Water gyfrifoldeb i reoli'r llwythi sy'n cyrraedd afon neu nant yn dilyn arllwysiad ar ôl ei drin o waith trin dŵr gwastraff. Mae'r polisi hwn yn ceisio rheoli gollyngiadau dŵr gwastraff sy'n deillio o ddatblygiadau newydd i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd) a chyfyngiadau hysbys WWTW. Mae'n berthnasol i bob rhan o gwrs dŵr o fewn yr ACA afonol, gan gynnwys yr afonydd a'u llednentydd, yn Sir Benfro.

5.274 Ym mis Ionawr 2021, gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) safonau ffosfforws wedi'u diweddaru ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) afonol. Cafwyd diweddariadau pellach i fanylion y safonau hynny ers hynny. Yn Sir Benfro, canfu profion cydymffurfio a gynhaliwyd gan CNC fethiant i fodloni'r safonau newydd hyn yn nalgylchoedd Afon Cleddau ac Afon Teifi.

5.275 Mae Byrddau Rheoli Maetholion wedi'u sefydlu ar gyfer dalgylchoedd afonydd Afon Teifi ac Afon Cleddau. Mae'r rhain, ynghyd â Bwrdd Rheoli Maetholion pellach ar gyfer Afon Tywi (yn Sir Gaerfyrddin) bellach yn cael eu rheoli'n gyffredin ac mae gweithgareddau tri Bwrdd Rheoli Cenedlaethol gorllewin Cymru yn cael eu cydgysylltu. Mae'r tri Bwrdd hyn yn trefnu ac yn hwyluso'r gwaith o ddarparu atebion hirdymor ar gyfer dalgylchoedd cyfan, er mwyn ymdrin â'r mater o ormod o ffosfforws mewn afonydd, a gynhyrchir o weithgareddau presennol a defnyddiau tir yn y dalgylch ehangach, ac i nodi

mesurau sy'n ceisio cyflawni buddion ehangach a gostyngiadau net ar draws y dalgylch. Mae'r mesurau hyn y tu allan i gwmpas y CDLl ond maent yn bwysig o ran cael dull cadarn o leihau ffosfforws yn ACA afonol Sir Benfro. Os bernir bod angen, bydd Cyngor Sir Penfro yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r polisïau a'r dulliau lliniaru a nodwyd ac i ymhelaethu ymhellach ar rôl cytundebau cyfreithiol a106, gan gynnwys cyfraniadau datblygwyr, yn y maes pwnc hwn.

5.276 Mae materion sy'n ymwneud â thynnu dŵr a chyflenwadau dŵr yn gyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cwmnïau dŵr yn y lle cyntaf (yn Sir Benfro, Dŵr Cymru). Fodd bynnag, mae'r CDLl yn ystyried y materion hyn, yng nghyd-destun diogelu dyfrhaenau a sicrhau, hyd y gellir gwybod, bod capasiti yn y rhwydwaith cyflenwi a dosbarthu dŵr i wasanaethu cynigion datblygu newydd.

5.277 Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio ac ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water ar gynigion datblygu yn y dyfodol, yn enwedig (ond nid yn gyfan gwbl) y rhai o fewn ac yn agos at goridorau afonydd ac aberoedd. Dylai darpar ddatblygwyr geisio cyngor a chaniatâd CNC pan fo hynny'n briodol/angenrheidiol.

5.278 Dylid ymgorffori byffer priodol ger glannau afon a / neu nant mewn unrhyw gynigion i warchod ac annog bioamrywiaeth leol. Y gofyniad yn gyffredinol yw byffer o 8 metr ar bob ochr i'r sianel lle mae cynigion yn ymwneud â phrif afon, a 7 metr ar bob ochr i'r sianel lle mae cynigion yn ymwneud â chwrs dŵr cyffredin. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen caniatâd neu drwyddedau ychwanegol ar gyfer gweithgarwch ger cyrsiau dŵr, gan gynnwys Trwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd (FRAP) gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar brif afonydd a/neu Ganiatâd Amddiffyn rhag Llifogydd gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ar gyrsiau dŵr cyffredin.

### GN 48 Lletemau Glas

Er mwyn atal aneddiadau rhag cyfuno, mae Lletemau Glas wedi eu dynodi yn y lleoliadau canlynol:

- Hwlffordd / Cryndal
- Hwlffordd / Pont Fadlen (dwyrain)
- Hwlffordd / Pont Fadlen (gorllewin)
- Hwlffordd / Portfield Gate
- Neyland / Llanstadwel
- Abergwaun / Wdig
- Abergwaun / Y Dref Isaf
- Penfro / Doc Penfro
- Dinbych-y-pysgod / Penalun

Mae'r rhain yn ardaloedd o bwys arbennig o ran cynnal hunaniaeth arbennig cymunedau gwahanol. O fewn y Lletemau Glas bydd rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygu amhriodol

5.279 Mae swyddogaeth bwysig i'r Lletemau Glas o ran cynnal tirwedd Sir Benfro a chadw ei natur agored. Mae tir ar ymyl yr Aneddiadau Trefol a Thref Wledig dan fygythiad gan bwysau datblygu, a gall hyn yn ei dro droi ardaloedd gwledig yn drefol, cyfuno aneddiadau a cholli mannau gwyrdd o bwys a seilwaith gwyrdd (gweler Polisi 43-45). Nod y polisi hwn yw nodi a diogelu'r cyfryw ardaloedd sydd dan fygythiad datblygu amhriodol, fel y diffiniwyd mewn polisi cenedlaethol, gyda chynigion datblygu wedi eu penderfynu'n unol â pharagraffau 3.64-3.78 Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 (2021).

5.280 Mae manylion penodol pob un o'r dynodiadau ym Mhapur Cefndir y CDLl 'Lletemau Glas' 2022. Dangosir graddfa ofodol y dyraniadau Lletemau Glas ar Fap Cynigion y CDLl.

**GN 49 Tirwedd**

Bydd yn ofynnol i bob cynnig

i) Fod wedi'i integreiddio'n dda i'r dirwedd o ran maint, lleoliad a dyluniad, a chael effaith weledol dderbyniol mewn perthynas â phriodweddau a nodweddion y dirwedd; a

ii) Liniaru'n dderbyniol unrhyw effaith ar dirweddau gwarchodedig, tirweddau hanesyddol cofrestredig, parciau a gerddi.

Bydd yn ofynnol i gynigion sy'n debygol o gael effaith weledol sylweddol neu effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd i ddangos sut gellir lliniaru'r datblygiad mewn modd derbyniol.

5.281 Nod y polisi hwn, ochr yn ochr ag SP12 'Cynnal a Gwella'r Amgylchedd' yw sicrhau osgoi effaith niweidiol annerbyniol ar y dirwedd, a chyflawni lliniaru priodol. Mae nodweddion a phriodweddau'r dirwedd yn cynnwys ei phatrwm datblygu, nodweddion a thopograffi, asedau gweledol a synhwyraidd, diwylliannol, daearegol, hanesyddol ac asedau cynefinoedd, a'i chymeriad tirwedd gynhenid. Mae Asesiad Cymeriad Tirwedd ar gyfer ardal y Cynllun wedi'i baratoi fel Canllawiau Cynllunio Atodol i CDLl 2013 a bydd hwn yn cael ei gyflwyno yn dilyn mabwysiadu CDLl 2. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol, wedi iddynt gael eu mabwysiadu, yn ffurfio ystyriaeth berthnasol ar gyfer ystyried cynigion, ochr yn ochr ag unrhyw astudiaeth sensitifrwydd penodol i destun neu ganllawiau.

## GN 50 POLISI WEDI'I DDILEU

5.282 GN50 Cyfiawnhad rhesymedig wedi'i ddileu.

**GN 51 Gwarchod a Chreu Ardaloedd Hamdden Awyr Agored**

A – Mae ardaloedd hamdden awyr agored, sy'n cynnwys mannau cyhoeddus agored, llwybrau hamdden a chyfleusterau hamdden, wedi'u gwarchod.

Caniateir datblygu ar ardaloedd hamdden awyr agored lle:

1. Nad oes gan yr ardal unrhyw werth hamdden cyhoeddus sylweddol; neu
2. Bydd cyfleuster addas arall yn dod yn ei le; neu
3. Bydd y cyfleusterau hamdden yn cael eu gwella trwy ailddatblygu rhan o'r safle

B – Caniateir ardal(oedd) hamdden awyr agored newydd lle bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Mae wedi'i leoli'n dda i wasanaethu anghenion y gymuned; ac
2. Mae o faint, dyluniad a ffurf briodol i ddiwallu anghenion y bobl y bwriedir iddo eu gwasanaethu

Darperir ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r safle / llwybr i'r dyfodol.

5.283 Mae gweithgareddau hamdden yn bwysig i lesiant trigolion Sir Benfro ac ymwelwyr. Caiff lleoedd a chyfleusterau megis parciau chwarae, rhandiroedd, caeau chwarae, parciau a llwybrau beicio a cherdded eu defnyddio gan bobl o bob oed ac maent yn annog ffyrdd iachach o fyw a rhyngweithio cymdeithasol. Mae ardaloedd hamdden awyr agored yn bwysig i'r amgylchedd hefyd gan y gallant gynnal bioamrywiaeth a chyfrannu at y rhwydwaith seilwaith gwyrdd. Nod y polisi hwn yw gwarchod ardaloedd pwysig a gwerthfawr a ddefnyddir at ddibenion hamdden ac adloniant ac annog creu rhai newydd. Caiff ardaloedd hamdden awyr agored sydd dros 0.25 Hectar o ran maint, a'r holl fannau chwarae i blant a leolir mewn Trefi, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth eu nodi yn Asesiad Mannau Agored 2019 ac fe'u dangosir ar y map cynigion.

5.284 Wrth asesu gwerth hamdden ardaloedd awyr agored, dylid ystyried y materion canlynol:

1. Ansawdd y cyfleusterau a'r offer
2. Pa mor amlwg yw'r safle o gartrefi cyfagos, a diogelwch defnyddwyr wrth fynd i'r safle a'i ddefnyddio
3. Cyfraniad y safle at ddarpariaeth leol gyffredinol o ardaloedd hamdden; a
4. Threfniadau rheoli a chynnal a chadw'r safle.

5.285 Rhaid i ailddatblygu ardaloedd hamdden, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u dangos ar y Mapiau Mewnosod, gael eu cyfiawnhau trwy ddangos nad oes gan y safle unrhyw werth hamdden sylweddol, gan ddefnyddio'r materion a restrir uchod. Lle nad yw'r ymgeisydd yn gallu darparu'r cyfiawnhad hwn, bydd yn ofynnol bod cyfleuster arall digonol yn cael ei ddarparu

5.286 Lle mae cyfleuster arall i'w ddarparu, rhaid disgwyl iddo:

- fod wedi'i leoli i ddiwallu anghenion yr un gymuned leol ag a wasanaethwyd gan y cyfleuster blaenorol
- fod o faint ac ansawdd digonol i fod cystal neu'n well na gwerth hamdden y cyfleuster blaenorol
- darparu'r un cyfleuster â'r un blaenorol, neu o fath y cydnabyddir bod prinder ohono yn yr ardal; a
- chynnwys cytundeb ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r safle i'r dyfodol

5.287 Gall fod yn briodol i ganiatáu i ran fach o safle gael ei hailddatblygu at ddibenion eraill os yw cynigion yn cynnwys gwelliant digonol i gyflwr neu ddarpariaeth cyfleusterau hamdden yng ngweddill y safle.

5.288 Cyhoeddodd Fields in Trust ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer Cymru yn Ionawr 2017. Mae 'Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored – Y tu hwnt i'r Safon Chwe Erw' yn amlinellu canllawiau ar gyfer niferoedd ardaloedd chwarae a chwaraeon awyr agored, gan gynnwys caeau chwarae, ardaloedd chwarae â chyfarpar a dynodedig, ardaloedd gemau amlddefnydd a pharciau sglefrio fesul 1,000 o'r boblogaeth, ac mae'n amlinellu canllawiau ar bellteroedd cerdded i'r cyfleusterau hyn. Mae hefyd yn darparu canllawiau ar fan agored anffurfiol. Mae papur cefndir ar Asesiad o Fannau Agored wedi'i baratoi sy'n dynodi mannau agored presennol, rhai ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer aneddiadau mewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol, aneddiadau trefol, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth. Dylid ei ddefnyddio i helpu asesu p'un a oes lefelau darpariaeth derbyniol ar gael i gymunedau.

5.289 Caiff ardaloedd hamdden awyr agored newydd eu hannog. Dylent roi ystyriaeth i'w heffaith ar gymeriad yr ardal, llesiant y gymuned leol, dylent fod o fath sy'n addas ar gyfer patrymau demograffig lleol mewn lleoliadau lle mae modd mynd atynt drwy ddefnyddio amryw fathau o drafnidiaeth.

5.290 Asesir datblygu caeau chwarae ysgolion gan ddefnyddio GN 29 polisi Cyfleusterau Cymunedol.

**GN 52 Gwarchod Mannau Agored sydd â Gwerth o ran Amwynder**

Fel arfer ni chaniateir datblygiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar olwg, cymeriad neu werth amwynder lleol ardaloedd o fannau agored cyhoeddus neu breifat. Dan amgylchiadau eithriadol, lle bydd y cynnig yn sicrhau buddion cymdeithasol a /neu economaidd clir i'r gymuned leol ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd adeiledig, gallai datblygiad gael ei ganiatáu lle mae modd dangos nad oes safle amgen addas ar gael ac nid oes gan y man agored werth sylweddol o ran amwynderau.

5.291 Nod y polisi hwn yw gwarchod man agored sydd iddo werth amwynder lleol, oherwydd ei olwg neu ei gymeriad er enghraifft. Gall mannau o'r fath fod yn erddi, mannau dinesig, mynwentydd, coridorau gwyrdd, seilwaith gwyrdd, a mannau gwyrdd o amgylch adeiladau, meysydd pentref a thir sy'n helpu sefydlu safle ar gyfer anheddiad.

5.292 Er mwyn bod o werth amwynder, nid oes raid i fan agored fod o ddefnydd ffurfiol na bod ar agor i'r cyhoedd, cyhyd â'i fod yn cyfrannu at olwg, cymeriad neu werth amwynder lleol yr anheddiad neu ei safle. Mae lle rhwng adeiladau ac o'u hamgylch yn rhan hanfodol o'r amgylchedd adeiledig ac maent yn aml yn rhoi i anheddiad ei gymeriad nodedig. Yn ogystal, gall bylchau pwysig rhwng grwpiau o adeiladau ar wahân neu fel elfennau o leoliad y dirwedd wneud cyfraniad pwysig.

5.293 Rhaid i gynigion ar gyfer datblygu mannau agored amwynder ddangos na ellir dod o hyd i safle addas arall ar gyfer y datblygiad ac y sicrhawyd fod y golled arfaethedig o fan agored/nodweddion naturiol cyn lleied â phosibl. Rhaid i'r cynnig wneud cyfraniad cymdeithasol neu economaidd clir a chadarnhaol i'r ardal leol a rhaid i unrhyw ddatblygiad ar y man agored amwynder wella'r amgylchedd adeiledig.

5.294 Ceir canllawiau ar lefelau derbyniol ar gyfer y ddarpariaeth mannau awyr agored anffurfiol yng nghyhoeddiad Fields In Trust yn 2017, 'Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored – Y tu hwnt i'r Safon Chwe Erw', a ddefnyddir wrth fynd at gynigion sy'n berthnasol i'r polisi hwn.

**GN 53 Mannau Tyfu Cymunedol**

Bydd datblygu tir ac adeiladau i gefnogi tyfu bwyd (cnydau), gan gynnwys defnydd dros dro, yn cael ei gefnogi, ar yr amod bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

1. Mae’r cynnig o fewn, yn gyfagos i neu â chyswllt da â’r gymuned y byddai’n ei gwasanaethu a gellir cael mynediad cynaliadwy ato trwy ddulliau teithio llesol;
2. Byddai’r cynnig yn cwrdd â’r galw lleol am dyfu cymunedol ac ystyrir bod colli unrhyw fannau agored at ddibenion hamdden neu amwynderau yn dderbyniol;
3. Ni fyddai unrhyw effaith annerbyniol ar gynefinoedd neu rywogaethau a warchodir a gellir cyflawni gwelliant net cyffredinol i fioamrywiaeth;
4. Gellir cadw unrhyw halogiad hysbys neu a amheuir allan o’r gwaith o gynhyrchu bwyd trwy ddefnyddio gwelyau uchel neu fesurau eraill;
5. Byddai'r cynnig yn gwarchod neu'n gwella gwerth hanesyddol neu dreftadaeth y safle neu'r amgylchoedd;
6. Byddai’r cynnig yn cael effaith weledol dderbyniol ar gymeriad a gwerth y dirwedd, neu os yw’r cynnig o fewn dynodiad Lletem Las, byddai cymeriad heb ei ddatblygu a natur agored y tir yn cael eu cadw; a
7. Byddai'r bwriad yn gwarchod mwynder a phreifatrwydd trigolion cyfagos.

5.295 Mewn llawer o achosion gellir tyfu bwyd (cnwd) heb fod angen caniatâd cynllunio. Ond mae yna amgylchiadau pan fo angen caniatâd cynllunio i newid defnydd tir, neu i gyflwyno strwythurau i gefnogi'r fenter tyfu bwyd.

5.296 Mae Mannau Tyfu Cymunedol yn cynnwys perllannau cymunedol, plannu ar hyd strydoedd a gerddi a rhandiroedd cymunedol ac amaethyddiaeth cymunedol (partneriaeth rhwng ffermwyr a thyfwyr).

5.297 Gall tyfu cymunedol helpu i gynyddu bioamrywiaeth, llesiant cymunedol a chyfrannu at leihau milltiroedd bwyd a helpu i liniaru effaith hinsawdd.

5.298 Bydd siediau, twneli polythen, neu gyfleusterau addysgol sydd wedi’u cynnwys mewn cynigion ar raddfa fwy yn cael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau nad ydynt yn creu effaith weledol neu effaith ar gymeriad y dirwedd sy’n niweidiol ac annerbyniol.

5.299 Gall caniatâd dros dro fod yn briodol ar gyfer tir ac adeiladau lle mae defnyddiau eraill yn cael eu cynllunio neu eu dyrannu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

5.300 Efallai y bydd angen arolygon i sicrhau bod y meini prawf uchod yn cael eu bodloni. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw Mannau Tyfu Cymunedol yn cyflwyno pridd halogedig.

**GN 54 Atyniadau Ymwelwyr a Chyfleusterau Hamdden**

A. Caiff cynigion newydd ar raddfa ganolig a mawr ar gyfer atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau adloniant a hamdden masnachol eu caniatáu lle bodlonir y ddau faen prawf canlynol:

1. Mae'r safle wedi'i leoli'n dda mewn perthynas â ffyrdd dosbarth A neu B a/neu, gorsafoedd rheilffordd a/neu lwybrau bysiau; ac

2. Mae'r safle mewn anheddiad neu'n cydffinio'n union ag anheddiad, oni bai bod angen lleoliad cefn gwlad ar y cynnig, ac os felly, rhaid darparu tystiolaeth i gefnogi hyn.

B. Rhaid i atyniadau a chyfleusterau newydd ar raddfa fach i ymwelwyr y tu allan i aneddiadau gyfiawnhau eu lleoliad a dylent ddilyn agwedd ddilyniannol at leoliad, lle mae addasu ac ailddefnyddio adeilad presennol yn cael ei ystyried yn gyntaf, yna tir a ddatblygwyd yn flaenorol, ac yn olaf tir glas.

C. Caniateir estyniadau i'r ardal, neu ddwysáu'r cyfleuster i ymwelwyr, adloniant neu hamdden masnachol, lle byddai maint a natur yr estyniad yn gydnaws â'i leoliad.

Ym mhob achos, rhaid i unrhyw atyniadau a chyfleusterau newydd neu estynedig barchu eu hamgylchedd ehangach yn fawr o ran maint, cymeriad, dyluniad, gosodiad, ymddangosiad, naws am le, ac ati a dylent annog, a lle bo'n briodol alluogi, teithio cynaliadwy.

5.301 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau darpariaeth o ansawdd sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn gyda chynaliadwyedd yn ganolog iddo. Yn unol â'r Polisi Strategol ar yr Economi Ymwelwyr, bydd disgwyl i gynigion ddangos eu bod yn adeiladu ar nodweddion unigryw yr ardal leol drwy'r cynnig y maent yn ei gyflwyno.

5.302 Nod y polisi hwn yw cefnogi atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau hamdden newydd sydd wedi'u lleoli'n dda i wasanaethu trigolion ac ymwelwyr. Dylid lleoli atyniadau i ymwelwyr a chyfleusterau hamdden, lle bo'n ymarferol, mewn lleoliadau hygyrch, a gorau oll os ydynt yn defnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes neu wedi'u lleoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. Ym mhob achos mae'r polisi hwn yn anelu at gynigion o ansawdd uchel sy'n briodol o ran graddfa, dyluniad, cymeriad, gosodiad ac edrychiad sy'n briodol i'r amgylchynau.

5.303 At ddibenion y polisi hwn, cymerir bod y term 'graddfa fach' yn cyfeirio at raddfa daliad domestig neu un fferm ac ym mhob achos bydd yn 0.5 hectar neu lai o ran maint.

**GN 55 Llety â Gwasanaeth a Llety mewn Gwesty**

Caniateir cynigion ar gyfer llety â gwasanaeth neu lety mewn gwesty (ac eithrio llety mewn carafán neu gaban gwyliau) lle:

A. Ar gyfer datblygiadau newydd, un ai:

1) Mae o fewn neu gerllaw Tref, Canolfan Wasanaeth neu Bentref Gwasanaeth; neu

2) Mae'r cynnig ar gyfer addasu annedd presennol, adeilad hanesyddol neu adeilad amaethyddol traddodiadol.

B. Ar gyfer estyniadau i fusnesau presennol:

Rhaid i raddfa math, cymeriad, dyluniad, gosodiad a natur y cynnig, yn cynnwys yr estyniad, fod yn gydnaws â'i leoliad ac yn dderbyniol o ran capasiti'r dirwedd a dylai adlewyrchu a pharchu rôl a swyddogaeth a naws am le yr ardal.

5.304 Mae datblygiad â gwasanaeth yn ymwneud â llety lle y darperir elfen o wasanaeth, megis busnesau gwely a brecwast a gwestai.

5.305 Gall datblygiad â gwasanaeth fod yn briodol naill ai pan fydd o fewn neu gerllaw anheddiad neu lle mae'n defnyddio annedd presennol. Mae'r cyfiawnhad rhesymedig dros Bolisi GN 13 Datblygiadau Preswyl yn pennu amgylchiadau pan fyddai addasu adeiladau hanesyddol yn dderbyniol at ddefnydd preswyl. Gallai adeiladau amaethyddol traddodiadol, o'u haddasu, hefyd fod yn briodol ar gyfer datblygiad hunanddarpar neu â gwasanaeth. Mae Polisi GN 34 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol yn pennu meini prawf ar gyfer addasu neu newid defnydd adeiladau amaethyddol.

5.306 Lle bo'n bosibl, anogir cynigion i ddefnyddio adeiladau presennol. Mae Polisi GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol yn ceisio sicrhau bod datblygiad o faint priodol i'r safle a'r ardal y mae wedi'i leoli ynddynt. Mae'r ystyriaeth hon o bwysigrwydd penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer yr economi ymwelwyr.

5.307 Lle bo cynigion ar gyfer y math hwn o ddatblygiad o fewn ardaloedd newid arfordirol, dylid ystyried darpariaethau polisi GN 46 hefyd

5.308 Ystyrir mai cynigion ar gyfer llety â gwasanaeth neu lety gwesty newydd yw'r mathau hynny o lety nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd ar safle'r cais, tra ystyrir bod estyniadau yn ymwneud â safleoedd sydd eisoes yn darparu llety â gwasanaeth a gwesty a rhagwelir darpariaeth bellach o'r un natur.

5.309 Caiff amodau cynllunio eu pennu lle bo'n briodol i sicrhau bod cyfleusterau yn parhau yn unedau llety gwyliau ac na chânt eu defnyddio fel llety parhaol na'u meddiannu fel prif breswylfa. Yn y sefyllfaoedd hyn gellid cymhwyso amodau meddiannaeth gwyliau, a fyddai'n cyfyngau ar yr amser y gallai un tyaid aros mewn uned a'r amser y gallent ddychwelyd.

## GN 56 Datblygiad Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau

A) Caniateir cynigion hunanddarpar graddfa ganolig neu raddfa fawr newydd, yn cynnwys carafannau a chabanau gwyliau lle gellir bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:
1. Bwriedir eu lleoli o fewn neu gerllaw Pentref Gwasanaeth, Canolfan Gwasanaeth neu Dref; a
2. Maent mewn lleoliadau yr ystyrir eu bod yn dderbyniol o ran capasiti'r dirwedd.

B) Caniateir cynigion hunanddarpar graddfa fach newydd, yn cynnwys cynigion ar gyfer carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau, lle maent mewn lleoliadau yr ystyrir eu bod yn dderbyniol o ran capasiti'r dirwedd.

C) Caniateir uwchraddiadau neu estyniadau i safleoedd presennol lle mae maint cyffredinol a niferoedd ychwanegol yr unedau neu leiniau yn dderbyniol o ran capasiti'r dirwedd a lle mae'r cynllun yn cyflawni gwelliannau amgylcheddol.

Ym mhob achos:

1. Dylai cynigion fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad;
2. Ni ddylai cynigion arwain at or-grynhoad o safleoedd o fewn ardal;
3. Ni ddylai cynigion arwain at greu arwynebedd gormodol o lawr caled; a
4. Bydd angen mesurau lliniaru tirwedd priodol lle bynnag yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i wneud cynnig yn weledol dderbyniol.

5.310 Dylai'r cynnig twristiaeth yn Sir Benfro fod yn ddarpariaeth gynaliadwy o safon, sy'n rhoi profiad rhagorol i ymwelwyr ac yn gwneud y mwyaf o'r buddion a ddaw yn sgil twristiaeth i gymunedau lleol, tra'n lleihau effeithiau andwyol posibl ar y dirwedd ac effeithiau amgylcheddol eraill. Cefnogir y polisi hwn gan ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Asesiad Capasiti Tirwedd ar gyfer Carfannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau[31], gan ddarparu asesiad systematig o gapasiti'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd presennol i ddarparu ar gyfer ystod o fathau gwahanol o ddatblygiadau carafannau, gwersylla a chabanau gwyliau, yn cynnwys mathau o lety sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn cynnwys cyngor ar sail Ardal Cymeriad Tirwedd ynghylch:

a) A ellir uwchraddio a / neu ymestyn safleoedd presennol i gynyddu llety;

b) A ellir ymestyn safleoedd presennol i wella ymddangosiad; ac

[31] Gweler dogfen Sylfaen Tystiolaeth y CDLl a baratowyd gan Simon White Ltd ac o'r enw 'Asesiad Capasiti Tirwedd Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau' – mae'r ddogfen hon yn darparu'r sail ar gyfer y CCA i gefnogi polisi GN 56 y Cynllun.

c) A ellir cynnwys safleoedd newydd heb achosi effeithiau annerbyniol ar y dirwedd.

5.311 Bydd y CCA yn nodi cyngor cyffredinol a manwl am yr hyn a olygir gan dermau megis ‘i ffwrdd o’r arfordir a’r Preselau' a 'lleoliadau sensitif', sut i gymhathu cynigion i'r dirwedd a sut i liniaru a gwella. Bydd y CCA yn cynnwys argymhellion ac arweiniad wedi'u teilwra ar gyfer pob cymeriad tirwedd a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r polisi hwn. Fel rhan o unrhyw gynnig ar gyfer Datblygiad Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau, bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut y maent wedi ymateb i ofynion y CCA.

5.312 Mae’r tabl isod, o dudalen 7 yr ‘Asesiad o Gapasiti Tirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau’ (a fydd yn sail i’r CCA drafft), yn nodi beth yw ystyr maint safle (bach, canolig a/neu fawr) a beth a olygir gan y termau tymhorol a statig. Deilliodd trothwyon maint o asesiad rhagarweiniol o sampl o wahanol ddatblygiadau yn nhirwedd Sir Benfro, gan ystyried graddfa a phatrwm y dirwedd.

Tabl 3: Diffiniadau ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau a meintiau safleoedd:

| **Math o Ddatblygiad a Maint y Safle** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Statig: Mawr | Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau gwyliau a phodiau/opsiynau glampio strwythur caled ar safle dros 3Ha. |
| Statig: Canolig | Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau gwyliau a phodiau / opsiynau glampio strwythur caled ar safle >0.5Ha- 3Ha. |
| Statig: Bach | Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau gwyliau a phodiau / opsiynau glampio ar strwythur caled ar safle 0-0.5Ha. |
| Tymhorol: Mawr | Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithiol, pebyll, opsiynau glampio seilwaith meddal fel *yurts*, tipis a phebyll saffari dros 3Ha. |
| Tymhorol: Canolig | Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithiol, pebyll, opsiynau glampio seilwaith meddal fel pebyll |

| | |
|---|---|
| | *yurts*, tipis a phebyll saffari >0.5Ha-3Ha. |
| Tymhorol: Bach | Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithiol, pebyll, opsiynau glampio ar seilwaith meddal fel pebyll *yurts*, tipis a phebyll saffari 0- 0.5Ha. |

5.313 Mae'r diffiniad o unedau teithio yn cynnwys carafannau teithio, pebyll, pebyll trelar a charafannau modur, cartrefi modurol, faniau teithio a champerfaniau.

5.314 Diffinnir glampio fel math o lety sydd wedi'i osod ymlaen llaw ar safle a gall gynnwys *yurts,* tipis, podiau, cytiau coed a phebyll saffari, er y gellir ei ddarparu gan amrywiaeth o strwythurau eraill. Bydd graddau parhad lleoliadol, graddfa a dyluniad yn pennu sut yr ystyrir y strwythurau hyn.

5.315 Bydd opsiynau 'glampio' meddal fel *yurts*, tipis, pebyll saffari a phebyll cloch yn cael eu trin fel unedau teithiol neu ddatblygiad tymhorol, ar yr amod eu bod yn cael eu symud o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio a/neu am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ac y caniateir i laswellt dyfu dros y safle. Lle cynigir seilwaith sefydlog cysylltiedig, megis decin, ffensys neu baneli solar, gellir ystyried y pebyll yr un modd â datblygiad carafannau sefydlog. Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried fesul achos.

5.316 Gellir ystyried bod opsiynau 'glampio' caled fel podiau neu bebyll pren neu strwythurau caled eraill yr un fath â charafannau teithiol neu sefydlog neu gabanau, yn unol â'r diffiniad statudol o garafán yn Atodiad C y ddogfen 'Asesiad o Gapasiti Tirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau'. Mae hyn yn dibynnu ar a ellir symud y strwythur yn hawdd oddi ar y safle mewn un darn, os oes ganddo sylfaen goncrit barhaol, p'un a yw wedi'i gysylltu'n barhaol â chyflenwad trydanol a / neu wasanaethau eraill megis dŵr a gwaredu gwastraff, neu a oes ganddo strwythurau ategol megis decin, ffensys neu baneli solar sy'n gysylltiedig ag ef. Bydd y penderfyniad ar ei statws yn cael ei wneud fesul achos.

5.317 Mae'n rhaid i unrhyw gynnig graddfa ganolig neu raddfa fawr newydd fod o fewn neu yn agos at anheddiad a ddynodwyd yn yr hierarchaeth yn Bentref Gwasanaeth, yn Ganolfan Wasanaeth neu'n Dref er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Bydd hyn yn sicrhau y gall ymwelwyr fanteisio'n hawdd ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau hynny sydd ar gael mewn aneddiadau cyfagos, er enghraifft cerdded i dafarndai neu fwytai cyfagos. Mae gwybodaeth am raddfa cynnig yr ystyrir ei fod yn gynnig graddfa ganolig neu raddfa fawr wedi'i chynnwys yn Nhabl 7, uchod. Nid ystyrir bod datblygiad rhy ddwys yn briodol. Gellir bod yn hyblyg wrth asesu cynigion graddfa fawr neu raddfa ganolig sy'n cynnwys cynigion glampio dwyster isel iawn a all dangos effeithiau lefel isel ar y dirwedd. Yn y cyfryw achosion, bydd amod yn cyfyngu ar ddwyster a niferoedd unedau ar safle yn cael ei gymhwyso.

5.318 Caniateir ehangu arwynebedd safle carafannau teithiol neu bebyll lle byddai'n cyflawni gwelliant amgylcheddol cyffredinol amlwg ar gyfer y safle cyfan (gan gynnwys elfennau presennol) a'i leoliad yn y dirwedd o'i amgylch. Wrth ystyried estyniadau safle, bydd maint holl arwynebedd y safle arfaethedig (gan gynnwys yr ardal bresennol a'r estyniad arfaethedig) yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio graddfa gyffredinol y safle (gweler Tabl 7, uchod). Rhaid i gynigion a fyddai'n arwain at arwynebedd safle canolig neu fawr fod o fewn 400m i anheddiad, yn gyson â strategaeth gynaliadwy a hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun, i annog teithio cynaliadwy megis cerdded, beicio ac, os yw ar gael, trafnidiaeth gyhoeddus.

5.319 Bydd effaith gronnol safleoedd o fewn y dirwedd yn ystyriaeth berthnasol. Mewn rhai achosion, er bod cynnig yn dderbyniol o ran capasiti tirwedd, bydd effaith weledol fwy lleol yn codi. Ym mhob achos felly, bydd Datblygiad Cyffredinol GN 1 yn ystyriaeth bwysig hefyd ar gyfer cynigion o'r math hwn.

5.320 Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys carafanio a gwersylla a ganiateir gan y 'rheol 28 diwrnod' a safleoedd a weithredir o dan Dystysgrifau a roddwyd gan Sefydliadau wedi'u Heithrio.

**GN 57 Cyfleusterau Safle**

Caniateir cynigion i uwchraddio a gwella cyfleusterau ar safleoedd hunanddarpar (yn cynnwys safleoedd carafannau sefydlog, carafannau teithiol a phebyll) lle:

1) Na fydd y cynnig yn tanseilio hyfywedd neu fywiogrwydd cyfleuster mewn anheddiad cyfagos; a

2) Mae'r cynigion yn cynnwys y safonau amgylcheddol ymarferol gorau sy'n cwmpasu pob agwedd ar y datblygiad.

5.321 Mae'r Awdurdod yn awyddus i weld gwelliannau a fydd yn gwella ansawdd yr hyn a gynigir gan y sector twristiaeth mewn modd nad yw'n niweidio'r amgylchedd a'r dirwedd nac yn effeithio'n negyddol ar gyfleusterau sydd wedi'u lleoli mewn aneddiadau cyfagos. Ar nifer o safleoedd bydd yn ddymunol gwella cyfleusterau ymolchi a thoiledau, ac ar safleoedd mwy gellir cyfiawnhau darparu cyfleusterau ychwanegol megis cyfleusterau golchi dillad neu ystafell gemau. Os yw'n bosibl, dylid ailddefnyddio strwythurau neu adeiladau presennol.

5.322 Mae angen i gyfleusterau gael eu dylunio a'u lleoli mewn modd sy'n sensitif i'r dirwedd. Dylai unrhyw fesurau tirweddu hyrwyddo bioamrywiaeth i'r eithaf a defnyddio rhywogaethau brodorol sy'n briodol i'r dirwedd. Rhaid i unrhyw gynigion ddangos eu bod yn cyd-fynd â gofynion Asesiad Capasiti'r Dirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau, a fydd fel y nodir uchod yn ffurfio sail ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol.

**GN58 Llety Hunanarlwyo nad yw'n Garafán**

Bydd llety hunanarlwyo yn cael ei ganiatáu lle mae wedi'i leoli o fewn, neu'n gysylltiedig yn uniongyrchol â Thref, Canolfan Gwasanaeth neu Bentref Gwasanaeth, fel y'u diffinnir yn hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun.

Disgwylir i gynigion ddangos bod cydbwysedd priodol yn yr anheddiad rhwng tai fel prif breswylfeydd (Dosbarth Defnydd C3), preswylfeydd eilaidd (Dosbarth Defnydd C5) a gosodiadau gwyliau tymor byr (Dosbarth Defnydd C6).
Ni chaniateir cynigion ar gyfer llety hunanarlwyo newydd nad yw'n garafán sydd wedi'i leoli y tu allan i'r lleoliadau uchod oni bai ei fod yn ymwneud ag ailddefnyddio a / neu addasu adeilad traddodiadol presennol (gweler Polisi GN 13 a GN 34). Ni chaniateir cynigion hunanarlwyo adeiladau newydd yng nghefn gwlad.

Dylai pob cynnig adlewyrchu a pharchu rôl a swyddogaeth ac ymdeimlad o le'r ardal, yn fwyaf nodedig o ran graddfa, math, cymeriad, dyluniad, gosodiad ac edrychiad - yn ogystal â'r defnyddiau hynny sydd eisoes wedi'u lleoli yng nghyffiniau'r safle.

5.323 Mae llety hunanarlwyo yn cynnwys fflatiau ar rent, bythynnod, tai, byngalos a/neu hosteli sydd â'u prif ddiben ar gyfer gosod gwyliau. Mae'r polisi hwn yn cydnabod manteision cael llety amrywiol o ran darparu ystod a dewis o leoedd i aros. Mae'n caniatáu llety hunanarlwyo newydd nad yw'n garafán o fewn Pentref Gwasanaeth, Canolfan Wasanaeth neu Dref. Lle rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer llety gwyliau parhaol, bydd y Cyngor yn ystyried gosod amodau sy'n cyfyngu'r defnydd i lety gwyliau yn unig.

5.324 Dylai estyniadau i fusnesau presennol ddefnyddio unrhyw adeilad traddodiadol priodol ar y safle. Lle nad yw hyn yn bosibl efallai y bydd estyniad ffisegol bach i'r adeiladwaith adeiledig presennol yn briodol, ond bydd yn cael ei reoli'n llym gydag amodau cynllunio a gallai ddileu hawliau datblygu a ganiateir yn y dyfodol.

5.325 Yn gyffredinol, ni fydd adeiladau sydd o wneuthuriad iwtilitaraidd modern is-safonol (gan gynnwys deunyddiau megis gwaith blociau concrit un croen ac adeiladau gyda fframiau dur wedi'u gorchuddio â gorchuddion metel) neu adeiladau o ansawdd is-safonol a / neu ymddangosiad anghydweddol yn cael eu hystyried yn briodol i'w trosi'n llety gwyliau.

5.326 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisi GN 15 am Gymysgedd Tai, Ail Gartrefi a Gosodiadau Gwyliau Tymor Byr, Safonau Gofod a gofynion ar gyfer Safonau Cartrefi Gydol Oes. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng tai fel prif breswylfeydd (Dosbarth Defnydd C3), preswylfeydd eilaidd (Dosbarth Defnyddio C5) a gosodiadau gwyliau tymor byr (Dosbarth Defnydd C6), i helpu i ddiwallu anghenion lleol am dai, cynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant a chynnal cymunedau presennol.

### GN 59 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff

Caniateir cynigion i ddatblygu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd (y rheiny'n ymwneud â lleihau, ailddefnyddio, adfer, ailgylchu a thrin gwastraff, gan gynnwys gorsafoedd trosglwyddo gwastraff, canolfannau gwastraff ac ailgylchu, cyfleusterau troi gwastraff yn ynni a chwareli trefol dros dro) lle:

1 Mae'r safle a gynigir:
   a) Yn safle rheoli gwastraff presennol; neu
   b) Mewn adeilad sydd eisoes yn cael ei ddenyddio ar gyfger rheoli gwastraff; neu
   c) Wedi'i ddyrannu ar gyfer defnyddiau diwydiannol B2, ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau andwyol mawr mewn perthynas ag amwynder defnyddwyr cyfagod neu lifogydd; neu
   ch) Y math o safle a ddynodir fel arall gan Nodyn Cyngor Technegol 21 Llywodraeth Cymru (paragraff 3.27) fel un sy'n briodol ar gyfer y math hwn o ddefnydd.
2 Gellir cael mynediad rhwydd i'r safle o ffyrdd dosbarth A neu B, lle mai cludo ar y ffyrdd yw'r unig ddewis sydd ar gael.
3 Mae angen dynodedig am y cyfleuster yn genedlaethol, rhanbarthol neu'n lleol;
4 Ystyriwyd a lliniarwyd pob gwastraff a fydd yn deillio o'r cyfleuster newydd;
5 Ystyriwyd cydleoli'r cyfleusterau newydd gyda defnyddwyr ynni posibl, ac ymgorfforwyd hynny yn y cynnig, lle bynnag y bo modd; a
6 Lle mae'r cynnig ar gyfer datblygu cyfleusterau arbenigol i brosesu neu waredu gwastraff peryglus, rhaid dangos hefyd na achosir effeithiau andwyol sylweddol i iechyd a diogelwch y cyhoedd, yr economi na'r amgylchedd.

Mae'r safleoedd cyflogaeth presennol ac arfaethedig canlynol yn addas o bosibl ar gyfer darparu cyfleusterau newydd mewn adeilad ar gyfer trafod a thrin gwastraff:

| Cyfeirnod y safle | Lleoliad y safle | Arwynebedd (hectarau) |
|---|---|---|
| S/EMP/000/00003 | Cyfleuster storio petro-gemegol Aberdaugleddau (Puma Energy) | 159.14 |
| S/EMP/000/00004 | Waterston – fferm danciau ac LNG | 177.35 |
| S/EMP/146/00001 | Ystâd Ddiwydiannol Waterston | 9.52 |
| S/EMP/095/00001 | Safle Gorsaf Bŵer Penfro | 139.35 |
| S/EMP/096/00005 | Ystâd Ddiwydiannol Kingswood, Doc Penfro | 8.31 |

| Cyfeirnod y safle | Lleoliad y safle | Arwynebedd (hectarau) |
|---|---|---|
| S/EMP/096/00006 | Ystâd Ddiwydiannol Waterloo a London Road, Doc Penfro | 19.41 |
| EMP/000/00002 | Purfa Valero, Rhoscrowdder | 222.60 |
| EMP/034/00006 | Parc Busnes Celtic Link, Scleddau | 13.29 |
| S/EMP/136/00001 | Trecŵn | 21.22 |
| EMP/030/00001 | Parc Gwynfryn, Crymych | 6.92 |

Noder na fydd unrhyw elfennau o'r safleoedd hyn sydd o fewn ardal y mae perygl sylweddol iddi ddioddef llifodydd yn briodol ar gyfer cyfleusterau gwastraff newydd.

5.327 Darperir y fframwaith polisi ar gyfer ystyried materion cynllunio gwastraff yn Sir Benfro gan ddwy Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd (y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r Gyfarwyddeb Tirlenwi), gan ddogfen Llywodraeth Cymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' (TZW), gan amrywiol Gynlluniau Sector sy'n gysylltiedig â TZW (yn benodol, y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd) a chan Bolisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru argraffiad 11, a Nodyn Cyngor Technegol 21 - Gwastraff (TAN 21). Mae polisi strategol SP 21 (Atal a Rheoli Gwastraff) y Cynllun hwn yn pwysleisio dymunoldeb atal gwastraff rhag digwydd yn y lle cyntaf, lle bynnag y bo modd. Mae'r hierarchaeth gwastraff a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru argraffiad 11 a TAN 21 yn darparu man cychwyn ar gyfer ystyried rheoli gwastraff.

5.328 Disgwylir i gynigion ar gyfer trafod a thrin gwastraff fodloni gofynion polisi GN 1 (Polisi Datblygu Cyffredinol).

5.329 Paratoir Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer rhanbarth De Orllewin Cymru ac mae'r rhain yn cyflwyno casgliadau rhanbarthol ar agweddau allweddol ar gynllunio gwastraff.

5.330 Mae TAN 21: Gwastraff yn pennu hierarchaeth wastraff, sy'n drefn blaenoriaeth ar gyfer atal a rheoli gwastraff. Yr opsiwn mwyaf dymunol yw atal ac ailddefnyddio, ac yna paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu, adfer mewn modd arall ac yn olaf (os nad yw'r un o'r opsiynau hyn yn bosibl), gwaredu i safle tirlenwi.

5.331 O ran ffrydiau gwastraff unigol, mae'r pwyntiau canlynol yn darparu rhan o'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun hwn:

a) Nid oes cyfleuster trin rhanbarthol ar gyfer gwastraff gweddilliol yn Ne Orllewin Cymru ar hyn o bryd.
b) Yn ddiweddar, mae Dinas a Sir Abertawe wedi ymgymryd â rôl awdurdod arweiniol ar gyfer caffael contract hirdymor ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn Ne-Orllewin Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio i hyn fod ar ffurf cyfleuster troi gwastraff yn ynni, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud o ran ble gellir lleoli'r cyfleuster hwn yn y rhanbarth.
c) Yn flaenorol roedd rhanbarthau'n dibynnu ar ddadlwythwyr tramor fel cyrchfan gwastraff gweddilliol De Orllewin Cymru. Fodd bynnag, mae trefniadau newydd ar waith yn Sir Benfro erbyn hyn sy'n arwain at fwy o wastraff gweddilliol y rhanbarth yn aros yng Nghymru.

ch) Ar hyn o bryd mae gwastraff bwyd Sir Benfro yn cael ei anfon i gyfleusterau treulio anaerobig rhanbarthol ger Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cyfleuster hwn yn cymryd gwastraff bwyd o bedwar o'r chwe awdurdod lleol yn Ne-Orllewin Cymru.

d) Mae rhai ffrydiau gwastraff eraill, fel gwastraff adeiladu a dymchwel, y ceir manylion pellach amdanynt yn y Papur Cefndir ar Wastraff sy'n cefnogi'r Cynllun hwn.

5.332 Mae TAN 21 yn pennu hierarchaeth wastraff, sy'n drefn blaenoriaeth ar gyfer atal a rheoli gwastraff. Yr opsiwn mwyaf dymunol yw atal ac ailddefnyddio, ac yna paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu, adfer mewn modd arall ac yn olaf (os nad yw'r un o'r opsiynau hyn yn bosibl), gwaredu i safle tirlenwi.

5.333 Ar lefel leol, mae cymhlethdodau rheoli gwastraff yn gwneud cydweithredu agos rhwng Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y diwydiant rheoli gwastraff, y sector gwirfoddol a'r cyhoedd yn ddymunol iawn.

5.334 Yn Sir Benfro, mae'r Cyngor Sir a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn Awdurdodau Cynllunio Gwastraff ar gyfer eu hardaloedd priodol. Fodd bynnag, dim ond y Cyngor Sir sy'n Awdurdod Casglu a Gwaredu Gwastraff yn Sir Benfro (sy'n golygu bod y Cyngor yn gyfrifol am gasglu a gwaredu'n ddiogel gwastraffau trefol sy'n deillio ledled y Sir).

5.335 Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb am drwyddedu gwastraff ledled Sir Benfro.

5.336 Mae Polisi GN 1 (Datblygu Cyffredinol) yn cyfeirio at ddymunoldeb defnyddio Cynlluniau Rheoli Adnoddau Naturiol. Mae'r rhain yn dwyn amcanion Economi Gylchol yn eu blaen, gan helpu i gadw adnoddau mewn defnydd cyhyd ag y bo modd, ac wrth wneud hynny, lleihau maint y deunydd sy'n mynd yn wastraff gweddilliol.

5.337 Mae elfen gyntaf y polisi hwn yn egluro’r amgylchiadau lle caniateir cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Mae’r ffocws ar safleoedd ac adeiladau sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff, ynghyd â safleoedd a ddyrannwyd i’w defnyddio fel defnyddiau diwydiannol dosbarth B2 (ond dim ond lle na fydd effeithiau andwyol mawr mewn perthynas ag amwynder defnyddwyr cyfagos a llifogydd) a’r math o safle a grybwyllwyd ym mharagraff 3.27 o ddogfen TAN 21 Llywodraeth Cymru.

5.338 Gwneir cyfeiriad hefyd yn y polisi at chwareli trefol dros dro. Ystorfeydd yw’r rhain ar gyfer deunyddiau wedi’u symud o safle yn ystod cam adeiladu prosiect ond yna a ailddefnyddir o fewn y safle cyn ei gwblhau. Mae’r chwarel drefol yn lleoliad dros dro ar gyfer storio’r cyfryw ddeunyddiau oddi ar y safle tra’n disgwyl eu hailddefnyddio o fewn safle eu tarddiad. Dylai’r rhain fod mor agos â phosibl at y safle gwreiddiol, a dylid eu hadfer yn llawn pan fydd eu defnydd i storio deunyddiau dros dro wedi dod i ben. Mae’r ymagwedd hon yn well na cholli’r deunydd yn barhaol o’r safle. Fe allai amharu ar uwchbriddoedd, cerrig a dynnir yn ystod terasu neu lefelu ar y safle, neu ddeunyddiau dymchwel o adeiladau a oedd ar y safle’n flaenorol.

5.339 Ceir gofynion pellach yn elfen gyntaf y polisi hwn, yn ymwneud â mynediad i’r safle (o ffyrdd dosbarth A neu B lle mai cludiant ar y ffordd yw’r unig opsiwn), yr angen am y cyfleuster, yr angen am sgil-gynhyrchion gwastraff o’r cyfleuster gael eu hystyried a’u lliniaru, yr angen i ystyried cyd-leoli’r cyfleuster gwastraff gyda defnyddwyr ynni posibl a phennu gofynion penodol mewn perthynas â gwaredu gwastraff peryglus.

5.340 Mae ail elfen y polisi’n nodi’r safleoedd cyflogaeth presennol ac arfaethedig hynny a allai fod yn addas ar gyfer darparu cyfleusterau newydd mewn adeilad ar gyfer trafod a thrin gwastraff. mae TAN 21 cyntaf yn cynghori bod *‘llawer o gyfleusterau modern mewn adeilad yn debyg yn allanol i unrhyw adeilad diwydiannol arall, ac ar y tu mewn maent yn cynnwys prosesau diwydiannol neu weithgareddau cynhyrchu ynni nad ydynt efallai yn wahanol i lawer o weithgareddau diwydiannol modern eraill o ran eu gweithrediad neu eu heffaith’.* Ychwanega bod *‘llawer o safleoedd cyflogaeth cyffredinol ac ardaloedd diwydiannol mawr yn debygol o fod yn lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff, ond bydd hyn yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau lleol, gan gynnwys natur defnyddwyr presennol a’r strategaeth a fabwysiedir ar gyfer safleoedd cyflogaeth penodol’.*

**GN 60 Gwaredu Gwastraff ar Dir**

Caniateir cynigion i waredu gwastraff ar dir lle:

1. Y cynigion yw'r unig ateb ymarferol, gan roi ystyriaeth i'r hierarchaeth wastraff, i anghenion cenedlaethol, rhanbarthol neu leol dynodedig;
2. Mae camau digonol (gweithredol a gofal dilynol) wedi'u cynnig i ymdrin ag unrhyw drwytholch neu nwy tirlenwi a allai ddeillio o'r cynnig;
3. Cynigir ffurf tir y gellir ei gyflawni sy'n gydnaws â'r topograffi cyffiniol ar ôl gorffen gweithredu; a
4. Gwneir darpariaeth ar gyfer tirweddu, adfer yn gynyddol, ôl-ddefnydd(iau) buddiol priodol, adfer a rheoli'r safle ar ôl iddo gau.

5.341 Lle na ellir atal gwastraff, ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei adennill mewn ffordd arall, yna bydd angen ei waredu. Mae hyn yn golygu naill ai tirlenwi neu losgi heb adennill ynni. Yn amlwg, y rhain yw'r deilliannau lleiaf dymunol ar gyfer ymdrin â gwastraff.

5.342 Yng Nghymru, mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol sicrhau bod digon o gapasiti tirlenwi yn cael ei gynnal ar draws tri rhanbarth Cymru. Mae hyn i sicrhau bod cyfleusterau gwaredu ar gael ar gyfer yr elfen o wastraff na ellir ei thrin ymhellach i fyny'r hierarchaeth wastraff.

5.343 Disgwylir i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi lle mae capasiti tirlenwi yn disgyn islaw gwagle 7 mlynedd a 5 mlynedd mewn rhanbarth. Ystyrir bod saith mlynedd yn ddigonol i'r farchnad ddarparu ateb i ddiffyg, tra bod 5 mlynedd yn sbardun i gymryd camau sy'n angenrheidiol i hwyluso darpariaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd ar y capasiti gwagle tirlenwi yn rhanbarth De-Orllewin Cymru yn dynodi ei fod uwchlaw'r trothwyau 7 mlynedd a 5 mlynedd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er bod safle Withyhedge yn Sir Benfro yn dal i fod yn weithredol, mae'n bosibl bod safleoedd eraill sydd wedi cymryd gwastraff gweddilliol yn y gorffennol yn rhanbarth De-orllewin Cymru naill ai'n gweithredu ar lefelau is neu wedi rhoi'r gorau i gymryd gwastraff o'r fath yn gyfan gwbl.

5.344 Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff yn rhestru'r safleoedd tirlenwi a ganiateir yn rhanbarth De Orllewin Cymru yn 2014. Un o'r rhain yw Safle Tirlenwi Withyhedge, Cam 2, sydd wedi'i leoli i'r gogledd o Hwlffordd.

5.345 Mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff 2016 ar gyfer De Orllewin Cymru yn dynodi bod rhyw 10.7 mlynedd o gapasiti gwagle ar ôl yn y rhanbarth. Mae hyn yn cyfuno'r gofod a oedd ar gael bryd hynny mewn pedwar safle tirlenwi gwahanol - Withyhedge yn Sir Benfro, Nant-y-Caws yn Sir Gaerfyrddin, Tir John yn Abertawe a Phwllfa Watkin yng Nghastell-nedd Port Talbot. Fel y nodwyd uchod, mae Withyhedge yn parhau i fod yn weithredol a deellir bod Nant-y-Caws yn Sir Gaerfyrddin yn dal i fod â lle gwag dros ben. Nid yw Tir John yn cymryd gwastraff gweddilliol mwyach, ond

mae’n weithredol ar gyfer ffrydiau gwastraff eraill tan 2024. Ym Mhwllfa Watkin mae sefyllfa'r caniatâd cynllunio yn ansicr.

# Atodiadau

## Atodiad 1: Tabl Tai Fforddiadwy

| **Cofnod Cyflawni Blaenorol Tai Fforddiadwy (2013-2018)** | **2017/2018** | **2016/2017** | **2015/2016** | **2014/2015** | **2013/2014** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gyda CGF | 63 | 94 | 110 | 157 | 73 | **99.4** |
| Heb CGF | 19 | 12 | 25 | 1 | 0 | **11.4** |
| Cyfansymiau | 82 | 106 | 135 | 158 | 73 | **110.8** |
| | | | | | | |
| **Cyflawni Tai Fforddiadwy heb CGF (cyfartaledd 5 mlynedd)** | **Unedau Tai Fforddiadwy wedi'u cyflenwi gyda Grant (cyfartaledd 5 mlynedd)** | **Cyflawniad disgwyliedig CSP y flwyddyn (gan ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai)** | **Cyfanswm y flwyddyn** | | | |
| 11.4 | 50 | 64 | **125.4** | | | |
| | | | | | | |
| **2017-2033 (cyfnod Adolygu'r Cynllun) Targed Tai Fforddiadwy (125 y flwyddyn wedi'i luosi gan 16)** | 2006.4 | | | | | |

## Atodiad 2: Cydrannau a Thaflwybr Tai

Tabl A: Cyflenwad Tai

| | A) Cyfanswm y rhai a gwblhawyd (Arolwg tai bach a mawr) | B) Unedau sy'n cael eu hadeiladu (Ebrill 2023) | C) Unedau gyda chaniatâd cynllunio yn seiliedig ar asesiad tai 2023 gydag addasiad | D) Cyfanswm y dyraniadau | E) Hap-safleoedd mawr (5) ar gyfer 2026-2033 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol | F) Hap-safleoedd bach (llai na 5 uned) ar gyfer 2024-2033 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol | G) Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hwlffordd | 387 | 17 | 61 | 406 | 62 | 77 | 1010 |
| Aberdaugleddau | 256 | 14 | 100 | 390 | 44 | 76 | 880 |
| Doc Penfro | 70 | 40 | 83 | 130 | 42 | 50 | 415 |
| Penfro | 111 | 6 | 83 | 285 | 37 | 65 | 588 |
| Abergwaun | 60 | 2 | 52 | 175 | 9 | 26 | 324 |
| Wdig | 43 | 7 | 31 | 0 | 5 | 23 | 109 |
| Arberth | 175 | 0 | 51 | 89 | 12 | 18 | 346 |
| Neyland | 43 | 3 | 0 | 101 | 9 | 14 | 169 |
| **Cyfanswm y Prif Drefi** | **1145** | **89** | **461** | **1576** | **220** | **350** | **3840** |
| Canolfannau Gwasanaeth | 192 | 20 | 184 | 387 | 19 | 43 | 845 |
| Pentrefi Gwasanaeth | 479 | 86 | 221 | 404 | 69 | 135 | 1394 |
| Pentrefi Lleol Clwstwr | 23 | 5 | 7 | 0 | 0 | 23 | 58 |
| Pentrefi Lleol | 18 | 4 | 1 | 0 | 0 | 20 | 43 |
| Cefn gwlad | 160 | 28 | 0 | 0 | 0 | 68 | 256 |

| | A) Cyfanswm y rhai a gwblhawyd (Arolwg tai bach a mawr) | B) Unedau sy'n cael eu hadeiladu (Ebrill 2023) | C) Unedau gyda chaniatâd cynllunio yn seiliedig ar asesiad tai 2023 gydag addasiad | D) Cyfanswm y dyraniadau | E) Hap-safleoedd mawr (5) ar gyfer 2026-2033 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol | F) Hap-safleoedd bach (llai na 5 uned) ar gyfer 2024-2033 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol | G) Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm ar gyfer yr Ardal Wledig** | **872** | **143** | **413** | **791** | **88** | **290** | **2597** |
| **Cyfanswm ar gyfer Ardal y Cynllun** | **2017** | **232** | **874** | **2367** | **307** | **640** | **6437** |
| **Canran drefol** | 57% | 38% | 53% | **67%** | 72% | 55% | **60%** |
| **Canran wledig** | 43% | 62% | 47% | **33%** | 28% | 45% | **40%** |

Tabl B: Amseru a Graddoli a Ragamcanir ar gyfer y Safleoedd a Ddynodwyd

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod CDLl 2 | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau i'w darparu yn ystod cyfnod y Cynllun | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu: Cyfnod amser ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio / ymgynghoriad PAC | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu: Cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu arno | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu: Cyfnod amser ar gyfer cyflawni amodau perthnasol i alluogi adeiladu'r safle | Datblygiadau fesul cam (2023 i ddiwedd 2033): Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefol | HSG/040/LDP2/1 | Hen Lyfrgell Dew Street | Hwlffordd | 22 | Cwblhawyd yn 2023 | 2024 | 2024 | Amh | Amh | 0 | 0 | 22 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trefol | S/HSG/040/LDP2/6 | Slade Lane | Hwlffordd | 330 | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | 0 | 50 | 50 | 15 | 35 | 35 | 35 | 30 | 30 | 30 | 20 | 680 |
| Trefol | HSG/040/LDP2/3 | Y tu ôl i 76 Heol Penfro, Pont Fadlen | Hwlffordd | 51 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 20 | 11 | 0 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/086/LDP2/1 | Tir yn Myrtle Meadows, Steynton | Aberdaugleddau | 60 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 20 | 20 | 15 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/086/LDP2/2 | I'r dwyrain o Castle Pill Road, Steynton | Aberdaugleddau | 23 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Trefol | S/HSG/086/LDP2/3 | I'r de o Conway Drive, Castle Pill Road, Steynton | Aberdaugleddau | 117 | 2027 | 2028 | 2029 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 27 | 30 | 30 | 30 | 163 |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod CDLl 2 | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau i'w darparu yn ystod cyfnod y Cynllun | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu | | | Datblygiadau fesul cam (2023 i ddiwedd 2033) | | | | | | | | | | | | | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyfnod amser ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio / ymgynghoriad PAC | Cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu arno | Cyfnod amser ar gyfer cyflawni amodau perthnasol i alluogi adeiladu'r safle | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 | |
| Trefol | HSG/086/LDP2/4 | Hen Ysgol Fabanod Hakin | Aberdaugleddau | 14 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/086/LDP2/5 | Cyn Ysgol Hubberston, Hakin | Aberdaugleddau | 26 | 2024 | 2025 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/086/LDP2/6 | Hen Ysgol Iau Hakin | Aberdaugleddau | 43 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 15 | 15 | 10 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/086/CDLl/7 | Tir i'r Gog. Ddw. o Beaconing, Steynton | Aberdaugleddau | 14 | 2024 | 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 4 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/086/00222 | Tir i'r De-orllewin o The Meads | Aberdaugleddau | 93 | 2024 | 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 10 | 20 | 20 | 20 | 23 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/096/LDP2/1 | Tir yn Hampshire Drive | Doc Penfro | 33 | 2024 | 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 3 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 2 | |
| Trefol | HSG/096/LDP2/2 | I'r gorllewin o Stranraer Road, Pennar | Doc Penfro | 59 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 15 | 15 | 15 | 0 | |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod CDLl 2 | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau i'w darparu yn ystod cyfnod y Cynllun | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu | | | Datblygiadau fesul cam (2023 i ddiwedd 2033) | | | | | | | | | | | | | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyfnod amser ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio / ymgynghoriad PAC | Cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu arno | Cyfnod amser ar gyfer cyflawni amodau perthnasol i alluogi adeiladu'r safle | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 | |
| Trefol | HSG/096/00238 | I'r gogledd o Pembroke Road | Doc Penfro | 38 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 8 | 8 | 8 | 8 | 6 | 0 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/095/LDP2/1 | Rhwng St Daniel's Hill a Norgan's Hill | Penfro | 147 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 30 | 30 | 30 | 27 | 0 | |
| Trefol | HSG/095/LDP2/2 | I'r de-orllewin o Southlands, St Daniel's Hill | Penfro | 19 | 2029 | 2030 | 2030 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 9 | |
| Trefol | HSG/095/LDP2/4 | I'r dwyrain o Golden Hill Road | Penfro | 50 | 2026 | 2027 | 2027 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 15 | 15 | 10 | 0 | 0 | 0 | |
| Trefol | HSG/095/LDP2/5 | I'r de-ddwyrain o Southlands, St Daniel's Hill | Penfro | 26 | 2029 | 2030 | 2030 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 16 | 0 | |
| Trefol | HSG/095/00144 | I'r gogledd o Gibbas Way | Penfro | 43 | Cwblhawyd yn 2023 | 2024 | 2024 | Amh | Amh | 0 | 0 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 3 | 43 |
| Trefol | S/HSG/034F/LDP2/1 | Maesgwyn | Abergwaun | 175 | 2024 | 2025 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 23 | 22 | 22 | 22 | 22 | 22 | 22 | 20 | 167 |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod CDLl 2 | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau i'w darparu yn ystod cyfnod y Cynllun | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu | | | Datblygiadau fesul cam (2023 i ddiwedd 2033) | | | | | | | | | | | | | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyfnod amser ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio / ymgynghoriad PAC | Cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu arno | Cyfnod amser ar gyfer cyflawni amodau perthnasol i alluogi adeiladu'r safle | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 | |
| Trefol | HSG/088/LDP2/1 | I'r gogledd o Highfield Park a Pharc Roberts | Arberth | 89 | | Cyflwynwyd yn 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 11 | 20 | 20 | 20 | 18 | 0 | 0 | 0 | 0 | 64 |
| Trefol | HSG/093/00066 | I'r dwyrain o Poppy Drive | Neyland | 101 | 2024 | 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 10 | 20 | 20 | 20 | 20 | 11 | 0 | 0 | 0 | |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/020/LDP2/1 | Tir yng Nghaeau Tan Ffynnon | Cilgerran | 50 | 2026 | 2027 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 0 | 40 |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/030/CDLl/01 | I'r dwyrain o Waunaeron | Crymych | 28 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 10 | 10 | 0 | 0 | |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/048/00038 | I'r gogledd o Hayston View | Johnston | 50 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 15 | 15 | 15 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 42 |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/048/LDP2/1 | Maes yr Ysgol | Johnston | 13 | 2026 | 2026 | 2027 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/050/LDP2/1 | I'r de o Rock Park, Cilgeti | Cilgeti | 19 | 2026 | 2026 | 2027 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/052/00011 | I'r de o Cleggars Park | Llandyfái | 55 | | Cyflwynwyd yn 2024 | 2024 | Amh | Amh | 0 | 0 | 15 | 15 | 15 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod CDLl 2 | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau i'w darparu yn ystod cyfnod y Cynllun | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu | | | Datblygiadau fesul cam (2023 i ddiwedd 2033) | | | | | | | | | | | | | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyfnod amser ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio / ymgynghoriad PAC | Cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu arno | Cyfnod amser ar gyfer cyflawni amodau perthnasol i alluogi adeiladu'r safle | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 | |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/052/LDP2/1 | Ger Ysgol Llandyfái | Llandyfái | 40 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/053/LDP2/1 | Rhwng Longstone Court a 62, Station Road | Treletert | 38 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 10 | 10 | 10 | 0 | |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/063/LDP2/1 | I'r gogledd o The Kilns | Llangwm | 66 | 2024 | 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 10 | 15 | 15 | 15 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Canolfan Gwasanaeth | HSG/122/00035 | Estyniad Awel y Môr | Llandudoch | 28 | | Cyflwynwyd yn 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 8 | 8 | 8 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/003/LDP2/1 | I'r gogledd o Fferm Begeli | Begeli | 46 | 2026 | 2027 | 2027 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/006/00003 | Gerllaw Hafod | Blaenffos | 6 | 2024 | 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/022/LDP2/1 | Tir yn Dungleddy Court | Clarbeston Road | 19 | 2026 | 2027 | 2027 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 7 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/152/LDP2/1 | I'r de o Fro'r Dderwen | Clunderwen | 31 | 2026 | 2027 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 8 | 8 | 8 | 0 | 0 | 31 |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod CDLl 2 | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau i'w darparu yn ystod cyfnod y Cynllun | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu | | | Datblygiadau fesul cam (2023 i ddiwedd 2033) | | | | | | | | | | | | | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyfnod amser ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio / ymgynghoriad PAC | Cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu arno | Cyfnod amser ar gyfer cyflawni amodau perthnasol i alluogi adeiladu'r safle | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/029/00014 | Gyferbyn â Woodholm Close | Crundale | 15 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/029/LDP2/1 | I'r gorllewin o Ashford Park | Crundale | 22 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 18 |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/043/LDP2/1 | Gerllaw Brackenhurst | Hill Mountain | 15 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 | 11 |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/046/LDP2/1 | Tir wrth West End Cottages | Hundleton | 14 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 5 | 5 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/047/LDP2/1 | I'r De o The Crown | Jeffreyston | 8 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/049/LDP2/1 | I'r dwyrain o Brookfield Close | Keeston | 27 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 6 | 6 | 6 | 6 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/060/LDP2/1 | Gerllaw Maesybryn | Llandissilio | 26 | 2028 | 2029 | 2029 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 7 | 7 | 7 | 17 |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/066/LDP2/1 | I'r dwyrain o Hazelbank | Llanstadwell | 10 | 2028 | 2029 | 2029 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/081/LDP2/1 | I'r gorllewin o'r Globe Inn | Maenclochog | 15 | 2024 | 2025 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 21 |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/099/LDP2/1 | Tir yn Coppins Park | Pentlepoir | 11 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 4 | 4 | 0 | 0 | |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod CDLl 2 | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau i'w darparu yn ystod cyfnod y Cynllun | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu | | | Datblygiadau fesul cam (2023 i ddiwedd 2033) | | | | | | | | | | | | | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyfnod amser ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio / ymgynghoriad PAC | Cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu arno | Cyfnod amser ar gyfer cyflawni amodau perthnasol i alluogi adeiladu'r safle | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/113/LDP2/1 | I'r de o Robeston Court | Robeston Wathen | 5 | 2024 | 2024 | 2024 | Amh | Amh | 0 | 0 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/114/LDP/01 | I'r Dwyrain o Pilgrim's Way | Y Garn | 52 | | Cyflwynwyd yn 2024 | 2024 | Amh | Amh | 0 | 0 | 6 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 6 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/119/LDP2/1 | Tir rhwng Cornerways ac Austalise | Simpson Cross | 18 | 2026 | 2027 | 2027 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 4 | 4 | 4 | 2 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/120/00018 | I'r Gog. Orll. o Wesley Way | Spittal | 10 | 2025 | 2026 | 2026 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/123/CDLl/01 | I'r gogledd o Parsons Green | St Florence | 20 | 2024 | 2024 | 2025 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/132/LDP2/1 | I'r gorllewin o Fferm Kings Park | Tredeml | 14 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 4 | 4 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/135/LDP2/1 | I'r gogledd o Ffordd Osgoi Bulford Road | Tiers Cross | 6 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | |
| Pentref Gwasanaeth | HSG/149/LDP2/1 | Tir yn Ford Farm | Casblaidd | 14 | 2027 | 2028 | 2028 | Amh | Amh | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 4 | 4 | 2 | 0 | |

| | | | | | Yr oedi cyn cychwyn y gwaith adeiladu | | | Datblygiadau fesul cam (2023 i ddiwedd 2033) | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod CDLl 2 | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau i'w darparu yn ystod cyfnod y Cynllun | Cyfnod amser ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio / ymgynghoriad PAC | Cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais cynllunio a phenderfynu arno | Cyfnod amser ar gyfer cyflawni amodau perthnasol i alluogi adeiladu'r safle | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
| Cyfansymiau | | | | 2364 | | | | | | 0 | 50 | 148 | 203 | 275 | 351 | 408 | 329 | 279 | 212 | 107 | |

Tabl C: Amseriad Rhagamcanol ar gyfer Safleoedd gyda Chaniatâd Cynllunio (2024-2033)

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod Monitro Datblygiad | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau sy'n weddill (NS U/C - Ar ôl 2033) | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefol | 040/00431 | Scarrowscant | Hwlffordd | 181 | 172 | 9 | 9 | 9 | | | | | | | | | | | |
| Trefol | 040/00397 | 141, Portfield | Hwlffordd | 20 | 0 | 20 | 0 | 8 | 12 | | | | | | | | | | |
| Trefol | 040/00077 | Kensington Gardens | Hwlffordd | 133 | 83 | 49 | 3 | 3 | 2 | | | | | | | | | | 44 |
| Trefol | 040/00373 | Eglwys Calfaria | Hwlffordd | 8 | 0 | 8 | 0 | | 4 | 4 | | | | | | | | | |
| Trefol | 040/00430 | Clwb Snwcer | Hwlffordd | 16 | 0 | 8 | 0 | | 4 | 4 | | | | | | | | | 8 |
| Trefol | 040/00106 | Brooklands Park | Hwlffordd | 21 | 3 | 18 | 0 | | 6 | 6 | 6 | | | | | | | | |
| Trefol | 040/00445 | 7, Dew Street | Hwlffordd | 5 | 0 | 5 | 0 | | 5 | | | | | | | | | | |
| Trefol | 086/00129 | Beaconing Drive, Steynton | Aberdaugleddau | 81 | 51 | 30 | 2 | 15 | 15 | | | | | | | | | | |
| Trefol | 086/00223 | Thornton Rd | Aberdaugleddau | 117 | 107 | 10 | 10 | 10 | | | | | | | | | | | |
| Trefol | 086/00377 | Tir wrth Farina Aberdaugleddau | Aberdaugleddau | 45 | 0 | 45 | 0 | | | | | 10 | 10 | 10 | 15 | | | | 145 |
| Trefol | 086/00378 | 132 Robert Street | Aberdaugleddau | 8 | 0 | 8 | 0 | 4 | 4 | | | | | | | | | | |
| Trefol | 086/00381 | 72-78 Charles Street | Aberdaugleddau | 15 | 0 | 15 | 0 | | 7 | 8 | | | | | | | | | |
| Trefol | 086/00282 | Woodlands View | Aberdaugleddau | 7 | 3 | 4 | 0 | 4 | | | | | | | | | | | |
| Trefol | 096/00373 | Imble Lane | Doc Penfro | 100 | 0 | 100 | 30 | 40 | 40 | 20 | | | | | | | | | |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod Monitro Datblygiad | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau sy'n weddill (NS U/C - Ar ôl 2033) | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefol | 096/00274 | Tir i'r Gog. o'r Cleddau Bridge Hotel | Doc Penfro | 5 | 0 | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | | | | | | | | | 2 |
| Trefol | 096/00375 | Tir i'r Gog. o'r Cleddau Bridge Hotel | Doc Penfro | 14 | 0 | 7 | 0 | | | | 2 | 3 | 2 | | | | | | 7 |
| Trefol | 096/00230 | Hampshire Drive | Doc Penfro | 17 | 7 | 6 | 2 | 4 | 2 | | | | | | | | | | |
| Trefol | 095/00147 | Tir gerllaw Long Mains a Phriordy Cil-maen | Penfro | 70 | 30 | 70 | 0 | | | | | 10 | 15 | 15 | 15 | 15 | | | 138 |
| Trefol | 095/00180 | Green Haven, Cil-maen | Penfro | 30 | 7 | 11 | 0 | | 3 | 3 | 3 | 2 | | | | | | | 12 |
| Trefol | 095/00240 | Springfield | Penfro | 5 | 3 | 2 | 0 | | 2 | | | | | | | | | | |
| Trefol | 034/00165 | I'r gorllewin o Clos-y-Bigney | Abergwaun | 50 | 0 | 50 | 0 | 5 | 30 | 15 | | | | | | | | | |
| Trefol | 034/00165 | Clwstwr o Adeiladau Fferm Maesgwyn | Abergwaun | 5 | 0 | 3 | 1 | 1 | 2 | | | | | | | | | | 2 |
| Trefol | 034/00099 | Delfryn, Heol Penlan, Stop & Call | Wdig | 9 | 0 | 5 | 0 | | 3 | 2 | | | | | | | | | 4 |
| Trefol | 034/00292 | Stryd Fawr | Wdig | 26 | 0 | 26 | 0 | 5 | 11 | 10 | | | | | | | | | |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod Monitro Datblygiad | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau sy'n weddill (NS U/C - Ar ôl 2033) | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefol | 088/00077 | Rushacre Gardens | Arberth | 54 | 0 | 27 | 0 | | | 7 | 10 | 10 | | | | | | | 27 |
| Trefol | 088/00360 | Hen Ysgol Gynradd Arberth | Arberth | 11 | 3 | 8 | 0 | 0 | 4 | 4 | | | | | | | | | |
| Trefol | 088/00074 | Fferm Dingle | Gerllaw Arberth | 33 | 0 | 16 | 0 | | | | | | 5 | 5 | 6 | | | | 17 |
| Canolfan Gwasanaeth | 030/00043 | Rhwng yr ysgol a ffordd yr orsaf | Crymych | 56 | 0 | 56 | 0 | | 20 | 18 | 18 | | | | | | | | |
| Canolfan Gwasanaeth | 030/00019 | Crug yr Efydd | Crymych | 26 | 20 | 7 | 2 | 3 | 4 | | | | | | | | | | |
| Canolfan Gwasanaeth | 048/00017 | Pond Bridge Farm | Johnston | 123 | 69 | 54 | 14 | 20 | 15 | 15 | 4 | | | | | | | | |
| Canolfan Gwasanaeth | 050/00043 | Tir y tu cefn i Newton Hall | Cilgeti | 19 | 0 | 19 | 0 | 0 | 5 | 7 | 7 | | | | | | | | |
| Canolfan Gwasanaeth | 053/00034 | Parc Maen Hir | Treletert | 26 | 0 | 26 | 0 | 0 | 6 | 10 | 10 | | | | | | | | |
| Canolfan Gwasanaeth | 053/00009 | Cam 2, Court Meadow | Treletert | 53 | 0 | 27 | 0 | 5 | 5 | 5 | 5 | 7 | | | | | | | 26 |
| Canolfan Gwasanaeth | 053/00052 | Cyn drac Gwibgartio | Treletert | 23 | 1 | 11 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 | | | | | | | 11 |
| Pentref Gwasanaeth | 007/00047 | Iard yr Hen Orsaf | Boncath | 30 | 0 | 20 | 0 | | | 7 | 7 | 6 | | | | | | | 10 |
| Pentref Gwasanaeth | 003/00040 | I'r gogledd o New Road | Begeli | 70 | 0 | 35 | 0 | | | | | | | | 5 | 10 | 10 | 10 | 35 |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod Monitro Datblygiad | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau sy'n weddill (NS U/C - Ar ôl 2033) | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentref Gwasanaeth | 003/00025 | Barley Park Close | Begeli | 26 | 6 | 20 | 3 | 10 | 10 | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 025/00028 | I'r de o Tinker's Fold | Cosheston | 6 | 0 | 4 | 2 | 2 | 2 | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 028/00012 | I'r gogledd o The Forge | Croesgoch | 23 | 0 | 23 | 0 | | | | 6 | 8 | 8 | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 029/00013 | Dingle Lane | Crundale | 40 | 39 | 1 | 0 | | 1 | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 029/00026 | Woodholm Farm | Crundale | 5 | 0 | 5 | 1 | | | | | | | 1 | 2 | | | | 2 |
| Pentref Gwasanaeth | 033/00035 | I'r De Orll. o Ysgol Eglwyswrw | Eglwyswrw | 23 | 0 | 23 | 23 | 23 | | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 035/00030 | Will Meadows | Freystrop | 28 | 15 | 13 | 2 | 7 | 6 | | | | | | | | | | |
| | 035/00021 | Poplar Meadow | Freystrop | 7 | 6 | 1 | 1 | 1 | | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 042/00013 | I'r gogledd o Cartref | Hermon | 15 | 0 | 8 | 0 | | | 2 | 3 | 3 | | | | | | | 7 |
| Pentref Gwasanaeth | 044/00050 | Leven Close | Hook | 13 | 12 | 1 | 0 | 1 | | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 044/00063 | Cyffin Barn Farm | Hook | 11 | 7 | 4 | 1 | 2 | 2 | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 044/00015 | Harcourt Close | Hook | 40 | 12 | 14 | 0 | | 4 | 4 | 4 | 2 | | | | | | | 14 |
| Pentref Gwasanaeth | 046/00015 | Bowett Close | Hundleton | 29 | 24 | 5 | 0 | 3 | 2 | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 081/CDLl/01 | Ger Y Lein Fach | Maenclochog | 13 | 11 | 2 | 0 | | 2 | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 081/CDLl/01 | Maes Roslyn | Maenclochog | 13 | 0 | 13 | 0 | 3 | 5 | 5 | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 085/00022 | Parc yr Odyn | Mathri | 7 | 2 | 5 | 1 | 2 | 3 | | | | | | | | | | |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod Monitro Datblygiad | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau sy'n weddill (NS U/C - Ar ôl 2033) | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentref Gwasanaeth | 099/00045 | Sycamore Close | Pentlepoir | 6 | 3 | 3 | 0 | 1 | 2 | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 015/00024 | Cornfields Walk | Sageston | 100 | 70 | 30 | 30 | 30 | | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 015/00022 | Sageston Fields | Sageston | 38 | 31 | 7 | 0 | 4 | 3 | | | | | | | | | | |
| | 119/CDLI/01 | I'r dwyrain o Hill Lane | Simpson Cross | 20 | 0 | 20 | 0 | 2 | 5 | 5 | 5 | 3 | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 119/00028 | Canolfan Grefft yr Hen Efail | Simpson Cross | 4 | 0 | 4 | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 119/00030 | Amgueddfa Foduron Sir Benfro | Simpson Cross | 26 | 0 | 13 | 0 | 0 | 4 | 4 | 5 | | | | | | | | 13 |
| Pentref Gwasanaeth | 123/00045 | Ash Grove Gardens | St Florence | 11 | 6 | 5 | 2 | 2 | 3 | | | | | | | | | | |
| Pentref Gwasanaeth | 131/00021 | Tir ger Blaenffynnon Farm | Tegryn | 30 | 4 | 13 | 1 | 2 | 5 | 6 | | | | | | | | | 12 |
| Pentref Lleol y Clwstwr? | 011/00011 | Hawn Lake | Burton | 13 | 12 | 1 | 0 | | 1 | | | | | | | | | | |
| Pentref Lleol y Clwstwr | 012/00004 | Parc yr Odyn | Burton Ferry | 8 | 1 | 7 | 1 | 2 | 3 | 2 | | | | | | | | | |
| Pentref Lleol | 110/00015 | Maes Elwyn John | Reynalton | 7 | 5 | 2 | 1 | 2 | | | | | | | | | | | |
| Pentref Lleol | 125/00009 | St Twynnells Farm | St Twynnells | 5 | 0 | 2 | 2 | 2 | | | | | | | | | | | 3 |

| Haen yr Anheddiad | Cyfeirnod Monitro Datblygiad | Enw'r Safle | Anheddiad | Cyfanswm yr Unedau | Nifer yr unedau wedi'u cwblhau | Nifer yr unedau sy'n weddill (NS U/C - Ar ôl 2033) | Nifer yr unedau UC | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentref Lleol | 000/01202 | Bluebell Lane | Wolfsdale | 7 | 5 | 2 | 1 | 1 | 1 | | | | | | | | | | |
| **Cyfansymiau** | | | | **2086** | **830** | **1069** | **152** | **245** | **278** | **176** | **97** | **67** | **40** | **31** | **43** | **25** | **10** | **10** | **539** |


Tabl D: Taflwybr tai ar gyfer y CDLl

| | Blwyddyn y CDLl | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Blwyddyn | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-2033 | 2033 |
| B | Blynyddoedd sy'n weddill | 17 | 16 | 15 | 14 | 13 | 12 | 11 | 10 | 9 | 8 | 7 | 6 | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| C | Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 | 6425 |
| D | Cyfanswm Gofyniad Tai'r CDLl | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 | 5840 |
| AC | Cartrefi Gwirioneddol (Mawr) wedi'u Cwblhau | 231 | 299 | 226 | 286 | 261 | 283 | | | | | | | | | | | |
| Dd | Cartrefi Gwirioneddol (Bach) wedi'u Cwblhau | 55 | 120 | 41 | 54 | 77 | 84 | | | | | | | | | | | |
| G | Safleoedd y Rhagamcanir eu Dyrannu wedi'u Cwblhau | | | | | | | 0 | 50 | 148 | 203 | 275 | 351 | 408 | 329 | 279 | 212 | 107 |
| H | Cartrefi Banc Tir y Rhagamcanir fydd wedi'u Cwblhau* | | | | | | | 245 | 278 | 176 | 97 | 67 | 40 | 31 | 43 | 25 | 10 | 10 |
| i | Hap-safleoedd Mawr y Rhagamcanir fydd wedi'u Cwblhau | | | | | | | 0 | 0 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 30 |
| J | Hap-safleoedd Bach y Rhagamcanir fydd wedi'u Cwblhau | | | | | | | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 66 | 49 |
| K | Cyfanswm y Tai fydd wedi'u Cwblhau | 286 | 419 | 267 | 340 | 338 | 367 | 311 | 394 | 429 | 405 | 447 | 496 | 544 | 477 | 409 | 327 | 196 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L | Cyfradd Adeiladu Flynyddol Gyfartalog | | | | | | | 269 | 341 | 372 | 351 | 388 | 430 | 472 | 414 | 355 | 284 | 170 |
| M | Cyfanswm y Tai Cronnus Rhagamcanol wedi'u Cwblhau | 286 | 705 | 972 | 1312 | 1650 | 2017 | 2328 | 2721 | 3151 | 3556 | 4003 | 4499 | 5044 | 5521 | 5930 | 6257 | 6453 |
| N | Tai wedi'u Cwblhau sy'n Weddill | 6139 | 5720 | 5453 | 5113 | 4775 | 4408 | 4097 | 3704 | 3274 | 2869 | 2422 | 1926 | 1381 | 904 | 495 | 168 | -28 |

*Dim ond safleoedd o 5 uned neu fwy sydd wedi'u cynnwys yn y tai banc tir rhagamcanol a gwblhawyd, tra bod Tabl A (Cyflenwad Tai) a Thabl F (Crynodeb o Ddosbarthiad Gofodol Tai) yn cyfrif yr holl unedau sy'n cael eu hadeiladu, gan adael gwahaniaeth yn ffigyrau'r cyfanswm.

Tabl E Crynodeb o Ddosbarthiad Gofodol Tai



Tabl F Crynodeb o Ddosbarthiad Gofodol Tai

| | **Cydrannau'r Cyflenwad Tai** | **Haen 1 Trefi Trefol** | **Haen 2a Canolfannau Gwasanaeth** | **Haen 2b Pentrefi Gwasanaeth** | **Haen 2c Pentrefi Lleol** | **Cefn gwlad** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Cyfanswm y Tai a gwblhawyd (bach a mawr) | 970 | 192 | 479 | 41 | 160 | 2017 |
| B | Unedau sy'n cael eu hadeiladu | 89 | 20 | 86 | 9 | 28 | 232 |
| C | Unedau gyda chaniatâd cynllunio | 461 | 184 | 221 | 8 | 0 | 874 |
| D | Dyraniadau Tai Newydd | 1576 | 387 | 404 | 0 | 0 | 2367 |
| E | Hap-safleoedd mawr (5) | 220 | 19 | 69 | 0 | 0 | 307 |
| F | Hap-safleoedd bach (4 a llai) | 350 | 43 | 135 | 43 | 68 | 640 |
| G | Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai | 3840 | 845 | 1394 | 101 | 256 | 6437 |

## Atodiad 3: Canllawiau Cynllunio Atodol

| **Cyfeirnod Polisi** | **Pwnc** | **CCA presennol i'w dwyn ymlaen, yn amodol ar ddiweddaru** | **CCA newydd** | **Amserlen ar gyfer paratoi a mabwysiadu** |
|---|---|---|---|---|
| GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol, GN 16 Dyraniadau Preswyl | Safleoedd Datblygu a Seilwaith | X | ✓ | Paratowyd, ymgynghorwyd ac fe'u mabwysiadwyd gyda CDLl 2. |
| GN 56 Datblygiad Carafannau, Gwersylla a Cabanau Gwyliau, GN 57 Cyfleusterau Safle ar Feysydd Carafannau a Gwersylla Presennol | CCA Asesiad o Gapasiti Tirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau | X | ✓ | Paratowyd, ymgynghorwyd a mabwysiadwyd hwy ochr yn ochr â CDLl 2. |
| GN 20 Tai Fforddiadwy Anghenion Lleol | Tai Fforddiadwy | ✓ | X | CCA cyfredol a fabwysiadwyd ym mis Medi 2015. I'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd | CCA Rhwymedigaethau Cynllunio | ✓ | X | CCA cyfredol a fabwysiadwyd ym mis Medi 2016 i'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| SP 11 Cefn Gwlad, GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol, GN 50 | Bioamrywiaeth | ✓ | X | CCA cyfredol a fabwysiadwyd ym mis Mai 2021. I'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth | | | | |
| GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel, GN 5 Ynni Adnewyddadwy – targed a dyraniadau | Ynni Adnewyddadwy | ✓ | X | CCA cyfredol a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2016. I'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 45 Seilwaith Gwyrdd | Seilwaith Gwyrdd | X | ✓ | I'w baratoi ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 1 Polisi Datblygiad Cyffredinol | Goleuadau ac Awyr Dywyll | X | ✓ | Gweithio gydag APCAP ar y cyd. |
| SP 11 Cefn Gwlad | Asesiad o Gymeriad Tirwedd | Oes, ond nid yw'r broses wedi'i chwblhau | Na, cyflwyno CCA ar gyfer CDLl 2 | Ymgynghorwyd ar Ganllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer CDLl 1 ac mae angen adrodd arnynt i'r Cabinet. Yna i'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| SP 11 Cefn Gwlad | CCA ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar Gymeriad Morlun | ✓ | Na, cyflwyno CCA ar gyfer CDLl 2 | Mabwysiadwyd CCA ar gyfer CDLl 1 gan CSP 2 Hydref 2023. I'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| GN 28 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol | Amgylchedd Hanesyddol (Archeoleg) | ✓ | X | CCA CDLl 1 presennol wedi'u mabwysiadu ym mis Mai 2021. I'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt ar Dirwedd ac Amwynder Gweledol | ✓ | X | CCA CDLl 1 presennol wedi'u mabwysiadu 7 Tachwedd 2022. I'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 1 Polisi Datblygu Cyffredinol, GN 2 Dylunio Cynaliadwy | CCA Safonau Parcio a Phwyntiau Gwefru ULEV | ✓ (dim ond ar gyfer safonau parcio) | ✓ fel ULEV i'w gynnwys | CCA cyfredol ar Safonau Parcio wedi'u mabwysiadu Mehefin 2013. I'w diweddaru ar ôl mabwysiadu CDLl 2 gydag ULEV wedi'i ychwanegu. |
| GN 15 Cymysgedd Tai, Safonau Gofod a gofyniad am Safonau Cartrefi Gydol Oes | Ail Gartrefi a Gosod Eiddo dros Dymor Byr yn ardal y Cynllun | X | ✓ | I'w baratoi ar ôl mabwysiadu CDLl 2 ac yn unol â thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar y maes pwnc. |
| GN 15 Cymysgedd Tai, Safonau Gofod a gofyniad am Safonau Cartrefi Gydol Oes | Dylunio Preswyl | X | ✓ | I'w paratoi ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 47 Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr | Ansawdd dŵr a diogelu adnoddau dŵr, | X | ✓ | I'w paratoi ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 47 a GN 18 – Slade Lane, Hwlffordd – HSG/040/LDP2/3 | Prif Gynllun Lôn Slade | X | ✓ | Mae Prif Gynllun yn cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru. Gall hyn fod yn sail ar gyfer cyflwyno ceisiadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynllunio yn y dyfodol ac ar gyfer paratoi CCA ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 16 GN 19a – Maesgwynne, Abergwaun | Prif Gynllun Maesgwynne | X | ✓ | Mae Prif Gynllun ar gyfer y rhannau o'r safle sydd heb eu datblygu i gael ei baratoi gan Gymdeithas Tai Wales and West. Gall hyn fod yn sail ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio yn y dyfodol ac ar gyfer paratoi CCA ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 16 GN 19B – I'r De o Conway Drive, Castle Pill Road, Steynton – S/HSG/086/LDP2/3 | Uwchgynllun i'r de o Conway Drive | X | ✓ | Bydd angen i berchnogion presennol neu ddatblygwr y safle baratoi Uwchgynllun. Gallai hyn fod yn sail ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio yn y dyfodol ac ar gyfer paratoi CCA ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| SP 13 Datblygiad Cysylltiedig â Phorthladdoedd ac Ynni a'r Porthladd Rhydd Celtaidd | CCA y Porthladd Rhydd | X | Efallai | Rhoddir ystyriaeth fanwl i'r hyn sydd ei angen ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 7 Barics Cawdor gan gynnwys hen Faes Awyr Breudeth | Briff Datblygu ar gyfer Barics Cawdor gan gynnwys cyn Faes Awyr Breudeth | X | Efallai | Ystyriaeth fanwl i'w rhoi i'r hyn sydd ei angen ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |
| GN 38 Diogelu ac Echdynnu'r Adnodd Mwynol yn flaenorol | Gofynion Echdynnu Blaenorol | X (ond yn nodi bod Nodyn Cyngor Arfer Da ar gael) | ✓ | I'w baratoi ar ôl mabwysiadu CDLl 2. |

# Atodiad 4: Fframwaith Monitro

Mae’r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn mynnu bod awdurdodau yn adolygu’r materion hynny a allai effeithio ar gynllunio a datblygu yn eu hardal. Mae’r broses fonitro hon yn cynnwys casglu a dadansoddi gwybodaeth yn rheolaidd, yn barhaus a systematig i fesur ac asesu gweithrediad, effeithiolrwydd ac effaith polisi gyda fframwaith monitro. Mae Llywodraeth Cymru’n mynnu bod pob CDLl yn cynnwys fframwaith monitro. Bydd y monitro’n bwydo i Adroddiad Monitro Blynyddol, a bydd hyn yn helpu llywio Adolygiad Cynllun dilynol hefyd, a gynhelir cyn pen 4 blynedd o fabwysiadu’r Cynllun.

**Adroddiad Monitro Blynyddol**
Mae’n ofynnol i’r Cyngor gynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol ar ei CDLl i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Bydd amcanion a pholisïau’r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu monitro yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Bydd yr adroddiadau hyn yn monitro cynnydd yn erbyn dangosyddion a thargedau allweddol.

Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn nodi p’un a yw amcanion y Cynllun yn cael eu cyflawni, a ph’un a yw polisïau’n cael eu gweithredu fel y rhagwelwyd. Os bydd angen, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn amlinellu camau y bwriada’r Cyngor eu cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw bolisïau a chynigion yn ymwneud â thanberfformio.

**Dangosyddion Monitro**
Mae’r fframwaith monitro yn amlinellu nifer o ddangosyddion sy’n ffurfio’r sail ar gyfer asesu perfformiad y Cynllun mewn perthynas â chyflawni amcanion strategol y Cyngor. Mae’r rhain yn cynnwys dangosyddion sy’n ofynnol gan ddeddfwriaeth, fel cyflenwad tir ar gyfer tai, dangosyddion allweddol sy’n berthnasol i’r holl Gynlluniau, fel defnyddio tir cyflogaeth a dangosyddion lleol eraill a gynigir gan y Cyngor.

Ar gyfer pob amcan strategol mae’r Cyngor wedi nodi polisïau allweddol sy’n debygol o gyfrannu at ei gyflawni. Ni fydd pob polisi yn y Cynllun yn cael ei fonitro - dim ond y rheiny sy’n hanfodol i gyflawni amcanion y Cynllun. Mae **targed** cyfatebol i bob Dangosydd. Ysgrifennwyd y targedau hyn i fod yn benodol, mesuradwy a realistig. Mae **Pwyntiau Sbardun** yn pennu’r pwynt pan nad yw Dangosyddion penodol a’r targedau cysylltiedig yn cael eu cyflawni, ac felly mae’n dynodi’r angen i weithredu ar agwedd benodol ar Strategaeth y Cynllun, neu bolisi. Dynodir **camau gweithredu** posibl ar gyfer pob pwynt sbardun. Ceisia’r Fframwaith Monitro gynnwys yr opsiynau o ba gamau y gellid eu cymryd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Parhau i fonitro
- Hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer Swyddogion/Aelodau

- Agen Canllawiau Cynllunio Atodol ychwanegol
- Angen archwilio/ymchwilio pellach
- Angen Adolygiad Polisi
- Angen adolygu'r Cynllun

Yn ychwanegol at yr Amcanion Strategol, nodir dau darged monitro cyd-destunol a fydd yn darparu gwybodaeth am lefelau'r Gymraeg a Chyflogaeth ar draws ardal y Cynllun.

Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cynnwys adran ar fonitro Gwerthuso Cynaliadwyedd hefyd.

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **A.** Lliniaru ac ymateb i her y Newid yn yr Hinsawdd | GN 1 Datblygu Cyffredinol | Graddfa/math datblygiad bregus iawn a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2 (CRAIDD) | Mae datblygiad ym mharthau C1 ac C2 yn unol â darpariaethau TAN 15 | Mwy na 3 cymeradwyaeth y flwyddyn dros 3 blynedd yn olynol ar gyfer datblygiad ym mharthau C1 ac C2 yn groes i ddarpariaethau TAN 15. | Gwybodaeth o adroddiadau SDI. | Angen hyfforddi Swyddogion / Aelodau |
| **A.** Lliniaru ac ymateb i her y Newid yn yr Hinsawdd | GN 5 Ynni Adnewyddadwy – targed a dyraniadau | Capasiti (MW) datblygiad ynni adnewyddadwy a ganiateir. | 6 MW y flwyddyn | Os yw 10% islaw'r targed am 3 blynedd yn olynol | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio Cyngor Sir Penfro (CSP). | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil |
| **A.** Lliniaru ac ymateb i her y Newid yn yr Hinsawdd | GN 46 Newid Arfordirol | Nifer y cynigion sy'n cael caniatâd cynllunio yn | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i'r polisi. | Mwy na 3 cymeradwyaeth mewn 1 flynedd yn groes i | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen hyfforddi Swyddogion / Aelodau |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | groes i ddarpariaethau'r polisi. | | ddarpariaethau'r polisi dros 3 blynedd yn olynol. | | |
| | | | | | | |
| **B.** Cyflawni datblygiad o ansawdd uchel lle mae creu lleoedd yn cael ei gefnogi gan ddylunio cynaliadwy sy'n ymateb yn briodol i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig, y dirwedd a'r treflun. | SP1 Creu Lleoedd Cynaliadwy | Nifer y ceisiadau a gymeradwyir yn groes i ddarpariaethau SP 1 Creu Lleoedd Cynaliadwy | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i'r polisi. | Mwy na 5 cais wedi'u cymeradwyo yn groes i'r polisi mewn 1 flynedd dros 3 blynedd yn olynol. | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen hyfforddi Swyddogion / Aelodau |
| **B.** Cyflawni datblygiad o ansawdd uchel lle mae creu lleoedd yn cael ei gefnogi gan ddylunio cynaliadwy sy'n ymateb yn briodol i | GN 2 Dylunio Cynaliadwy | Nifer y ceisiadau a gymeradwyir yn groes i ddarpariaethau SP 2 Dylunio Cynaliadwy | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i'r polisi. | Mwy na 5 cais wedi'u cymeradwyo yn groes i'r polisi mewn 1 flynedd dros 3 blynedd yn olynol. | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen hyfforddi Swyddogion / Aelodau, efallai diwygio Canllawiau Cynllunio Atodol. |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig, y dirwedd a'r treflun. | | | | | | |
| | | | | | | |
| C. Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau cychwynnol, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Busnesau Bach a Chanolig. | SP 4 Cefnogi Ffyniant GN 9 Dyraniadau Cyflogaeth | Dyraniadau defnydd tir cyflogaeth a thwf swyddi. (CRAIDD) | 100 ha o dir cyflogaeth newydd wedi'i ddatblygu ar ddyraniadau cyflogaeth (ha/sq m) | Llai na 45 ha wedi'i ddatblygu erbyn 2025 (Adolygu'r Cynllun) | Arolwg Tir Cyflogaeth PCC | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. Adolygu'r Polisi, o bosibl, ar adeg Adolygu'r Cynllun os yw ymchwiliad pellach yn dangos bod hyn yn angenrheidiol. |
| C. Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi | SP 14 Darpariaeth Cyflogaeth | Cyfradd datblygu ar ddyraniadau strategol (CRAIDD) | • Blackbridge<br>• Clwstwr Parc Gwyddoniaeth a | Mwy na 50% o'r ardal safleoedd strategol a amlygwyd heb | Arolwg Tir Cyflogaeth PCC | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. Adolygu'r |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| busnesau cychwynnol, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Busnesau Bach a Chanolig. | | | Thechnoleg Sir Benfro<br>• Clwstwr Porth Doc Penfro<br>Caniatâd cynllunio ar 50% o arwynebedd safleoedd erbyn 2025 | ganiatâd cynllunio erbyn 2025 | | Polisi, o bosibl, ar adeg Adolygu'r Cynllun os yw ymchwiliad pellach yn dangos bod hyn yn angenrheidiol. |
| C. Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau cychwynnol, arallgyfeirio gwledig, arferion amaethyddol sy'n newid, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Busnesau | SP 17 Yr Economi Ymwelwyr | Nifer y ceisiadau a gymeradwyir yn groes i Bolisi SP 17 Yr Economi Ymwelwyr. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i'r polisïau | Mwy na 4 cymeradwyaeth mewn blwyddyn yn groes i'r polisi dros 3 blynedd yn olynol. | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen hyfforddi Swyddogion / Aelodau |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bach a Chanolig. | | | | | | |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | Polisi SP 2 Gofyniad Tai | Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad ychwanegol net sy'n cael eu hadeiladu yn ardal yr ACLl. (CRAIDD) | Darparu cyfanswm o 5,840 o anheddau erbyn 2033 (365 y flwyddyn ar gyfartaledd) fel y dangosir gan y taflwybr Tai | Os yw cyfanswm nifer yr anheddau a adeiladwyd yn llai na 10% erbyn adeg adolygu'r Cynllun yn ffurfiol, dylid cynnal gwaith ymchwil. Os yw nifer yr anheddau a gwblhawyd yn llai na 25% o'r targed erbyn adeg adolygu'r Cynllun, dylid ystyried dyraniadau ychwanegol ac adolygu'r ffin aneddiadau. | Arolwg Tai Blynyddol CSP. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil / Adolygu'r Polisi |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a | Polisi SP 6 Hierarchaeth Aneddiadau | Dosbarthiad gofodol datblygiad tai (CRAIDD) | Mae 60% o'r caniatadau yn yr Aneddiadau Trefol | Llai na 50% o ganiatadau mewn Aneddiadau Trefol dros gyfnod o 3 blynedd. | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| gwasanaethau cymunedol allweddol. | | | | | | |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | SP 3 Targed Tai Fforddiadwy | Lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi'i monitro yn erbyn targed trosfwaol y cynllun (CRAIDD) | Darparu 2,000 o anheddau fforddiadwy newydd (125 y flwyddyn) erbyn 2033. | Os yw cyfanswm nifer yr anheddau a adeiladwyd yn llai na 25% islaw'r targed o 125 am 3 blynedd yn olynol. | Arolwg Tai Blynyddol CSP. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | SP 3 Targed tai Fforddiadwy | Deiliadaeth tai fforddiadwy a gwblhawyd (CRAIDD) | Dylai deiliadaeth y tai fforddiadwy a gwblhawyd fod yn unol â'r angen a amlygwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). | Os yw cyfanswm nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd dros 15% yn wahanol i'r angen LHMA am 3 blynedd yn olynol. | Arolwg Tai Blynyddol CSP a monitro A106. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil – yn dibynnu ar y canlyniad, adolygu Canllawiau Cynllunio Atodol a hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion / |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Aelodau, o bosibl. |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | GN 15Cymysgedd Tai, Ail Gartrefi ac Eiddo ar Osod dros Dymor Byr, Safonau Gofod a gofynion ar gyfer Safonau Cartrefi Gydol Oes | Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy – trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob ardal is-farchnad (CRAIDD) | Monitro darparu tai fforddiadwy yn unol â thargedau a throthwyon y polisi ym mhob ardal is-farchnad fel y nodir yn LHMA | Os yw cyfanswm nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd dros 15% islaw'r targedau mewn mwy na 50% o'r ardaloedd is-farchnad am 3 blynedd yn olynol. | Arolwg Tai Blynyddol CSP a monitro A106. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil – yn dibynnu ar y canlyniad, adolygu Canllawiau Cynllunio Atodol a hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion / Aelodau, o bosibl. |

| **Amcan** | **Polisïau / Cynigion Allweddol** | **Dangosydd** | **Targed** | **Pwynt Sbardun** | **Ffynhonnell Gwybodaeth** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | GN 16 Dyraniadau Preswyl a GN 20 Tai Fforddiadwy i Ddiwallu Anghenion Lleol | Hyfywedd (CRAIDD) | Monitro tueddiadau (cadarnhaol a negyddol) o ran penderfynyddion allweddol hyfywedd a chyflwr y farchnad, fel prisiau tai a chostau adeiladu. | Os bydd prisiau tai cyfartalog yn cynyddu 5% yn uwch na lefelau pris sylfaenol 2023 ac yn aros ar y lefel honno am 2 chwarter, bydd yr Awdurdod yn ystyried sbardunau eraill a amlygwyd yn yr SPG ar Dai Fforddiadwy a gallai gynnal profion hyfywedd ychwanegol ac addasu'r targedau a sefydlwyd yn GN 16 a GN 20 | Data'r Gofrestrfa Tir | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. Yn dibynnu ar ganlyniad ymchwiliad pellach, gallai arwain at Adolygu'r Polisi neu Adolygu'r Cynllun. |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a | D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a | Hyfywedd (CRAIDD) | Amlygu safleoedd tai strategol a chynnwys targedau yn | Slade Lane Cam 1 Hwlffordd (115 o unedau) i'w gwblhau erbyn 2027. | Arolwg Tai Blynyddol CSP | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | | ymwneud â chaniatâd cynllunio a dyddiadau cwblhau. | Slade Lane Cam 2 Hwlffordd (105 o unedau) i fod wedi dechrau erbyn 2027 a'i gwblhau erbyn 2029.<br><br>Uwchgynllun Slade Lane Hwlffordd (heb gynnwys camau 1 a 2) i'w gwblhau erbyn 2027. Cam 3 (110 uned dybiannol) i fod wedi dechrau erbyn 2029 a'i gwblhau erbyn 2033.<br><br>Uwchgynllun Maesgwyn, Abergwaun i'w gwblhau erbyn 2026. Cam 2 (175 o unedau tybiannol) i fod | | |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi dechrau erbyn 2026 a'i gwblhau erbyn 2033.<br><br>I'r de o Conway Drive, Steynton i'w gwblhau erbyn 2028. Cam 1 (117 o unedau tybiannol) i fod wedi dechrau erbyn 2030 a'i gwblhau erbyn 2033. | | |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau | GN 24 – Dyraniadau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a GN 25 Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a gwblhawyd (CRAIDD) | Nifer y lleiniau a adeiladwyd i fodloni'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) a amlygwyd dros gyfnod o 5 mlynedd. | Os yw cyfanswm nifer y lleiniau a ganiatawyd y flwyddyn 15% islaw'r angen a amlygwyd ar ddyddiad olaf y GTAA. | Cyfrifiad Carafannau Sipsiwn a Theithwyr Tîm Tai Sir Benfro | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| cymunedol allweddol. | | | | | | |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol. | SP 6 Hierarchaeth Aneddiadau | Lefel y gwasanaethau o fewn aneddiadau gwledig. | Nid yw'r gwasanaethau mewn aneddiadau yn yr hierarchaeth aneddiadau yn sylweddol is nag Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2020 | Monitro ar adeg Adolygu'r Cynllun (2025) – byddai angen ymchwilio ymhellach pe byddai newid 10% o ran nifer yr aneddiadau sy'n cyflawni lefel pentref gwasanaeth. | Arolwg Cyfleusterau Gwledig wedi'i ddiweddaru yn 2025 | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |
| D. Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gefnogir gan gyfleusterau a gwasanaethau | GN 29 Cyfleusterau Cymunedol | Lefel y Cyfleusterau Cymunedol mewn aneddiadau | Dim colli cyfleusterau cymunedol hyfyw mewn aneddiadau. | Colli 3 chyfleuster cymunedol dros 3 blynedd yn groes i bolisi GN 29. | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. Hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion / Aelodau, o bosibl. |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| cymunedol allweddol. | | | | | | |
| | | | | | | |
| E. Manteisio ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig ag ynni gwyrdd, y môr a phorthladdoedd | SP 13 Datblygiad Cysylltiedig â Phorthladdoedd ac Ynni | Caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer datblygiad cyflogaeth ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ardaloedd porthladd a amlygwyd. | 100% erbyn diwedd cyfnod y Cynllun | 50% heb ganiatâd cynllunio ar adeg Adolygu'r Cynllun (2027). Naratif blynyddol i ddisgrifio cynnydd tuag at gyflawni | Arolwg Tir Cyflogaeth CSP | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |
| | | | | | | |
| F. Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg | SP 19 Yr Iaith Gymraeg | Nifer yr hap-geisiadau mawr a gymeradwywyd mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran y | Ceisiadau cynllunio i gael eu cefnogi gan Asesiad o Effaith ar y Gymraeg | Methiant i gyflwyno Asesiad o Effaith ar y Gymraeg | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg, wedi'u cefnogi gan Asesiad o Effaith ar y Gymraeg | | | | |
| | | | | | | |
| G. Cefnogi ystod o ddefnyddiau mewn Canol Trefi i'w helpu i adfywio | GN 31 Datblygiad Canol Trefi a Manwerthu Lleol | Canran yr unedau llawr gwaelod gwag ym mhob Canol Tref (o fewn ffin y CDLl a amlygwyd). | Nid yw lefelau unedau gwag yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru | Mae lefelau unedau gwag 5% yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru dros 3 blynedd yn olynol. | Arolygon Manwerthu Blynyddol CSP; Ystadegau cenedlaethol cyhoeddedig | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil |
| | | | | | | |
| H. Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt trwy ddiogelu a darparu seilwaith gwyrdd | GN 45 Seilwaith Gwyrdd / GN 40 Diogelu a Chreu Ardaloedd Hamdden Awyr Agored / GN 52 Diogelu Mannau Agored â Gwerth Amwynder | Dangosydd Mannau Agored / Seilwaith Gwyrdd | Gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd, a chynnal mannau agored. | 3 chais cynllunio wedi'u cymeradwyo mewn unrhyw 3 blynedd yn olynol ar gyfer unrhyw bolisi unigol GN 48, GN 51 a GN 52 | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. Hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion / Aelodau, o bosibl. |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **I.** Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau i seilwaith a chyfleusterau cymunedol a chyfeirio datblygiad at leoliadau cynaliadwy. | GN 36 Llwybrau a Gwelliannau Trafnidiaeth | Darparu seilwaith allweddol sydd wrth wraidd strategaeth y cynllun. (CRAIDD) – Cynnydd tuag at gyflawni cynlluniau trafnidiaeth a ddiogelir | 100% o gynlluniau wedi'u cyflawni erbyn 2033. | Os nad yw'r cynllun wedi'i raglennu a / neu os nad oes cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect erbyn adeg Adolygu'r Cynllun (2025). | Is-adran Drafnidiaeth CSP | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |
| **I.** Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau i seilwaith a chyfleusterau cymunedol a chyfeirio datblygiad at | GN 3 Seilwaith a Datblygiad Newydd | Nifer y tai fforddiadwy sy'n cael caniatâd cynllunio trwy rwymedigaethau cynllunio. | 11 y flwyddyn | Os yw'n llai na 50% o'r targed erbyn adeg Adolygu'r Cynllun (2025). | Arolwg Tai Blynyddol CSP | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. Hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion / Aelodau, o bosibl, a/neu ddiwygio Canllawiau Cynllunio Atodol. |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| leoliadau cynaliadwy. | | | | | | |
| | | | | | | |
| J. Gwarchod a gwella amgylchedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd y Sir | SP 12 Cynnal a Gwella'r Amgylchedd | Nifer y ceisiadau a gymeradwyir yn groes i feini prawf y polisi. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i feini prawf y polisi. | Mwy na 3 cymeradwyaeth mewn blwyddyn yn groes i ddarpariaethau'r polisi dros 3 blynedd yn olynol. | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil. |
| | | | | | | |
| K. Atal gwastraff rhag cael ei greu a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n gyfrifol | SP 21 Atal a Rheoli Gwastraff | Nifer y ceisiadau a gymeradwyir yn groes i feini prawf y polisi. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i feini prawf y polisi. | Mwy na 3 cymeradwyaeth mewn blwyddyn yn groes i ddarpariaethau'r polisi dros 3 blynedd yn olynol. | Cronfa ddata monitro ceisiadau cynllunio CSP. | Angen ymchwilio ymhellach / gwaith ymchwil |
| | | | | | | |

| Amcan | Polisïau / Cynigion Allweddol | Dangosydd | Targed | Pwynt Sbardun | Ffynhonnell Gwybodaeth | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Cyd-destunol** | SP 19 Yr Iaith Gymraeg | Canran siaradwyr Cymraeg yn y Sir adeg Adolygiad y Cynllun | Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg | Cwymp o 5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg o gymharu â lefelau 2011 | Swyddfa Ystadegau Gwladol | Parhau I fonitro |
| **Dangosyddion Cyd-destunol** | SP 5 Cefnogi Ffyniant | Lefelau diweithdra | Lleihau lefelau diweithdra | Cynnydd o fwy na 5% mewn lefelau diweithdra o gymharu â'r sefyllfa yn 2017. | Ystadegau'r farchnad lafur | Parhau i fonitro |
| **Dangosyddion Cyd-destunol** | Cynnydd tuag at gyflawni'r amrywiol eitemau o Ganllawiau Cynllunio Atodol a nodir yn Atodiad 3 | Dim dangosydd penodol, ond bydd rhaglen flaenoriaethol o baratoi CCA yn cael ei chyflwyno ar ôl ei mabwysiadu | Dim targed penodol | Dim pwynt sbardun penodol | CSP | Parhau i fonitro |

Atodiad 5: Polisi GN 36 Llwybrau a Gwelliannau Trafnidiaeth – Manylion Rhaglennu ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth a Ddiogelir

| Rhif y Cynllun | Teitl y Cynllun | Rhaglen | Cyllid | Dyddiad cyflawni disgwyliedig |
|---|---|---|---|---|
| TS/LDP2/03 | Gwelliant Well Hill, Penfro – ailalinio rhan o'r ffordd | Rhan anorffenedig o'r Llwybr Strategol Deheuol, sydd yn y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru 2015-2020 | Mae CSP wedi dyrannu £19,000 ar gyfer astudiaeth o hen safle'r ysgol, gan gynnwys Well Hill, y mae ei ailddefnyddio neu ei ailddatblygu yn rhan annatod o'r cynnig hwn | Mae'r gwaith adeiladu yn dibynnu ar amseru cynigion ailddefnyddio neu ailddatblygu ar gyfer y safle cyfagos |
| TS/LDP2/04 | Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Aberdaugleddau | Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru 2015-2020 | Potensial i gyflwyno cais am grant gan y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol | Cais am gyllid i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun yn ôl dyluniad manwl GRIP 5, gyda'r nod o gyflawni'r cynllun o fewn cyfnod y Cynllun. |
| TS/LDP2/05 | Gorsaf Bysiau Hwlffordd | Yr Adran Drafnidiaeth: Mynediad i Bawb | Bu cais am gyllid i'r Adran Drafnidiaeth yn llwyddiannus a bydd yn cael arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru a CSP. | Bydd y gwaith adeiladu yn digwydd yr un pryd neu yn union ar ôl adeiladu Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Hwlffordd. |
| TS/LDP2/08 | Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus (PTI) Hwlffordd | Metro De Orllewin Cymru | Cynllun Trafnidiaeth Lleol Llywodraeth Cymru gydag arian cyfatebol gan CSP | Mae'r contract adeiladu cam dau ar gyfer Cyfnewidfa Trafnidiaeth Gyhoeddus Hwlffordd (PTI) yn debygol o gael ei ddyfarnu yn 2024, a bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ar ôl hynny. |